# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 20/01/2016

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
1. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
2. Questions to Counsel General

3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
3. Questions to the Assembly Commission

4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Deddfu yng Nghymru
4. Debate on the Constitutional and Legislative Affairs Committee's Report on Making Laws in Wales

5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cyllido Addysg Uwch
5. Welsh Conservatives Debate: Higher Education Funding

6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Llifogydd
6. Welsh Conservatives Debate: Flooding

7. Cyfnod Pleidleisio
7. Voting Time

8. Dadl Fer: Strategaeth Genedlaethol ar Ddementia i Gymru—Ymateb i Her Iechyd Ein Hamser
8. Short Debate: A National Dementia Strategy for Wales—Responding to the Health Challenge of Our Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:31

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before we start today's business, I wish to make a short statement about the conduct of Members in this Chamber. Yesterday, yet again, we had examples of behaviour during Plenary that undermined the conduct of Assembly business. Now, I know the election is looming, but we have a responsibility to guard the reputation of this Assembly and to focus on the important and considerable work that we still have to do. Ministers should answer the questions put to them. Other Members should listen courteously. Above all, I expect every Member, every leader, and every Minister, to show respect for the authority of this Chair when they are called to order. We need to conduct our proceedings in a dignified and ordered way.

Cyn i ni ddechrau busnes heddiw, hoffwn wneud datganiad byr am ymddygiad Aelodau yn y Siambr hon. Ddoe, unwaith eto, cawsom enghreifftiau o ymddygiad yn ystod y Cyfarfod Llawn a oedd yn tanseilio'r ffordd y caiff busnes y Cynulliad ei gynnal. Nawr, rwy'n gwybod bod yr etholiad ar y gorwel, ond mae gennym gyfrifoldeb i warchod enw da'r Cynulliad hwn ac i ganolbwyntio ar y gwaith pwysig a sylweddol sydd gennym i'w wneud o hyd. Dylai Gweinidogion ateb y cwestiynau a ofynnir iddynt. Dylai Aelodau eraill wrando'n gwrtais. Yn anad dim, rwy'n disgwyl i bob Aelod, pob arweinydd, a phob Gweinidog, ddangos parch tuag at awdurdod y Gadair hon pan gânt eu galw i drefn. Mae angen i ni gynnal ein trafodion mewn modd urddasol a threfnus.

## 1. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## 1. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

13:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And now we move to this afternoon's business. Item 1 is questions to the Minister for Economy, Science and Transport. Question 1 is Elin Jones.

Ac yn awr symudwn at fusnes y prynhawn yma. Eitem 1 yw cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Daw cwestiwn 1 gan Elin Jones.

### Y Diwydiant Cyhoeddi ac Argraffu

### The Publishing and Printing Industry

13:32 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o sgileffaith debygol y toriadau arfaethedig i'r cyllid i gefnogi cyhoeddi llyfrau ar y diwydiant cyhoeddi ac argraffu? OAQ(4)0661(EST)[W]*

*1. What assessment has the Welsh Government made of the impact that proposed cuts to funding to support book publishing is likely to have on the publishing and printing industry? OAQ(4)0661(EST)[W]*

13:32 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

The Welsh Government has reviewed the proposed budget reduction for the Welsh Books Council, and, in view of the impact that this would have on the publishing industry, has decided its budget for the forthcoming year will not be reduced by 10.6 per cent.

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r gostyngiad arfaethedig yng nghyllideb Cyngor Llyfrau Cymru, ac wedi penderfynu, o ystyried yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar y diwydiant cyhoeddi, na fydd gostyngiad o 10.6 y cant yn ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

13:33 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Newyddion ardderchog, Ddirprwy Weinidog. Mae'n amlwg eich bod chi wedi gwrando ar leisiau'r awduron a'r cyhoeddwyr sydd wedi uno i roi barn gref i chi ar bwysigrwydd y diwydiant yma. Mae'n bwysig o ran creadigrwydd y sector yma, ond, hefyd, yn bwysig yn economaidd. Mae'r gweisg a'r cyhoeddwyr yn cyflogi yn sylweddol iawn mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru. Rydych chi wedi dweud na fydd toriad o 10 y cant i'r gyllideb. Efallai y gallaf i eich temtio ymhellach, i ddweud wrthym ni beth fydd yn y gyllideb derfynol, beth fydd maint y toriad i'r diwydiannau cyhoeddi ac argraffu.

Wonderful news, Deputy Minister. Clearly, you've listened to the voices of the authors and publishers who have united to express a very strong view to you on the importance of this industry. It's important in terms of the creativity of the sector, but it's also economically important. The presses and publishers make a huge contribution as employers in many parts of Wales. You have stated that there will not be a 10 per cent cut to the budget, but perhaps I could tempt you to tell us what will be in the final budget and what the scale of the cut will be for the publishing and printing industries.

13:33 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank Elin Jones, and also other Members, including Julie Morgan, who have made contact with me over this issue? Of course, austerity requires some very tough decisions that nobody on this side of the Chamber would wish to make. However, we also listened very carefully to the sector. We've listened to publishers, to authors, to Members, and I am very pleased to say that the reduction for the next financial year will be 0 per cent—there will be no cut to the Welsh Books Council.

A gaf fi ddiolch i Elin Jones, ac Aelodau eraill hefyd, gan gynnwys Julie Morgan, sydd wedi cysylltu â mi mewn perthynas â'r mater hwn? Wrth gwrs, mae caledi yn gofyn am wneud rhai penderfyniadau anodd iawn na fyddai neb ar yr ochr hon i'r Siambr yn dymuno eu gwneud. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwrando'n ofalus iawn ar y sector. Rydym wedi gwrando ar gyhoeddwyr, awduron, ac Aelodau, ac rwy'n falch iawn o ddweud mai 0% fydd y gostyngiad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf—ni fydd toriad i Gyngor Llyfrau Cymru.

13:34 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's fantastic news, so thank you very much, Minister. That's really good news. Can I just use the opportunity to draw attention to the success of some of the publishing that is taking place in Wales—linked with my constituents? In particular, the success of Seren, whose chair lives in my constituency, and which has internationally acclaimed publishers, and then Penny Thomas, who lives in Llandaff North, who is running the first publishing company for English-language children's stories in Wales—Firefly Press. And this Firefly Press would not continue if it wasn't for the support of the Welsh Books Council.

Mae hynny'n newyddion gwych, felly diolch yn fawr iawn, Weinidog. Mae hynny'n newyddion da iawn. A gaf fi fanteisio ar y cyfle i dynnu sylw at lwyddiant peth o'r gwaith cyhoeddi sy'n digwydd yng Nghymru—ac sy'n gysylltiedig â fy etholwyr? Yn benodol, llwyddiant Seren, y mae ei gadeirydd yn byw yn fy etholaeth i, ac sydd â chyhoeddwyr o fri rhyngwladol, ac yna Penny Thomas, sy'n byw yn Ystum Taf, ac sy'n rhedeg y cwmni cyhoeddi cyntaf ar gyfer straeon Saesneg i blant yng Nghymru—Gwasg Firefly. Ac ni fyddai Gwasg Firefly yn gallu parhau oni bai am gefnogaeth Cyngor Llyfrau Cymru.

13:35 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, Firefly Press is an excellent publisher, and I know that the company also works with authors in engaging directly with schools and with young people. Now, I've listened, and the Welsh Government has listened, to publishers and authors, and I'd be grateful now if those publishers would listen to what young people are saying, which is that they want to read and write more, and, as part of the Year of Adventure, there will be a national writing competition for young people, and it would be fantastic if those publishers and authors could engage directly with young people to make sure this is the biggest writing competition of its kind in Britain.

Wel, mae Gwasg Firefly yn gyhoeddwr ardderchog, a gwn fod y cwmni hefyd yn gweithio gydag awduron yn ymgysylltu'n uniongyrchol gydag ysgolion a phobl ifanc. Nawr, rwyf wedi gwrando, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando, ar gyhoeddwyr ac ar awduron, a byddwn yn ddiolchgar yn awr pe bai'r cyhoeddwyr hynny'n gwrando ar yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud, sef eu bod am ddarllen ac ysgrifennu mwy, ac fel rhan o'r Flwyddyn Antur, cynhelir cystadleuaeth ysgrifennu genedlaethol ar gyfer pobl ifanc, a byddai'n wych pe gallai'r cyhoeddwyr a'r awduron hynny ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc i sicrhau mai hon yw'r gystadleuaeth ysgrifennu fwyaf o'i bath ym Mhrydain.

13:35 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank you for what I think is a very mature response to the arguments that have been put to Welsh Government? I'm very pleased to hear that my books, especially written for Welsh learners, are still going to be on the shelves when I go looking for them. But I wonder if you could tell me what conversations you've had with the Minister for education about the role of Welsh publishers and the Welsh Books Council in providing resources for the Welsh-specific curriculum?

A gaf fi ddiolch i chi am yr hyn y credaf ei fod yn ymateb aeddfed iawn i'r dadleuon a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru? Rwy'n falch iawn o glywed y bydd fy llyfrau, a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer dysgwyr Cymraeg, yn mynd i barhau i fod ar y silffoedd pan af i edrych amdanynt. Ond tybed a allech ddweud wrthyf pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog addysg ynglŷn â rôl cyhoeddwyr Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru yn darparu adnoddau ar gyfer cwricwlwm penodol Cymru?

13:36 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

This is very interesting because I do believe that there will be a very important role in the future for the Welsh Books Council and Welsh publishers in producing material specific for the curriculum. This will be an essential piece of work for them moving forward, and I have had several discussions with the Minister for Education and Skills on this matter.

Mae hyn yn ddiddorol iawn oherwydd rwy'n credu y bydd rôl bwysig iawn yn y dyfodol i Gyngor Llyfrau Cymru a chyhoeddwyr Cymru yn cynhyrchu deunydd penodol ar gyfer y cwricwlwm. Bydd hwn yn waith allweddol yn y dyfodol, ac rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y mater hwn.

13:36 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I declare an interest, as is outlined in the register of interests. I married into a literary family; nothing to do with me. I think this is wonderful news and you've done absolutely the right thing, Deputy Minister. Can I thank you for doing it, for showing a determination to stand with culture in Wales? There comes a time when the cuts actually really hurt, and I know that we have to have cuts in certain services, but this would have been something that really denuded our culture, and also our economic life, because so many of the publishers are based in rural Wales, in rural areas, and scattered across Wales, and provide a real infrastructure of culture and support in that area. So, it's wonderful news. You've done absolutely the right thing, and I'm sure the next Assembly Government, of whichever political persuasion it will be, will want to build on this now, in the way that you've outlined, to involve the writers—. Over 500 of them have individually written in different ways, in Welsh and English, to you, and to other Assembly Members, and they will want to be involved now in building that thriving Welsh community. If one good thing has come out of this, it's that 'The Guardian' has woken up to the fact that there's writing in Wales that is of international importance.

Rwy'n datgan buddiant, fel yr amlinellir yn y gofrestr o fuddiannau. Rwy'n briod ag aelod o deulu llenyddol; dim i'w wneud â mi. Rwy'n credu bod hyn yn newydd gwych ac yn sicr, fe wnaethoch y peth iawn, Ddirprwy Weinidog. A gaf fi ddiolch i chi am wneud hyn, am ddangos eich bod yn benderfynol o sefyll dros ddiwylliant yng Nghymru? Daw amser pan fydd y toriadau'n brathu go iawn, ac rwy'n gwybod bod yn rhaid i ni gael toriadau mewn rhai gwasanaethau, ond byddai hyn wedi bod yn rhywbeth a fyddai'n dinoethi ein diwylliant o ddifrif, yn ogystal â'n bywyd economaidd, gan fod cynifer o'r cyhoeddwyr wedi'u lleoli yng nghefn gwlad Cymru, mewn ardaloedd gwledig, ac wedi'u gwasgaru ar draws Cymru, ac yn darparu seilwaith gwirioneddol o ddiwylliant a chefnogaeth yn y maes hwnnw. Felly, mae'n newyddion gwych. Yn sicr, fe wnaethoch y peth iawn, ac rwy'n siŵr y bydd Llywodraeth nesaf y Cynulliad nesaf, o ba liw bynnag y bydd, eisiau adeiladu ar hyn yn awr, yn y ffordd rydych wedi'i hamlinellu, i gynnwys yr awduron—. Mae dros 500 ohonynt wedi ysgrifennu'n unigol mewn gwahanol ffyrdd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, atoch chi, ac at Aelodau eraill o'r Cynulliad, a byddant bellach eisiau chwarae rhan yn adeiladu'r gymuned Gymraeg ffyniannus honno. Un peth da a ddaeth o hyn yw bod 'The Guardian' wedi sylweddoli bod yna ysgrifennu o bwys rhyngwladol yma yng Nghymru.

13:37 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed. I can't say that that was part of a master plan, however. [Laughter.] I'm really pleased to take the question from the Member, and I'm also pleased to say that we've also been able to allocate additional capital funding of £184,000 this year to the books council to undertake some really urgent repair work on the headquarters and also on the distribution centre, and to upgrade the IT system, which will be of benefit not just to the Welsh Books Council, but also to the publishing industry right across Wales. It's essential for the employment of at least 1,000 people and to keep our culture alive.

Yn wir. Ni allaf ddweud bod hynny'n rhan o uwchgynllun, fodd bynnag. [Chwerthin.] Rwy'n falch iawn o dderbyn y cwestiwn gan yr Aelod, ac rwyf hefyd yn falch o ddweud ein bod wedi gallu dyrannu cyllid cyfalaf ychwanegol o £184,000 i'r cyngor llyfrau eleni i gyflawni rhywfaint o waith atgyweirio brys ar y pencadlys yn ogystal â'r ganolfan ddosbarthu, ac i uwchraddio'r system TG, a fydd o fantais, nid yn unig i Gyngor Llyfrau Cymru, ond hefyd i'r diwydiant cyhoeddi ledled Cymru. Mae'n hanfodol ar gyfer cyflogi o leiaf 1,000 o bobl ac i gadw ein diwylliant yn fyw.

## Statws Achrediad Amgueddfeydd

## Museums' Accreditation Status

13:38 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu amgueddfeydd i gyflawni statws achrediad? OAQ(4)0655(EST)*

*2. What is the Welsh Government doing to facilitate museums in achieving accreditation status? OAQ(4)0655(EST)*

13:38 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government manages the museum accreditation scheme in Wales and specialist staff provide advice and support to museums. Participation in accreditation is free, and full details are published on the Welsh Government website.

Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r cynllun achredu amgueddfeydd yng Nghymru ac mae staff arbenigol yn darparu cyngor a chymorth i amgueddfeydd. Mae cyfranogi mewn achrediad yn rhad ac am ddim, ac mae manylion llawn wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

13:38 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister. Cefn Coed Colliery Museum is in my constituency and is not accredited. What assistance can you give to this museum to become accredited so that it could benefit from more funding streams, and what systems are in place to provide mentors to support this process?

Diolch am hynny, Weinidog. Mae Amgueddfa Glofa Cefn Coed yn fy etholaeth i, ac nid ydyw wedi'i hachredu. Pa gymorth y gallwch ei roi i'r amgueddfa hon gael ei hachredu er mwyn iddi allu manteisio ar fwy o ffrydiau ariannu, a pha systemau sydd ar waith i ddarparu mentoriaid i gefnogi'r broses hon?

13:38 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is right that Cefn Coed Colliery Museum does not meet the eligibility at the moment for accreditation as Neath Port Talbot Council does not employ a qualified museum professional. However, if this situation does change, then my officials will provide access to a programme of specialist training events to assist with accreditation, and these events are open to the staff and, indeed, to the volunteers of museums considering applying for accreditation. Both accredited museums and museums working towards accreditation are also eligible to apply for small amounts of Welsh Government funding via the Federation of Museums and Galleries to assist in achieving and maintaining accredited status.

Mae'r Aelod yn llygad ei lle nad yw Amgueddfa Glofa Cefn Coed yn bodloni'r cymhwyster am achrediad ar hyn o bryd gan nad yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cyflogi gweithiwr amgueddfa proffesiynol cymwys. Fodd bynnag, os yw'r sefyllfa hon yn newid, yna bydd fy swyddogion yn darparu mynediad at raglen o ddigwyddiadau hyfforddi arbenigol i gynorthwyo gydag achrediad, ac mae'r digwyddiadau hyn yn agored i'r staff ac yn wir, i wirfoddolwyr amgueddfeydd sy'n ystyried gwneud cais am achrediad. Mae amgueddfeydd wedi'u hachredu ac amgueddfeydd sy'n gweithio tuag at achrediad hefyd yn gymwys i wneud cais am symiau bach o arian gan Lywodraeth Cymru drwy'r Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau i'w cynorthwyo i gyflawni a chynnal statws achrededig.

13:39 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Last year, you remember that an expert panel compiled a review of local museums in Wales, which recommended a museums charter, which seems to me at least to be quite compatible with the UK accreditation scheme. The website said, back in August, that the Welsh Government would be responding by the autumn. I'm just wondering when we might see that response on the website.

Y llynedd, fe fyddwch yn cofio bod panel arbenigol wedi llunio adolygiad o amgueddfeydd lleol yng Nghymru, a oedd yn argymell siarter amgueddfeydd sy'n ymddangos i mi, o leiaf, yn eithaf cydnaws â chynllun achredu'r DU. Yn ôl ym mis Awst roedd y wefan yn dweud y buasai Llywodraeth Cymru yn ymateb erbyn yr hydref. Tybed pa bryd y gwelwn yr ymateb hwnnw ar y wefan.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased that I'm actually going to be meeting with local authorities early next month to discuss this very matter.

Rwy'n falch iawn y byddaf yn cyfarfod ag awdurdodau lleol ddechrau fis nesaf i drafod yr union fater hwn.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae adolygiad arbenigol Dr Haydn Edwards i amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn gwneud nifer o argymhellion. Ymhlith yr argymhellion hynny mae sefydlu cronfa drawsnewid er mwyn hwyluso'r newidiadau mawr sydd eu hangen yn y sector. Mae hynny'n deillio o'r pwysau ariannol sydd ar lywodraeth leol, wrth gwrs, a'r tebygolrwydd y bydd amryw o'r amgueddfeydd yma'n cau. A ydych chi'n cefnogi'r argymhelliad sydd yn yr adroddiad?

The expert review carried out by Dr Haydn Edwards into local museums in Wales makes a number of recommendations, and amongst those recommendations is the establishment of a transformation fund in order to facilitate the major changes required in the sector. This emerges from the financial pressures on local government, of course, and the likelihood that many of these museums will have to close. Do you support the recommendation in the report?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:40 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is exactly what I want to be raising with local authority representatives in February. The idea of the transformation fund is similar to the transformation fund that's available to local libraries and it's something that is being increased quite considerably for 2016-17, and it may well be that that transformation fund can be opened up to museums as well.

Dyma'n union rwyf eisiau ei godi gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol ym mis Chwefror. Mae'r syniad o'r gronfa weddnewid yn debyg i'r gronfa weddnewid sydd ar gael i lyfrgelloedd lleol ac mae'n rhywbeth sy'n cael ei gynyddu'n eithaf sylweddol ar gyfer 2016-17, ac mae'n bosibl iawn y gellid agor y gronfa weddnewid honno i amgueddfeydd hefyd.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon we have the Welsh Conservative spokesperson, Suzy Davies.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma mae gennym lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Suzy Davies.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:40 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Deputy Minister, you probably know that there are proposals to close the famous Brecon Beacons National Park tourist information centre at Libanus, while the one at Ystradfellte also looks set to close. What will you be doing to ensure that the park's statutory duty to promote opportunities for the understanding and enjoyment of the special qualities of national parks by the public is not compromised?

Diolch. Ddirprwy Weinidog, mae'n siŵr eich bod yn gwybod bod yna gynigion i gau canolfan groeso enwog Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Libanus, ac mae'r un yn Ystradfellte hefyd yn debygol o gau. Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau na pheryglir dyletswydd statudol y parc i hyrwyddo cyfleoedd i hybu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o rinweddau arbennig parciau cenedlaethol?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as the Brecon Beacons National Park is represented on my Year of Adventure steering group, I will be discussing the matter with those representatives to ensure that the national park remains a popular destination not just for Welsh visitors, but for visitors from outside of Wales.

Wel, gan fod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei gynrychioli yn fy ngrŵp llywio Blwyddyn Antur, byddaf yn trafod y mater gyda'r cynrychiolwyr hynny i sicrhau bod y parc cenedlaethol yn parhau i fod yn gyrchfan boblogaidd, nid yn unig ar gyfer ymwelwyr o Gymru, ond ar gyfer ymwelwyr o'r tu allan i Gymru hefyd.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you for that answer and I hope that your conversations with them will actually ensure that the statutory duty is complied with. Tourist information centres are, of course, a particularly useful service for day visitors to anywhere in Wales. The number of day trips to Wales in 2015 was down 19 per cent compared to last year, despite a marketing campaign directed at the domestic market. The net spend in Wales fell even though there was no change in the rest of the UK. Visit Wales, of course, has been happy to take the praise when the figures are good, so what did they do wrong this year?

Wel, diolch i chi am yr ateb hwnnw ac rwy'n gobeithio y bydd eich trafodaethau gyda hwy yn sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd statudol. Mae canolfannau croeso, wrth gwrs, yn wasanaeth arbennig o ddefnyddiol ar gyfer pobl sy'n ymweld am y dydd ag unrhyw le yng Nghymru. Roedd nifer y teithiau dydd i Gymru yn 2015 wedi gostwng 19 y cant o gymharu â'r llynedd, er gwaethaf ymgyrch farchnata wedi'i hanelu at y farchnad ddomestig. Roedd gostyngiad yn y gwariant net yng Nghymru er nad oedd unrhyw newid yng ngweddill y DU. Mae Croeso Cymru, wrth gwrs, wedi bod yn hapus i dderbyn y clod pan fydd y ffigurau'n dda, felly beth a wnaethant o'i le eleni?

13:42 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, actually, in actual fact, average spend per day trip in Wales between January and November 2015 was approximately £35.84. That's higher than the British average. It's also higher than the average for Wales of £27.30 during the first 11 months of 2014. The fact of the matter is that people are coming to Wales for longer and people are spending more in Wales as well. And I have to say that, in the first weeks of 2016, we had unprecedented positive exposure for Wales not just amongst the British press, but also globally, with the likes of the Forbes rough guide, the Daily Beast in America and Lonely Planet all declaring Wales the place to visit in 2016 and the place where you will find adventure in Europe in 2016 as well.

Wel, mewn gwirionedd, gwariant cyfartalog teithiau dydd yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2015 oedd tua £35.84. Mae hynny'n uwch na'r cyfartaledd drwy Brydain. Mae hefyd yn uwch na £27.30, sef cyfartaledd Cymru yn ystod 11 mis cyntaf 2014. Y ffaith amdani yw bod pobl yn treulio mwy o amser yng Nghymru ac mae pobl yn gwario mwy yng Nghymru hefyd. Ac mae'n rhaid i mi ddweud, yn ystod wythnosau cyntaf 2016, cawsom sylw cadarnhaol digynsail i Gymru, nid yn unig yn y wasg Brydeinig, ond hefyd yn fyd-eang, gyda phethau megis canllaw Forbes, The Daily Beast yn America a Lonely Planet oll yn datgan mai Cymru yw'r lle i ymweld ag ef yn 2016 a'r man lle y dowch o hyd i antur yn Ewrop yn 2016 hefyd.

13:42 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was very pleased to hear that Pinewood Studios Group has increased its support to the Iris Prize Festival to £20,000, funding the prize for the best British short, and it's really good to see them committing to this now nationally important festival, a mainstay of the Welsh cultural calendar. Are you able to give us any good news by telling us how many of the 2,000 jobs and how much of the £90 million-boost to the economy anticipated by your financial support for Pinewood Studios has now materialised?

Roeddwn yn falch iawn o glywed bod Pinewood Studios Group wedi cynyddu ei gefnogaeth i Ŵyl Gwobr Iris i £20,000, i ariannu'r wobr am ffilm fer orau Prydain, ac mae'n wirioneddol wych i'w gweld yn ymrwymo i'r ŵyl hon sydd bellach o bwys cenedlaethol, ac yn un o brif ddigwyddiadau calendr diwylliannol Cymru. A ydych chi'n gallu rhoi unrhyw newyddion da i ni drwy ddweud wrthym faint o'r 2,000 o swyddi a faint o'r hwb o £90 miliwn i'r economi a ragwelwyd gan eich cymorth ariannol i Pinewood Studios sydd bellach wedi'u gwireddu?

13:43 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, perhaps, as this is creative industries I may pass this on to the Minister for the Economy, Science and Transport.

Wel, efallai, gan fod y cwestiwn yn ymwneud â'r diwydiannau creadigol, y dylwn ei drosglwyddo i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh—I'm sorry. Did you want to reply?

Rydym bellach yn symud at lefarydd—mae'n ddrwg gennyf. A oeddech chi eisiau ymateb?

13:43 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I was just going to indicate that we've been very successful in terms of the development of the Pinewood Studios and the development of production. I'd be delighted to provide Members with a full update on the success of the creative industries strategy, which started quite a long time ago in the development of the sectorial approach to industry.

Roeddwn am ddweud ein bod wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran datblygiad Pinewood Studios a datblygiad cynhyrchu. Byddwn wrth fy modd yn rhoi diweddariad llawn i'r Aelodau ar lwyddiant y strategaeth ar gyfer y diwydiannau creadigol, a ddechreuodd gryn dipyn o amser yn ôl yn natblygiad yr ymagwedd sectoraidd tuag at ddiwydiant.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, thank you. We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.

Iawn, diolch. Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

13:43 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Minister, the Welsh Government commissioned a review of the TrawsCymru network from Victoria Winckler, which was published back in August 2013. What steps have been taken over the past two and a half years to enact the recommendations of that report?

Diolch, Lywydd. Weinidog, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o rwydwaith TrawsCymru gan Victoria Winckler, a gyhoeddwyd yn ôl ym mis Awst 2013. Pa gamau sydd wedi'u cymryd yn ystod y ddwy flynedd a hanner diwethaf i roi argymhellion yr adroddiad hwnnw mewn grym?

13:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we were very grateful to Victoria Winckler for looking at the TrawsCymru network for us at that time. She made several key recommendations and we are looking at those recommendations in the context of the delivery of the service and our continued support for it.

Ie, roeddem yn ddiolchgar iawn i Victoria Winckler am edrych ar rwydwaith TrawsCymru ar ein rhan ar yr adeg honno. Gwnaeth nifer o argymhellion allweddol ac rydym yn edrych ar yr argymhellion hynny yng nghyd-destun darparu'r gwasanaeth a'n cefnogaeth barhaus iddi.

13:44 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Minister, the report that your Government is looking at states very clearly that the role, for example, of the TrawsCymru board is one of providing oversight of performance and the development of the route network as one unit. However, I understand that the TrawsCymru board has not actually met at any point over the last three years. It hasn't met to discuss this report and its recommendations. It hasn't met to discuss any strategic decisions that have been necessary over that period of time, even though I understand that new routes have been introduced. So, how does the TrawsCymru board monitor performance and set objectives, if it doesn't actually meet?

Wel, Weinidog, mae'r adroddiad y mae eich Llywodraeth yn edrych arno yn datgan yn glir iawn mai rôl bwrdd TrawsCymru, er enghraifft, yw darparu trosolwg ar berfformiad a datblygiad y rhwydwaith llwybrau fel un uned. Fodd bynnag, deallaf nad yw bwrdd TrawsCymru wedi cyfarfod ar unrhyw adeg yn ystod y tair blynedd diwethaf. Nid yw wedi cyfarfod i drafod yr adroddiad hwn a'i argymhellion. Nid yw wedi cyfarfod i drafod unrhyw benderfyniadau strategol a fu'n angenrheidiol yn ystod y cyfnod hwnnw, er fy mod yn deall bod llwybrau newydd wedi'u cyflwyno. Felly, sut y mae bwrdd TrawsCymru yn monitro perfformiad a gosod amcanion, os nad yw'n cyfarfod?

13:45 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise the points that you're making, however, we have oversight as do the local authorities that engage with us. We regard TrawsCymru as a very successful service. We've taken advice on additional routes and they're working very well.

Rwy'n cydnabod y pwyntiau rydych yn eu gwneud, ond mae gennym drosolwg fel sydd gan yr awdurdodau lleol sy'n ymwneud â ni. Rydym yn ystyried TrawsCymru yn wasanaeth llwyddiannus iawn. Rydym wedi cael cyngor ar lwybrau ychwanegol ac maent yn gweithio'n dda iawn.

13:45 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as I've just pointed out, the board exists to provide that strategic oversight of the network as a whole and not individual routes. Given that they don't meet, I think it's no wonder that each of the separate routes has its own separate delivery team. But when each route is run in a silo, how is TrawsCymru supposed to become that integrated long-distance bus network for Wales that we would envisage? If decisions are made about the T4 by team T4 and for the T9 by team T9, who in this bus company decides what the role of TrawsCymru is in the Welsh transport network as a whole? Who is making the governance decisions that ensure that public money is well spent and who is responsible for, actually, the declining passenger numbers we see on services such as the T4?

Weinidog, fel rwyf newydd ei nodi, pwrpas y bwrdd yw darparu'r trosolwg strategol hwnnw o'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd ac nid llwybrau unigol. O ystyried nad ydynt yn cyfarfod, nid wyf yn credu ei bod yn syndod fod tîm cyflawni ar wahân ar gyfer pob un o'r llwybrau. Ond pan fo pob llwybr yn cael ei redeg mewn seilo, sut y mae disgwyl i TrawsCymru fod yn rhwydwaith bysiau pellter hir integredig i Gymru fel y byddem yn ei ragweld? Os mai tîm T4 sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch y T4 a thîm T9 yn gwneud penderfyniadau ynghylch y T9, pwy yn y cwmni bysiau hwn sy'n penderfynu beth yw rôl TrawsCymru yn rhwydwaith trafnidiaeth Cymru yn ei gyfanrwydd? Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau llywodraethu sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda a phwy mewn gwirionedd sy'n gyfrifol am y gostyngiad yn niferoedd y teithwyr a welwn ar wasanaethau megis y T4?

13:46

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

At the end of the day, we have ups and downs in terms of passenger numbers. I know that sometimes we have to have a service when, sometimes, there are very few passengers on the service because it's important that you have those particular links. Decisions are made appropriately on TrawsCymru. My officials have discussions—we have discussions with the local authorities and others who are involved. I am content with the current arrangements, but in light of your comments, I will look at the governance arrangements around TrawsCymru.

Yn y pen draw, mae niferoedd y teithwyr yn codi ac yn gostwng. Rwy'n gwybod bod yn rhaid i ni gael gwasanaeth bysiau pan nad oes ond ychydig iawn o deithwyr ar wasanaeth bws weithiau oherwydd mae'n bwysig i chi gael y cysylltiadau penodol hynny. Caiff penderfyniadau eu gwneud yn briodol yn TrawsCymru. Mae fy swyddogion yn cael trafodaethau—rydym yn cynnal trafodaethau gyda'r awdurdodau lleol a chydag eraill sy'n rhan o hyn. Rwy'n fodlon ar y trefniadau presennol, ond yng ngoleuni eich sylwadau, fe edrychaf ar y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â TrawsCymru.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:46

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:46

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. I turn to the plight of the steel industry in Wales. Our thoughts, of course, are with the workers and the families of all those affected by the announcement this week. It is still, I think, a real regret that it took until now for the First Minister to wake up to the seriousness of the situation, as he admitted in the Chamber yesterday, but, of course, we offer the Government full support in all efforts to help those affected by this week's announcement.

Diolch, Lywydd. Rwy'n troi at gyflwr enbyd y diwydiant dur yng Nghymru. Mae ein meddyliau, wrth gwrs, gyda'r gweithwyr a theuluoedd yr holl bobl yr effeithiwyd arnynt gan y cyhoeddiad yr wythnos hon. Mae'n parhau i fod, rwy'n credu, yn ofid gwirioneddol ei bod wedi cymryd tan yn awr i'r Prif Weinidog sylweddoli difrifoldeb y sefyllfa, fel y cyfaddefodd ddoe yn y Siambr, ond wrth gwrs, rydym yn cefnogi holl ymdrechion y Llywodraeth i helpu'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y cyhoeddiad yr wythnos hon.

The One Wales Government, with my predecessor, Ieuan Wyn Jones, as economy Minister, successfully implemented, of course, the ProAct and ReAct schemes in reaction to the financial crisis. Learning from that experience, can the Minister give us an indication of any tailored new programmes that she may wish to develop, specifically to help the steel industry and steel workers?

Llwyddodd Llywodraeth Cymru'n Un, gyda fy rhagflaenydd, Ieuan Wyn Jones yn Weinidog yr economi, i weithredu cynlluniau ProAct a ReAct, wrth gwrs, mewn ymateb i'r argyfwng ariannol. Gan ddysgu o'r profiad hwnnw, a all y Gweinidog roi awgrym o unrhyw raglenni newydd wedi'u teilwra y gallai fod yn dymuno eu datblygu, yn benodol i helpu'r diwydiant dur a'r gweithwyr dur?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:47

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I was actually having discussions with the steel industry this morning—with both employers and the union—and the issues around ReAct and ProAct were discussed. Julie James is chairing a further group to consider some of these issues tomorrow, and there will be an agenda item for discussion about how we're taking matters forward in the taskforce, which is meeting this afternoon.

Gallaf. Cefais drafodaethau gyda'r diwydiant dur y bore yma mewn gwirionedd—gyda'r cyflogwyr yn ogystal â'r undeb—a thrafodwyd materion yn ymwneud â ReAct a ProAct. Mae Julie James yn cadeirio grŵp pellach i ystyried rhai o'r materion hyn yfory, a bydd eitem ar yr agenda i drafod sut rydym yn symud materion yn eu blaen yn y tasglu, sy'n cyfarfod y prynhawn yma.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:47

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In your statement yesterday, you outlined your application to establish an additional enterprise zone in Port Talbot that would allow the Welsh Government to provide business rate relief schemes, as in the present enterprise zones, and also perhaps access to enhanced capital allowance. Against the background, though, of course, of key performance indicators for April to September last year showing that investment levels and business financial support in current enterprise zones were below target, and you yourself admit that enterprise zone status would not be a panacea, could you outline your realistic hopes of what enterprise zone status can achieve in the case of Port Talbot?

Yn eich datganiad ddoe, roeddech yn amlinellu eich cais i sefydlu ardal fenter ychwanegol ym Mhort Talbot a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth Cymru ddarparu cynlluniau rhyddhad ardrethi busnes, fel yn yr ardaloedd menter presennol, ac o bosibl, mynediad at lwfansau cyfalaf uwch hefyd. Ond wrth gwrs, yng nghyd-destun dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mis Ebrill i fis Medi y llynedd a ddangosai fod lefelau buddsoddi a chymorth ariannol i fusnesau yn yr ardaloedd menter presennol yn is na'r targed, ac rydych chi eich hun yn cyfaddef na fyddai statws ardal fenter yn ateb i bob problem, a allech chi amlinellu eich gobeithion realistig o'r hyn y gallai statws ardal fenter ei gyflawni yn achos Port Talbot?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think it gives the company, and other companies within the area and the town, the opportunity to be motivated to ensure that we do a good job in attracting in further investment and jobs. I think, if we have the necessary levers put in place and we have a favourable response from the Chancellor, that will make a difference to the image because currently, when we talk about steel, it's always with regret and it's about the jobs, but we have to be more hopeful, as I think you said yourself yesterday—we have to be positive that the industry is still there. I think that looking at an enterprise zone is positive.

Rwy'n credu ei fod yn rhoi cyfle i gymell y cwmni, a chwmnïau eraill yn yr ardal a'r dref, i sicrhau ein bod yn gwneud gwaith da o ran denu buddsoddiad a swyddi pellach. Pe bai gennym y liferi angenrheidiol ar waith a phe bai gennym ymateb ffafriol gan y Canghellor, rwy'n credu y byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth i'r ddelwedd oherwydd ar hyn o bryd, pan soniwn am ddur, mae'n gysylltiedig bob amser â gofid ac mae'n ymwneud â'r swyddi, ond mae'n rhaid i ni fod yn fwy gobeithiol, fel y dywedoch eich hun ddoe rwy'n credu—mae'n rhaid i ni fod yn gadarnhaol ynglŷn â'r ffaith fod y diwydiant yn dal i fod yno. Credaf fod edrych ar ardal fenter yn gadarnhaol.

I appreciate your comments about the other enterprise zones—some have worked better than others; some will always be in a difficult area, but I think we've got take the opportunity and use everything that we've got to motivate that particular economy within that area.

Rwy'n gwerthfawrogi eich sylwadau am yr ardaloedd menter eraill—mae rhai wedi gweithio'n well nag eraill; bydd rhai bob amser mewn ardal anodd, ond rwy'n credu bod angen i ni fanteisio ar y cyfle a defnyddio popeth sydd gennym i gymell yr economi benodol hon yn yr ardal honno.

13:49 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Finally, an appeal, as I have made before, that no stone should be left unturned in seeking solutions for putting the steel industry on a firmer footing as we move forward to the future. As well as offering our support for any immediate steps to help steel workers who will lose their jobs, we also offer our ideas and I think it's very important that ideas are not dismissed out of hand in this Chamber or outside. Can the Minister, therefore, give a promise that all proposals are exhausted when it comes to potentially taking, effectively, a stake in the future of the steel industry in Wales, by perhaps entering into joint ventures on specific proposals that could build more resilience into the business? We must work together, throughout Wales, on looking for a brighter future for steel. We must get that assurance from you, as a Minister, that all options will be considered. However unrealistic you may think some of them may be, there are those out there who are totally realistic, based on experiences in other European nations, for example, that there are creative ways forward that could help the steel industry in Wales.

Yn olaf, apêl, fel rwyf wedi'i wneud o'r blaen, y dylem wneud popeth yn ein gallu i geisio dod o hyd i atebion i roi'r diwydiant dur ar sail gadarnach wrth i ni symud i'r dyfodol. Yn ogystal â chynnig ein cefnogaeth i unrhyw gamau uniongyrchol i helpu gweithwyr dur a fydd yn colli eu swyddi, rydym hefyd yn cynnig ein syniadau ac rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn nad yw syniadau'n cael eu diystyru'n llwyr yn y Siambr hon neu'r tu allan i'r Siambr hon. A all y Gweinidog, felly, addo y bydd yr holl gynigion yn cael eu hystyried yn drwyadl pan ddaw'n fater, o bosibl, o chwarae rhan, i bob pwrpas, yn nyfodol y diwydiant dur yng Nghymru, efallai drwy gymryd rhan mewn mentrau ar y cyd ar gynigion penodol a allai adeiladu mwy o gydnerthedd i mewn i'r busnes? Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd, ledled Cymru, i edrych am ddyfodol mwy disglair i'r diwydiant dur. Mae'n rhaid i ni gael y sicrwydd hwnnw gennych chi, fel Gweinidog, y bydd yr holl opsiynau yn cael eu hystyried. Ni waeth pa mor afrealistig yw rhai ohonynt yn eich barn chi, mae yna rai i'w cael sy'n gwbl realistig, yn seiliedig ar brofiadau mewn gwledydd eraill yn Ewrop, er enghraifft, fod yna ffyrdd creadigol o symud ymlaen a allai fod o gymorth i'r diwydiant dur yng Nghymru.

13:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I trust that, in my contribution yesterday on the statement, I didn't indicate that I was difficult in respect of any suggestions that were coming forward. In fact, I've had a very useful suggestion from the leader of the opposition this morning about the engagement of a group into the training agenda. Can I say that we already work on some ventures with large companies like Tata? I think that the clarification that Simon gave yesterday indicated that everything is there for us to look at, and we have to work through everything that we can do to ensure that we have a steel industry in Wales.

Wel, rwy'n ffyddiog na roddais yr argraff, yn fy nghyfraniad ddoe ar y datganiad, fy mod yn bod yn anodd mewn perthynas ag unrhyw awgrymiadau a gyflwynwyd. A dweud y gwir, cefais awgrym defnyddiol iawn gan arweinydd yr wrthblaid y bore yma ynghylch cynnwys grŵp yn rhan o'r agenda hyfforddi. A gaf fi ddweud ein bod eisoes yn gweithio ar rai mentrau gyda chwmnïau mawr fel Tata? Credaf fod yr eglurhad a roddodd Simon ddoe yn dangos bod popeth yno i ni ei ystyried, ac mae'n rhaid i ni weithio drwy bopeth y gallwn ei wneud er mwyn sicrhau bod diwydiant dur gennym yng Nghymru.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move back to questions on the paper. Question 3 is Bethan Jenkins.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur. Daw cwestiwn 3 gan Bethan Jenkins.

**Busnesau ym Mhort Talbot** | **Businesses in Port Talbot**

13:51 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd i gynorthwyo datblygiad busnesau ym Mhort Talbot? OAQ(4)0660(EST)*

*3. Will the Minister make a statement about actions taken to assist the development of businesses in Port Talbot? OAQ(4)0660(EST)*

13:51 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We have wide-ranging support, obviously, through our Business Wales service, and our focus is on supporting jobs into the economy.

Gwnaf. Mae gennym gymorth eang, yn amlwg, drwy ein gwasanaeth Busnes Cymru, ac rydym yn canolbwyntio ar gynorthwyo i ddod â swyddi i mewn i'r economi.

13:51 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb hwnnw. O gwmpas pum mlynedd yn ôl, fe wnes i ofyn am yr hyn a oedd yn cael ei ddatblygu o ran agor lan y tir i fusnesau ar hyd Harbour Way—y ffordd newydd sydd wedi cael cryn dipyn o arian gan Lywodraeth Cymru. Rwyf wedi cael negeseuon gan bobl sydd yn gweithio yn Tata yn dweud nad oes digon wedi cael ei wneud yn yr ardal honno i ehangu busnesau eraill yn yr ardal a fyddai'n gallu helpu i godi stêm yn hynny o beth gyda Tata. Pa waith yr ydych chi wedi'i wneud i farchnata yr ardaloedd hynny ar gyfer busnesau newydd, i allu defnyddio'r hyn sydd ar gael jest canllath i ffwrdd o adeilad Tata ym Mhort Talbot?

Thank you for that response. Around five years ago, I asked about what was being developed in terms of opening land for businesses along Harbour Way—the new road that has been given a fair bit of funding from the Welsh Government. I've received messages from people who work in Tata, stating that not enough has been done in that area to enhance other businesses in the area that could assist in providing momentum with Tata. What work have you done to market those particular areas for new businesses to be able to utilise what is available only a hundred yards away from the Tata building in Port Talbot?

13:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, in terms of the work that we will be undertaking, particularly with the local authorities, Steve Phillips, the chief executive of the local authority, is of course on the taskforce board. We'll be looking at all assets that are everywhere to see how we can maximise the potential for business.

Yn amlwg, o ran y gwaith y byddwn yn ei wneud, yn enwedig gyda'r awdurdodau lleol, mae Steve Phillips, prif weithredwr yr awdurdod lleol, ar fwrdd y tasglu, wrth gwrs. Byddwn yn edrych ar yr holl asedau ym mhobman i weld sut y gallwn sicrhau'r potensial mwyaf ar gyfer busnes.

13:52 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I've actually been contacted by some young entrepreneurs in Port Talbot who have been finalists in the Young Dragons competition in 2015, but they're now finding blockages of support to being able to then take their ideas further forward. I've also received representations from businesses who are having difficulty in accessing loans for growth as well. What can you do to ensure that the information goes to both Finance Wales, but also out to the individuals and the organisations in Port Talbot that can encourage and show them how they can get finance and support to take their ideas forward, so that we get the entrepreneurs? The news in Tata clearly is an indication that we need to look at the ways in which we can encourage more entrepreneurs in Port Talbot.

Weinidog, mae rhai entrepreneuriaid ifanc ym Mhort Talbot a fu yn rownd derfynol cystadleuaeth Young Dragons yn 2015 wedi cysylltu â mi i ddweud eu bod yn awr yn wynebu rhwystrau rhag cael cefnogaeth i allu datblygu eu syniadau ymhellach. Rwyf hefyd wedi derbyn sylwadau gan fusnesau sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar fenthyciadau ar gyfer twf. Beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod y wybodaeth honno'n cyrraedd Cyllid Cymru yn ogystal â'r unigolion a'r sefydliadau ym Mhort Talbot sy'n gallu eu hannog a dangos iddynt sut y gallant gael cyllid a chymorth i ddatblygu eu syniadau, er mwyn i ni gael yr entrepreneuriaid? Mae'r newyddion o Tata yn amlwg yn arwydd fod angen i ni ystyried y ffyrdd y gallwn annog rhagor o entrepreneuriaid ym Mhort Talbot.

13:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Part of the wider discussion that we had yesterday, on the statement, I think, was about what will happen to other businesses in the area, and what more we can do with them. That will be a focus of the taskforce. So, I think there will have to be a communication strategy as well that will have to be developed as work progresses on leaving, as Rhun says, no stone unturned.

Rwy'n meddwl bod rhan o'r drafodaeth ehangach a gawsom ddoe ar y datganiad yn ymwneud â'r hyn fydd yn digwydd i fusnesau eraill yn yr ardal, a beth arall y gallwn ei wneud yn eu cylch. Bydd hwnnw'n un ffocws ar gyfer y tasglu. Felly, credaf y bydd yn rhaid cael strategaeth gyfathrebu hefyd, a bydd yn rhaid ei datblygu wrth i'r gwaith barhau i sicrhau y gwneir popeth y gellir ei wneud, fel y dywed Rhun.

13:53 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Minister, the job losses at Tata have, once again, focused minds on the need to re-skill those workers who have lost jobs in heavy industry. What steps are your Government taking to ensure that the skill needs of businesses in Port Talbot are being met by both retaining partners as well as local schools and colleges?

Weinidog, mae'r swyddi a gollwyd yn Tata, unwaith eto, wedi hoelio meddyliau ar yr angen i ailsgilio gweithwyr sydd wedi colli swyddi mewn diwydiant trwm. Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau y caiff anghenion sgiliau busnesau ym Mhort Talbot eu diwallu gan y partneriaid sy'n cadw gweithwyr yn ogystal ag ysgolion a cholegau lleol?

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I have to say that my colleague Julie James has been doing a lot of work on this particular issue to ensure that we've got the skills match for what employers require. As we move into this next phase, looking at those that have directly lost their jobs, we will have to be innovative in how we deal with some of the training agenda. We need to recognise that some of them that are highly skilled will find other jobs; others will require further skills—skills enhancement—and we've got to allow the time to have it. So, we're certainly working on that agenda constantly now, and we'll be stepping it up a degree, I think, in terms of the work that the taskforce will be commissioning.

Mae'n rhaid i mi ddweud bod fy nghyd-Aelod Julie James wedi bod yn gwneud llawer o waith ar y mater penodol hwn i sicrhau ein bod yn gallu bodloni gofynion sgiliau'r cyflogwyr. Wrth i ni symud i mewn i'r cyfnod nesaf hwn, gan edrych ar y rhai sydd wedi colli eu swyddi'n uniongyrchol, bydd yn rhaid i ni fod yn arloesol o ran y ffordd rydym yn delio â pheth o'r agenda hyfforddi. Mae'n rhaid i ni gydnabod y bydd rhai ohonynt sy'n fedrus iawn yn dod o hyd i swyddi eraill; bydd eraill angen sgiliau pellach—gwella sgiliau—ac mae'n rhaid i ni ganiatáu amser ar gyfer hynny. Felly, rydym yn sicr yn gweithio'n barhaus ar yr agenda hon yn awr, a chredaf y byddwn yn cynyddu'r gwaith y bydd y tasglu yn ei gomisiynu.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, the job losses in Port Talbot are, of course, devastating, but there's also still uncertainty amongst traders in the town centre as to what exactly you propose to do with junction 41. Could you let us know when you will actually make a final decision as to whether or not you will leave that junction open?

Weinidog, mae'r swyddi a gollwyd ym Mhort Talbot yn ofnadwy, wrth gwrs, ond mae'r ansicrwydd yn parhau ymhlith masnachwyr yng nghanol y dref o ran beth yn union rydych yn bwriadu ei wneud gyda chyffordd 41. A allwch roi gwybod i ni pa bryd y byddwch yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn ag a fyddwch yn gadael y gyffordd honno ar agor ai peidio?

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Well, in terms of junction 41, I've made previous statements to the Chamber. I've got work ongoing with my officials, and I will certainly alert Members if it's my intention to do anything within the next few weeks.

Wel, o ran cyffordd 41, rwyf eisoes wedi gwneud datganiadau i'r Siambr. Mae gennyf waith yn mynd rhagddo gyda fy swyddogion, a byddaf yn sicr yn hysbysu'r Aelodau os wyf yn bwriadu gwneud unrhyw beth o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

Senedd.tv Fideo Video

## Parodrwydd ar gyfer y Gaeaf

## Winter Preparedness

13:55 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am barodrwydd ar gyfer y gaeaf ar draws seilwaith trafnidiaeth Cymru? OAQ(4)0659(EST)*

*4. Will the Minister make a statement on winter preparedness across the Welsh transport infrastructure? OAQ(4)0659(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I won't use that word; I'll get tongue-tied as well. Ensuring the safety and reliability of our transport network throughout the winter is a key priority. We work with local authorities and other stakeholders to ensure that salt stocks are monitored and that bus and rail disruptions are kept to a minimum during inclement weather.

Nid wyf am ddefnyddio'r gair hwnnw; byddaf innau'n baglu dros fy ngeiriau hefyd. Mae sicrhau diogelwch a dibynadwyedd ein rhwydwaith trafnidiaeth drwy gydol y gaeaf yn flaenoriaeth allweddol. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod cyflenwadau o halen yn cael eu monitro ac i sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar fysiau a rheilffyrdd yn ystod tywydd garw.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister, and thank you for the letter that was distributed to Members this afternoon in relation to the business statement questions that were asked last week, following the 69 crashes on roads across north Wales as a result of the icy conditions there.

Diolch am eich ateb, Weinidog, a diolch am y llythyr a ddosbarthwyd i'r Aelodau'r prynhawn yma mewn perthynas â'r cwestiynau am y datganiad busnes a ofynnwyd yr wythnos ddiwethaf, yn dilyn y 69 o ddamweiniau ar ffyrdd ledled gogledd Cymru o ganlyniad i'r tywydd rhewllyd yno.

As you will be aware, many of those accidents could have been prevented had those roads been gritted. A number of local authorities did grit their roads, but others did not because of a different interpretation, as I understand it, of the weather forecast. I know that there are two documents that are currently used as a resource by local authorities. Some use the 'Trunk Road Maintenance Manual', issued by the Welsh Government; others use 'Well-maintained Highways—Code of Practice' as their reference point. What action will you take to drive some consistency across the road network? What I don't want to see—and, fortunately, we didn't see them last week—are any deaths on the road network as a result of these issues. Earlier this month marked the 10-year anniversary of a tragedy in my own constituency, where four cyclists were killed in Towyn on the A547, following the failure of the local authority, Conwy, to grit at that time. They revised their approach to gritting of the roads as a result of that accident, and I just wish that other local authorities would do the same in light of what happened last week.

Fel y gwyddoch, gallai llawer o'r damweiniau hynny fod wedi'u hatal pe bai'r ffyrdd wedi cael eu graeanu. Graeanodd nifer o awdurdodau lleol eu ffyrdd, ond ni wnaeth eraill hynny, o ganlyniad, yn ôl yr hyn a ddeallaf, i ddehongliadau gwahanol o ragolygon y tywydd. Gwn fod dwy ddogfen a ddefnyddir ar hyn o bryd fel adnodd gan awdurdodau lleol. Mae rhai'n defnyddio'r 'Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru; mae eraill yn cyfeirio at 'Well-maintained Highways—Code of Practice'. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau rhywfaint o gysondeb ar draws y rhwydwaith ffyrdd? Yr hyn nad wyf am ei weld yw marwolaethau ar y rhwydwaith ffyrdd o ganlyniad i'r problemau hyn, ac yn ffodus, ni welwyd hynny yr wythnos diwethaf. Yn gynharach y mis hwn, roedd hi'n 10 mlynedd ers i drasiedi ddigwydd yn fy etholaeth, pan laddwyd pedwar o feicwyr yn Nhywyn ar yr A547, yn dilyn methiant yr awdurdod lleol, Conwy, i raeanu ar y pryd. O ganlyniad i'r ddamwain honno, aethant ati i adolygu eu trefniadau ar gyfer graeanu'r ffyrdd, a hoffwn yn fawr pe bai awdurdodau lleol eraill yn gwneud yr un peth yng ngoleuni'r hyn a ddigwyddodd yr wythnos diwethaf.

13:57 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In light of your comments last week in the business statement, I did ask officials to look at these issues because we don't actually provide guidance directly to local authorities. You are correct: there are two manuals that they look at. I am discussing with senior officials whether I should issue guidance that should be adopted by local authorities—that is, one single guidance with regard to the gritting of roads.

Yng ngoleuni eich sylwadau yr wythnos diwethaf yn y datganiad busnes, gofynnais i swyddogion edrych ar y materion hyn gan nad ydym yn darparu arweiniad uniongyrchol i awdurdodau lleol. Rydych yn gywir: maent yn defnyddio dau lawlyfr. Rwy'n trafod gydag uwch swyddogion ynglŷn ag a ddylwn gyhoeddi canllawiau i'w mabwysiadu gan awdurdodau lleol—hynny yw, un cyfarwyddyd unigol ar raeanu ffyrdd.

13:57 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hear hear.

Clywch clywch.

13:57 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, ar ôl y Rhagfyr gwlypaf ers i records gychwyn, mae'n debyg y bydd llifogydd hefyd yn dod yn fwy ac yn fwy o broblem wrth i newid hinsawdd fynd yn ei flaen. Mi alwodd Plaid Cymru, wrth gwrs, am uwchgynhadledd ar lifogydd yn y gogledd dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Rŷm ni'n gwybod bod yr A55 wedi cau, mi gaewyd yr A5, ac rŷm ni'n gwybod bod yna risg sylweddol i'r rhwydwaith rheilffyrdd ar draws y gogledd hefyd. Mi gynhaliodd Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, uwchgynhadledd ar lifogydd yn ôl ym Mawrth 2013. A gaf i ofyn ichi felly i ailgynnull uwchgynhadledd o'r fath, neu o leiaf i ystyried yr angen am un, i edrych ar effaith risg llifogydd ar drafnidiaeth yn y gogledd yn benodol, os nad yn ehangach?

Of course, after the wettest December since records began, I'm sure that flooding will also become more and more of a problem as climate change develops. Plaid Cymru called for a summit on flooding in north Wales over the Christmas and new year period. We know that the A55 was closed, the A5 was closed, and we know that there is significant risk to the rail network across north Wales also. The Welsh Government, of course, held a flood summit back in March 2013. Can I ask you therefore to re-establish a summit of that sort, or at least to consider the need for such a summit, to look at the impact of flooding risk on transport in north Wales specifically, if not in a broader sense?

13:58 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think the issue will actually be broader in terms of looking at the impact of flooding as we see the changes to the climate. I have asked my officials once again to look at pinch points and to give prioritisation to those particular pinch points, and I will be taking forward some work in this area, which I will be happy to share with Members. On the basis of that, we might want to then consider whether we want to hold a future summit.

Wel, credaf y bydd y mater yn un ehangach o ran edrych ar effaith llifogydd wrth i ni weld y newidiadau i'r hinsawdd. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych unwaith eto ar fannau cyfyng ac i roi blaenoriaeth i'r mannau cyfyng penodol hynny, a byddaf yn bwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn, a byddaf yn hapus i rannu'r gwaith hwnnw gyda'r Aelodau. Ar sail hynny, efallai y dylem ystyried wedyn a ydym am gynnal uwchgynhadledd yn y dyfodol.

13:58 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rŷch chi wedi sôn am y ffaith bod yn rhaid i chi gydweithio efo rhanddeiliaid eraill. Mae Llyr Huws Gruffudd wedi sôn am broblemau ar y rheilffyrdd yn y gogledd. Rhan o'r broblem, wrth gwrs, yw'r 'pinch point' rydych chi wedi cyfeirio ato rhwng Wrecsam a Chaer. Erbyn hyn, mae'r rhaglen yna wedi cael ei hoedi am rai misoedd. Mae yna hefyd wariant gan Lywodraeth Cymru rhwng Gobowen a'r Amwythig, lle nad yw'r cyflymder ar y trac yn dal wedi codi, rhyw ddwy flynedd ers i'r gwaith gael ei dalu amdano gan y Llywodraeth. Felly, a gaf i ofyn ichi a oes gennych hyder, o edrych ar y gwaith y mae Network Rail yn ei wneud, eu bod nhw yn rhanddeiliaid rŷch chi'n gallu ymddiried ynddyn nhw?

Minister, you've alluded to the fact that you have to collaborate with other stakeholders. Llyr Huws Gruffydd has talked about the problems on the rail network in north Wales. Part of the problem, of course, is the pinch point that you've referred to, which is between Wrexham and Chester. By now, that programme has been delayed for some months. Also there is expenditure by Welsh Government between Gobowen and Shrewsbury, where the speed on the track still hasn't increased, almost two years after the work was paid for by the Government. So, may I ask you whether you have any confidence, looking at the work that Network Rail carries out, that they are stakeholders in whom you can place your trust?

13:59 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I am very concerned as well regarding what has happened with Network Rail. They're not even going to be able to spend the £10 million that was allocated this financial year as part of the budget deal. But I do want to assure you that, after discussions with Jane Hutt, it will be carried forward. We've only got to look at some of the issues around north-south. We're looking at the north end here: level-crossing upgrade; there are issues on that. They're also talking to us about a timber bridge, which nobody's quite certain about. We've got the issues about the embankment that must have been known before. So, we've got issues all across the piece. I don't think it's acceptable for Network Rail to find out these issues as the project is being delivered. They should have actually been doing all this work beforehand so we could have had value for money. We've also got to even review the timetabling work that Network Rail are undertaking, because we're not certain in our own minds that some of this work is appropriate, and we've got to review everything. So, I have to say that I have grave reservations over what's going on with Network Rail, their ability to deliver, and, with the permission of the business Minister, it will be my intention to make a full statement on some of these issues within the coming weeks.

Wel, rwy'n bryderus iawn hefyd am yr hyn sydd wedi digwydd gyda Network Rail. Nid ydynt yn mynd i allu gwario'r £10 miliwn a neilltuwyd yn y flwyddyn ariannol hon fel rhan o'r cytundeb cyllideb hyd yn oed. Ond rwyf am eich sicrhau, ar ôl trafodaethau gyda Jane Hutt, y bydd yn cael ei ddatblygu. Nid oes ond yn rhaid i ni edrych ar rai o'r materion sy'n ymwneud â gogledd-de. Rydym yn edrych ar y pen gogleddol yma: uwchraddio croesfannau rheilffyrdd; mae problemau ynghlwm wrth hynny. Maent hefyd yn siarad gyda ni am bont bren nad oes neb yn sicr iawn yn ei chylch. Mae problemau gennym ynglŷn â'r arglawdd a oedd yn hysbys o'r blaen, mae'n rhaid. Felly, mae gennym broblemau ym mhob man. Nid wyf yn credu ei bod yn dderbyniol fod Network Rail yn darganfod y problemau hyn wrth i'r prosiect gael ei gyflawni. Dylent fod wedi gwneud yr holl waith hwn ymlaen llaw i ni allu bod wedi cael gwerth am arian. Mae'n rhaid i ni hefyd adolygu'r gwaith amserlennu y mae Network Rail yn ei wneud, gan nad ydym yn sicr yn ein meddyliau ein hunain pa mor briodol yw rhywfaint o'r gwaith hwn, ac mae'n rhaid i ni adolygu popeth. Felly, mae'n rhaid i mi ddweud bod gennyf amheuon difrifol ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd gyda Network Rail, eu gallu i gyflawni, ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad llawn, gyda chaniatâd y Gweinidog busnes, ar rai o'r materion hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

### Yr A466

### The A466

14:00 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ffordd gyswllt yr A466 yng Nghas-gwent? OAQ(4)0658(EST)*

*5. Will the Minister make a statement on the safety of the A466 link road at Chepstow? OAQ(4)0658(EST)*

14:00 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Ensuring the safety and reliability of the strategic road network is my primary transport concern. Following the trunk road safety review and the latest fatal accident, I have asked my officials to undertake a study of the A466 leading from the roundabout at junction 2 of the M48.

Gwnaf. Fy mhrif flaenoriaeth o ran trafnidiaeth yw sicrhau diogelwch a dibynadwyedd y rhwydwaith ffyrdd strategol. Yn dilyn yr adolygiad o ddiogelwch cefnffyrdd a'r ddamwain angheuol ddiweddaraf, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion gynnal astudiaeth o'r A466 sy'n arwain o'r gylchfan ar gyffordd 2 yr M48.

14:00 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. As you've just alluded to, on 27 October 2015, a constituent, Gerald Russell, was hit by a car and tragically died on the A466 link road, the latest of five serious crashes on this stretch of road since 2010. I'm supporting Mr Russell's widow's campaign for changes to the A466 to improve safety. Will you look at possible ways of improving this short stretch of road, either through dualling, the installation of a safety barrier, a speed limit reduction from 60 mph, or providing proper parking for commuters car sharing across the Severn bridge? Perhaps you could find time in your diary to meet with me and Mrs Russell to discuss possible options.

Diolch yn fawr, Weinidog. Fel rydych newydd sôn, ar 27 Hydref 2015, tarwyd etholwr, Gerald Russell, gan gar, a bu farw ar ffordd gyswllt yr A466, y ddiweddaraf o bum damwain ddifrifol ar y rhan hon o'r ffordd ers 2010. Rwy'n cefnogi ymgyrch gweddw Mr Russell dros newidiadau i'r A466 er mwyn gwella diogelwch. A wnewch chi edrych ar ffyrdd posibl o wella'r ffordd hon, naill ai drwy ei deuoli, drwy osod rhwystr diogelwch, drwy ostwng y terfyn cyflymder o 60 milltir yr awr, neu drwy ddarparu mannau parcio priodol ar gyfer cymudwyr sy'n rhannu ceir dros bont Hafren? Efallai y gallech ddod o hyd i amser yn eich dyddiadur i gyfarfod â mi a Mrs Russell i drafod opsiynau posibl.

14:01 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd be more than happy, diary permitting, to actually come and meet and discuss these issues, because it's not just what's happened to Mrs Russell. For instance, back in 2013, wasn't it, an 11-year-old boy and someone else were involved in an accident. There are also issues, as well—overnight parking for lorries in lay-bys; there's a whole range of issues that are involved in this stretch of road. My officials will be very proactive in looking at what improvements they can do with this study, but I will be happy to meet.

Byddwn yn fwy na pharod, yn dibynnu ar fy nyddiadur, i gyfarfod a thrafod y materion hyn, ac nid yn unig oherwydd yr hyn sydd wedi digwydd i Mrs Russell. Er enghraifft, yn ôl yn 2013, rwy'n credu, bu bachgen 11 oed a rhywun arall mewn damwain. Mae materion eraill hefyd—parcio dros nos ar gyfer loriau mewn cilfannau; mae amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â'r rhan hon o'r ffordd. Bydd fy swyddogion yn edrych yn rhagweithiol iawn ar ba welliannau y gallant eu gwneud gyda'r astudiaeth hon, ond byddaf yn falch o gael cyfarfod.

## Dinas-ranbarth Bae Abertawe

## The Swansea Bay City Region

14:01 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddinas-ranbarth bae Abertawe? OAQ(4)0669(EST)*

*6. Will the Minister provide an update on the Swansea Bay city region? OAQ(4)0669(EST)*

14:01 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. The Swansea bay city region has led significant regional alignment and collaboration, which includes the establishment of a BT G.fast broadband test bed in Swansea.

Gwnaf. Mae dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi arwain cryn dipyn o waith alinio a chydweithio rhanbarthol, gan gynnwys sefydlu man profi band eang G.fast BT yn Abertawe.

14:01 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, do you share my concerns that I've recently heard two contrasting statements, one from the Prime Minister and another from the Chancellor of the Exchequer, regarding the UK Government's support for the Swansea bay tidal lagoon, and that disagreement at the top of Government could put this pioneering project at risk?

Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryderon fy mod wedi clywed dau ddatganiad cyferbyniol yn ddiweddar, un gan y Prif Weinidog ac un arall gan Ganghellor y Trysorlys, ynghylch cefnogaeth Llywodraeth y DU i forlyn llanw bae Abertawe, ac y gallai anghytundeb ar lefelau uchaf y Llywodraeth roi'r prosiect arloesol hwn mewn perygl?

14:02 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the city region board has wholeheartedly supported the tidal lagoon project, as have parties within this Chamber. It was of enormous concern, when the Prime Minister was questioned under scrutiny in Parliament, that he seemed to be quite cool on the whole issue around this, bearing in mind that there had been such publicity before the last general election, with people having their photographs taken around where the tidal lagoon would be. We remain committed as a party to the tidal lagoon, and I have to say a lot of people have invested a lot of time and money to get this very innovative project going. The importance of the tidal lagoon isn't just the tidal lagoon and energy for Swansea and the other lagoons; it is also about the industry that could be developed in Wales as a result of that type of investment.

Wel, mae bwrdd y ddinas-ranbarth wedi cefnogi prosiect y morlyn llanw yn llwyr, fel y pleidiau yn y Siambr hon. Roedd yn destun pryder enfawr, pan holwyd y Prif Weinidog yn y Senedd, ei fod yn ymddangos yn eithaf llugoer ynghylch yr holl fater, gan gofio'r holl gyhoeddusrwydd cyn yr etholiad cyffredinol diwethaf, gyda phobl yn cael tynnu eu lluniau o gwmpas lleoliad arfaethedig y morlyn llanw. Rydym ni fel plaid yn dal i fod yn ymrwymedig i'r morlyn llanw, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod nifer o bobl wedi buddsoddi llawer o amser ac arian yn sicrhau bod y prosiect arloesol hwn yn cael ei wireddu. Mae'r morlyn llanw'n bwysig nid yn unig ynddo'i hun o ran creu ynni ar gyfer Abertawe, a'r môr-lynnoedd eraill, ond hefyd o ran y diwydiant y gellid ei ddatblygu yng Nghymru o ganlyniad i fuddsoddiad o'r fath.

14:03 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you indicated yesterday that Sir Terry Matthews had contacted you about how the Swansea bay city region might be able to assist with Tata's immediate troubles. However, Tata's longer-term contribution to the city region is just as important because of the wider high-end expertise in the workforce, which is not specifically related to steel making. How quickly will you get an indication of which parts of the workforce will be lost? How can your taskforce help the region retain valuable transferable skills rather that see individuals with those skills leaving the region?

Weinidog, fe ddywedoch ddoe fod Syr Terry Matthews wedi cysylltu â chi ynglŷn â sut y gallai dinas-ranbarth Bae Abertawe gynorthwyo gyda thrafferthion uniongyrchol Tata. Fodd bynnag, mae cyfraniad Tata i'r ddinas-ranbarth yn y tymor hwy yr un mor bwysig oherwydd yr arbenigedd uwch ehangach yn y gweithlu, nad yw'n ymwneud yn benodol â'r broses o wneud dur. Pa mor fuan y bydd gennych syniad pa rannau o'r gweithlu a fydd yn cael eu colli? Sut y gall eich tasglu helpu'r rhanbarth i gadw sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr yn hytrach na bod yr unigolion â'r sgiliau hynny yn gadael y rhanbarth?

14:03 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the information—. Well, all these issues are currently being discussed with the workforce at the moment. We will be advised when those discussions have taken place. Tata management have indicated that we'll be able to get all the information we require, as have the trade unions, to assist in what you've outlined.

Wel, y wybodaeth—. Wel, mae'r holl faterion hyn yn cael eu trafod gyda'r gweithlu ar hyn o bryd. Byddwn yn cael gwybod pan fydd y trafodaethau hynny wedi digwydd. Mae rheolwyr Tata wedi dweud y byddwn yn gallu cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom, a'r undebau llafur hefyd, er mwyn cynorthwyo gyda'r hyn rydych wedi'i amlinellu.

14:04 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, wrth gwrs mae'r cynllun lagŵn yn Abertawe ynddo ei hun yn bwysig, oherwydd ei fod e'n blaenaru'r tir i'r diwydiant yma. Ond mae yna gynlluniau ar gyfer safleoedd eraill yng Nghymru y byddai'n gallu gwneud Cymru yn arwain yn y maes yma o ran sicrhau ynni cynaliadwy i'r dyfodol sydd yn ddibynadwy. Weinidog, a ydych chi wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidogion yn San Steffan i sicrhau bod y gwaith yma yn mynd yn ei flaen?

Minister, of course the lagoon scheme in Swansea is important in itself, because it prepares the way for this industry. But there are plans for other sites in Wales that could make Wales a leader in this field in terms of securing renewable energy that is dependable for the future. Minister, have you had discussions with Ministers in Westminster to ensure that this work proceeds?

14:04 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we've obviously had dialogue and communication on this, and it's my intention to write further again this week about this particular issue, because you are quite right, Rhodri Glyn—it's not just a Swansea issue. Swansea is in the news, but there are other propositions regarding tidal lagoons. I think we've done an excellent job so far in developing policy within this area, but it's important that large-scale projects have support, and they require support—like the strike price, of course—from the UK Government on such a large project.

Do, rydym yn amlwg wedi trafod a chyfathrebu ynglŷn â hyn, ac rwy'n bwriadu ysgrifennu eto yr wythnos hon ynghylch y mater penodol hwn, gan eich bod yn llygad eich lle, Rhodri Glyn—nid mater i Abertawe yn unig yw hwn. Mae Abertawe yn y newyddion, ond ceir cynigion eraill sy'n ymwneud â môr-lynnoedd llanw. Credaf ein bod wedi gwneud gwaith rhagorol hyd yn hyn ar ddatblygu polisi yn y maes hwn, ond mae'n bwysig fod prosiectau mawr yn cael cymorth, ac maent angen cymorth—fel gyda'r pris streic, wrth gwrs—gan Lywodraeth y DU ar brosiect mor fawr.

## Y Diwydiant Dur

## The Steel Industry

14:05

### Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

*7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r diwydiant dur yng Nghymru? OAQ(4)0666(EST)*

*7. What action is the Welsh Government taking to support the steel industry in Wales? OAQ(4)0666(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:05

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

We'll continue to work closely with the industry and their employees to explore potential assistance.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant a'u gweithwyr i archwilio cymorth posibl.

Senedd.tv Fideo Video

14:05

### Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Minister, following on from your response yesterday, and to the question that Mr David Rees has posed, I want to return to the industry dragon scheme. Tata bid for an education grant to develop a programme that would see schoolchildren working at the steelworks, as well as class-based learning, in order to develop the next generation of engineers. The bid was refused. Can I ask you why the bid was refused and will you look again at Tata's application?

Weinidog, gan ddilyn eich ymateb ddoe, a'r cwestiwn a ofynnodd Mr David Rees, rwyf am ddychwelyd at gynllun draig y diwydiant. Cyflwynodd Tata gais am grant addysg i ddatblygu rhaglen a fyddai'n galluogi plant ysgol i weithio yn y gwaith dur, yn ogystal â dysgu yn y dosbarth, er mwyn datblygu'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr. Gwrthodwyd y cais. A gaf fi ofyn i chi pam y gwrthodwyd y cais ac a fyddwch yn edrych eto ar gais Tata?

Senedd.tv Fideo Video

14:05

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Can I say, our first priority now in steel will be to deal with the individuals who have lost their jobs and to see what we can do to match them into other careers? The other strand of work that we will be doing within the taskforce, and are currently doing in a number of areas, is looking at how we can help Tata in terms of their future needs and the needs of the region and broader Wales in ensuring we have the necessary skills base. So, we make decisions on the basis of the applications we have. We decide yes or no, but, obviously, in light of what's happened with Tata, we'll be looking at a whole range of options that we can assist that will develop that particular training agenda you've outlined.

A gaf fi ddweud mai ein blaenoriaeth gyntaf yn awr yn y diwydiant dur fydd ymdrin â'r unigolion sydd wedi colli eu swyddi a gweld beth y gallwn ei wneud i ddod o hyd i yrfaoedd eraill ar eu cyfer? Y gwaith arall y byddwn yn ei wneud o fewn y tasglu, ac rydym eisoes yn ei wneud mewn nifer o feysydd, yw edrych i weld sut y gallwn helpu Tata mewn perthynas â'u hanghenion yn y dyfodol ac anghenion y rhanbarth a Chymru yn ehangach i sicrhau bod y sylfaen sgiliau angenrheidiol gennym. Felly, rydym yn gwneud penderfyniadau ar sail y ceisiadau sydd gennym. Rydym yn penderfynu ie neu na, ond yn amlwg, yng ngoleuni'r hyn sydd wedi digwydd gyda Tata, byddwn yn edrych ar ystod eang o opsiynau y gallwn eu cynorthwyo er mwyn datblygu'r agenda hyfforddiant benodol rydych wedi'i hamlinellu.

Senedd.tv Fideo Video

14:06

### David Rees Bywgraffiad Biography

Minister, thank you for the early answers you gave to Rhun ap Iorwerth when you indicated that you would leave no stone unturned and look at all options available for the future of the steelworks here in Wales and in Port Talbot in particular in my constituency. I've met with the trade union representatives, and, obviously, last night they had a major meeting. One of the concerns that the trade union representatives gave to me was actually to ensure that, as the plant goes forward, it remains a viable and a safe, productive plant, which is what we want for the future. What discussions are you having with Tata so that we will build in partnership and work in partnership to ensure that that plant becomes a viable plant, but it's also operated in a safe manner so production levels will not be challenged in any sense?

Weinidog, diolch am yr atebion cynnar a roesoch i Rhun ap Iorwerth pan nodoch y byddech yn gwneud popeth yn eich gallu ac yn edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer dyfodol y gwaith dur yma yng Nghymru, ac ym Mhort Talbot yn enwedig, yn fy etholaeth i. Rwyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr yr undebau llafur, ac yn amlwg, cawsant gyfarfod pwysig neithiwr. Un o'r pryderon y tynnodd cynrychiolwyr yr undebau llafur fy sylw ato oedd yr angen i sicrhau, wrth i waith barhau ar y safle, ei fod yn parhau i fod yn waith hyfyw, diogel a chynhyrchiol, sef yr hyn rydym yn dymuno'i weld ar gyfer y dyfodol. Pa drafodaethau rydych yn eu cael gyda Tata fel y gallwn adeiladu ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod y safle yn dod yn safle hyfyw, ond ei fod hefyd yn cael ei weithredu mewn ffordd ddiogel fel na fydd lefelau cynhyrchu'n cael eu herio mewn unrhyw ystyr?

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think it's important to recognise there is health and safety legislation, and that's of paramount importance to the safety of the workforce, especially in an industrial environment like that. Of course, sometimes, when you look at some of the imported steel that comes to the UK, we're not sure what work environment that has been produced in and what were the conditions of workers. So, it's very important we maintain the highest standards. I know that the company will want to do so and I know the trade unions will ensure they do so.

Credaf ei bod yn bwysig cydnabod deddfwriaeth iechyd a diogelwch, a bod hynny'n hanfodol i ddiogelwch y gweithlu, yn enwedig mewn amgylchedd diwydiannol o'r fath. Wrth gwrs, weithiau, pan edrychwch ar beth o'r dur a fewnforir i'r DU, nid ydym yn sicr ym mha fath o amgylchedd gwaith y cynhyrchwyd y dur hwnnw a beth oedd amgylchiadau'r gweithwyr. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn cynnal y safonau uchaf. Gwn y bydd y cwmni'n awyddus i wneud hynny, a gwn y bydd yr undebau llafur yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny.

14:07 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, your Government, as have many others, has mentioned high energy costs. It's my understanding the policy cost of energy amounts to only a small fraction of the steel industry's running costs, particularly with exemptions in place or soon to come. That means that we would require a root-and-branch reform of the energy sector in order to reduce wholesale prices, as set by the utilities, if this proposal is to make a difference to the industry. With that in mind—and given that it would take several years, it would require buy-in from the UK Government of the day, and is likely to be fiercely resisted by utility companies—how are you, as Welsh Government, acting to make this happen?

Weinidog, mae eich Llywodraeth chi, fel llawer o rai eraill, wedi crybwyll costau ynni uchel. Yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, cyfran fechan o gostau rhedeg y diwydiant dur yw'r costau ynni, yn enwedig gydag eithriadau yn eu lle neu ar y ffordd. Mae hynny'n golygu y byddai angen i ni ddiwygio'r sector ynni yn gyfan gwbl er mwyn lleihau prisiau cyfanwerthu, fel y nodir gan y cyfleustodau, os yw'r cynnig hwn yn mynd i wneud gwahaniaeth i'r diwydiant. Gyda hynny mewn golwg—ac o ystyried y byddai'n cymryd sawl blwyddyn, byddai'n galw am gefnogaeth Llywodraeth gyfredol y DU, ac mae'n debygol y byddai cryn wrthwynebiad gan y cwmnïau cyfleustodau—sut rydych chi, fel Llywodraeth Cymru, yn gweithredu i sicrhau bod hyn yn digwydd?

14:08 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think you will find, in terms of some of the key issues that have been raised by the companies in steel, that they do regard high energy costs as being an issue for them now, and, even when they have the help in the future, it will still be an issue. I think we've always called—. We don't have control, as you know, over some of these issues. I think we've always called that it is essential for there to be a fair and even playing field in terms of energy costs for industry, and we will continue to lobby for that.

Credaf y byddwch yn gweld, o ran rhai o'r materion allweddol a godwyd gan y cwmnïau dur, eu bod yn ystyried costau ynni uchel yn broblem ar hyn o bryd, a hyd yn oed pan fyddant yn cael cymorth yn y dyfodol, bydd yn dal i fod yn broblem. Credaf ein bod bob amser wedi galw—. Nid oes gennym reolaeth, fel y gwyddoch, dros rai o'r materion hyn. Credaf ein bod bob amser wedi cydnabod bod chwarae teg yn allweddol mewn perthynas â chostau ynni i ddiwydiant, a byddwn yn parhau i lobïo am hynny.

14:08 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, it's obviously very important to retain existing jobs as much as we can, but also to attract new jobs. Could you say a little about the work of the taskforce and your department in terms of attracting new jobs to the steel areas, particularly those that would utilise the existing skills of the workforce?

Weinidog, mae'n amlwg yn bwysig iawn ein bod yn cadw swyddi presennol hyd eithaf ein gallu, ond hefyd ein bod yn denu swyddi newydd. A allech sôn ychydig am waith y tasglu a'ch adran mewn perthynas â denu swyddi newydd i ardaloedd dur, yn enwedig y rhai a fyddai'n defnyddio sgiliau presennol y gweithlu?

14:08 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I think that's going to be one of the key issues—not to lose the skills from the locality and to ensure that we attract jobs in and we utilise individuals who have lost their jobs into industries that are looking to take people on. So, the taskforce will be looking very keenly at what it can do to enhance skills for different types of jobs and also to do the necessary matching for people to get them into jobs. This will be an absolute focus in the discussions we'll be having.

Ie, credaf fod hynny'n mynd i fod yn un o'r materion allweddol—peidio â cholli sgiliau o'r ardal leol a sicrhau ein bod yn denu swyddi i mewn ac yn defnyddio unigolion sydd wedi colli eu swyddi mewn diwydiannau sy'n awyddus i gyflogi rhagor o bobl. Felly, bydd y tasglu'n edrych yn ofalus iawn ar yr hyn y gall ei wneud i wella sgiliau ar gyfer gwahanol fathau o swyddi yn ogystal â pharu pobl a swyddi yn ôl yr angen. Bydd hyn yn ffocws pendant i'r trafodaethau y byddwn yn eu cael.

## Ardaloedd Menter (Canol De Cymru)

## Enterprise Zones (South Wales Central)

14:09 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effeithiolrwydd ardaloedd menter yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0662(EST)*

*8. What assessment has the Welsh Government made of the effectiveness of enterprise zones in South Wales Central? OAQ(4)0662(EST)*

14:09 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Outputs for the first six months of 2015-16 have just been published. The private-sector-led enterprise zone boards continually review the progress in their zones.

Mae'r allbynnau ar gyfer chwe mis cyntaf 2015-16 newydd gael eu cyhoeddi. Mae byrddau'r ardaloedd menter a arweinir gan y sector preifat yn adolygu cynnydd yn eu hardaloedd yn barhaus.

14:09 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you'll have heard me ask the leader of the house about a possible statement around the St Athan enterprise zone. My question isn't seeking to knock the sentiments behind the St Athan enterprise zone—I think we all want to see that be a resounding success, and Welsh Government have made an investment there. But it is bitterly disappointing to see the very, very low levels of job creation on that particular site, and I'm just conscious that there seems to be an element of slippage now in the ambitions of developing that site. Can you give us some assurance today that the Welsh Government will be re-energising its efforts to create a more dynamic economic hub for the aerospace sector in that particular area and we will see more robust job numbers when the next reporting session comes around?

Weinidog, fe fyddwch wedi fy nghlywed yn gofyn i arweinydd y tŷ am ddatganiad posibl ynglŷn ag ardal fenter Sain Tathan. Nid yw fy nghwestiwn yn ceisio tanseilio'r teimladau sydd wrth wraidd ardal fenter Sain Tathan—credaf fod pawb ohonom am iddi fod yn llwyddiant ysgubol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yno. Ond mae'r lefel eithriadol o isel o swyddi sy'n cael eu creu ar y safle penodol hwnnw'n destun siom enbyd, ac rwy'n ymwybodol ei bod yn ymddangos fel pe bai'r uchelgais i ddatblygu'r safle yn dechrau llithro bellach. A allwch roi rhywfaint o sicrwydd i ni heddiw y bydd Llywodraeth Cymru yn ailfywiogi ei hymdrechion i greu canolbwynt economaidd mwy dynamig ar gyfer y sector awyrofod yn yr ardal benodol honno ac y byddwn yn gweld nifer fwy cadarn o swyddi erbyn y cyfnod adrodd nesaf?

14:10 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we sometimes have to recognise the difficulties that some sites have. St Athan is an ideal site for everything. Of course, we do have the issue of having the Ministry of Defence, which we are progressing through. The leader of the opposition would like me to make a statement; it might be helpful to Members if I do an update statement after the next recess on where we are in terms of the enterprise zones. But I can assure you that we're making every effort to attract what we can to that particular enterprise zone.

Rwy'n credu bod yn rhaid i ni gydnabod yr anawsterau gyda rhai safleoedd. Mae Sain Tathan yn safle delfrydol ar gyfer popeth. Wrth gwrs, mae gennym fater y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac rydym yn gweithio drwy hwnnw. Byddai arweinydd yr wrthblaid yn hoffi i mi wneud datganiad; efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau pe bawn yn rhoi datganiad diweddaru ar ôl y toriad nesaf ar ein sefyllfa o ran yr ardaloedd menter. Ond gallaf eich sicrhau ein bod yn gwneud pob ymdrech i ddenu'r hyn a allwn i'r ardal fenter honno.

## Economi Tref Caerfyrddin

## The Economy of Carmarthen Town

14:10 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ynglŷn â datblygu economi tref Caerfyrddin? OAQ(4)0668(EST)[W]*

*9. What discussions has the Minister held regarding developing the economy of Carmarthen town? OAQ(4)0668(EST)[W]*

14:11 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The economy is a priority for Welsh Government and we are taking forward wide-ranging actions that are supporting jobs, growth and the employment environment in Carmarthen and the whole of Wales.

Mae'r economi yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac rydym yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu pellgyrhaeddol sy'n cefnogi swyddi, twf a'r amgylchedd cyflogaeth yng Nghaerfyrddin a Chymru gyfan.

14:11 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Weinidog. Rydym ni newydd gael newyddion da gan eich dirprwy, Ken Skates, ynglŷn â'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Rhan arall o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, wrth gwrs, yw'r diwydiant darlledu, ac mae gyda chi ddiddordeb, rwy'n gwybod, i weld y sector yna'n tyfu. Mae S4C wedi cadarnhau, beth bynnag am y toriadau i'w cyllideb, y bydden nhw'n symud eu pencadlys o Gaerdydd i Gaerfyrddin. Mae hynny yn ei hunan yn newyddion da, ond, wrth gwrs, i ddatblygu diwydiannau eraill o gwmpas hynny, mae eisiau gweld buddsoddiad ac mae eisiau gweld hyder yn nyfodol S4C a chyllid digonol. A ydych yn gallu ein diweddaru ni ynglŷn ag unrhyw newyddion rydych chi wedi ei gael gan Lywodraeth San Steffan ynglŷn â diwygio'r gyllideb a'r toriadau oedd yn mynd i fod yng nghyllideb S4C? Beth ydych chi'n ei wneud fel Llywodraeth i wneud yn siŵr bod diwydiannau eraill yn gallu bod yn 'spin-offs' nawr o sefydlu S4C yn nhref Caerfyrddin?

Thank you, Minister. We've just had some good news from your deputy, Ken Skates, on the publishing industry in Wales. Another part of the creative industries in Wales, of course, is broadcasting, and I know that you're interested in seeing that sector grow. S4C has confirmed that, whatever cuts they face in their budget, they will move their HQ from Cardiff to Carmarthen. That, in itself, is very good news, but, of course, in order to develop other industries around that, then we do need to see investment and we need to see confidence in the future of S4C and adequate funding. Can you give us any update on any news that you've received from the Government in Westminster on reform to the budget and the cuts that there were to be in S4C's budget? What are you as a Government doing to ensure that there are other industries that can be spin-offs from the establishment of S4C in Carmarthen town?

14:12 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think, like you, we very much welcome the decision of S4C to relocate its headquarters to Carmarthen, creating job opportunities locally and also encouraging more people to build around S4C, because I think we've seen the examples of where we've had a lead—when we had Pinewood in, what companies have come to link in to Pinewood. Also, for me, it's a very significant boost for the Welsh language in that area, which I think is very important for us in terms of what we want in Wales in terms of a bilingual Wales. I also think it's actually crucial to the future of the language that we have a broadcaster that is there, centred, and has work around it.

Fel chithau, rwy'n meddwl bod pawb ohonom yn croesawu penderfyniad S4C i adleoli ei phencadlys i Gaerfyrddin yn fawr iawn, gan y bydd yn creu cyfleoedd gwaith yn lleol a hefyd yn annog mwy o bobl i ddatblygu o gwmpas S4C, gan ein bod, rwy'n credu, wedi gweld yr enghreifftiau o ble rydym wedi arwain—pan oedd gennym Pinewood yma, pa gwmnïau a oedd â chysylltiad â Pinewood. Hefyd, i mi, mae'n hwb sylweddol iawn i'r Gymraeg yn yr ardal honno, sy'n bwysig iawn i ni yn fy marn i o ran yr hyn rydym ei eisiau yng Nghymru, sef Cymru ddwyieithog. Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn allweddol mewn gwirionedd i ddyfodol yr iaith fod gennym ddarlledwr sydd yno, yn y canol, a gwaith o'i gwmpas.

I have not got an update, but I will look at the up-to-date position and will ask the Deputy Minister to reply to you on that to make sure that I'm not giving any false information to Members on this particular matter. But, can I say, I thought the coracle industry might be a boost for Carmarthenshire in light of last week's comments? The thought of 100,000 armed coracles around Wales in light of the interest from the Department for Transport—it might be a very good use of manufacturing. [Laughter.]

Nid oes gennyf y wybodaeth ddiweddaraf, ond byddaf yn edrych ar y sefyllfa gyfredol ac yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog eich ateb ynghylch hynny i wneud yn siŵr nad wyf yn rhoi unrhyw wybodaeth anghywir i'r Aelodau ar y mater penodol hwn. Ond os caf fi ddweud, roeddwn i'n meddwl y gallai diwydiant cwryglau fod yn hwb i Sir Gaerfyrddin yng ngoleuni sylwadau yr wythnos diwethaf? Mae meddwl am 100,000 o gwryglau arfog o gwmpas Cymru yn wyneb y diddordeb gan yr Adran Drafnidiaeth—gallai fod yn ddefnydd da iawn o weithgynhyrchu. [Chwerthin.]

14:13 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, following on from Simon Thomas's question, will you ask or seek for the creative industries sector panel to perhaps look at putting together a defined plan for bringing the creative industries further west? We had a lost opportunity, as you know, at the Corran very recently to develop a music centre; we have the opportunity here, in Carmarthen, to further develop television, video and film production and, of course, Carmarthen as a great cultural centre, for developing the cultural element. Given the jobs that are leaking out of Carmarthen, as it was once a famous administration town and is now losing much of that skill base, I wondered if we might be able to replace it with a dedicated plan that looks at how we might be able to spread some of that jam that's rightly being earned by Swansea and Cardiff in terms of creative industries and bring them further west.

Weinidog, yn dilyn cwestiwn Simon Thomas, a wnewch chi ofyn neu geisio cael y panel sector diwydiannau creadigol i ystyried llunio cynllun penodol o bosibl ar gyfer dod â'r diwydiannau creadigol ymhellach i'r gorllewin? Fel y gwyddoch, collwyd cyfle i ddatblygu canolfan gerddoriaeth yn y Corran yn ddiweddar; mae gennym gyfle yma, yng Nghaerfyrddin, i ddatblygu gweithgarwch cynhyrchu teledu, fideo a ffilm ymhellach, a datblygu Caerfyrddin, wrth gwrs, fel canolfan ddiwylliannol wych, ar gyfer datblygu'r elfen ddiwylliannol. O ystyried y swyddi sy'n cael eu colli o Gaerfyrddin, gan ei bod unwaith yn dref weinyddol enwog a bellach yn colli llawer o'r sylfaen sgiliau honno, tybed a allem gael cynllun pwrpasol yn lle hynny sy'n edrych ar sut y gallem wasgaru rhywfaint o'r jam sy'n cael ei ennill yn haeddiannol gan Abertawe a Chaerdydd o ran y diwydiannau creadigol a dod â hwy ymhellach i'r gorllewin.

14:14 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Well, obviously, in terms of creative, you have in Llanelli Tinopolis and others—you know, they're a good centre. I think I will be discussing with the city region board the creative industries, and perhaps we need to look at more definitive plans for areas and expansion. What I will do is have a look at the baseline of jobs that are involved in creative further west than Swansea and write to the Member and then see if we can do any further work on that agenda.

Wel, yn amlwg, o ran y diwydiannau creadigol, mae gennych Tinopolis ac eraill yn Llanelli—wyddoch chi, maent yn ganol da. Rwy'n credu y byddaf yn trafod y diwydiannau creadigol gyda bwrdd y ddinas-ranbarth, ac efallai fod angen i ni edrych ar gynlluniau mwy pendant ar gyfer ardaloedd ac ar ehangu. Yr hyn y byddaf yn ei wneud yw edrych ar y llinell sylfaen o swyddi sy'n ymwneud â'r diwydiannau creadigol ymhellach i'r gorllewin nag Abertawe ac ysgrifennu at yr Aelod, er mwyn gweld a allwn wneud unrhyw waith pellach ar yr agenda honno.

Senedd.tv Fideo Video

## Datblygiad SA1

## The SA1 Development

14:14 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y datblygiad SA1 yn Abertawe? OAQ(4)0657(EST)*

*10. Will the Minister make a statement on the SA1 development in Swansea? OAQ(4)0657(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes. New residential developments are about to commence, and terms have been agreed to dispose of further land for development with the University of Wales Trinity Saint David.

Gwnaf. Mae datblygiadau preswyl newydd ar fin cychwyn, a thelerau wedi'u cytuno gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i ddefnyddio tir pellach ar gyfer datblygu.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Can I thank the Minister for that response? This mixed development in SA1 has been hugely successful so far. Can the Minister provide an update on University of Wales Trinity Saint David's development on the site and what is being done to improve the transport infrastructure?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw? Mae'r datblygiad cymysg hwn yn SA1 wedi bod yn hynod lwyddiannus hyd yn hyn. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar y safle a beth sy'n cael ei wneud i wella'r seilwaith trafnidiaeth?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes. I'm aware that my officials are currently discussing with the university their proposed development on the site and as part of that discussion we'll be looking at the transport infrastructure issues.

Gwnaf. Rwy'n ymwybodol fod fy swyddogion wrthi'n trafod eu datblygiad arfaethedig ar y safle gyda'r brifysgol ac yn rhan o'r drafodaeth honno byddwn yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â'r seilwaith trafnidiaeth.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Minister, we welcome the appointment of Kier to develop the first phase of the £300 million innovation quarter at SA1. Kier said the waterfront development should see the creation of 25 local jobs and 250 apprenticeships. What is the Welsh Government doing to ensure that we have young people with the right skill mix to capitalise on those apprenticeships and jobs?

Weinidog, rydym yn croesawu penodiad Kier i ddatblygu cam cyntaf yr ardal arloesi gwerth £300 miliwn yn SA1. Dywedodd Kier y dylai'r datblygiad glan y dŵr arwain at greu 25 o swyddi lleol a 250 o brentisiaethau. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gennym bobl ifanc sydd â'r cymysgedd sgiliau cywir i fanteisio ar y prentisiaethau a'r swyddi hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

We certainly have people that can capitalise on the opportunity for apprenticeships. We have excellent work going on in terms of developing apprenticeships, and construction has been first class in developing those individuals to go on to full-time permanent employment in the industry.

Yn sicr mae gennym bobl sy'n gallu manteisio ar y cyfle i ddilyn prentisiaethau. Mae gennym waith rhagorol ar y gweill ar ddatblygu prentisiaethau, ac mae'r maes adeiladu wedi bod ar y blaen yn datblygu unigolion i gamu ymlaen i waith parhaol amser llawn yn y diwydiant.

Senedd.tv Fideo Video

## Polisi Gwyddoniaeth

## Science Policy

14:15 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganiad am ddatblygu polisi gwyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(4)0665(EST)*

*11. Will the Minister make a statement on the development of science policy in Wales? OAQ(4)0665(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Since the publication of the 'Science for Wales' strategy, we've secured £100 million of Welsh Government, university and European funding to produce a step change in research capacity in Wales over the next seven years, supporting hundreds of talented researchers, mostly in early and mid career, building on Welsh research excellence.

Ers cyhoeddi strategaeth 'Gwyddoniaeth i Gymru', rydym wedi sicrhau £100 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru, prifysgolion ac Ewrop i greu newid sylweddol o ran capasiti ymchwil yng Nghymru dros y saith mlynedd nesaf, gan gefnogi cannoedd o ymchwilwyr dawnus, yn bennaf ar ddechrau neu ar ganol eu gyrfaoedd, gan adeiladu ar ragoriaeth ymchwil yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that reply. Does she believe that the Cardiff city region could become home to the establishment of the UK's first semiconductor cluster based in Cardiff University, and what is the Welsh Government doing in order to take that forward?

Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. A yw'n credu y gallai dinas-ranbarth Caerdydd ddod yn gartref ar gyfer sefydlu clwstwr lled-ddargludyddion cyntaf y DU ym Mhrifysgol Caerdydd, a beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fwrw ymlaen â hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Obviously, I think this is a very exciting development about the semiconductor. It's been excellent to see the relationship between the university sector and the industry. It'll be first-class to have that development here. We've been a very active partner in terms of dialogue and in terms of help and assistance, and we think it will be an enormous success story to get that type of investment here. But, that's a credit, I think, to the skills that exist within the economy and the skills that are within Cardiff University.

Yn amlwg, rwy'n credu bod y datblygiad hwn ym maes lled-ddargludyddion yn un cyffrous iawn. Mae wedi bod yn wych gweld y berthynas rhwng y sector prifysgolion a'r diwydiant. Bydd cael y datblygiad hwnnw yma yn ardderchog. Rydym wedi bod yn bartner gweithgar iawn o ran deialog ac o ran help a chymorth, a chredwn y byddai cael y math hwnnw o fuddsoddiad yma yn stori lwyddiant enfawr. Ond mae hynny'n glod, rwy'n meddwl, i'r sgiliau sy'n bodoli o fewn yr economi a'r sgiliau ym Mhrifysgol Caerdydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Last month, I had the pleasure of being a guest at Techniquest Glyndŵr for the event celebrating the launch of the UK's first official astronaut at the international space station. I know the Welsh Government, in particular, was involved—I think you personally were at the launch in Cardiff. How is the Welsh Government engaging with Techniquest Glyndŵr, as one of the 20 UK science discovery centres participating in Destination Space, to help develop science policy in north Wales?

Y mis diwethaf, cefais y pleser o fod yn westai yn Techniquest Glyndŵr ar gyfer digwyddiad i ddathlu taith gofodwr cyntaf swyddogol y DU i'r orsaf ofod ryngwladol. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru, yn arbennig, yn gysylltiedig â hyn—rwy'n meddwl eich bod chi'n bersonol yn y lansiad yng Nghaerdydd. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Techniquest Glyndŵr, fel un o'r 20 canolfan darganfod gwyddoniaeth yn y DU sy'n cymryd rhan yn Destination Space, i helpu i ddatblygu polisi gwyddoniaeth yng ngogledd Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

The fact that we've got an astronaut up there now has made a great deal of difference, I think, to people looking at space and the opportunities that there are. It's been really quite exciting to hear what he said from space and what's been done. Obviously, we engage; the chief scientific adviser engages, and we want to have further engagement on this particular agenda, because it is exciting for young people to know what can be achieved.

Mae'r ffaith fod gennym ofodwr i fyny yno yn awr wedi gwneud llawer iawn o wahaniaeth, rwy'n meddwl, i bobl sy'n edrych ar y gofod a'r cyfleoedd sydd i'w cael. Mae wedi bod yn eithaf cyffrous clywed yr hyn a ddywedodd o'r gofod a'r hyn sy'n cael ei wneud. Yn amlwg, rydym yn rhan o hyn; mae'r prif gynghorydd gwyddonol yn rhan o hyn, ac rydym yn awyddus i gael ymgysylltiad pellach â'r agenda benodol hon, gan ei bod yn gyffrous i bobl ifanc wybod beth y gellir ei gyflawni.

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

## 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

## 2. Questions to Counsel General

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

14:17

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We now move to item 2, which is questions to the Counsel General. Question 1 is from Simon Thomas.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. Daw cwestiwn 1 gan Simon Thomas.

**Bil Undebau Llafur**

**The Trade Union Bill**

14:17

### Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*1. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith eraill ynglŷn â'r goblygiadau cyfreithiol i Gymru o'r Bil Undebau Llafur? OAQ(4)0091(CG)[W]*

*1. What discussions has the Counsel General had with other law officers regarding the legal implications to Wales of the Trade Union Bill? OAQ(4)0091(CG)[W]*

14:18

### Theodore Huckle

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Good afternoon, everyone. It is not my intention to make statements about discussions I have had with law officers or to disclose the content of any such discussions. This is an established convention designed to preserve the confidentiality of those discussions and the relationship between law officers.

Prynhawn da, bawb. Nid yw'n fwriad gennyf wneud datganiadau am y trafodaethau rwyf wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith na datgelu cynnwys unrhyw drafodaethau o'r fath. Mae hwn yn gonfensiwn sefydledig a luniwyd i gynnal cyfrinachedd y trafodaethau hynny a'r berthynas rhwng swyddogion y gyfraith.

14:18

### Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol.

I thank the Counsel General.

Not long to go now; don't worry.

Nid oes llawer o amser i fynd yn awr; peidiwch â phoeni.

Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cylchredeg i ni heddiw nifer o welliannau y mae e wedi gofyn i Lywodraeth San Steffan eu dodi yn y Mesur yma er mwyn hepgor Cymru o'r rhannau o'r Mesur sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus. Rwy'n meddwl bod y gwelliannau yn edrych yn iawn, ond nid wyf yn gyfreithiwr; rydych chi, wrth gwrs, yn gyfreithiwr, yn fargyfreithiwr ac yn Gwnsler Cyffredinol. Felly, a ydych chi yn gallu cadarnhau i'r Cynulliad bod y gwelliannau yma yn briodol ac yn rhai a fyddai yn gwneud y tro o ran hepgor gwasanaethau cyhoeddus Cymru o oblygiadau cyfreithiol y Bil hwn? Ac os nad yw Llywodraeth San Steffan yn derbyn y gwelliannau—wel, yn fwy priodol, os nad yw Senedd San Steffan yn derbyn y gwelliannau hyn—a yw'n fwriad, felly, gan Lywodraeth Cymru i lunio Mesur priodol i'r lle yma i'w ystyried, ac i ymladd, os oes angen, y Mesur hwnnw drwy a hyd at y Goruchaf Lys?

The Minister for Public Services has circulated to us today a number of amendments that he's asked the Westminster Government to make to this Bill in order to exclude Wales from sections of the Bill related to public services. I think that they look fine, but I'm no lawyer; you, of course, are a lawyer, a barrister and Counsel General. So, can you confirm to this Assembly that these amendments are appropriate and are ones that would suffice in excluding Welsh public services from the legal implications of this Bill? If the Westminster Government doesn't accept those changes or amendments—or if the Parliament in Westminster doesn't accept these amendments—then is it the Welsh Government's intention to draw up an appropriate Bill for this place's consideration, and to fight, if need be, that Bill through the Supreme Court?

14:19

### Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Firstly, I don't think it would be appropriate for me to offer advice as such to this Assembly on the legality of the amendments sought, but I suppose there's probably an implication or an inference to be drawn by the fact that one of the Ministers in the Government of which I'm a part has been making certain representations to Westminster about appropriate amendments. That's the first point.

Yn gyntaf, nid wyf yn credu y byddai'n briodol i mi gynnig cyngor fel y cyfryw i'r Cynulliad hwn ar gyfreithlondeb y gwelliannau a geisir, ond tybiaf, yn ôl pob tebyg, fod goblygiad neu gasgliad i ddod iddo yn sgil y ffaith fod un o Weinidogion y Llywodraeth rwy'n rhan ohoni wedi bod yn cyflwyno sylwadau i San Steffan ynglŷn â gwelliannau priodol. Dyna'r pwynt cyntaf.

Secondly, in relation to the ability of this Assembly to make provision by changing or reversing or amending the effect of the provisions that may find their way ultimately into the Trade Union Bill, it is implicit in the assertion that a legislative consent motion is required—and Members know that one has been laid and is to be debated next week, as I understand it—that the Government's position is that provisions of the trade union Bill do engage the legislative competence of this Assembly. Therefore, it follows that, in those respects, this Assembly is free, in the view of the Government, to make provision.

Yn ail, o ran gallu'r Cynulliad hwn i wneud darpariaeth drwy newid neu wrthdroi neu ddiwygio effaith y darpariaethau a allai ddeillio yn y pen draw i'r Bil Undebau Llafur, mae'n ymhlyg yn yr honiad fod gofyn cael cynnig cydsyniad deddfwriaethol—a gŵyr yr Aelodau fod un wedi'i osod gerbron ac i'w drafod yr wythnos nesaf, yn ôl a ddeallaf—mai safbwynt y Llywodraeth yw bod darpariaethau'r Bil undebau llafur yn arfer cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad hwn. Felly, mae'n dilyn, yn hynny o beth, fod y Cynulliad hwn yn rhydd, ym marn y Llywodraeth, i wneud darpariaeth.

## Bil Cymru Drafft

## The Draft Wales Bill

14:20 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith eraill am y 'prawf angenrheidrwydd' ym Mil Cymru drafft? OAQ(4)0092(CG)[W]*

*2. What meetings has the Counsel General held with other law officers regarding the 'necessity test' in the draft Wales Bill? OAQ(4)0092(CG)[W]*

14:20 **Theodore Huckle**

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It's not my intention to say whether I have spoken with other law officers on this matter or not. The established convention is that neither law officers' advice, nor whether their advice has been given or sought, is disclosed, which maintains the confidentially of discussions between law officers.

Nid yw'n fwriad gennyf ddweud a wyf wedi siarad â swyddogion eraill y gyfraith ar y mater hwn ai peidio. Y confensiwn sefydledig yw na ddatgelir cyngor gan swyddogion y gyfraith, nac ychwaith a yw eu cyngor wedi'i roi neu wedi'i geisio, sy'n cynnal cyfrinachedd trafodaethau rhwng swyddogion y gyfraith.

14:21 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch eto i'r Cwnsler Cyffredinol am yr ateb arferol. Bydd y Cwnsler Cyffredinol wedi darllen adroddiad cynhwysfawr iawn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, o dan gadeiryddiaeth David Melding, a oedd yn edrych yn ofalus iawn ar y mater yma. Gobeithio, hefyd, ei fod wedi gweld y drafodaeth a gawsom yr wythnos diwethaf, a oedd yn trafod y mater yma yn drwyadl iawn hefyd. Beth sydd wedi cael ei argymell, wrth gwrs, yn yr adroddiad hwnnw, yw ein bod ni'n disodli'r prawf angenrheidrwydd gyda rhyw fath o brawf arall ynglŷn â phriodoldeb y gwelliant dan sylw. Wrth gwrs, ni fyddai angen dim o hynny pe bai rhyw fath o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar ryw lefel gennym ni yng Nghymru, ond a ydych chi mewn unrhyw sefyllfa i ddweud a yw pobl wedi trafod neu godi unrhyw broblemau gyda'r awgrym sydd yn adroddiad y pwyllgor cyfansoddiadol ynglŷn â'r materion hyn? Mae rhai yn awgrymu wrthyf fi bod hyd yn oed prawf priodoldeb yn gallu bod cyn waethed â phrawf angenrheidrwydd o safbwynt cyfyngu ar allu'r Cynulliad hwn i ddeddfu.

Thank you once again to the Counsel General for the usual answer. The Counsel General will have read the very comprehensive report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, chaired by David Melding, which look very carefully at this particular issue. Hopefully, he will also have seen the debate that we had last week that discussed this issue very thoroughly indeed also. What is being recommended in that report, of course, is that we replace the necessity test with some sort of other test in terms of the appropriateness of the proposal. Now, none of that would be needed, of course, if there was some sort of separate legal jurisdiction at some level here in Wales, but are you in a position to tell us whether people have discussed or raised any problems with this suggestion contained in the Constitutional and Legislative Affairs Committee report on these issues? Some people are suggesting that, even an appropriateness test could be as damaging as a necessity test in terms of limiting the ability of this Assembly to legislate.

14:22 **Theodore Huckle**

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

As I understand it, the appropriateness test is an attempt to reflect what is already present in section 108(5). The simple answer is that it's the position of the Government, as has been well articulated by the First Minister, that no test at all is required. And I don't think I really need to say any more than that, do I? Sorry, I wasn't meaning to ask you a question. [Laughter.]

Yn ôl a ddeallaf, mae'r prawf priodoldeb yn ymgais i adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn bresennol yn adran 108(5). Yr ateb syml yw mai safbwynt y Llywodraeth, fel y'i mynegwyd yn dda gan y Prif Weinidog, yw nad oes angen prawf o gwbl. Ac nid wyf yn credu bod angen i mi ddweud mwy na hynny mewn gwirionedd, oes 'na? Mae'n ddrwg gennyf, nid oeddwn yn bwriadu gofyn cwestiwn i chi. [Chwerthin.] Byddai'n newid o'r—[Anghlywadwy.] Rwy'n cytuno. [Chwerthin.]

14:22

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It would make a change from the—[Inaudible.] I agree. [Laughter.]

14:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Right, shall we now move to question 3, then, from Mick Antoniw?

Iawn, a gawn ni symud at gwestiwn 3, felly, gan Mick Antoniw?

### Peiriannau Hapchwarae

### Gambling Machines

14:22

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*3. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gydag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol ynghylch cynnwys cyfrifoldeb am beiriannau hapchwarae ods sefydlog ym Mil Cymru drafft? OAQ(4)0089(CG)*

*3. What discussions has the Counsel General had with members of the legal profession regarding the inclusion of responsibility for fixed-odds gambling machines within the draft Wales Bill? OAQ(4)0089(CG)*

14:23

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I've had no discussions with members of the legal profession about this issue. The Welsh Government's position is that powers to restrict fixed-odds gaming machines should be devolved to Wales, and the First Minister wrote to the Secretary of State on 7 August 2015 to that effect.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gydag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol ynghylch y mater hwn. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylid datganoli pwerau i gyfyngu ar beiriannau hapchwarae ods sefydlog i Gymru, ac ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 7 Awst 2015 i nodi hynny.

14:23

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I welcome that response, Counsel General. Of course, it is a matter that's been passed down to the Scottish Parliament. Obviously, this Assembly has made its own views felt in an individual Member motion that was overwhelmingly passed in this Chamber stating that that should be the case. In terms of the deliberations, communications or discussions that you may have had that you are able to disclose, has any substantive position been given—any explanatory position—as to why it would not be appropriate to do so?

Rwy'n croesawu'r ymateb hwnnw, Gwnsler Cyffredinol. Wrth gwrs, mae'n fater sydd wedi'i drosglwyddo i lawr i Senedd yr Alban. Yn amlwg, mae'r Cynulliad hwn wedi cyflwyno'i safbwyntiau mewn cynnig Aelod unigol a basiwyd drwy fwyafrif mawr yn y Siambr hon yn datgan mai felly dylai fod. O ran yr ymgynghori, y cyfathrebu neu'r trafodaethau y gallech fod wedi'u cael ac y gallwch eu datgelu, a roddwyd unrhyw safbwynt cadarn—unrhyw safbwynt eglurhaol—ynglŷn â pham na fyddai'n briodol gwneud hynny?

14:24

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It was 36 in favour, 0 against and 14 abstentions, I think. No, I'm not aware of such an explanatory position. My understanding is that the First Minister's written about it, and a copy of that letter was made available to the Assembly. It follows from the fact that a copy of a response hasn't yet been made available to the Assembly that there is not yet a substantive response.

Yr oedd 36 o blaid, neb yn erbyn a 14 yn ymatal, rwy'n meddwl. Na, nid wyf yn ymwybodol o safbwynt eglurhaol o'r fath. Fy nealltwriaeth i yw bod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu amdano, ac roedd copi o'r llythyr hwnnw ar gael i'r Cynulliad. Mae'n dilyn o'r ffaith nad oes copi o'r ymateb ar gael i'r Cynulliad hyd yn hyn na chafwyd ymateb cadarn eto.

### Bil Undebau Llafur

### Trade Union Bill

14:24

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*4. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda chydweithwyr yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban am y Bil Undebau Llafur? OAQ(4)0090(CG)*

*4. What discussions has the Counsel General had with counterparts in Northern Ireland and Scotland regarding the Trade Union Bill? OAQ(4)0090(CG)*

14:24

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I am tempted to say that I refer the honourable Member to the answer I gave about five minutes ago, but it's not my intention to make statements about discussions I've had with law officers or to disclose the content of any such discussions. This is an established convention designed to preserve the confidentiality of those discussions and the relationship between law officers.

Wel, caf fy nhemtio i ddweud fy mod yn cyfeirio'r Aelod anrhydeddus at yr ateb a roddais tua phum munud yn ôl, ond nid yw'n fwriad gennyf wneud datganiadau ynghylch trafodaethau a gefais gyda swyddogion y gyfraith nac i ddatgelu cynnwys unrhyw drafodaethau o'r fath. Mae hwn yn gonfensiwn sefydledig luniwyd i gynnal cyfrinachedd y trafodaethau hynny a'r berthynas rhwng swyddogion y gyfraith.

14:24

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I appreciate that response, Counsel General. You may have seen the advice that's been provided by Hefin Rees QC on behalf of the Wales TUC that raises a number of serious constitutional issues. In your opinion, does the Sewell convention require that the UK Government should seek the authority of this Chamber in order to implement the trade union Bill insofar as it relates to Wales? And, are you aware of any explanatory position or argument that has been put so far, as to why that has not been done and is not the case at the moment?

Diolch. Rwy'n derbyn yr ymateb hwnnw, Gwnsler Cyffredinol. Efallai eich bod wedi gweld y cyngor a ddarparwyd gan Hefin Rees QC ar ran TUC Cymru sy'n codi nifer o faterion cyfansoddiadol difrifol. Yn eich barn chi, a yw confensiwn Sewell yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU geisio awdurdod y Siambr hon er mwyn gweithredu'r Bil undebau llafur i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru? Ac a ydych yn ymwybodol o unrhyw safbwynt neu ddadl eglurhaol a roddwyd hyd yn hyn ynglŷn â pham nad yw hynny wedi'i wneud a pham nad yw hynny'n wir ar hyn o bryd?

14:25

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

Firstly, the question was put by reference to the advice of a colleague of mine at the bar. I don't propose to comment directly on that. It's safe to say that Members will be aware that the First Minister has made clear that we do not, as a Government, necessarily agree with it in its entirety—for example, in relation to the constitutionality of the UK enacting a trade union Bill at all. But, it is clearly the position of the Welsh Government that the Bill does engage the legislative competence of this Assembly, and that is why the Minister for Public Services laid the LCM, which is to be debated next week, as I've already said.

Yn gyntaf, gofynnwyd y cwestiwn drwy gyfeirio at gyngor cydweithiwr i mi wrth y Bar. Nid wyf yn bwriadu rhoi sylwadau uniongyrchol ar hynny. Mae'n ddiogel dweud y bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod y Prif Weinidog wedi datgan yn glir nad ydym, fel Llywodraeth, o reidrwydd yn cytuno ag ef yn ei gyfanrwydd—er enghraifft, mewn perthynas â pha mor gyfansoddiadol yw hi fod y DU yn rhoi Bil undebau llafur mewn grym o gwbl. Ond mae'n amlwg mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod y Bil yn defnyddio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad hwn, a dyna pam y cyflwynodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus y cynnig cydsyniad deddfwriaethol a fydd yn cael ei drafod yr wythnos nesaf, fel y dywedais eisoes.

As far as explanations are concerned, I'm not aware of any particular form of explanation. There is a well-known assertion in a letter of the Minister of State for Skills and Enterprise last July that the Bill relates to industrial relations law that, along with employment more generally, is currently a non-devolved matter, with which of course, we thoroughly disagree.

O ran esboniadau, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fath penodol o esboniad. Ceir honiad adnabyddus mewn llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Sgiliau a Menter fis Gorffennaf diwethaf bod y Bil yn ymwneud â chyfraith cysylltiadau diwydiannol sydd, ynghyd â chyflogaeth yn fwy cyffredinol, yn fater heb ei ddatganoli ar hyn o bryd, a byddem yn anghytuno'n llwyr â hynny wrth gwrs.

14:26

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Counsel General.

Diolch i chi, Gwnsler Cyffredinol.

14:26

# 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

# 3. Questions to the Assembly Commission

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

There are no questions tabled to the Assembly Commission.

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad.

14:26

## 4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Deddfu yng Nghymru

## 4. Debate on the Constitutional and Legislative Affairs Committee's Report on Making Laws in Wales

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We move to item 4, which is a debate on the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report on making laws in Wales. I call on the Chair of the committee, David Melding.

Symudwn at eitem 4, sef dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ddeddfu yng Nghymru. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, David Melding.

Cynnig NDM5922 David Melding

Motion NDM5922 David Melding

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i Deddfu yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Hydref 2015.

Notes the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on its inquiry into Making Laws in Wales, laid in the Table Office on 8 October 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:27

### David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer.

Diolch i chi, Lywydd.

Good law is relevant and coherent. It is important to the citizen, and, often unseen, shapes the way we live our lives. The Assembly's core function is to make many of the laws that affect the daily lives of Welsh citizens. Making law is clearly an integral part of our democratic process, and respect for the legislative process is key to the effective rule of law.

Mae cyfraith dda yn berthnasol ac yn gydlynol. Mae'n bwysig i'r dinesydd, ac, yn aml yn anweledig, yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn byw ein bywydau. Swyddogaeth graidd y Cynulliad yw creu deddfau sy'n effeithio ar fywydau dinasyddion Cymru o ddydd i ddydd. Mae deddfu'n amlwg yn rhan annatod o'n proses ddemocrataidd, a pharch tuag at y broses ddeddfwriaethol yn allweddol i reolaeth effeithiol y gyfraith.

It is right, therefore, that, periodically, we review the process by which we make our laws, drawing not only on our own experiences as legislators, but also of those affected by the laws that we make. We believe the Assembly has shown itself to be an effective legislature. However, the task of keeping a legislative process effective and responsive is unremitting.

Mae'n iawn, felly, ein bod o bryd i'w gilydd yn adolygu'r broses a ddefnyddiwn ar gyfer deddfu, gan bwyso nid yn unig ar ein profiadau ein hunain fel deddfwyr, ond hefyd ar brofiadau'r rhai yr effeithir arnynt gan y deddfau a luniwn. Credwn fod y Cynulliad wedi dangos ei fod yn ddeddfwrfa effeithiol. Fodd bynnag, mae'r dasg o gadw proses ddeddfwriaethol yn effeithiol ac yn ymatebol yn un ddiarbed.

Best practice must be maintained and new challenges met with a spirit of innovation. The recommendations we make in our report are aimed at delivering continuous improvement.

Rhaid cynnal arfer gorau a goresgyn heriau newydd mewn ysbryd arloesol. Nod yr argymhellion a wnawn yn ein hadroddiad yw cyflawni gwelliant parhaus.

Before I proceed, I wish to thank all those who gave evidence to our inquiry, either through oral or written evidence, or by participating in our stakeholder event. And special thanks go to our expert panel who considered an early draft of our report. Once again, our secretariat served us with the highest distinction and enabled us to produce such a coherent and, I think, groundbreaking report. We particularly welcomed the Welsh Government's participation and the significant time it gave to the inquiry.

Cyn i mi barhau, hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad, drwy dystiolaeth lafar neu'n ysgrifenedig, neu drwy gymryd rhan yn ein digwyddiad i randdeiliaid. A diolch yn arbennig i'n panel o arbenigwyr a fu'n ystyried drafft cynnar o'n hadroddiad. Unwaith eto, mae ein hysgrifenyddiaeth wedi gwasanaethu yn y modd mwyaf rhagorol ac wedi ein galluogi i gynhyrchu adroddiad mor gydlynol, ac arloesol hefyd yn fy marn i. Croesawyd yn arbennig gyfranogiad Llywodraeth Cymru a'r amser sylweddol a roddodd i'r ymchwiliad.

We made 34 recommendations aimed at the Welsh Government, the Assembly's Business Committee and the Assembly Commission. It's our most comprehensive report to date. We welcome the positive nature of the Commission's response on the points that relate to its role. It is also pleasing to see the Business Committee welcome the recommendations aimed at enhancing the Assembly's procedures, and we look forward to seeing the proposals it brings forward for consideration by the Assembly.

Gwnaethom 34 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Busnes y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad. Dyma ein hadroddiad mwyaf cynhwysfawr hyd yn hyn. Rydym yn croesawu natur gadarnhaol ymateb y Comisiwn ar y pwyntiau sy'n ymwneud â'i rôl. Mae hefyd yn dda gweld y Pwyllgor Busnes yn croesawu'r argymhellion ar gyfer gwella gweithdrefnau'r Cynulliad, ac edrychwn ymlaen at weld y cynigion y mae'n eu cyflwyno i'w hystyried gan y Cynulliad.

In its response, the Welsh Government chose to highlight the potential cumulative impact on the length of the legislative process, Assembly Members' time and Government Plenary time, as well as internal financial constraints. I must say, I found that tone a little disappointing, though, it is fair to say that, in many of the responses to our recommendations, there is productive engagement. But, I do hope, in the Government's reply this afternoon, we can get a fuller sense of the Government's direction of travel.

Yn ei hymateb, dewisodd Llywodraeth Cymru dynnu sylw at yr effaith gronnus bosibl ar hyd y broses ddeddfwriaethol, amser Aelodau'r Cynulliad ac amser Cyfarfodydd Llawn y Llywodraeth, yn ogystal â chyfyngiadau ariannol mewnol. Rhaid i mi ddweud, teimlwn fod yr oslef braidd yn siomedig, er ei bod yn deg dweud y ceir ymgysylltiad cynhyrchiol mewn llawer o'r ymatebion i'n hargymhellion. Ond rwy'n gobeithio, yn ateb y Llywodraeth y prynhawn yma, y gallwn gael ymdeimlad llawnach o gyfeiriad teithio'r Llywodraeth.

Clearly, making laws involves what can, at times, be a slightly uncomfortable partnership between the Executive and the legislature. This is true all over the democratic world. The Executive feels both the need and the right to secure the business for which it holds a democratic mandate. The legislature feels the duty to subject legislation to a sufficiently thorough scrutinising and revising process, to ensure that it adds value, as part of the democratic process.

Yn amlwg, ar adegau gall deddfu fod yn bartneriaeth braidd yn anghyfforddus rhwng y Weithrediaeth a'r ddeddfwrfa. Mae hyn yn wir ledled y byd democrataidd. Mae'r Weithrediaeth yn teimlo'r angen a'r hawl i sicrhau'r busnes y mae ganddi fandad democrataidd drosto. Mae'r ddeddfwrfa'n teimlo dyletswydd i wneud deddfwriaeth yn destun proses graffu ac adolygu sy'n ddigon trwyadl, i sicrhau ei bod yn ychwanegu gwerth, fel rhan o'r broses ddemocrataidd.

In highlighting some of our recommendations, I wish, first, to touch on recommendations 1 and 2, regarding the Welsh Government's internal approach and co-ordination. These recommendations are concerned with enhancing the clarity in relation to its internal procedures and responsibilities for legislative policy development—a key task of Government. The Welsh Government has accepted them in part. They are based predominantly around the evidence we heard from the First Minister and other key officials. We felt it necessary to make such recommendations because of the impact the Welsh Government's approach has on the Assembly's ability to effectively scrutinise the legislation presented to it. I note and welcome the Welsh Government's commitment, in its covering submission, regarding the management of its legislative programme. The more efficient and transparent all aspects of the legislative process are, the greater the likelihood there is of producing the highest quality law possible.

Wrth dynnu sylw at rai o'n hargymhellion, hoffwn gyffwrdd yn gyntaf ag argymhellion 1 a 2, ynghylch dull gweithredu a chydlyniant mewnol Llywodraeth Cymru. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â gwella eglurder mewn perthynas â'i gweithdrefnau a'i chyfrifoldebau mewnol ar gyfer datblygu polisi deddfwriaethol—tasg allweddol i Lywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi'u derbyn yn rhannol. Maent yn seiliedig yn bennaf ar y dystiolaeth a glywsom gan y Prif Weinidog a swyddogion allweddol eraill. Teimlem fod angen gwneud argymhellion o'r fath oherwydd effaith dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar allu'r Cynulliad i graffu'n effeithiol ar y ddeddfwriaeth a gyflwynir iddo. Rwy'n nodi ac yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru, yn ei chyflwyniad eglurhaol, ynghylch rheolaeth ei rhaglen ddeddfwriaethol. Po fwyaf effeithlon a thryloyw yw pob agwedd ar y broses ddeddfwriaethol, y mwyaf yw'r tebygolrwydd o gynhyrchu cyfraith o'r ansawdd gorau posibl.

Consultation, as was made clear to us in evidence, is an effective method of influencing the development of legislative policy. We believe more can be done to ensure a smooth process of engagement between the citizen, the Welsh Government and the Assembly in the production of legislation, for example in pre-legislative scrutiny. This provides an opportunity for the Welsh Government to satisfy the Assembly that a proposal is ready to be introduced as a Bill. But it is also an opportunity for the Assembly to satisfy itself that the interests and concerns of stakeholders have been identified and reflected in the policy development. We share the view of the Auditor General for Wales that pre-legislative scrutiny aids the whole scrutiny process.

Mae ymgynghori, fel y gwnaed yn glir i ni mewn tystiolaeth, yn ddull effeithiol o ddylanwadu ar ddatblygiad polisi deddfwriaethol. Rydym yn credu y gellir gwneud mwy i sicrhau proses ddidrafferth o ymgysylltu rhwng y dinesydd, Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad wrth gynhyrchu deddfwriaeth, er enghraifft yn ystod y broses o graffu cyn deddfu. Mae hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru fodloni'r Cynulliad fod cynnig yn barod i gael ei gyflwyno fel Bil. Ond mae hefyd yn gyfle i'r Cynulliad fodloni ei hun fod buddiannau a phryderon rhanddeiliaid wedi'u nodi a'u hadlewyrchu wrth ddatblygu polisi. Rydym yn rhannu barn Archwilydd Cyffredinol Cymru fod craffu cyn deddfu yn cynorthwyo'r broses graffu gyfan.

The Government accepted recommendation 5 about publishing financial memoranda alongside draft Bills. However, we were disappointed to see the Government reject recommendation 3 regarding a presumption in favour of publishing draft Bills—for some time now acknowledged best practice. This represents an opportunity missed, and I would ask the Welsh Government to explain its reasoning in more detail. On a more positive note, I welcome the value the Assembly Commission places on draft Bills, and its intention to ensure that guidance on Members' Bills should incorporate recommendations 3 and 5 as best practice.

Derbyniodd y Llywodraeth argymhelliad 5 am gyhoeddi memoranda ariannol ochr yn ochr â Biliau drafft. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig o weld y Llywodraeth yn gwrthod argymhelliad 3 yn ymwneud â rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau drafft—sy'n cael ei gydnabod yn arfer gorau ers peth amser bellach. Mae hwn yn gyfle a gollwyd, a byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru esbonio ei rhesymau yn fanylach. Ar nodyn mwy cadarnhaol, croesawaf y gwerth y mae Comisiwn y Cynulliad yn ei osod ar Filiau drafft, a'i fwriad i sicrhau y dylai canllawiau ar Filiau Aelodau ymgorffori argymhellion 3 a 5 fel arfer gorau.

One of our principal concerns about Bills in the fourth Assembly has been that the balance between the detail provided on the face of Bills, and that which is left to subordinate legislation, is not right. This has led to the creation of what we have called framework Bills. We received a lot of evidence sharing our view, and recommendations 6, 7 and 8 sought to address this issue. While the Welsh Government has only accepted them in part, I welcome their commitment to undertake a review, and to publish the outcome. I am sure that our successor committee will want to monitor closely the extent to which the Government's legislation moves away from such framework Bills.

Un o'n prif bryderon ynglŷn â Biliau yn y pedwerydd Cynulliad oedd nad yw'r cydbwysedd rhwng y manylion a ddarperir ar wyneb Biliau a'r hyn a adewir i is-ddeddfwriaeth yn iawn. Mae hyn wedi arwain at greu'r hyn rydym wedi'i alw'n Filiau fframwaith. Daeth llawer o dystiolaeth i law a oedd yn rhannu ein barn ni, ac roedd argymhellion 6, 7 ac 8 yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn. Er mai eu derbyn yn rhannol yn unig y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud, rwy'n croesawu ei hymrwymiad i gynnal adolygiad ac i gyhoeddi'r canlyniadau. Rwy'n sicr y bydd ein pwyllgor olynol eisiau monitro'n agos i ba raddau y mae deddfwriaeth y Llywodraeth yn symud oddi wrth Filiau fframwaith o'r fath.

The accuracy of Bills on introduction was also raised in evidence with us. We recommended that the Welsh Government only introduces Bills that can be reasonably considered to be fully developed at the point of introduction. This is important because it enables committees to engage fully with stakeholders at Stage 1, and, thus, thoroughly scrutinise the impact of Bills. It also inspires public confidence in the legislative process. Ensuring that the Welsh Government's Bills are fully developed at introduction will ensure that amending stages are not focused on improving the Bill as introduced—sorry, that they are focused on improving the Bill as introduced. The Assembly should not have to grapple at amending stages with new Government proposals that, for whatever reason, were not ready, or available, at the time of introduction. It really does disturb the scrutiny process if new policy ideas are suddenly introduced at an amending stage and, therefore, cannot have the full benefit of a Stage 1 scrutiny process.

Crybwyllwyd cywirdeb Biliau wrth gael eu cyflwyno yn y dystiolaeth hefyd. Gwnaethom argymhelliad na ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Biliau oni ellir ystyried yn rhesymol eu bod wedi'u datblygu'n llawn ar yr adeg y cânt eu cyflwyno. Mae hyn yn bwysig am ei fod yn galluogi pwyllgorau i ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid yng Nghyfnod 1, a chraffu'n drylwyr felly ar effaith Biliau. Mae hefyd yn ennyn hyder y cyhoedd yn y broses ddeddfwriaethol. Bydd sicrhau bod Biliau Llywodraeth Cymru wedi'u datblygu'n llawn wrth eu cyflwyno yn sicrhau nad yw'r cyfnodau diwygio yn canolbwyntio ar wella'r Bil fel y'i cyflwynwyd—mae'n ddrwg gennyf, eu bod yn canolbwyntio ar wella'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Ni ddylai'r Cynulliad orfod ymgodymu ar y cyfnodau diwygio â chynigion newydd gan y Llywodraeth nad oeddent, am ba reswm bynnag, yn barod, neu ar gael, ar adeg cyflwyno'r Bil. Mae'n tarfu o ddifrif ar y broses graffu os caiff syniadau polisi newydd eu cyflwyno'n sydyn yn ystod y cyfnod diwygio gan olygu felly na allant elwa'n llawn ar broses graffu Cyfnod 1.

Before I move to discuss the accessibility of legislation, I am surprised by the Government's rejection of recommendation 16. This relates to the co-drafting of Bills in both of our official languages. It says that, while it has benefits in some cases, it is not necessarily an efficient model for preparing most Bills. I have to say we find this strange, but we would welcome the Welsh Government's full explanation for taking this particular view. We feel that it's important for the culture of Welsh devolution that we see a truly bilingual process to law making strengthen.

Cyn i mi symud ymlaen i drafod hygyrchedd deddfwriaeth, caf fy synnu gan y ffaith fod y Llywodraeth yn gwrthod argymhelliad 16. Mae'n ymwneud â chyd-ddrafftio Biliau yn ein dwy iaith swyddogol. Mae'n dweud, er ei fod o fudd mewn rhai achosion, nid yw o reidrwydd yn fodel effeithiol ar gyfer paratoi y rhan fwyaf o Filiau. Mae'n rhaid i mi ddweud ein bod yn gweld hyn yn rhyfedd, ond byddem yn croesawu eglurhad llawn Llywodraeth Cymru am fabwysiadu'r safbwynt hwn. Teimlwn ei bod yn bwysig i ddiwylliant datganoli yng Nghymru ein bod yn gweld proses wirioneddol ddwyieithog o ddeddfu yn cael ei chryfhau.

Running as a consistent thread throughout our report is the matter of accessibility to legislation for the citizen. Accessibility is important to enable effective engagement in the legislative process, for example through publishing draft Bills or ensuring Bills are fully developed on introduction. Our recommendations about improving the content of explanatory memoranda and the preparing of Keeling schedules are also aimed at improving access to the law for the people of Wales.

I note that the Welsh Government intends to consider how its memoranda can be improved prior to the fifth Assembly. However, I trust that it will look to review its overall approach, as we recommended, as soon as the Business Committee has made decisions about our suggested changes to Standing Orders in respect of explanatory memoranda.

A coherent, well-ordered statute book is key to the rule of law. Its ease of accessibility to the citizen should be paramount. And here, in Wales, we could really establish best practice and not be encumbered by the full tradition of England and Wales law making. Consolidating legislative texts represents, in our view, good practice. It removes the complexity arising from the continual re-amending of previous texts and contributes to making law more accessible.

As such, we recommended that the Welsh Government collaborates with the Law Commission to develop a long-term plan for consolidating law in Wales. We note the Welsh Government's acceptance in part of this recommendation because of the ongoing work of the Law Commission. We hope that once the current work is complete, the Government will give serious consideration to devoting time and resource to this important task.

We also make a recommendation about the collaboration with the National Archives to improve the accessibility of legislative texts for all citizens, and I particularly welcome the Assembly Commission's positive response.

A number of our recommendations related to the opportunities given to the Assembly for effective scrutiny. We look forward to seeing how the Business Committee intends to take these forward.

In particular, I would like to focus on recommendation 22. We are mindful that the Assembly is a unicameral legislature and believe that the addition of a compulsory report stage would add value to the scrutiny process and lead to improvements in the quality of law the Assembly produces. This recommendation has assumed even greater importance given the Welsh Government's rejection of recommendation 3 regarding the use of draft Bills.

Mae mater hygyrchedd deddfwriaeth i'r dinesydd yn rhedeg fel llinyn cyson drwy ein hadroddiad. Mae hygyrchedd yn bwysig i alluogi ymgysylltiad effeithiol yn y broses ddeddfwriaethol, er enghraifft drwy gyhoeddi Biliau drafft neu sicrhau bod Biliau wedi'u datblygu'n llawn wrth gael eu cyflwyno. Mae ein hargymhellion ynglŷn â gwella cynnwys memoranda esboniadol a pharatoi atodlenni Keeling hefyd wedi'u hanelu at wella mynediad at y gyfraith i bobl Cymru.

Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ystyried sut y gellir gwella ei memoranda cyn y pumed Cynulliad. Fodd bynnag, hyderaf y bydd yn ystyried adolygu ei dull cyffredinol o weithredu, fel yr argymhellwyd gennym, cyn gynted ag y bo'r Pwyllgor Busnes wedi gwneud penderfyniadau am y newidiadau a awgrymwyd gennym i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â memoranda esboniadol.

Mae llyfr statud cydlynol trefnus yn allweddol i reolaeth y gyfraith. Dylai ei hygyrchedd i'r dinesydd fod o'r pwys mwyaf. Ac yma, yng Nghymru, gallem sefydlu arfer gorau go iawn a pheidio â chael ein llyffetheirio gan holl draddodiad deddfu Cymru a Lloegr. Mae cydgrynhoi testunau deddfwriaethol yn arfer da yn ein barn ni. Mae'n dileu'r cymhlethdod sy'n deillio o ailddiwygio testunau blaenorol yn barhaus ac yn cyfrannu at wneud y gyfraith yn fwy hygyrch.

Fel y cyfryw, gwnaethom argymhelliad fod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Chomisiwn y Gyfraith ar ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer cydgrynhoi'r gyfraith yng Nghymru. Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol oherwydd gwaith parhaus Comisiwn y Gyfraith. Pan fydd y gwaith presennol wedi'i gwblhau, gobeithiwn y bydd y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i neilltuo amser ac adnoddau i'r dasg bwysig hon.

Rydym hefyd yn gwneud argymhelliad ynglŷn â'r cydweithio â'r Archifau Cenedlaethol ar wella hygyrchedd testunau deddfwriaethol i bob dinesydd, ac rwy'n croesawu'n arbennig ymateb cadarnhaol Comisiwn y Cynulliad.

Mae nifer o'n hargymhellion yn ymwneud â'r cyfleoedd a roddir i'r Cynulliad ar gyfer craffu'n effeithiol. Edrychwn ymlaen at weld sut y mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu symud y rhain yn eu blaenau.

Yn arbennig, hoffwn ganolbwyntio ar argymhelliad 22. Rydym yn ymwybodol fod y Cynulliad yn ddeddfwrfa un siambr ac yn credu y byddai ychwanegu cyfnod adrodd gorfodol yn ychwanegu gwerth at y broses graffu ac yn arwain at welliannau yn ansawdd y gyfraith y mae'r Cynulliad yn ei chynhyrchu. Rhoddwyd mwy o bwys byth i'r argymhelliad hwn o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod argymhelliad 3 ynghylch y defnydd o Filiau drafft.

There was one clear theme that dominated all our evidence-taking and deliberating. That theme was a shared commitment to constant improvement in the efficiency and effectiveness of the legislative process for the benefit of all the people of Wales. We hope that the recommendations in our report will be treated in this spirit, and that their implementation will take a generally good process and make it even better. I look forward to hearing the contributions of Members this afternoon, Presiding Officer. Thank you.

Roedd un thema glir yn treiddio drwy'r holl dystiolaeth a gasglwyd ac a drafodwyd gennym, sef cydymrwymiad i welliant cyson o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses ddeddfwriaethol er budd holl bobl Cymru. Rydym yn gobeithio yr ymdrinnir â'r argymhellion yn ein hadroddiad yn yr ysbryd hwn ac y bydd eu gweithrediad yn gwneud proses sydd at ei gilydd yn dda yn well eto. Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau'r Aelodau y prynhawn yma, Lywydd. Diolch.

14:38

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, another week and another thorough and detailed report from the Constitutional and Legislative Affairs Committee. I do think that the Members of the committee, and particularly their Chair, deserve recognition and praise for the work that they have undertaken in this Assembly to improve our national democracy. The report offers some significant reflections on the legislative experiences of the last five years. I agree with many. I respectfully take issue with some, but all are undoubtedly the product of careful consideration. I hope you will not object to my sharing the lessons I learned in the process of taking through one of the most complex, comprehensive, consolidating and co-productive codifications that this Chamber has seen, and, I might add, consensual. I'll return to that particular point in a moment.

Wel, wythnos arall ac adroddiad trylwyr a manwl arall gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rwy'n credu bod aelodau'r pwyllgor, a'u Cadeirydd yn enwedig, yn haeddu cydnabyddiaeth a chanmoliaeth am y gwaith y maent wedi'i wneud yn y Cynulliad hwn i wella ein democratiaeth genedlaethol. Mae'r adroddiad yn cynnig rhai ystyriaethau arwyddocaol o brofiadau deddfwriaethol y pum mlynedd diwethaf. Rwy'n cytuno â llawer ohonynt. Rwy'n anghytuno, gyda phob parch, â rhai, ond maent i gyd yn ddi-os yn gynnyrch ystyriaeth ofalus. Rwy'n gobeithio na fydd gennych wrthwynebiad i mi rannu'r gwersi a ddysgais yn y broses o fynd drwy un o'r prosesau codeiddio cydgrynhöol a chydgynhyrchiol mwyaf cymhleth a chynhwysfawr a welodd y Siambr hon, a gallwn ychwanegu 'cydsyniol' hefyd. Dychwelaf at y pwynt penodol hwnnw mewn munud.

I want to focus on two issues that the report highlights: the proliferation of amendments during the legislative process and the use of subordinate legislation. On this latter point, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 did contain substantial sections of regulations to be determined at a later stage, but I think it is very important to consider the reasons for this. In some cases—and I would use the rates of charges and remunerations as an example—we knew, in drafting the Bill, that there would need to be regular, or indeed, annual, amendments. It would, therefore, be neither practical nor desirable for all future amendments to necessitate changes to primary legislation.

Rwyf am ganolbwyntio ar ddau fater y mae'r adroddiad yn tynnu sylw atynt: y cynnydd yn nifer y gwelliannau yn ystod y broses ddeddfwriaethol a'r defnydd o is-ddeddfwriaeth. Ar y pwynt olaf, roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys adrannau sylweddol o reoliadau i'w penderfynu ar gam diweddarach, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ystyried y rhesymau dros hyn. Mewn rhai achosion—a byddwn yn defnyddio cyfraddau taliadau a chyflogau fel enghreifftiau— gwyddem, wrth ddrafftio'r Bil, y byddai angen gwelliannau rheolaidd, neu flynyddol yn wir. Felly, ni fyddai'n ymarferol nac yn ddymunol pe bai angen newid y ddeddfwriaeth sylfaenol yn sgil pob gwelliant yn y dyfodol.

Secondly, the use of subordinate legislation is sometimes essential to smooth the process of implementation. For legislation that radically overhauls the machinery of public service delivery implementation is not a binary process. We do not flick a switch in this Chamber and watch the lights come on in councils across Wales. We must work with our partners with respect and we would not want to discover as implementation proceeds obstacles that cannot be overcome because primary legislation has made it impossible. Where I absolutely agree with the committee is in their support of the comments of the Learned Society of Wales regarding, and I quote,

Yn ail, mae'r defnydd o is-ddeddfwriaeth weithiau'n hanfodol i lyfnhau'r broses o weithredu deddfwriaeth. Ar gyfer deddfwriaeth sy'n trawsnewid y peirianwaith sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn sylweddol, nid yw ei gweithrediad yn broses ddeuaidd. Nid ydym yn gwasgu botwm yn y Siambr hon ac yn gwylio'r goleuadau'n dod ymlaen mewn cynghorau ledled Cymru. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n partneriaid gyda pharch ac wrth fynd ati i weithredu deddfwriaeth, ni fyddem am ddarganfod rhwystrau na ellir eu goresgyn am fod deddfwriaeth sylfaenol wedi gwneud hynny'n amhosibl. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r pwyllgor yn eu cefnogaeth i'r sylwadau gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru ynghylch, a dyfynnaf,

'the need to make good the democratic deficit involved when law-making is delegated'.

'the need to make good the democratic deficit involved when law-making is delegated'.

It is precisely for this reason that I insisted on the use of the superaffirmative or affirmative process for large sections of the subordinate legislation arising from the Act.

Am yr union reswm hwn y mynnais fod y broses uwchgadarnhaol neu gadarnhaol yn cael ei defnyddio ar gyfer rhannau mawr o'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Ddeddf.

To turn to the subject of amendments, it is important to remember that, as I discovered, the forces that necessitate amendments are frequently outside of the Government's control. The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 included, for instance, amendments triggered by the input of the Counsel General, the parallel scrutiny of the Care Act 2014 in England and the timing of both processes, and the delay until the eleventh hour in obtaining Westminster consent where needed, an issue I raised in last week's debate. And, of course, each of these stones thrown into the legislative pond created ripples that worked their way through the Bill causing yet more consequential amendments in turn. Where the Government did have control of the decision I think there were exceptionally good reasons for the choice to introduce amendments. Amendments, for example, that emerged as part of the consolidation process were, in my view, essential to achieving the best law we could make. Fundamentally, though, and in conclusion, the single biggest reason for these amendments was the scrutiny process itself. This was, in my view, the biggest reason.

I droi at fater gwelliannau, mae'n bwysig cofio, fel y darganfûm, fod y grymoedd sy'n gwneud gwelliannau'n angenrheidiol yn aml y tu allan i reolaeth y Llywodraeth. Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys, er enghraifft, gwelliannau wedi'u sbarduno gan fewnbwn y Cwnsler Cyffredinol, craffu cyfochrog ar Ddeddf Gofal 2014 yn Lloegr ac amseriad y ddwy broses, a'r oedi tan yr unfed awr ar ddeg cyn cael cydsyniad San Steffan lle y bo'i angen, mater a grybwyllais yn y ddadl yr wythnos diwethaf. Ac wrth gwrs, roedd pob un o'r cerrig hyn a daflwyd i mewn i'r pwll deddfwriaethol yn creu crychdonnau a weithiodd eu ffordd drwy'r Bil gan beri mwyfwy o welliannau canlyniadol yn eu tro. Lle roedd rheolaeth gan y Llywodraeth ar y penderfyniad rwy'n meddwl fod rhesymau eithriadol o dda dros y dewis i gyflwyno gwelliannau. Yn fy marn i, roedd gwelliannau, er enghraifft, a ddaeth yn amlwg fel rhan o'r broses gydgrynhoi yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r gyfraith orau y gallem ei llunio. Yn sylfaenol, fodd bynnag, ac i gloi, y rheswm unigol mwyaf dros y gwelliannau hyn oedd y broses graffu ei hun. Yn fy marn i, dyma oedd y prif reswm.

At the start of the Bill's journey I made clear that this would be a people's Act—an Act for a generation and for the whole of life's passage. It was, therefore, of critical importance that it be produced through consensus. If times shows that this Act has achieved its intent it will be because citizens, our partners and all parties in this Chamber had a hand in its final text. And if there is a balance to be struck between legislative efficiency and consensual politics I firmly believe that we should always err on the side of democratic accountability.

Ar ddechrau taith y Bil dywedais yn glir mai Deddf y bobl fyddai hon—Deddf am genhedlaeth ac am oes. Roedd hi'n allweddol bwysig felly ei bod yn cael ei chynhyrchu drwy gonsensws. Os yw amser yn dangos bod y Ddeddf hon wedi cyflawni ei bwriad, bydd yn deillio o'r ffaith fod dinasyddion, ein partneriaid a phob plaid yn y Siambr hon wedi bod â rhan i'w chwarae yn llunio'r testun terfynol. Ac os oes angen sicrhau cydbwysedd rhwng effeithlonrwydd deddfwriaethol a gwleidyddiaeth gydsyniol credaf yn gryf y dylem bob amser wyro tuag at atebolrwydd democrataidd.

14:43

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I also thank our committee staff, our Chair and my fellow Members and, of course, the witnesses for the work on what I believe has been a very impressive inquiry. The Welsh Government's legislative programme is clearly the main driver of our law making, but it's not the only one. Critically, it is not the Government that makes law. That fundamental privilege falls to us, and along with an independent judiciary we are part of the checks and balances that protect the people of Wales from any Government that might be inclined to exceed its mandate. And this is the area that I would like to concentrate on in my contribution today.

A gaf fi hefyd ddiolch i staff ein pwyllgor, ein Cadeirydd a'm cyd-Aelodau ac wrth gwrs, i'r tystion am y gwaith ar yr hyn sy'n ymchwiliad trawiadol iawn yn fy marn i? Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yw'r prif ysgogiad i ddeddfu, mae'n amlwg, ond nid dyna'r unig un. Yn allweddol, nid y Llywodraeth sy'n deddfu. Ni sydd pia'r fraint sylfaenol honno, ac ochr yn ochr â barnwriaeth annibynnol, rydym yn rhan o'r broses o gadw cydbwysedd sy'n diogelu pobl Cymru rhag unrhyw Lywodraeth a allai dueddu i fynd y tu hwnt i'w mandad. A dyma'r maes yr hoffwn ganolbwyntio arno yn fy nghyfraniad heddiw.

The report observes that, from time to time, the potential for perceived or actual tension between the Executive and the legislature surfaced at points during our inquiry. The Government wants to progress the programme for which it has a mandate, and the Assembly is under a duty to scrutinise and revise the Government's offer. I think what has disappointed me during this inquiry, and more particularly in scrutiny sessions examining Government Bills, is that, from time to time, a Minister will let slip a comment or a response that gives the impression that they have forgotten who makes the law in this place. It's reflected most obviously in recommendation 26, which proposes changes to the procedure for bypassing Stage 1 scrutiny Bills and the introduction of emergency Bills. But I'm speaking more directly to earlier recommendations 6, 7 and 8, which suggest that the Government reviews its approach to the balance between primary and secondary legislation, that the purpose of any secondary legislation is made clear in the primary legislation, and that any powers to amend primary legislation, however trivial, should not routinely be reserved to Ministers and not reserved at all without adequate explanation.

Mae'r adroddiad yn nodi bod y perygl o densiwn canfyddedig neu densiwn go iawn rhwng y Weithrediaeth a'r ddeddfwrfa wedi brigo i'r wyneb o bryd i'w gilydd yn ystod ein hymchwiliad. Mae'r Llywodraeth am fwrw ymlaen â'r rhaglen y mae ganddi fandad drosti, ac mae'r Cynulliad dan ddyletswydd i graffu a diwygio cynnig y Llywodraeth. Rwy'n credu mai'r hyn sydd wedi fy siomi yn ystod yr ymchwiliad hwn, ac yn fwy penodol yn y sesiynau craffu a archwiliai Filiau'r Llywodraeth, yw y bydd Gweinidog o bryd i'w gilydd yn digwydd dweud rhywbeth neu'n ymateb mewn modd sy'n rhoi'r argraff eu bod wedi anghofio pwy sy'n deddfu yn y lle hwn. Adlewyrchwyd hyn yn fwyaf amlwg yn argymhelliad 26, sy'n cynnig newidiadau i'r weithdrefn ar gyfer osgoi Biliau craffu Cyfnod 1 a chyflwyno Biliau brys. Ond rwy'n cyfeirio'n fwy uniongyrchol at argymhellion cynharach 6, 7 ac 8, sy'n awgrymu y dylai'r Llywodraeth adolygu ei hymagwedd at y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, fod pwrpas unrhyw is-ddeddfwriaeth wedi'i wneud yn glir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, ac na ddylid cadw pwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ôl i Weinidogion fel mater o drefn, waeth pa mor ddibwys, ac na ddylid eu cadw'n ôl o gwbl heb eglurhad digonol.

I think we all accept that it's perfectly in order and sensible for operational and administrative detail of policy aim and minor changes to follow in secondary legislation. But let's not forget that this delegated activity is carried out with the consent of the legislature. It's we who should decide whether it's appropriate to reduce direct scrutiny of these activities and which procedures are most appropriate for the introduction of secondary legislation, and it's for the Government, of course, to make its argument for its preference.

Rwy'n credu ein bod i gyd yn derbyn ei bod yn berffaith gywir a synhwyrol i fanylion gweithredol a gweinyddol y nod polisi a mân newidiadau ddilyn mewn is-ddeddfwriaeth. Ond gadewch i ni beidio ag anghofio bod y gweithgarwch dirprwyedig hwn yn cael ei gyflawni gyda chydsyniad y ddeddfwrfa. Mater i ni yw penderfynu a yw'n briodol lleihau craffu uniongyrchol ar y gweithgareddau hyn a pha weithdrefnau sydd fwyaf priodol ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth, a mater i'r Llywodraeth, wrth gwrs, yw cyflwyno dadl dros ei dewis hi.

Yet in this inquiry and in legislative scrutiny, some Ministers have tried to justify reserving executive powers to secondary legislation on unsupported assertions that such matters are merely technical and on the grounds that they need flexibility—failing to distinguish between identifiable but regularly changing detail—and that change is needed to complete the development of policy, and the chairman has already said that we should not use secondary legislation for that anyway. My own favourite is that they were concerned that the Assembly wouldn't have time to scrutinise the Government's proposals and so better to leave it to Government just to get on with legislating via delegated powers that wouldn't trouble us poor, busy creatures.

Eto, yn yr ymchwiliad hwn ac yn ystod y broses o graffu ar y ddeddfwriaeth, mae rhai Gweinidogion wedi ceisio cyfiawnhau cadw pwerau gweithredol ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn sgil honiadau di-sail mai technegol yn unig yw materion o'r fath ac ar y sail eu bod angen hyblygrwydd—gan fethu â gwahaniaethu rhwng manylion y gellir eu hadnabod ond sy'n newid yn gyson—a bod angen y newid hwnnw i gwblhau'r gwaith o ddatblygu polisi, ac mae'r cadeirydd eisoes wedi dweud na ddylem ddefnyddio is-ddeddfwriaeth ar gyfer hynny beth bynnag. Fy ffefryn i yw eu bod yn pryderu na fyddai amser gan y Cynulliad ar gyfer craffu ar gynigion y Llywodraeth ac felly y byddai'n well gadael i'r Llywodraeth fwrw ymlaen â deddfu drwy bwerau dirprwyedig na fyddai yn peri trafferth i ni, drueiniaid prysur.

I was troubled to see that the Presiding Officer apparently—and I stress 'apparently'—came close to echoing this sentiment in evidence when she said that,

Testun pryder i mi oedd gweld bod y Llywydd yn ôl pob golwg—a phwysleisiaf 'yn ôl pob golwg'—wedi dod yn agos at adleisio'r teimlad hwn mewn tystiolaeth pan ddywedodd fod

'Members' Bills which do not appear to enjoy the support of the Government have nevertheless been given leave to proceed by…the Assembly…it is important to assess the benefits of this against the time required…as well as the significant resource implications'.

'Biliau Aelodau sy'n ymddangos fel nad ydynt yn cael cefnogaeth y Llywodraeth, wedi cael caniatâd i symud ymlaen... gan y Cynulliad... mae'n bwysig asesu manteision hyn yn erbyn yr amser sydd ei angen... yn ogystal â'r goblygiadau adnoddau sylweddol'.

Presiding Officer, I'm sure it was an unfortunate turn of phrase, because it is wrong to suggest per se that the view of Government is in any way material to how this legislature scrutinises and progresses a Member's Bill. The statement would have been accurate if it had said that without the support of the majority of Members or, of course, in this Assembly, the support of the governing party, then proceeding would be pointless because the figures wouldn't stack up. Incontrovertible, but not what was said. It's worth pointing out that Government-introduced Bills can also fall on the numbers and if predictions are to be believed, that's going to be a genuine concern in this next Assembly.

Lywydd, rwy'n siŵr mai ymadrodd anffodus ydoedd, gan ei bod yn anghywir awgrymu fel y cyfryw fod barn y Llywodraeth yn berthnasol mewn unrhyw ffordd i'r modd y mae'r ddeddfwrfa hon yn craffu ar Fil Aelod ac yn ei symud yn ei flaen. Byddai'r datganiad wedi bod yn gywir pe bai wedi dweud na fyddai pwrpas symud y Bil yn ei flaen heb gefnogaeth mwyafrif yr Aelodau neu yn y Cynulliad hwn, wrth gwrs, heb gefnogaeth y blaid lywodraethol, gan na fyddai'r niferoedd yn ddigonol. Yn ddiamau, ond nid dyna a ddywedwyd. Mae'n werth nodi y gall Biliau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth fethu hefyd ar sail niferoedd ac os yw'r rhagamcanion i'w credu, mae hynny'n mynd i fod yn bryder gwirioneddol yn y Cynulliad nesaf.

In summary, secondary legislation is not a vehicle for avoiding scrutiny on matters that are unexplained or underdeveloped, nor is it a vehicle for speeding up a process for a Government's own convenience, nor, incidentally, is it a vehicle for loose ends. Sometimes a Government needs to take on a duty, not a discretionary power, to introduce secondary legislation in order to provide third parties with the instruction they need in order to comply with primary legislation, for example.

I grynhoi, nid yw is-ddeddfwriaeth yn gyfrwng ar gyfer osgoi craffu ar faterion sydd heb eu hegluro neu heb eu datblygu'n ddigonol, nac yn gyfrwng i gyflymu'r broses er hwylustod y Llywodraeth ei hun, nac ychwaith, gyda llaw, ar gyfer ymdrin â materion heb eu datrys. Weithiau mae angen i Lywodraeth ysgwyddo dyletswydd, nid pŵer disgresiwn, i gyflwyno is-ddeddfwriaeth er mwyn darparu cyfarwyddyd i drydydd partïon sydd ei angen arnynt er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth sylfaenol, er enghraifft.

The report makes a number of recommendations about improving scrutiny, draft Bills, better explanatory memoranda, a report stage and feedback to consultees, most of which have been accepted. Their essential point is, however, that, in the absence of a revising chamber, this legislature must insist on having the opportunity for optimum scrutiny of legislation. Only a handful of Welsh people—that's us here in this Chamber—have this honour of making laws on behalf of the people of Wales and we really must guard our integrity on behalf of the people of Wales. Thank you.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ynghylch gwella craffu, Biliau drafft, gwella memoranda esboniadol, cyfnod adrodd ac adborth i ymgyngoreion, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u derbyn. Eu pwynt allweddol, fodd bynnag, yw bod rhaid i'r ddeddfwrfa hon yn absenoldeb siambr ddiwygio, fynnu cael cyfle i sicrhau'r craffu gorau posibl ar ddeddfwriaeth. Llond llaw o bobl Cymru yn unig—sef ni yma yn y Siambr hon—sy'n cael y fraint o ddeddfu ar ran pobl Cymru ac mae gwir angen i ni warchod ein huniondeb ar ran pobl Cymru. Diolch.

14:48

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr iawn am y cyfle i gyfrannu. Nid wyf yn aelod o'r pwyllgor yma, wrth gwrs, ond mae'r adroddiad yn codi nifer o bwyntiau perthnasol. Rwyf yn Gadeirydd pwyllgor sydd wedi delio â thri Bil yn ystod y flwyddyn a mwy diwethaf. Mae dau wedi cwblhau eu taith a'r trydydd yn dal i fynd trwy'r felin. Mi hoffwn i gynnig rhai sylwadau yn seiliedig ar fy mhrofiad i wrth ddelio gyda'r Biliau hynny, yn gyffredinol ac nid yn fanwl wrth gwrs.

Thank you very much for the opportunity to contribute. I am not a member of this committee, of course, but the report does raise a number of pertinent points. I am the Chair of a committee that has dealt with three Bills during the past year or more. Two have completed their passage and the third is still going through the process. I would like to make some comments based on my experience of dealing with those Bills, in general terms, rather than looking at specifics of course.

Mae gen i ddau sylw sydd yn berthnasol i adran 6 o adroddiad y pwyllgor, rwy'n credu. Fy mhrofiad i ydy bod craffu Cyfnod 1 i'w weld yn adeiladol a chynhyrchiol o safbwynt y pwyllgor. Mae'r broses yna o dderbyn tystiolaeth ac o ddeall natur y Bil a'i bwrpas yn cael trafodaeth eang. Mae yna duedd, rwy'n derbyn, i Aelodau, wrth drafod yr adroddiad, geisio taflu mwy a mwy o elfennau i mewn i'r Bil, ond un nodwedd yw bod Aelodau'n trin y ddeddfwriaeth gyda meddwl agored a hefyd drwy ymateb i'r dystiolaeth sy'n dod gerbron. Mae'n rhaid i mi ddweud ei fod o'n gyfnod cynhyrchiol iawn, rwy'n teimlo, ac adeiladol iawn. Mae'n syndod, yn fy mhrofiad i beth bynnag, cymaint o gytundeb sydd rhwng aelodau'r pwyllgor sy'n rhoi'r adroddiad at ei gilydd. Yn wir, mae'r pwyllgor yn trin deddfwriaeth yn y cyfnod hwnnw fel pwyllgor annibynnol sy'n sgrwtineiddio'r gwaith.

I have two comments that are pertinent to section 6 of the committee's report, I believe. It is my experience that Stage 1 scrutiny appears to be very constructive and productive from a committee point of view. That process of gathering evidence and of coming to understand the nature and purpose of a Bill is the subject of a broad-ranging debate. I accept that there is a tendency for Members, in discussing the report, to try and throw more and more element into the mix and into the Bill, but one characteristic is that Members treat legislation with an open mind and by responding to the evidence presented to a committee. I have to say that it is a very productive and constructive stage, and it's surprising, in my view at least, how much agreement there seems to be between committee members who draw reports together. Indeed, the committee treats legislation at that stage as an independent committee that scrutinises legislation.

Ond, pan fyddwn ni'n dod at yr ail gyfnod, mae dau beth yn digwydd. Yn gyntaf—ac nid wyf yn dweud ei fod o'n wir am bob Bil, wrth gwrs—mae nifer uchel o welliannau yn gallu newid siâp Bil yn sylweddol a'i gwneud hi'n anodd wedyn i weld beth yn union sydd yn digwydd o fewn y ddeddfwriaeth. Yn ail, wrth gwrs, yr hyn sy'n digwydd pan ddown ni i drafod gwelliannau ydy ein bod ni'n colli annibyniaeth y pwyllgor yn gyfan gwbl, wrth i Aelodau bleidleisio yn ôl chwip y pleidiau. Yn sydyn, mae proses sydd wedi bod yn un adeiladol yn troi yn un fecanyddol, diflas ac, yn wir, yn annealladwy i'r cyhoedd. Rwyf i wedi clywed Cadeirydd y pwyllgor sydd wedi cynhyrchu'r adroddiad yn sôn am y cyswllt gyda'r cyhoedd a pha mor bwysig ydy hi bod y cyhoedd yn deall deddfwriaeth. Wel, un peth sydd yn eu drysu nhw ydy'r broses yma o bleidleisio ar welliannau, lle mae Cadeirydd yn gallu cefnogi gwelliant ac yna pleidleisio yn ei erbyn o. Rŵan, rwy'n derbyn bod yna resymau am hynny, ond mae o'n adlewyrchu yn wael, rwy'n credu, ar y lle hwn—fel rydym ni'n ei gwneud hi ar hyn o bryd.

But, when we come to Stage 2, two things seem to happen. I am not saying it's true of all Bills, of course, but, first of all, a high number of amendments can change the shape of a Bill substantially and can make it very difficult to see what exactly is happening within the legislation. Secondly, what happens when we come to discuss amendments is that we lose the committee's independence entirely, as Members vote according to their party whip. All of a sudden, a process that has been constructive becomes a mechanical, boring process, and, indeed, a process that's incomprehensible to the public. I've heard the Chair of the committee that produced this report discussing relations with the public and how important it is that the public understand legislation. Well, one thing that does confuse them is this process of voting on amendments, where a Chair can support an amendment and then vote against it. Now, I accept that there are reasons for that, but it does reflect poorly, I believe, on this place.

Mae gennyf i jest awgrym neu ddau wrth imi gloi. Yn gyntaf, mi hoffwn i weld proses llawer mwy agored o drafod gwelliannau gyda'r Llywodraeth. Nid wyf yn teimlo, fel sy'n digwydd weithiau, fod cyfarfodydd sydd yn agos iawn at ddyddiad trafod y gwelliannau yn ddigonol. Wedi'r cwbl, ceisio creu deddfwriaeth effeithiol ydy'r nod, nid jest ennill pleidlais mewn pwyllgor. Rwy'n credu bod yna gwestiynau ynglŷn â rôl Aelodau a'u gwrthrychedd nhw yn y broses, yn enwedig yn yr ail gyfnod hwnnw.

Therefore, I have a few suggestions in conclusion. First of all, I would like to see a far more open process of discussing amendments with the Government. I don't feel, as happens on occasion, that meetings that are very close to the date of debate of amendments is sufficient or adequate. After all, we are trying to create effective legislation, not just trying to win a vote at committee. I do think that there are questions as to the role of Members and their objectivity in that process, particularly in that second stage.

Peth arall sydd wedi fy nharo i wrth inni drin y Biliau gwahanol yma, pan fydd yna newidiadau sylweddol yn dilyn Cyfnod 2, yw fy mod i'n credu y dylai'r pwyllgor gael cyfle i edrych ar y Bil fel y mae o wedi ei ddiwygio, o'r newydd, fel petai. Efallai y dylid edrych am gyfle lle mae'r pwyllgor, ar ôl edrych ar y Bil sydd wedi ei ddiwygio, os ydyn nhw'n dymuno gwneud awgrymiadau neu ddiwygiadau pellach, yn gallu gwneud hynny os oes yna gytundeb o fewn y pwyllgor. Hynny ydy, rwy'n gwybod bod yna gyfle i roi gwelliannau yng Nghyfnod 3, ond mae'r rheini yn amlach na pheidio yn dod o'r gwrthbleidiau, sydd yn ceisio pwysleisio rhyw bwynt neu'i gilydd. Ond rwy'n credu, o safbwynt y pwyllgor, sydd, wedi'r cwbl, wedi ceisio llywio'r broses hyd hynny, fod yna le yn y fan honno i'r pwyllgor gael cyfle i edrych o'r newydd ac i weld, ar ôl diwygio'r Bil, yn enwedig pan mae diwygiadau mawr, a oes yna le iddyn nhw gynnig gwelliannau er mwyn ceisio sicrhau bod y Bil yn cyflawni ei bwrpas yn effeithiol. Felly, dyna rai sylwadau gennyf i. Diolch yn fawr iawn am y cyfle.

Another thing that struck me as we've dealt with different Bills is that, when there are substantial changes taking place as a result of Stage 2, the committee should then have an opportunity to look at the Bill as amended and to look at it anew, as it were. Perhaps we should seek an opportunity where the committee, having looked at the amended Bill and wishing to make further comments or amendments, is able to do that if there is agreement on it within the committee. I know that there is an opportunity to table amendments at Stage 3, but more often than not they come from opposition parties, who are trying to emphasise some point or another. But I do think, from the committee's point of view, which, after all, has tried to steer the process to that point, that there is scope there for the committee to have the opportunity to look anew at the Bill and to see, following amendment, and particularly major amendment, whether there is scope for them to propose changes in order to ensure that the Bill achieves its stated purpose effectively. So, those are just a few comments from me. Thank you very much for the opportunity.

14:53 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As with some of the other Members who have spoken, I'm not actually a member of this committee, but I'd like to thank David Melding for presenting this motion today and also thank committee members and staff for their work. It is important, as others have said, that we as legislators, every now and again, look at the processes by which we make law for the people whom we represent. I believe that this report does try and outline some of the things, perhaps, we could do to improve current systems. My colleague William Powell, at the time that the report was published, said that the report exposed a number of issues where, as Alun Ffred Jones has outlined, the committee believes that the balance between the Assembly and the Welsh Government has not yet been struck. Certainly, as a member of two other committees, I believe that many of the matters that Alun Ffred Jones has outlined actually reflect that.

Fel yn achos rhai o'r Aelodau eraill sydd wedi siarad, nid wyf yn aelod o'r pwyllgor hwn mewn gwirionedd, ond hoffwn ddiolch i David Melding am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw, a hefyd diolch i aelodau'r pwyllgor a'r staff am eu gwaith. Mae'n bwysig, fel y dywedodd eraill, ein bod ni fel deddfwyr, bob hyn a hyn, yn edrych ar y prosesau a ddefnyddiwn ar gyfer deddfu ar ran y bobl rydym yn eu cynrychioli. Credaf fod yr adroddiad hwn yn ceisio amlinellu rhai o'r pethau y gallem eu gwneud, o bosibl, i wella systemau cyfredol. Dywedodd fy nghyd-Aelod William Powell fod yr adroddiad, ar yr adeg y'i cyhoeddwyd, yn amlygu nifer o faterion, fel y mae Alun Ffred Jones wedi'u hamlinellu, lle y cred y pwyllgor na sicrhawyd cydbwysedd eto rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Yn sicr, fel aelod o ddau bwyllgor arall, rwy'n credu bod llawer o'r materion y mae Alun Ffred Jones wedi'u hamlinellu yn adlewyrchu hynny mewn gwirionedd.

There are a number of recommendations that we welcome as a group in particular. You'd expect us to welcome in particular recommendation 19, which provides an explanation as to how there should be a requirement, in formulating a Bill, that account is being taken of the human rights convention. I think that's particularly pertinent given, perhaps, some of the moves in Westminster that will seek to weaken international human rights obligations at a British level. As the committee Chair has already outlined, we think that recommendation 22 is particularly important because, of course, we don't have the security here of a second amending chamber. So, we only have one shot to get a piece of legislation right. We believe that by adding in a report stage, there would be a vital break in legislation where due consideration and reflection could be given.

Ceir nifer o argymhellion rydym yn eu croesawu'n arbennig fel grŵp. Byddech yn disgwyl i ni groesawu argymhelliad 19 yn benodol, sy'n darparu esboniad ynglŷn â sut y dylai fod yn ofynnol, wrth lunio Bil, i roi sylw i'r confensiwn hawliau dynol. Rwy'n credu bod hynny'n arbennig o berthnasol o ystyried, efallai, rhai o'r symudiadau yn San Steffan a fydd yn ceisio gwanhau rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol ar lefel Brydeinig. Fel y mae Cadeirydd y pwyllgor eisoes wedi'i amlinellu, credwn fod argymhelliad 22 yn arbennig o bwysig oherwydd, wrth gwrs, nid oes gennym sicrwydd ail siambr sy'n diwygio yma. Felly, un cyfle'n unig sydd gennym i gael deddfwriaeth yn iawn. Credwn y byddai ychwanegu cyfnod adrodd yn creu toriad hollbwysig yn y ddeddfwriaeth lle y gellid sicrhau ystyriaeth ddyledus.

Further changes have been put forward in recommendation 26 to formalise and strengthen procedure around emergency Bills. We believe that this would increase transparency and accountability for our laws whilst retaining the flexibility needed in some instances by way of emergency procedure. By requiring a statement to be laid, explaining why it is an emergency and what the consequences are of it not being an emergency, we thereby hold Government to account for its use of emergency procedures and make it easier and simpler.

Cynigiwyd newidiadau pellach yn argymhelliad 26 i ffurfioli a chryfhau'r drefn ar gyfer Biliau brys. Credwn y byddai hyn yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd ein deddfau gan gadw'r hyblygrwydd sydd ei angen mewn rhai achosion drwy gyfrwng gweithdrefn argyfwng. Drwy ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno datganiad yn egluro pam ei fod yn argyfwng a beth yw canlyniadau peidio â'i wneud yn argyfwng, rydym felly'n dwyn y Llywodraeth i gyfrif am ei defnydd o weithdrefnau argyfwng ac yn gwneud y broses yn haws ac yn symlach.

We do welcome the response that the Government issued to the report on 3 December. The feedback that the First Minister had given to the committee provided vital food for thought, as far as Bill Powell is concerned, over the Christmas break. The Minister's response noted, of course, that the cumulative effect of these changes would be likely to have an impact on the time taken for the legislative process and might, in turn, likely place additional pressures on Assembly time, and particularly on Government Plenary time. We note, however, that the committee itself believes that part of the legislative process has been simplified by the committee's recommendation. For example, consolidation Acts and Law Commission proposals themselves simplify procedure and shorten the process, as reflected in recommendation 13.

Rydym yn croesawu'r ymateb i'r adroddiad a gyhoeddodd y Llywodraeth ar 3 Rhagfyr. Darparodd yr adborth a roddodd y Prif Weinidog i'r pwyllgor ystyriaethau allweddol i gnoi cil arnynt, o safbwynt Bill Powell, dros wyliau'r Nadolig. Nododd ymateb y Gweinidog, wrth gwrs, y byddai effaith gronnus y newidiadau hyn yn debygol o effeithio ar yr amser a gymerai'r broses ddeddfwriaethol a gallai, yn ei dro, roi pwysau ychwanegol ar amser y Cynulliad, ac yn enwedig ar amser Cyfarfodydd Llawn y Llywodraeth. Nodwn, fodd bynnag, fod y pwyllgor ei hun yn credu bod rhan o'r broses ddeddfwriaethol wedi'i symleiddio gan argymhelliad y pwyllgor. Er enghraifft, mae Deddfau cydgrynhoi a chynigion Comisiwn y Gyfraith eu hunain yn symleiddio'r drefn ac yn byrhau'r broses, fel yr adlewyrchir yn argymhelliad 13.

Recommendation 24 requires details on the purpose and effect of amendments, as mentioned by other Members. We believe that this will save Assembly Members time as they will not have to look at or divine the mysterious intention of the mover of that amendment, and time could be saved in scrutinising amendments because explanations for those amendments will clearly be laid. So, whilst we as a group welcome the First Minister's comments, overall we feel that the committee's recommendations would give Assembly Members better tools in their arsenal to scrutinise legislation and ensure that laws made by the Assembly are improved. By obliging the Government, where possible, to publish Bills in a draft format, we would be able to make sure that actual legislative time is not wasted talking about Bills that are leaving Government for the first time. By having them arrive in a better state, through an additional pre-legislative stage, more time can be spent in ensuring that it is substantially up to scratch. I think that's the experience that we've had as a children and young people's committee when we've gone through that pre-legislative process.

Mae argymhelliad 24 yn gofyn am fanylion ar bwrpas ac effaith gwelliannau, fel y crybwyllwyd gan Aelodau eraill. Rydym yn credu y bydd hyn yn arbed amser i Aelodau'r Cynulliad gan na fydd yn rhaid iddynt ystyried neu ddarogan bwriad dirgel cynigydd y gwelliant hwnnw, a gellid arbed amser yn craffu ar welliannau gan y cyflwynir esboniadau am y gwelliannau hynny, yn amlwg. Felly, er ein bod fel grŵp yn croesawu sylwadau'r Prif Weinidog, ar y cyfan rydym yn teimlo y byddai argymhellion y pwyllgor yn rhoi offerynnau gwell i Aelodau'r Cynulliad eu defnyddio i graffu ar ddeddfwriaeth a sicrhau bod deddfau a wneir gan y Cynulliad yn cael eu gwella. Trwy orfodi'r Llywodraeth, lle y bo'n bosibl, i gyhoeddi Biliau ar ffurf drafft, byddem yn gallu sicrhau na wastreffir amser deddfu yn siarad am Filiau sy'n gadael y Llywodraeth am y tro cyntaf. Drwy eu cael i gyrraedd mewn gwell cyflwr, drwy gyfnod cyn deddfu ychwanegol, gellir treulio mwy o amser yn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon o ran eu sylwedd. Rwy'n credu mai dyna'r profiad a gawsom fel pwyllgor plant a phobl ifanc pan oeddem yn mynd drwy'r broses cyn deddfu honno.

This report has a great number of recommendations, which will largely fall to the next Assembly to resolve, but we believe as a group that this report is an excellent starting point for those who come next to deal with the issue of making laws in Wales better.

Ceir nifer fawr o argymhellion yn yr adroddiad hwn, argymhellion i'r Cynulliad nesaf eu datrys yn bennaf, ond fel grŵp credwn fod yr adroddiad hwn yn fan cychwyn ardderchog ar gyfer y rhai sy'n dod nesaf i ymdrin â deddfu yng Nghymru yn well.

14:58

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Can I begin by expressing my thanks to the committee for the report? The Chair of the committee, the Deputy Presiding Officer, is one of the original Members of this institution, like me, and he will remember the days when we stood and debated secondary legislation that was largely uncontroversial because we had no primary legislation to debate. He and I will remember looking at the potatoes originating in Egypt Order and the undersized whiting Order, which I remember very well because I introduced them. They were important items of legislation, but not perhaps of the greatest import in terms of demanding the time of the legislature. We've moved on, and I'm sure that he will agree with me that, back in 1999, we would have been amazed to find ourselves in the position that we are in now as a primary legislature. I think it was fair to say at that time that the expertise did not exist within the institution, nor indeed within what was not even called then the 'Welsh Government', to draft legislation and, importantly, to get it right. I think it is worth acknowledging that, in a very short space of time indeed, the Assembly has produced coherent, understandable and sound legislation as a result, I'd like to think, partially of the Government but certainly the scrutiny that has been occasioned by Assembly Members.

A gaf fi ddechrau drwy fynegi fy niolch i'r pwyllgor am yr adroddiad? Mae Cadeirydd y pwyllgor, y Dirprwy Lywydd, yn un o aelodau gwreiddiol y sefydliad hwn, fel finnau, ac fe fydd yn cofio'r dyddiau pan oeddem yn sefyll i drafod is-ddeddfwriaeth nad oedd yn ddadleuol iawn am nad oedd gennym ddeddfwriaeth sylfaenol i'w thrafod. Bydd yntau a minnau'n cofio edrych ar Orchymyn tatws sy'n deillio o'r Aifft a Gorchymyn gwyniaid môr rhy fach a gofiaf yn dda iawn am mai fi a'u cyflwynodd. Roeddent yn eitemau deddfu pwysig, ond nid o'r pwys mwyaf efallai o ran mynnu amser y ddeddfwrfa. Rydym wedi symud yn ein blaenau, ac rwy'n siŵr y bydd yn cytuno y byddem wedi rhyfeddu yn ôl yn 1999 ein gweld yn y sefyllfa rydym ynddi yn awr fel deddfwrfa sylfaenol. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud ar y pryd nad oedd yr arbenigedd yn bodoli yn y sefydliad, nac yn wir yn yr hyn nad oedd hyd yn oed yn cael ei galw'n 'Llywodraeth Cymru' y pryd hwnnw, i ddrafftio deddfwriaeth ac yn bwysig, i'w chael yn iawn. Credaf ei bod yn werth cydnabod bod y Cynulliad mewn cyfnod byr iawn o amser yn wir, wedi cynhyrchu deddfwriaeth gydlynol, ddealladwy a chadarn, a hoffwn feddwl bod hynny wedi digwydd yn rhannol o ganlyniad i waith y Llywodraeth, ond yn bendant o ganlyniad i waith craffu a wnaed gan Aelodau'r Cynulliad.

There are now 24 Acts of the Assembly on the statute book. I applied the seal to the twenty-third and the twenty-fourth two days ago. A further five Bills, of course, are currently being scrutinised by the Assembly. These Acts are critical in terms of making a difference to the people of Wales, I believe. We've driven improvements in the standards of food hygiene in Wales. My good friend Gwenda Thomas has mentioned, of course, the social services Act; and, of course, changes to housing and planning; and, of course, perhaps the legislation that has had the most public understanding, the Human Transplantation (Wales) Act 2013, which came into effect last month.

Erbyn hyn mae 24 o Ddeddfau'r Cynulliad ar y llyfr statud. Seliais y drydedd ar hugain a'r bedwaredd ar hugain ddeuddydd yn ôl. Mae pum Bil arall yn cael eu craffu gan y Cynulliad ar hyn o bryd wrth gwrs. Mae'r Deddfau hyn yn hollbwysig o ran gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru, rwy'n credu. Rydym wedi ysgogi gwelliannau yn safonau hylendid bwyd yng Nghymru. Mae fy nghyfaill Gwenda Thomas wedi sôn, wrth gwrs, am y Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol; ac wrth gwrs, newidiadau i dai a chynllunio; ac wrth gwrs, efallai mai'r ddeddfwriaeth sydd wedi ennyn fwyaf o ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd yw Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, a ddaeth i rym fis diwethaf.

It's fair to say that the process of legislating in this term has been challenging. Members will recall that it took some time for legislation to be introduced on the floor of the Assembly—longer than we expected. Nevertheless, we have got to a point where 24 Acts are now on the statute book. It has been a steep learning curve for Government and, indeed, probably for Members themselves. It is important, of course, that we learn these lessons, and this report is part of that process. We have come under intense scrutiny on our Bills, but that's the way it should be. We understand that scrutiny can't be a comfortable process. That is a sign, to my mind, that the process is working, despite the fact that, on occasion, it does cause discomfort to the Government. That's the nature of scrutiny.

Mae'n deg dweud bod y broses o ddeddfu yn ystod y tymor hwn wedi bod yn heriol. Bydd yr Aelodau'n cofio ei bod wedi cymryd peth amser i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno ar lawr y Cynulliad—yn hirach nag y disgwyliem. Serch hynny, rydym wedi cyrraedd y pwynt pan fo 24 o Ddeddfau yn awr ar y llyfr statud. Mae wedi bod yn broses ddysgu fawr i'r Llywodraeth ac yn wir, i'r Aelodau eu hunain yn ôl pob tebyg. Mae'n bwysig, wrth gwrs, ein bod yn dysgu'r gwersi hyn, ac mae'r adroddiad yn rhan o'r broses honno. Mae ein Biliau wedi dod yn destun craffu dwys, ond dyna sut y dylai fod. Rydym yn deall na all craffu fod yn broses gysurus. Mae hynny'n arwydd, yn fy marn i, fod y broses yn gweithio, er gwaethaf y ffaith ei bod, ar adegau, yn peri anghysur i'r Llywodraeth. Dyna natur craffu.

Of the 19 recommendations in this report, we have been able to accept 17, either in whole, in part or in principle. It's clear that, in many respects, the committee and the Government share the same vision for how you can improve and strengthen the legislative processes. We've tried to be forthcoming in setting out why we've accepted a recommendation, either in whole or in part, and also the reasons as to why there are some—or two—recommendations that we have not been able to accept in part or at all.

O'r 19 o argymhellion yn yr adroddiad hwn, rydym wedi gallu derbyn 17, naill ai'n gyfan gwbl, yn rhannol neu mewn egwyddor. Mewn sawl ffordd, mae'n amlwg fod y pwyllgor a'r Llywodraeth yn rhannu'r un weledigaeth ynglŷn â sut y gellir gwella a chryfhau prosesau deddfwriaethol. Rydym wedi ceisio bod yn agored o ran nodi pam rydym wedi derbyn argymhelliad, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, a hefyd y rhesymau pam nad ydym wedi gallu derbyn un—neu ddau—argymhelliad yn rhannol neu o gwbl.

If I could turn to the first of those, which is the recommendation in relation to draft Bills, I think it's right to say that draft Bills are appropriate where proposals are complex, where they're controversial, or where there are particular sensitivities around how something is given effect in law. But our argument would be that there needs to be flexibility in terms of how legislation is begun. For some items of legislation, a White Paper will be appropriate; there will be some items of legislation that are necessarily short and probably uncontroversial, which, to my mind, wouldn't need a draft Bill; and there are others, of course, where a draft Bill is an appropriate vehicle to take forward that legislation. So, a presumption in favour of publishing draft Bills would limit the ability to consider how to consult, to my mind, as effectively as possible on each legislative proposal. The method of consultation will depend on the consideration of a number of factors, such as the level of complexity, the impact on the public, the level of public interest and concern, and the extent to which time is of the essence. I do note that the UK Government has a commitment to publish draft Bills where practicable and appropriate. I think that that's a good formula. That is something, certainly, as a Government we would look to adopt, but not as far as a presumption. For some Bills, especially those that are short and uncontroversial, a draft Bill would not be the appropriate vehicle, to my mind, in that regard.

Os caf droi at y cyntaf o'r rheini, sef yr argymhelliad ynglŷn â Biliau drafft, rwy'n meddwl ei bod yn gywir dweud bod Biliau drafft yn briodol os yw cynigion yn gymhleth, os ydynt yn ddadleuol, neu os ceir sensitifrwydd penodol ynglŷn â sut y rhoddir grym cyfreithiol i rywbeth. Ond byddem yn dadlau fod angen hyblygrwydd o ran sut y cychwynnir y ddeddfwriaeth. Ar gyfer rhai eitemau o ddeddfwriaeth, bydd Papur Gwyn yn briodol; bydd rhai eitemau o ddeddfwriaeth sydd o anghenraid yn fyr ac yn ôl pob tebyg yn annadleuol, ac ni fyddent yn galw am Fil drafft yn fy marn i; ac i eraill, wrth gwrs, Bil drafft fydd y ffordd addas o ddatblygu'r ddeddfwriaeth honno. Felly, rwy'n credu y byddai rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau drafft yn cyfyngu ar y gallu i ystyried sut i ymgynghori mor effeithiol ag y bo modd ar bob cynnig deddfwriaethol. Bydd y dull o ymgynghori yn dibynnu ar ystyried nifer o ffactorau, megis lefel o gymhlethdod, yr effaith ar y cyhoedd, lefel diddordeb a phryder y cyhoedd ac i ba raddau y mae amser yn bwysig. Rwy'n nodi bod gan Lywodraeth y DU ymrwymiad i gyhoeddi Biliau drafft lle y bo hynny'n ymarferol ac yn briodol. Credaf fod honno'n fformiwla dda. Mae hynny'n rhywbeth, y byddwn yn ystyried ei fabwysiadu fel Llywodraeth yn sicr, ond nid i'r graddau ei bod yn rhagdybiaeth. Ar gyfer rhai Biliau, yn enwedig rhai sy'n fyr ac annadleuol, ni chredaf y byddai Bil drafft yn gyfrwng priodol yn hynny o beth.

With regard to co-drafting, the question I would put is this: would co-drafting lead to better legislation? I'm unconvinced that it would. Yes, we do want to get to a situation where we have the right level of Welsh language skills in the Office of the Legislative Counsel in order to move towards a system where there might be co-drafting in the future. We are not in that position yet, but certainly that would be something that we would look to work towards. What we can commit to is that we will continue to work to ensure that Government Bills are introduced in high-quality English and Welsh versions. It is right to say, of course, that in Canada there is a pure co-drafting model adopted by the federal Government there, but it is one method among many that are adopted elsewhere. There may well be benefits in some cases, but I don't think it would be correct to say that, in all cases, co-drafting would produce the highest quality bilingual legislation. That, ultimately, of course, is what we as a Government—and, I believe, the Assembly—would wish to see. Different ways can be adopted in different circumstances. My concern would be, if we moved to a co-drafting model at this stage, it might cause delays in terms of the drafting of Bills. Then, of course, as a Government, it would have an impact on a Government legislative programme. That is not to say that, in the future, this is not something that could be aspired to.

O ran cyd-ddrafftio, y cwestiwn y byddwn yn ei holi yw hwn: a fyddai cyd-ddrafftio'n arwain at ddeddfwriaeth well? Nid wyf yn argyhoeddedig y byddai. Ydym, rydym yn awyddus i gyrraedd sefyllfa lle y mae gennym y lefel gywir o sgiliau iaith Gymraeg yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol er mwyn symud tuag at system lle y gellid cyd-ddrafftio yn y dyfodol. Nid ydym yn y sefyllfa honno eto, ond yn sicr byddai hynny'n rhywbeth y byddem yn ceisio gweithio tuag ato. Yr hyn y gallwn ymrwymo iddo yw y byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod Biliau'r Llywodraeth yn cael eu cyflwyno mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg o ansawdd uchel. Mae'n gywir dweud, wrth gwrs, fod ganddynt fodel cyd-ddrafftio pur yng Nghanada a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth ffederal yno, ond mae'n un dull ymhlith llawer sy'n cael eu mabwysiadu mewn mannau eraill. Mae'n bosibl iawn y ceir manteision mewn rhai achosion, ond nid wyf yn credu y byddai'n gywir dweud y byddai cyd-ddrafftio yn cynhyrchu'r ddeddfwriaeth ddwyieithog o'r safon uchaf ym mhob achos. Dyna y byddem ni fel Llywodraeth—ac fel Cynulliad, rwy'n credu—yn dymuno ei weld yn y pen draw wrth gwrs. Gellir mabwysiadu gwahanol ffyrdd mewn amgylchiadau gwahanol. Pe baem yn symud i fodel cyd-ddrafftio ar hyn o bryd rwy'n bryderus y gallai achosi oedi o ran drafftio'r Biliau. Yna, wrth gwrs, fel Llywodraeth, byddai'n effeithio ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Nid yw hynny'n golygu nad yw'n rhywbeth y gellid anelu tuag ato yn y dyfodol.

The other issue that has been touched on in the main by Members is the issue of the balance between primary and secondary legislation. There is no right answer to this. It is, I suppose, an objective opinion that Members will have. It's right to say that there will be Members in the Chamber who will take the view that secondary legislation would be more of an exception than the rule, but again it comes down, to my mind, to one word, and that's 'flexibility'. Where it is appropriate to put in place a legislative principle that is designed to last for many years, then, of course, primary legislation is the place to put that. But there needs to be flexibility. Where there's an understanding that the legislation may need to change, maybe on more than one occasion over the course of a number of years, then clearly secondary legislation provides the flexibility in order to be able to do that. We do try to give careful consideration to the balance between primary and subordinate legislation. I would argue that we've struck the correct balance. There are others who take a different view. It's a very difficult boundary to draw, between primary and secondary legislation. But we will strive to keep the balance correct, and to make sure that as much detail as possible is included in primary legislation, but bearing in mind the need for flexibility if, of course, as we would anticipate, there would be a need to respond to changing circumstances.

Y mater arall sydd wedi cael ei grybwyll gan yr Aelodau'n bennaf yw mater cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Nid oes ateb cywir i hyn. Am wn i, barn wrthrychol yr Aelodau fyddai hyn. Mae'n iawn dweud y bydd yna Aelodau yn y Siambr o'r farn y byddai is-ddeddfwriaeth yn fwy o eithriad na'r rheol, ond unwaith eto, yn fy marn i, mae'n fater sy'n ymwneud ag un gair, sef 'hyblygrwydd'. Lle y bo'n briodol gosod egwyddor ddeddfwriaethol a luniwyd i barhau am flynyddoedd lawer, yna, wrth gwrs, deddfwriaeth sylfaenol yw'r lle i gynnwys egwyddor o'r fath. Ond mae angen hyblygrwydd. Lle y ceir dealltwriaeth y gallai fod angen i'r ddeddfwriaeth newid, ar fwy nag un achlysur o bosibl dros gyfnod o nifer o flynyddoedd, yna mae'n amlwg fod is-ddeddfwriaeth yn darparu'r hyblygrwydd i allu gwneud hynny. Rydym yn ceisio rhoi ystyriaeth ofalus i'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Byddwn yn dadlau ein bod wedi taro'r cydbwysedd cywir. Mae yna bobl eraill sy'n barnu'n wahanol. Mae'n ffin anodd iawn i'w gosod, rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Ond byddwn yn ymdrechu i gadw'r cydbwysedd cywir, ac i wneud yn siŵr fod cymaint o fanylion ag y bo modd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol, ond gan gadw mewn cof yr angen am hyblygrwydd pe byddai angen ymateb i amgylchiadau sy'n newid, wrth gwrs, fel y byddem yn ei ragweld.

So, in conclusion, can I thank the committee for this helpful report, to acknowledge the significant contributions of the committee, and all committees of this Assembly, to the scrutiny of legislation this term? I think it's fair to say that other institutions scrutinise legislation with a greater number of people, and I know that Members have been dedicated in the way they've scrutinised legislation with a very heavy workload. It's a matter for the future as to what the size of this Assembly should be, but nevertheless, there were some who said in 2011 when we acquired primary law-making powers that with our numbers, we would not manage. I believe that we have managed far better than anybody would have expected.

Felly, i gloi, a gaf fi ddiolch i'r pwyllgor am yr adroddiad defnyddiol hwn, a chydnabod cyfraniadau sylweddol y pwyllgor, a holl bwyllgorau'r Cynulliad hwn, i graffu ar ddeddfwriaeth yn ystod y tymor hwn? Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod gan sefydliadau eraill nifer fwy o bobl ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth, a gwn fod yr Aelodau wedi bod yn ymroddedig yn y ffordd y maent wedi craffu ar ddeddfwriaeth gyda llwyth gwaith trwm iawn. Mater i'w godi yn y dyfodol yw beth y dylai maint y Cynulliad hwn fod, ond serch hynny, roedd rhai'n dweud yn 2011 na fyddem yn ymdopi pan gaem bwerau deddfu sylfaenol am nad oes digon ohonom. Credaf ein bod wedi llwyddo'n llawer gwell nag y byddai neb wedi disgwyl.

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the committee, David Melding, to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, David Melding, i ymateb i'r ddadl.

15:07

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I must say, I think the quality of the contributions from everyone this afternoon reflects the quality of thought in the actual report itself. I'm very grateful for Members engaging in such a thorough and connected way. Can I just refer to one or two points each Member raised, insofar as they encapsulate the general themes we've been discussing this afternoon?

Diolch i chi, Lywydd. Rhaid i mi ddweud, rwy'n meddwl bod ansawdd y cyfraniadau gan bawb y prynhawn yma yn adlewyrchu ansawdd y meddwl sydd yn yr adroddiad ei hun. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelodau am gymryd rhan mewn modd mor drylwyr a chysylltiedig. A gaf fi gyfeirio at un neu ddau o'r pwyntiau a gododd pob Aelod, i'r graddau eu bod yn crynhoi'r themâu cyffredinol a drafodwyd gennym y prynhawn yma?

Gwenda Thomas, speaking from that wonderful well-called experience—you know what it's like and what matters—reminded us that use of regulations is appropriate. It would be difficult to see any complex piece of law without a substantial amount of regulation, and indeed if you had everything on the face of the Bill and very little as regulations, we would find that very difficult to scrutinise. We would have massive statutes. So, there is a balance to be struck here, and there does need to be flexibility in how the law is allowed to adapt within appropriate parameters. You did refer to some of the flexible ways we can manage the system, like the use of the superaffirmative process for regulations that clearly are really important to the citizen. Our committee has definitely recognised that. I thought, when you said that citizens are partners, that absolutely struck the right tone this afternoon.

Cawsom ein hatgoffa gan Gwenda Thomas, a siaradodd o'r profiad gwych hwnnw sydd ganddi—rydych yn gwybod sut beth ydyw a'r hyn sy'n bwysig—fod y defnydd o reoliadau yn briodol. Byddai'n anodd gweld unrhyw ddarn cymhleth o gyfraith heb swm sylweddol o reoliadau, ac yn wir pe bai popeth ar wyneb y Bil ac ychydig iawn o reoliadau, byddem yn ei gael yn anodd iawn i'w graffu. Byddai gennym statudau enfawr. Felly, mae angen sicrhau cydbwysedd yma, ac mae angen hyblygrwydd o ran y ffordd y caniateir i'r gyfraith addasu o fewn paramedrau priodol. Fe gyfeirioch at rai o'r ffyrdd hyblyg y gallwn reoli'r system, megis y defnydd o'r broses uwchgadarnhaol ar gyfer rheoliadau sy'n amlwg yn wirioneddol bwysig i'r dinesydd. Yn bendant, mae ein pwyllgor wedi cydnabod hynny. Pan ddywedoch fod dinasyddion yn bartneriaid, roeddwn yn teimlo bod hynny yn bendant wedi taro'r nodyn cywir y prynhawn yma.

Can I thank Suzy Davies for emphasising the balance that we need to strike in the use of regulations, particularly being careful of any fundamental principle or anything in primary law that can be altered by regulation? It's something to be treated with real regard and caution. The speed of the process, or arguments about speeding up the process and making it easier for the Government to use, really shouldn't be what we're about. We're about making good law and implementing good law—through the appropriate use of regulations sometimes—that benefit the citizen. Convenience, or speed, is secondary. If you're quick and wrong, it's not really a good combination.

A gaf fi ddiolch i Suzy Davies am bwysleisio'r cydbwysedd sydd angen i ni ei sicrhau yn y defnydd o reoliadau, ac yn arbennig yr angen i fod yn ofalus o unrhyw egwyddor sylfaenol neu unrhyw beth yn y gyfraith sylfaenol y gellir ei newid drwy reoliad? Mae'n rhywbeth y dylid ei drin â pharch a gofal go iawn. Ni ddylai ymwneud â chyflymder y broses, neu ddadleuon ynghylch cyflymu'r broses a'i gwneud yn haws i'r Llywodraeth ei defnyddio. Dylai ymwneud â deddfu da a gweithredu cyfraith dda—drwy ddefnydd priodol o reoliadau weithiau—sydd o fudd i'r dinesydd. Materion eilradd yw cyfleustra, neu gyflymder. Nid yw bod yn gyflym ac yn anghywir yn gyfuniad da.

Alun Ffred Jones talked as a committee Chair who has dealt with three Bills, and I thought that was a really important contribution. The effectiveness of Stage 1 scrutiny—in general, I think we can be very proud of how that works, and it has been constructive. But, I think you really did hit the nail when you said that a large number of amendments introduced by the Government can distort the shape of the Bill and how we scrutinise it, because it doesn't allow us that fuller reflection that you do get at Stage 1, if at Stage 2 you've suddenly got a huge volume of Government amendments. It has been a problem in some cases.

Siaradodd Alun Ffred Jones fel Cadeirydd y pwyllgor sydd wedi ymdrin â thri Bil, ac roeddwn yn credu bod hwnnw'n gyfraniad pwysig iawn. Effeithiolrwydd craffu Cyfnod 1—yn gyffredinol, rwy'n meddwl y gallwn fod yn falch iawn o sut y mae hynny'n gweithio, ac mae wedi bod yn adeiladol. Ond rwy'n meddwl eich bod wedi taro'r hoelen ar ei phen go iawn pan ddywedoch y gall nifer fawr o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ystumio siâp y Bil a'r modd rydym yn craffu arno, gan nad yw'n caniatáu'r ystyriaeth lawnach a gewch yng Nghyfnod 1, os oes gennych, yn sydyn, nifer enfawr o welliannau gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 2. Mae wedi bod yn broblem mewn rhai achosion.

Aled Roberts talked about the human rights dimension. That is very important in terms of clear explanatory memoranda on key issues, so that we can measure the merit of the technical drafting of law. That's very, very important; as is the use of a Report Stage, because we are a unicameral institution. We need to stretch our process a bit, because we only get one go at it—it doesn't go through two Chambers. I think that came through very powerfully in all our evidence.

Soniodd Aled Roberts am y dimensiwn hawliau dynol. Mae hynny'n bwysig iawn o ran memoranda esboniadol eglur ar faterion allweddol, er mwyn i ni allu mesur gwerth drafftio'r gyfraith yn dechnegol. Mae hynny'n bwysig iawn, iawn; fel y mae'r defnydd o Gyfnod Adrodd, am ein bod yn sefydliad un siambr. Mae angen i ni ymestyn ein proses ychydig, gan mai un cyfle yn unig a gawn—nid yw'n mynd drwy ddwy Siambr. Rwy'n meddwl bod hynny wedi'i gyfleu'n rymus iawn yn ein holl dystiolaeth.

Can I thank the First Minister for the tone of his contribution? It was very generous. He started absolutely right. You know, Egyptian potato Orders, the sheep and goat regulations. I used to call out to Dafydd Elis-Thomas, 'Sheep to the right, goats to the left', and he would scowl at me. The Fourth Assembly has shown that we are a proper full legislature. It's worked. We've not been a laughing stock. We've produced some, what people would say, outstanding statute; some real major areas of public policy have been addressed in law. The Government has great credit there, as does the legislature. Our report is about making this process world class. We've already shown we can do it and meet some of the best standards in the English-speaking world and the parliamentary tradition we're in. But, we can go further. That's why I think draft Bills—. It was interesting, you said it was appropriate where complex and controversial issues are being addressed. I'm quite happy with that type of approach. I think that does capture what we're about. So, if that's the compromise, I'll take it.

A gaf fi ddiolch i'r Prif Weinidog am oslef ei gyfraniad? Roedd yn hael iawn. Dechreuodd yn gwbl gywir. Wyddoch chi, Gorchmynion tatws o'r Aifft, y rheoliadau defaid a geifr. Roeddwn i'n arfer galw ar Dafydd Elis-Thomas, 'Defaid i'r dde, geifr i'r chwith', a byddai'n gwgu arnaf. Mae'r Pedwerydd Cynulliad wedi dangos ein bod yn ddeddfwrfa lawn go iawn. Mae wedi gweithio. Nid ydym wedi bod yn destun sbort. Byddai pobl yn dweud ein bod wedi cynhyrchu peth statud rhagorol; mae rhai meysydd gwirioneddol bwysig o bolisi cyhoeddus wedi cael sylw yn y gyfraith. Mae'n glod mawr i'r Llywodraeth, ac i'r ddeddfwrfa. Mae ein hadroddiad yn ymwneud â gwneud y broses hon yn un o'r radd flaenaf. Rydym wedi dangos eisoes y gallwn wneud hynny a chyrraedd rhai o'r safonau gorau yn y byd Saesneg ei iaith a'r traddodiad seneddol rydym yn rhan ohono. Ond gallwn fynd ymhellach. Dyna pam rwy'n credu bod Biliau drafft—. Roedd yn ddiddorol, fe ddywedoch eu bod yn briodol lle y rhoddir sylw i faterion cymhleth a dadleuol. Rwy'n eithaf hapus gydag agwedd o'r fath. Credaf ei bod yn agwedd sy'n crisialu'r hyn rydym yn ceisio'i wneud. Felly, os mai dyna'r cyfaddawd, rwy'n ei dderbyn.

Co-drafting: I think we all need to think about this because using Welsh as a resource is something we thought we'd find evidence of. Whilst there's excellent working in part, in co-drafting in certain areas, and the standard of translation is outstanding, I think we thought there'd be more of a creative process where law could be honed and some of the principles thought through in either language, using the most appropriate one to get the best type of statute. We didn't find so much comprehensive evidence for that, which did slightly disappoint us. In conclusion, can I thank everyone for an excellent debate this afternoon?

Cyd-ddrafftio: rwy'n meddwl bod angen i ni i gyd feddwl am hyn gan fod defnyddio'r Gymraeg fel adnodd yn rhywbeth roeddem yn meddwl y byddem yn dod o hyd i dystiolaeth ohono. Er bod gwaith ardderchog yn digwydd yn rhannol, ar gyd-ddrafftio rhai meysydd, a bod safon y cyfieithu yn rhagorol, rwy'n credu ein bod wedi meddwl y byddai yna broses fwy creadigol lle y gellid hogi'r gyfraith a meddwl drwy rai o'r egwyddorion yn y naill iaith neu'r llall, gan ddefnyddio'r un fwyaf priodol i gael y math gorau o statud. Ni welsom gymaint o dystiolaeth gynhwysfawr dros hynny, ac roedd hynny'n ein siomi braidd. I gloi, a gaf fi ddiolch i bawb am ddadl wych y prynhawn yma?

15:11

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. The proposal is to note the committee's report. Does anyone object? No objections. Therefore, the report is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch yn fawr iawn. Y cynnig yw nodi adroddiad y pwyllgor. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd yr adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cyllido Addysg Uwch

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 4 yn enw Elin Jones.*

## 5. Welsh Conservatives Debate: Higher Education Funding

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts, and amendment 4 in the name of Elin Jones.*

15:12

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 5, which is the first of the Welsh Conservatives' debates, on higher education funding. I call on Angela Burns to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef dadl gyntaf y Ceidwadwyr Cymreig, ar drefniadau cyllido addysg uwch. Galwaf ar Angela Burns i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5920 Paul Davies

Motion NDM5920 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi canfyddiadau'r adroddiad interim ar yr Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, sy'n datgan nad yw'r system bresennol yn gynaliadwy, gan adleisio galwadau gan Brifysgolion Cymru, Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac Undeb y Colegau a Phrifysgolion;

1. Notes the findings from the interim report into the Review of Higher Education Funding and Student Finance Arrangements in Wales, which states the existing system is 'not sustainable', echoing calls from Universities Wales, the Learned Society of Wales and University and College Union;

2. Yn cydnabod, fel y nodwyd yn yr adroddiad interim, fod angen i Lywodraeth Cymru 'ailystyried y polisi grant ffioedd dysgu' yng Nghymru; a

2. Recognises the need, identified by the interim report, for the Welsh Government to 'revisit the tuition fee grant policy' in Wales;

3. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ailfodelu cyllid addysg uwch yng Nghymru, gan weithredu polisi mwy cynaliadwy a chynnig mwy o flaenoriaeth i system gynyddol o gefnogi costau byw.

3. Believes the Welsh Government should remodel higher education funding in Wales, implementing a more sustainable policy and offering greater priority to a progressive system of living cost support.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:12

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Presiding Officer. I wish to move the Welsh Conservatives' motion before us this afternoon. In the course of my contribution, I will deal with our thoughts on the various amendments tabled to it.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Hoffwn gynnig cynnig y Ceidwadwyr Cymreig sydd ger ein bron y prynhawn yma. Yn ystod fy nghyfraniad, byddaf yn trafod ein barn ar y gwelliannau amrywiol a gyflwynwyd iddo.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The future of our higher education sector is of critical importance to the individual and to the nation. A sentiment echoed in a number of different ways by Professor Diamond in his interim report into the review of higher education funding. I would like to put on record my thanks to Professor Diamond and the other members of the review panel for their work to date. Minister, I acknowledge that the review team, and indeed yourself, have made it very clear that this is an interim report and that there is an intent to issue conclusions and recommendations in September 2016.

Mae dyfodol ein sector addysg uwch yn hanfodol bwysig i'r unigolyn ac i'r genedl. Teimlad a adleisir mewn nifer o ffyrdd gwahanol gan yr Athro Diamond yn ei adroddiad interim ar yr adolygiad o drefniadau cyllido addysg uwch. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Athro Diamond ac aelodau eraill y panel adolygu am eu gwaith hyd yn hyn. Weinidog, rwy'n cydnabod bod y tîm adolygu, a chithau yn wir, wedi dweud yn glir iawn mai adroddiad interim yw hwn a bod bwriad i gyhoeddi casgliadau ac argymhellion ym Medi 2016.

However, at present, funding of higher education is in a state of enormous flux. The Labour Government has proposed cuts to the higher education budget of some 32 per cent, and the interim report itself contains enough data and opinion for the reader to be able to understand the direction of travel. We surely can all agree that the next Welsh Government needs to implement a funding strategy for higher education that will not only be manageable and sustainable, but also be in line with the desires of students. Surely, we can all agree that the higher education sector benefits both the individual and the nation. By widening access, it can be a driver of social mobility, as well as playing a central role in the economy, life and culture of Wales.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae cyllido addysg uwch mewn cyfnod o newid enfawr. Mae'r Llywodraeth Lafur wedi argymell toriadau o tua 32 y cant i'r gyllideb addysg uwch, ac mae'r adroddiad interim ei hun yn cynnwys digon o ddata a barn i'r darllenydd allu deall i ba gyfeiriad y mae'n mynd. 'Does bosibl na all bawb ohonom gytuno bod angen i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu strategaeth ariannu ar gyfer addysg uwch a fydd nid yn unig yn hydrin ac yn gynaliadwy, ond hefyd yn cyd-fynd â dyheadau myfyrwyr. Yn sicr, gall pawb ohonom gytuno bod y sector addysg uwch o fantais i'r unigolyn a'r genedl. Drwy ehangu mynediad, gall fod yn ysgogydd symudedd cymdeithasol, yn ogystal â chwarae rhan ganolog yn economi, bywyd a diwylliant Cymru.

Universities are great enablers. They can attract economic and research investment and world-class staff, and inspire students to achieve the unthinkable. The Welsh Conservatives are determined that these institutions should continue to deliver that good for us all. This is why we call on the National Assembly to note the findings of the interim report. Without a doubt, one of the key findings is that the existing funding system is simply not sustainable. To make higher education accessible—

Mae prifysgolion yn alluogwyr gwych. Gallant ddenu buddsoddiad economaidd ac ymchwil a staff o'r radd flaenaf, ac ysbrydoli myfyrwyr i gyflawni y tu hwnt i amgyffred. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn benderfynol y dylai'r sefydliadau hyn barhau i ddarparu'r daioni hwnnw i ni i gyd. Dyma pam rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i nodi canfyddiadau'r adroddiad interim. Heb os nac oni bai, un o'r canfyddiadau allweddol, yn syml, yw nad yw'r system gyllido bresennol yn gynaliadwy. Er mwyn sicrhau bod addysg uwch ar gael—

15:14 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

15:14 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course.

Wrth gwrs.

15:14 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think you started off with a particular message, indicating that it was recognised that these are not findings, but that these are actually just points at which the evidence is coming forward. Therefore, there are no findings at this moment in time. It's actually an interim report that simply highlights some of the issues that have been raised with them.

Rwy'n meddwl eich bod wedi dechrau gyda neges benodol, gan ddangos ei fod wedi'i gydnabod nad canfyddiadau yw'r rhain, ond pwyntiau'n unig mewn gwirionedd lle y daw'r dystiolaeth gerbron. Felly, nid oes unrhyw ganfyddiadau ar hyn o bryd. Adroddiad interim ydyw sy'n mynd ati'n syml i amlygu rhai o'r materion a dynnwyd i'w sylw.

15:14 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't agree with you, actually. They may not be the findings of Professor Diamond, but within the report are the findings of the organisations that have contributed—a point I was just about to make. Because, to make higher education accessible is an admirable objective. But, the Welsh Government's tuition fee grant policy is not the vehicle to achieve that objective.

Nid wyf yn cytuno â chi mewn gwirionedd. Efallai nad canfyddiadau'r Athro Diamond ydynt ond yn yr adroddiad ceir canfyddiadau'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu—pwynt roeddwn ar fin ei wneud. Oherwydd mae sicrhau bod addysg uwch yn hygyrch yn amcan cymeradwy. Ond nid polisi grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru yw'r cyfrwng i gyflawni'r amcan hwnnw.

The interim report is supported by evidence given by notable organisations such as Universities Wales, the Learned Society of Wales, and the University and College Union. It's time, in our view, to abandon this project, and I would urge both Welsh Government and their Labour colleagues to take a cool, hard look at the numbers behind this policy, because they are indeed staggering. From the beginning of this Assembly term to what will be paid out in this, its final year, the amount has increased from £25.2 million in 2011-12 to £264.2 million in 2015-16—an increase of almost 950 per cent. The UCU and London Economics report on funding for higher education sheds further light on the extent of the cost of this policy.

Cefnogir yr adroddiad interim gan dystiolaeth a roddwyd gan sefydliadau nodedig fel Prifysgolion Cymru, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a'r Undeb Prifysgolion a Cholegau. Mae'n bryd rhoi'r gorau i'r prosiect hwn yn ein barn ni, a byddwn yn annog Llywodraeth Cymru a'u cydweithwyr Llafur i edrych yn ofalus dros ben ar y niferoedd sy'n sail i'r polisi hwn gan eu bod yn wirioneddol syfrdanol. O ddechrau'r tymor Cynulliad hwn i'r hyn a delir allan eleni, ei flwyddyn olaf, mae'r swm wedi cynyddu o £25.2 miliwn yn 2011-12 i £264.2 miliwn yn 2015-16—cynnydd o bron i 950 y cant. Mae adroddiad yr Undeb Prifysgolion a Cholegau a London Economics ar gyllid ar gyfer addysg uwch yn taflu goleuni pellach ar faint costau'r polisi hwn.

According to this report on funding, total public funding associated with a full-time Welsh undergraduate student studying in Wales during 2013-14 was around £9,500—higher than all the other UK nations—and Welsh students studying in England receive even more funding than that. When we marry these numbers with the fact that 81 per cent of public funding for higher education in Wales is provided via student support, it means that a substantial amount of money that could have supported Welsh universities is moving across the Severn instead. Furthermore, with the gap between students importing into and exporting out of Wales narrowing, we are right to be concerned that a great deal of money that could be invested into Welsh universities is used to subsidise English institutions. Furthermore, the number of English students deciding to study at Welsh universities has decreased, while the number of Wales-domiciled applicants getting accepted into English universities has increased. If this trend continues, the volatile funding stream that Welsh Government has relied upon will become worse than unpredictable. It will slowly close, leaving Welsh universities at even greater risk.

Yn ôl yr adroddiad hwn ar gyllid, cyfanswm y cyllid cyhoeddus a oedd yn gysylltiedig â myfyriwr israddedig amser llawn o Gymru yn astudio yng Nghymru yn ystod 2013-14 oedd tua £9,500—yn uwch na holl wledydd eraill y DU—ac mae myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn Lloegr yn cael mwy o arian na hynny hyd yn oed. Pan gyplyswn y ffigurau hyn gyda'r ffaith fod 81 y cant o gyllid cyhoeddus ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng cymorth i fyfyrwyr, mae'n golygu bod swm sylweddol o arian a allai fod wedi cefnogi prifysgolion yng Nghymru yn symud dros afon Hafren yn lle hynny. Ar ben hynny, gyda'r bwlch rhwng y myfyrwyr sy'n dod i Gymru a'r myfyrwyr sy'n mynd o Gymru yn culhau, rydym yn iawn i bryderu bod llawer iawn o arian y gellid bod wedi'i fuddsoddi mewn prifysgolion yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio fel cymhorthdal i sefydliadau yn Lloegr. Ar ben hynny, mae nifer y myfyrwyr o Loegr sy'n penderfynu astudio mewn prifysgolion yng Nghymru wedi gostwng, ac mae nifer yr ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru ac sy'n cael eu derbyn i brifysgolion yn Lloegr wedi cynyddu. Os yw'r duedd hon yn parhau, bydd y ffrwd ariannu anwadal y mae Llywodraeth Cymru wedi dibynnu arni'n mynd yn waeth nag anrhagweladwy. Bydd yn araf gau, gan adael prifysgolion Cymru mewn perygl mwy byth.

Now, do not misinterpret me, I absolutely defend the right of students to be able to study in the university of their choice, and, if they are eligible for support, then it should make no difference whether they are in Cardiff or Cambridge. As Welsh Conservatives, we would make it clear that we would not look inwards, we would not follow a parochial policy, we would not financially penalise students for studying away from Wales. My argument is that, in an effort to curry favour, and, to be frank, out of fear of what happened to the Liberal Democrats, the Welsh Government is practising a policy that is so costly it is decimating education spend in higher education and throughout the portfolio. Last year, further education suffered eye-watering cuts because the Welsh Government had to fund this policy; this year, it's the turn of universities themselves. We must also be aware that many smaller areas are taking enormous cuts because of the disproportionate amounts of money being sucked up by the tuition fees policy, whether it's the Coleg Cymraeg Cenedlaethol—[Interruption.] Thank you. Whether it's adult education courses, the Welsh language, part-time funding, postgraduate support, research—all are struggling with funding issues, whilst millions goes to support the tuition fees policy.

Nawr, peidiwch â fy nghamddehongli, rwy'n amddiffyn hawl myfyrwyr i astudio mewn prifysgol o'u dewis yn llwyr ac os ydynt yn gymwys i gael cymorth, yna ni ddylai wneud unrhyw wahaniaeth a ydynt yng Nghaerdydd neu yng Nghaergrawnt. Fel Ceidwadwyr Cymreig, byddem yn ei gwneud yn glir na fyddem yn edrych tuag at i mewn, ni fyddem yn dilyn polisi plwyfol, ni fyddem yn cosbi myfyrwyr yn ariannol am astudio y tu allan i Gymru. Fy nadl i yw hon: mewn ymdrech i geisio ffafr, ac i fod yn onest, am eu bod yn ofni'r hyn a ddigwyddodd i'r Democratiaid Rhyddfrydol, mae Llywodraeth Cymru yn arfer polisi sydd mor gostus fel ei fod yn dinistrio gwariant ar addysg uwch a thrwy'r portffolio i gyd. Y llynedd, dioddefodd addysg bellach doriadau a oedd yn ddigon i ddod â dŵr i'ch llygaid oherwydd bod rhaid i Lywodraeth Cymru ariannu'r polisi hwn; eleni, tro'r prifysgolion eu hunain ydyw. Mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol hefyd fod nifer o feysydd llai yn dioddef toriadau enfawr oherwydd y symiau anghymesur o arian sy'n cael eu sugno gan y polisi ffioedd dysgu, boed y Coleg Cymraeg Cenedlaethol—[Torri ar draws.] Diolch. Boed yn gyrsiau addysg i oedolion, yr iaith Gymraeg, ariannu darpariaeth ran-amser, cefnogaeth ôl-raddedig, ymchwil—maent oll yn ymrafael â phroblemau cyllido wrth i filiynau fynd i gefnogi'r polisi ffioedd dysgu.

Let us not forget that one of the very clear comments made by Diamond was to highlight the importance of schools in paving the way for our young people to access FE and HE, yet schools in my constituency, schools across Wales, are taking severe cuts that have to be realised year after year, culminating in some serious damage to the infrastructure that needs to be maintained to provide that clear pathway Diamond speaks of. These cuts are set to harm the body of education, and all to preserve a policy that is growing out of control and harming that which it sought to improve. This is why the Welsh Conservatives believe the Government should remodel HE funding in order to produce a far more sustainable outcome.

Gadewch i ni beidio ag anghofio mai un o'r sylwadau clir iawn a wnaeth Diamond oedd amlygu pwysigrwydd ysgolion yn paratoi'r ffordd i'n pobl ifanc fynd i mewn i addysg bellach ac addysg uwch, ac eto mae ysgolion yn fy etholaeth, ysgolion ledled Cymru, yn dioddef toriadau difrifol sy'n rhaid eu cyflawni flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan arwain at ddifrod difrifol i'r seilwaith sy'n rhaid ei gynnal er mwyn darparu'r llwybr clir y mae Diamond yn sôn amdano. Mae'r toriadau hyn yn mynd i niweidio addysg, a'r cyfan er mwyn cadw polisi sy'n tyfu y tu hwnt i reolaeth gan niweidio'r hyn y ceisiai ei wella. Dyma pam y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylai'r Llywodraeth ailfodelu trefn gyllido addysg uwch er mwyn sicrhau canlyniad llawer mwy cynaliadwy.

When you look at the evidence, it appears that the cost of tuition is a negligible factor in determining whether a student will decide to apply for a course. The main barrier to higher education is the astronomical cost of living, and financial difficulties are making many students reconsider whether they can sustain their courses. As the National Union of Students have clearly identified, around a third of students across all groups report negatively on their wellbeing, on key indicators, such as their ability to meet the cost of basic expenses—bills and rent—and their ability to concentrate on studies because of their worries about finances. Students find that course-related costs are expensive and often concealed, and there's a clear association between high course costs and low wellbeing. In our rural areas this has an even stronger impact on students, as transport and accommodation costs can be extremely high. And this is why a Welsh Conservative Government would reform the financial support for living costs. We would deliver an offer that would take greater account of a student household's financial commitments and pressures. We would support an innovative widening access programme. We would support part-time students, disabled students and students with caring responsibilities. We would help give students the peace of mind they need on living costs so they can channel their energies on their studies instead.

Pan edrychwch ar y dystiolaeth, mae'n ymddangos bod cost ffioedd dysgu yn ffactor dibwys wrth bennu a fydd myfyriwr yn penderfynu gwneud cais am le ar gwrs. Y prif rwystr i addysg uwch yw'r costau byw annaearol, ac mae trafferthion ariannol yn gwneud i lawer o fyfyrwyr ailystyried a allant gynnal eu cyrsiau. Fel y mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wedi'i nodi'n glir, mae oddeutu traean y myfyrwyr ar draws pob grŵp yn adrodd yn negyddol ar eu lles, ar ddangosyddion allweddol, megis eu gallu i dalu treuliau sylfaenol—biliau a rhent—a'u gallu i ganolbwyntio ar astudio oherwydd eu pryderon ynghylch materion ariannol. Mae myfyrwyr yn canfod bod costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs yn ddrud ac yn aml yn gudd, a cheir cysylltiad clir rhwng costau uchel cyrsiau a lefelau lles isel. Yn ein hardaloedd gwledig, mae hyn yn effeithio'n waeth byth ar fyfyrwyr, gan y gall costau trafnidiaeth a llety fod yn eithriadol o uchel. Dyma pam y byddai Llywodraeth Geidwadol Cymru yn diwygio'r cymorth ariannol ar gyfer costau byw. Byddem yn cyflwyno cynnig a fyddai'n rhoi mwy o ystyriaeth i ymrwymiadau a phwysau ariannol yr aelwyd ar y myfyriwr. Byddem yn cefnogi rhaglen ehangu mynediad arloesol. Byddem yn cefnogi myfyrwyr rhan-amser, myfyrwyr anabl a myfyrwyr â chyfrifoldebau gofal. Byddem yn helpu i roi'r tawelwch meddwl sydd ei angen arnynt i fyfyrwyr ynghylch costau byw er mwyn iddynt allu sianelu eu hegni ar gyfer astudio.

Additionally, we would look to widen access to mental health services. Additionally, we would look to establish the gender identity services the National Union of Students so desperately want to see. Additionally, we would enable access to counselling support. So, given this, we will be abstaining from supporting amendments 1 and 3, as we will putting forward our own programme for students, although I suspect there'll be much between us that would be very similar.

At hynny, byddem yn ceisio ehangu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. At hynny, byddem yn ceisio sefydlu'r gwasanaethau hunaniaeth o ran rhywedd y mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr am eu gweld mor daer. At hynny, byddem yn galluogi mynediad at gymorth cwnsela. Felly, o ystyried hyn, byddwn yn ymatal rhag cefnogi gwelliannau 1 a 3, gan y byddwn yn cyflwyno ein rhaglen ein hunain ar gyfer myfyrwyr, er fy mod yn tybio y bydd gennym lawer o bethau'n debyg iawn.

Before Christmas last year, we received a taste of what is to come in the final report in September. Welsh Government, in particular, must heed its contents carefully and take action, otherwise it will have been yet another—and we've had a few of these—costly exercise to give an impression that something is being done. What a Welsh Conservative Government can guarantee is that we would make changes to how higher education is funded in Wales, because we are committed to the higher education sector and we realise its importance to the country. Not only are universities vital contributors to our economy, they're also a crucial vehicle that drives social mobility. We are all in agreement, I'm sure, that a child can succeed whatever that background, and we must help to ensure that their path to do so is clear. Universities can be a part of that journey, and a Welsh Conservative Government would ensure that they remain so.

Cyn y Nadolig y llynedd, cawsom flas ar yr hyn sydd i ddod yn yr adroddiad terfynol ym mis Medi. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, yn arbennig, wrando ar ei gynnwys yn ofalus a rhoi camau ar waith, neu fel arall ni fydd ond yn ymarfer costus arall i roi'r argraff fod rhywbeth yn cael ei wneud—ac rydym wedi cael nifer o'r rheini. Yr hyn y gall Llywodraeth Geidwadol Cymru ei warantu yw y byddem yn gwneud newidiadau i'r ffordd y cyllidir addysg uwch yng Nghymru, gan ein bod wedi ymrwymo i'r sector addysg uwch ac rydym yn sylweddoli pa mor bwysig ydyw i'r wlad. Nid yn unig y mae prifysgolion yn gyfranwyr hanfodol i'n heconomi, maent hefyd yn gyfrwng hollbwysig sy'n ysgogi symudedd cymdeithasol. Rydym i gyd yn cytuno, rwy'n siŵr, y gall plentyn lwyddo beth bynnag yw ei gefndir, ac mae'n rhaid i ni helpu i sicrhau bod ganddynt lwybr clir i wneud hynny. Gall prifysgolion fod yn rhan o'r daith honno a byddai Llywodraeth Geidwadol Cymru yn sicrhau bod hynny'n parhau.

15:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the four amendments to the motion. I call on Aled Roberts to move amendments 1, 2 and 3 in his name.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 yn ei enw.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn nodi adroddiad polisi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru o 2013, 'Fairness and Freedom in Higher Education', sy'n galw am grant cymorth byw i fyfyrwyr, er mwyn symud ffocws cymorth y llywodraeth o ryddhad o ddyledion ffioedd dysgu i gefnogaeth ar gyfer costau byw, fel ffordd decach a mwy effeithiol o sicrhau nad yw cyllid yn rhwystr i addysg uwch.*

*Notes the Welsh Liberal Democrat 2013 policy report 'Fairness and Freedom in Higher Education' which calls for a student living support grant, to shift the focus of government assistance from tuition fee debt relief to support for living costs, as a fairer and more effective way of ensuring finance is not a barrier to higher education.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn nodi adroddiad polisi Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, 'Punt yn Eich Poced', a ganfu fod 58 y cant o fyfyrwyr poeni'n rheolaidd am beidio â chael digon o arian i gwrdd â'u costau byw sylfaenol fel rhent neu filiau cyfleustodau.*

*Notes the National Union of Students' policy report, 'Pound in Your Pocket', which found that 58 per cent of students regularly worry about not having enough money to meet their basic living expenses such as rent or utility bills.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Ar ddiwedd pwynt 3, mewnosoder:*

*At end of point 3, insert:*

*'fel drwy gyflwyno grant cymorth byw i fyfyrwyr.'*

*'such as by the introduction of a student living support grant.'*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 3.*

*Amendments 1, 2 and 3 moved.*

15:22

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wrth wneud hynny, rwy'n meddwl ein bod ni yn cydnabod y trafferthion, hwyrach, y mae'r polisi yma yn eu creu nid yn unig yma yng Nghymru, ond hefyd yn yr Alban a Lloegr erbyn hyn. Ond mi wnaf gynnig yn ffurfiol welliannau 1, 2 a 3, ac wrth wneud hynny, gydnabod hefyd fod yna adolygiad, wrth gwrs—adolygiad Diamond—sydd yn edrych ar y problemau sydd yn ein hwynebu, ac sydd hefyd, yn y lle cyntaf, yn derbyn tystiolaeth.

Thank you, Deputy Presiding Officer. In so doing, I think that we acknowledge the difficulties that perhaps this policy creates, not only here in Wales, but also in Scotland and England by now. But I will formally move amendments 1, 2 and 3, and, in so doing, I will also acknowledge that, of course, there is the Diamond review that is looking at the problems that are facing us, and that is also, in first place, collecting evidence.

Rwy'n meddwl fy mod i yn cytuno efo David Rees i ryw raddau mai beth sydd gennym ni ydy casgliad gan randdeiliaid ynghylch y ffaith mai eu barn nhw ar hyn o bryd ydy bod y gyfundrefn yn anghynaliadwy. Ond dyna'n barn ni fel plaid hefyd, a'r rheswm rydym ni wedi rhoi cynigion gerbron ydy i ddweud ein bod ni wedi dod i'r casgliad ers 2013 yma yng Nghymru bod angen i ni symud o'r sefyllfa. Mae'r sefyllfa yna yn cael ei chefnogi gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr erbyn hyn, gan y rhan fwyaf o randdeiliaid o fewn y sector, yn cynnwys Prifysgolion Cymru, sydd yn dweud mai'r broblem erbyn hyn—. Ac rwy'n siarad fel tad, a hwyrach y dylwn i nodi fy muddiant fel rhiant rhywun sydd yn y brifysgol ar hyn o bryd, ac hefyd bod fy ngwraig i yn aelod o fwrdd academaidd Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

I believe that I do agree with David Rees to some extent that what we have is a conclusion by stakeholders about the fact that their view at present is that the system is unsustainable. But that is our view as a party also, and the reason why we have moved these amendments is to say that we reached the conclusion since 2013 that, here in Wales, we need to change our position. That position is supported by the National Union of Students by now, and most of the stakeholders within the sector, including Universities Wales, which states that the problem by now—. I speak as a father, and perhaps I should actually declare an interest as the parent of a student at university at present, and also my wife is a member of the academic board of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Ond nid oes ateb syml, a dyna'r broblem sydd gennym ni, a dyna pam fod yr adolygiad yn cysidro'r problemau ar hyn o bryd. Achos, erbyn hyn, rydym ni'n gwybod o fewn y gyllideb ddrafft bod yna adnoddau sydd yn cael eu trosglwyddo o linellau eraill o fewn cyllideb addysg uwch er mwyn talu am y polisi yma. Mi oedd y Gweinidog blaenorol, er enghraifft, yn dweud mai cost y polisi yma fyddai tua 35 y cant o'r grant addysgu yn y lle cyntaf, ac, fel rydych chi wedi dweud, mai'r gost yna wedi cynyddu. Beth sydd yn ein pryderu ni fel plaid ydy, os ydym ni'n meddwl bod y toriad i HEFCW yn creu sefyllfa lle mai dim ond £88 miliwn sydd ar ôl, mi fydd yn rhaid i HEFCW ariannu yr holl flaenoriaethau yma, yn cynnwys myfyrwyr rhan amser, yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cynnwys darpariaeth cost uchel. Ond mae yna broblem yma, achos rydym wedi gweld wythnos diwethaf eich cyfeillion chi yn Llundain, er enghraifft, yn cael gwared ar y grant cynnal yn Lloegr, rhywbeth a wnaethon nhw o flaen pwyllgor o 18 Aelod Seneddol heb i unrhyw bleidlais gael ei chynnal yn Nhŷ'r Cyffredin.

But there is no simple solution, and that is the problem that we have, and that is why the review is considering the problems at present. Because, by now, we know that within the draft budget resources will be transferred from other expenditure lines within the higher education budget in order to pay for this policy. The previous Minister, for example, stated that the cost of this policy would be about 35 per cent of the education grant in the first place, but, as you have said, that cost has increased. What concerns us as a party is that if we think that the cut to HEFCW creates a situation where there'll be only £88 million remaining, then HEFCW will have to fund all these priorities, including part-time students, including Welsh-medium provision and including high-cost provision. But there is a problem here, because we've seen last week your friends in London, for example, getting rid of the maintenance grant in England—something that they did in front of a committee of 18 Members of Parliament without any vote being held in the House of Commons.

Felly, mae yna broblemau. Mae yna broblemau hefyd yn yr Alban y mae Llywodraeth yr SNP yn eu hwynebu. Felly, rwy'n meddwl mai'r peth gorau i ni ei wneud ydy aros am adolygiad Diamond, ond, er hynny, cydnabod yn y cyfamser, wrth i ni ystyried na fydd argymhellion Diamond yn cael eu gweithredu, hwyrach, tan 2019 neu 2020, bod yna broblem yma ynglŷn â sut mae prifysgolion yn cael eu hariannu yng Nghymru yn y cyfamser. Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig ein bod ni, fel gwleidyddion yma yn y Cynulliad, yn wynebu ffeithiau, achos mae yna bryder ym myd prifysgolion ar hyn o bryd. Hwyrach, bydd darpariaeth ran amser yn diflannu, fel y mae wedi yn Lloegr eisoes—mae yna ostyngiad o ryw 40 y cant ar hyn o bryd yn y ddarpariaeth yn Lloegr.

So, there are problems. There are problems also in Scotland that the SNP Government is now facing. So, I believe that the best thing for us to do is to await the Diamond review, but, notwithstanding that, acknowledge in the interim, given that the Diamond recommendations might not be implemented until 2019 or 2020, that there is a problem here as regards how universities in Wales are funded in the interim. I believe that it's important that we as politicians here in the Assembly face facts, because there is concern in the world of the universities at present. Possibly, part-time provision will disappear, as it already has in England—there is a reduction of about 20 per cent in England at the moment.

15:26

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to Aled Roberts for taking an intervention. Sorry, Aled, could I ask you to clarify, then? Are the Liberal Democrats saying that, although you realise that the tuition fees policy is unsustainable, you would not be prepared to do anything about it over the next few years?

Rwy'n ddiolchgar iawn i Aled Roberts am dderbyn ymyriad. Mae'n ddrwg gennyf, Aled, a gaf fi ofyn i chi egluro, felly? Er bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn sylweddoli bod y polisi ffioedd dysgu yn anghynaliadwy, a ydych yn dweud na fyddech yn barod i wneud unrhyw beth yn ei gylch yn ystod y blynyddoedd nesaf?

15:26

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What we're saying is that that's a matter for the Welsh Government. Clearly, the problem that we have—

Yr hyn rydym yn ei ddweud yw mai mater i Lywodraeth Cymru yw hynny. Yn amlwg, y broblem sydd gennym—

15:26

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Inaudible.]—of the Welsh Government.

[Anghlywadwy.]—Llywodraeth Cymru.

15:26

## Aled Roberts

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, the problem that we have in introducing a new policy is that it's going to take two or three years to actually feed through the system, and in the meantime I was saying that there's a crisis within Welsh universities that currently has to be addressed. Now, whether that has to be addressed through the transfer of funds to the education directorate or whether there has to be a discussion, the problem I think the Minister has is a problem that is reflected in the reports of the Children, Young People and Education Committee, that, for the last two years, the further education budgets have been raided in order to protect, to a certain extent, universities funding. This year, we've got the exact reverse, and I think it does create a situation where, in our group's opinion, asking HEFCW to actually prioritise within that £88 million that is left to them as far as the teaching grant is concerned, is providing them with an almost impossible task. I think the Minister has to realise that, although he would tell us that his remit letter will tell us what his priorities are. I would accept that there is a need for all parties in this Chamber to come together and to actually deal with the situation between now and 2019-20, because, otherwise, either part-time provision, Welsh-medium provision or high-cost courses will be decimated.

Wel, y broblem sydd gennym ynghylch cyflwyno polisi newydd yw ei fod yn mynd i gymryd dwy neu dair blynedd i fwydo drwy'r system, ac yn y cyfamser roeddwn yn dweud bod yna argyfwng o fewn prifysgolion Cymru y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef ar hyn o bryd. Nawr, pa un a oes rhaid mynd i'r afael ag ef drwy drosglwyddo cyllid i'r gyfarwyddiaeth addysg neu a oes rhaid cael trafodaeth, rwy'n meddwl mai'r broblem sydd gan y Gweinidog yw'r un a adlewyrchwyd yn adroddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sef bod y cyllidebau addysg bellach, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi cael eu hysbeilio, i ryw raddau er mwyn diogelu cyllid prifysgolion. Eleni, gwelwn y gwrthwyneb, ac rwy'n credu ei fod yn creu sefyllfa, ym marn ein grŵp, lle y mae gofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) flaenoriaethu o fewn yr £88 miliwn sydd ar ôl iddynt o'r grant addysgu, yn rhoi tasg bron yn amhosibl iddynt. Rwy'n meddwl bod rhaid i'r Gweinidog sylweddoli hynny, er y byddai'n dweud wrthym y bydd ei lythyr cylch gwaith yn dweud wrthym beth yw ei flaenoriaethau. Byddwn yn derbyn bod angen i bob plaid yn y Siambr hon ddod at ei gilydd ac ymdrin â'r sefyllfa rhwng nawr a 2019-20, oherwydd, fel arall, bydd naill ai'r ddarpariaeth ran-amser, y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu gyrsiau cost uchel yn cael eu hanrheithio.

15:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call Simon Thomas to move amendment 4, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn condemnio'r toriad difrifol i gyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-2017, sy'n dod o ganlyniad uniongyrchol i bolisi ffioedd cyfredol Llywodraeth Cymru. Yn credu bod hyn yn debygol o arwain at doriadau niweidiol mewn cymorth i fyfyrwyr rhan-amser, ymchwil, pynciau cost uchel a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.*

*Cynigiwyd gwelliant 4.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Add as new point at end of motion:*

*Condemns the severe cut to HEFCW's funding in the draft budget 2016-2017, which comes as a direct consequence of the Welsh Government's current fees policy. Believes that this is likely to lead to damaging cuts in support for part time students, research, high cost subjects and the Coleg Cymraeg Cenedlaethol.*

*Amendment 4 moved.*

15:27 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Beth bynnag, rwy'n credu y byddwn ni'n canfod fod y ddadl yma'n mynd i fod yn un ddiddorol. Rwyf i wedi bod yn dadlau ers pedair blynedd yn y Siambr hon fod y cynllun presennol ar ffioedd dysgu yn anfforddiadwy yn y tymor hir, ac rydym ni wedi gweld yn y gyllideb ddrafft eleni beth yw gwir effaith yr anfforddiadwyedd hynny. Rwy'n falch bod dwy o'r pleidiau eraill wedi dod i'r un sefyllfa, gan o leiaf weld y broblem yma. Rwy'n meddwl y byddai'n gwbl anffodus ac yn anonest, a dweud y gwir, i fynd i mewn i etholiad Cynulliad heb gydnabod nad yw'r polisi yma yn gallu parhau ar gyfer yr holl Gynulliad nesaf, ac heb gynnig o leiaf i etholwyr rai o'r egwyddorion a fydd yn sail i'r polisi newydd. Er bod Plaid Cymru, wrth gwrs, yn rhan o adolygiad Diamond, fel pob plaid arall yn y lle yma—felly, rwy'n dweud wrth Aled Roberts fod yna drefn ar gyfer dod i gytundeb, os yn bosib, ar y materion hyn—rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n dweud yn glir beth yw'r egwyddorion yn yr etholiad.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I think we will find that this debate is going to be an interesting one. I've been arguing for four years in this Chamber that the current tuition fees scheme is unaffordable in the long term, and we've seen in the draft budget of this year what the real impact of that is to be. I'm pleased that two of the other parties have come to the same conclusion and at least identified this problem. I think it would be very unfortunate indeed and dishonest, if truth be told, to go into an Assembly election without acknowledging that this policy can't be maintained for the entirety of the next Assembly, and without at least giving the electorate some of the principles that would be the basis of the new policy. Although Plaid Cymru is part of the Diamond review, as is every other party in this place—so, I would say to Aled Roberts that there is a system in place to reach agreements on these issues, if possible—I do think it's important that we state clearly what the principles are during the election campaign.

Nid oedd yn glir i fi heddiw beth oedd Angela Burns yn ei gynnig fel polisi, ond rwy'n credu bod gan y Torïaid bolisi. Nid wyf yn cytuno ag e, ond rwy'n credu bod gyda nhw bolisi. Nid wyf cweit yn siŵr am y Democratiaid Rhyddfrydol; efallai y daw mwy o wybodaeth erbyn mis Mai, achos bydd mwy o wybodaeth gan Blaid Cymru erbyn mis Mai hefyd, i fod yn—[Torri ar draws.] Wel, reit, nid oes dim mwy na'r polisi sydd wedi'i gyhoeddi, felly. Ocê.

It is not clear to me today what Angela Burns was proposing as a policy, but I do think that the Conservatives have a policy. I don't agree with it, but I think they have a policy. I'm not quite sure about the Liberal Democrats. Perhaps we'll get more information by May, because Plaid Cymru will also be providing further information by May, to—[Interruption.] Well, there's nothing more than the policy that's already been announced, then. Okay.

Dyma'r sefyllfa anffodus yr ydym yn canfod ein hunain ynddi nawr. Am resymau hollol glodwiw, mae yna bolisi o gefnogi myfyrwyr drwy ffioedd dysgu a thalu am addysg brifysgol drwy ffioedd dysgu, sydd yn system dalebau i bob pwrpas. Mae pob un myfyriwr yn dal taleb ac yn penderfynu i ba brifysgol yr awn nhw ac ym mhle, felly, y maen nhw'n gwario'u harian. Mae hynny'n golygu ychydig o arian ar ôl yng nghyllideb y Llywodraeth ar gyfer amcanion cenedlaethol y Llywodraeth, ac mae'r Llywodraeth yn gosod allan mewn llythyr cylch gorchwyl i'r cyngor beth yw'r amcanion cenedlaethol yna. Maen nhw'n troi o gwmpas rhai o'r pethau sydd wedi eu crybwyll eisoes—dysgu rhan-amser, ymchwil, pynciau drud a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ond, oherwydd bod gyda ni system talebau, sy'n cydnabod taw'r farchnad sy'n penderfynu ble mae pobl yn astudio, ac i ble mae arian cyhoeddus yn mynd, mae'r arian sydd ar gael ar gyfer amcanion cenedlaethol y Llywodraeth wedi crebachu yn araf deg dros y pedair blynedd diwethaf, ac, yn y gyllideb ddrafft yma, yn crebachu yn sylweddol iawn, o £41 miliwn.

This is the unfortunate situation that we find ourselves in now. For entirely laudable reasons, there is a policy of supporting students through tuition fees and paying for university education through tuition fees, which, to all intents and purposes, is a voucher scheme. Each student holds a voucher and decides which university to attend and where, therefore, they spend that money. That means that there is little money left in the Government's budget for the national objectives set by Government, and the Government sets out in a remit letter to HEFCW what those national objectives are. They turn around some of the things that have already been mentioned—part-time learning, research, high-cost subjects and the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. But, because we have a voucher system that recognises that it's the market that will decide where people study and where public money will go, the funding available for those national Government objectives has slowly shrunk over the past four years, and in this draft budget is being reduced significantly, by £41 million.

Ac, fel mae'r e-bost gan HEFCW i'r holl brifysgolion yn ei ddweud, i bob pwrpas, mae hynny'n golygu toriad o 40 y cant yn yr amcanion cenedlaethol yna. Mae hynny'n golygu, erbyn hyn, bod y Llywodraeth yn gwario mwy ar gefnogi myfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgolion yn Lloegr—mwy o arian yn mynd i brifysgolion yn Lloegr yn uniongyrchol gan y Llywodraeth hon—nag sydd yn mynd yn uniongyrchol i'r prifysgolion yng Nghymru, i gefnogi amcanion cenedlaethol. [Torri ar draws.] A ydych chi'n mynd i ddweud bod y polisi yma'n parhau am bum mlynedd, Leighton Andrews? A ydy'r polisi yma yn parhau am bum mlynedd arall, Leighton Andrews? Fe wnaf i ildio os ydych am ddweud hynny.

As the e-mail from HEFCW to all universities states, to all intents and purposes that means a cut of 40 per cent in funding for those national objectives. That means that, now, the Government is spending more on supporting students studying in English universities—more funding going directly to English universities from this Government—than is going to universities in Wales, to support national objectives. [Interruption.] Are you going to tell us that this policy can be sustained for five years, Leighton Andrews? Can it remain in place for another five years, Leighton Andrews? I will give way if you want to say that.

If Labour are going to say that this policy lasts for five years, let them intervene now, and make that promise. If they can't make that promise, they should say what their policy will be.

Os yw Llafur yn mynd i ddweud bod y polisi hwn yn para pum mlynedd, gadewch iddynt ymyrryd yn awr a gwneud yr addewid hwnnw. Os na allant wneud yr addewid, dylent ddweud beth fydd eu polisi.

This is the central fact that we are facing. We cannot afford to carry on doing two things. We can't afford to carry on subsidising, to the same extent, students wherever they study, and we can't afford to carry on giving money to HEFCW for our national priorities. The two together are unaffordable. You know that, the Government knows that, all Ministers know that, and any backbencher with an ounce of sense knows that.

Dyma'r ffaith ganolog rydym yn ei hwynebu. Ni allwn fforddio parhau i wneud dau beth. Ni allwn fforddio parhau i roi cymhorthdal, i'r un graddau, i fyfyrwyr ble bynnag y maent yn astudio, ac ni allwn fforddio parhau i roi arian i CCAUC ar gyfer ein blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ddau gyda'i gilydd yn anfforddiadwy. Rydych chi'n gwybod hynny, mae'r Llywodraeth yn gwybod hynny, mae pob un o'r Gweinidogion yn gwybod hynny, ac mae unrhyw aelod o'r meinciau cefn sydd ag owns o synnwyr yn gwybod hynny.

What we have at the moment is a tuition fee subsidy policy that doesn't give a single penny extra to students in their pocket. Only a maintenance policy will deliver that. We must move away, and accept, though we made the arguments, and though I was there in the House of Commons making the arguments against tuition fees in the first place, that that is now the settled will of the UK—well, England and Wales—system for tuition fee funding. We don't get any consequentials because of that. We can't afford to continue to maintain this. So, we must move away from this current system. We must now look to supporting universities through direct grants, and students who study and work in Wales, but in a way that gives them extra resources—and, indeed, students who need to move out of Wales, for lots of different reasons. And those extra resources must be delivered directly to the student, in student support, not to universities as a voucher way of paying for HE education.

Yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd yw polisi cymhorthdal ffioedd dysgu nad yw'n rhoi un geiniog ychwanegol ym mhocedi myfyrwyr. Polisi cynhaliaeth yn unig fydd yn cyflawni hynny. Mae'n rhaid i ni gamu o'r neilltu, a derbyn, er ein bod wedi cyflwyno'r dadleuon, ac er fy mod i yno yn Nhŷ'r Cyffredin yn dadlau yn erbyn ffioedd dysgu yn y lle cyntaf, mai dyna yn awr yw ewyllys datganedig y DU—wel, Cymru a Lloegr—o ran system ariannu ffioedd dysgu. Nid ydym yn cael unrhyw symiau canlyniadol o'i herwydd. Ni allwn fforddio parhau i'w gynnal. Felly, rhaid i ni symud oddi wrth y system bresennol. Rhaid i ni nawr ystyried cefnogi prifysgolion drwy grantiau uniongyrchol, a myfyrwyr sy'n astudio ac yn gweithio yng Nghymru, ond mewn ffordd sy'n rhoi adnoddau ychwanegol iddynt—ac yn wir, i fyfyrwyr sydd angen symud o Gymru, am lawer o wahanol resymau. Ac mae'n rhaid darparu'r adnoddau ychwanegol hynny'n uniongyrchol i'r myfyriwr, ar ffurf cymorth i fyfyrwyr, nid i brifysgolion fel taleb i dalu am addysg uwch.

15:32

## Aelod Cynulliad / An Assembly Member

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:32

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't think I have time, I'm afraid.

Nid wyf yn credu bod gennyf amser, yn anffodus.

15:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You don't; you must conclude.

Nac oes; rhaid i chi orffen.

15:32

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I can just conclude on this point.

Os caf orffen gyda'r pwynt hwn.

15:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Quickly.

Yn gyflym.

15:33

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In ensuring that we do this, I think we will have a much fairer, more sustainable system, going forward. We will wait, as Plaid Cymru, for the Diamond review, but we will also say, very clearly, that these are the principles that guide us in this election.

Drwy sicrhau ein bod yn gwneud hyn, rwy'n credu y bydd gennym system lawer tecach a mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn mynd i aros am adolygiad Diamond, ond rydym hefyd yn dweud yn glir iawn mai'r rhain yw'r egwyddorion sy'n ein harwain yn yr etholiad hwn.

15:33 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm pleased to take part in this debate this afternoon, to highlight the value of higher education to Wales, and to our economy, and to look at ways in which we can move our higher education system onto a more sustainable footing. We know that the HE sector contributes more than £3 billion a year in gross expenditure to the Welsh economy, and it's fair to say that all parties in this Chamber want to see our HE sector continue to positively contribute to our economy.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma, i dynnu sylw at werth addysg uwch i Gymru, ac i'n heconomi, ac i edrych ar ffyrdd y gallwn osod sylfaen fwy cynaliadwy ar gyfer ein system addysg uwch. Gwyddom fod y sector addysg uwch yn cyfrannu mwy na £3 biliwn y flwyddyn mewn gwariant gros i economi Cymru, ac mae'n deg dweud bod pob plaid yn y Siambr hon am weld ein sector addysg uwch yn parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at ein heconomi.

Now, there have been countless reports on higher education funding, including reports from the Wales Audit Office, the Assembly's Finance Committee, and now from Professor Sir Ian Diamond. In my past role as a Finance Committee member, I remember scrutinising this particular issue, and recognising that the higher education sector is experiencing a period of significant change. One of the more eye-opening aspects of the Finance Committee's inquiry was understanding the factors that influenced a student's higher education decision. I'm sure that all Members will agree that living costs are a barrier to students accessing HE, and I'm sure many in this Chamber have received correspondence from constituents who need additional support to continue their studies. That's why it's essential that a constructive plan to help students in this area is developed.

Nawr, cafwyd adroddiadau dirifedi ar drefniadau cyllido addysg uwch, gan gynnwys adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru, Pwyllgor Cyllid y Cynulliad, ac yn awr gan yr Athro Syr Ian Diamond. Yn fy rôl yn y gorffennol fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid, rwy'n cofio craffu ar y mater penodol hwn, a chydnabod bod y sector addysg uwch yn profi cyfnod o newid sylweddol. Un o'r agweddau ar ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid a fu'n fwy o agoriad llygad oedd deall y ffactorau a ddylanwadai ar benderfyniad myfyriwr ynglŷn â'i addysg uwch. Rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn cytuno bod costau byw yn rhwystr i fyfyrwyr wrth fynd ymlaen at addysg uwch, ac rwy'n siŵr bod llawer yn y Siambr hon wedi cael gohebiaeth gan etholwyr sydd angen cymorth ychwanegol i barhau â'u hastudiaethau. Dyna pam y mae'n hanfodol fod cynllun adeiladol i helpu myfyrwyr yn hyn o beth yn cael ei ddatblygu.

Indeed, the Minister has recognised throughout this Assembly that this is a problem, and he's made it clear that there needs to be improvements in the way in which HEFCW measure the impact of widening access initiatives. Therefore, perhaps, in responding to this afternoon's debate, the Minister can update Members on what specific work has been done to monitor widening access initiatives, since the Finance Committee's report back in July 2014.

Yn wir, mae'r Gweinidog wedi cydnabod drwy gydol y Cynulliad hwn fod hon yn broblem, ac mae wedi dweud yn glir fod angen gwelliannau yn y ffordd y mae CCAUC yn mesur effaith cynlluniau i ehangu mynediad. Felly, wrth ymateb i'r ddadl y prynhawn yma, efallai y gall y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â pha waith penodol sy'n rhaid ei wneud i fonitro cynlluniau ehangu mynediad, ers adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn ôl ym mis Gorffennaf 2014.

Now, I appreciate that these issues, and many others, will also be considered in Professor Diamond's report, and that only an interim report has yet been published. However, that interim report has already highlighted some significant issues, particularly in relation to part-time provision and I believe that part-time study has a very important role in widening access to higher education. Members are all aware of how part-time study can provide opportunities to individuals on a lower wage, as well as those living in disadvantaged geographical communities.

Nawr, rwy'n sylweddoli y bydd y materion hyn, a llawer o rai eraill hefyd, yn cael sylw yn adroddiad yr Athro Diamond, ac mai adroddiad interim yn unig sydd wedi'i gyhoeddi hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad interim hwnnw eisoes wedi tynnu sylw at rai materion pwysig, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth ran-amser a chredaf fod gan astudio rhan-amser rôl bwysig iawn i'w chwarae yn ehangu mynediad at addysg uwch. Mae'r aelodau i gyd yn ymwybodol o sut y gall astudio rhan-amser roi cyfleoedd i unigolion ar gyflog is, yn ogystal â phobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn ddaearyddol.

Professor Diamond's interim report notes that support for part-time provision in policy statements does not always translate effectively into tangible financial support, which is worrying. The report's figures show that, in 2013-14, the total number of part-time HE enrolments fell by 3 per cent on the previous year to just under 35,000. These figures are disappointing, and, sadly, this steady decline since 2006-07 could damage the Welsh economy in the long term. Let us remember that part-time study allows individuals to increase their skills alongside their work and family commitments, and it's so important that, as a country, we continue to upskill the nation in order to meet the challenges of an ever-growing modern world.

Mae adroddiad interim yr Athro Diamond yn nodi nad yw'r ddarpariaeth ran-amser mewn datganiadau polisi bob amser yn trosi'n effeithiol yn gymorth ariannol pendant, ac mae hynny'n peri pryder. Mae ffigurau'r adroddiad yn dangos, yn 2013-14, fod cyfanswm y cofrestriadau addysg uwch rhan-amser wedi gostwng 3 y cant ers y flwyddyn flaenorol i ychydig o dan 35,000. Mae'r ffigurau hyn yn siomedig, ac yn anffodus gallai'r gostyngiad cyson hwn ers 2006-07 niweidio economi Cymru yn y tymor hir. Gadewch i ni gofio bod astudio'n rhan-amser yn caniatáu i unigolion gynyddu eu sgiliau ochr yn ochr â'u gwaith a'u hymrwymiadau teuluol, ac mae mor bwysig ein bod, fel gwlad, yn parhau i wella sgiliau'r genedl er mwyn ateb heriau byd modern sy'n tyfu drwy'r amser.

In providing evidence to the interim report, the Open University stated that they, and I quote,

Wrth roi tystiolaeth i'r adroddiad interim, dywedodd y Brifysgol Agored, ac rwy'n dyfynnu,

'believe the needs of current and potential part-time students in Wales are not being adequately or efficiently met by the current funding system'.

'believe the needs of current and potential part-time students in Wales are not being adequately or efficiently met by the current funding system '.

We therefore need to see a system that is far more equitable, which recognises the importance of part-time study in Wales, and addresses the widely recognised imbalance between full-time and part-time study.

Felly, mae angen i ni weld system sy'n llawer tecach, sy'n cydnabod pwysigrwydd astudio'n rhan-amser yng Nghymru, ac sy'n mynd i'r afael â'r anghydbwysedd a gydnabyddir yn eang rhwng astudio amser llawn a rhan-amser.

An overarching issue in relation to higher education funding is the importance of financial literacy and the implications of incurring high levels of student debt. The interim report makes an important point about attitudes to student debts and repayments, which requires further consideration. The report notes that HE students appear to take it for granted that they would either earn enough as a result of gaining a degree to be able to pay off their student debt relatively easily, or they would never have to worry about paying back their debt if they did not earn enough when in employment. This is quite worrying, and there is clearly room here for the Welsh Government to work with stakeholders on ways in which those looking to study at HE level are best equipped to understand their financial position, not just throughout their studies, but also afterwards, in terms of understanding their repayment commitments. When students finish their HE studies, regardless of whether they've studied a full-time course or a part-time course, they should be in the position to realistically understand their finances and student debts. We need to ensure that students are fully aware of their circumstances, and the Welsh Government can do more to better support students in that particular area.

Mater trosfwaol mewn perthynas â threfniadau cyllido addysg uwch yw pwysigrwydd llythrennedd ariannol a goblygiadau lefelau uchel o ddyled myfyrwyr. Mae'r adroddiad interim yn gwneud pwynt pwysig ynglŷn ag agweddau tuag at ddyledion ac ad-daliadau myfyrwyr, sy'n galw am ystyriaeth bellach. Mae'r adroddiad yn nodi bod myfyrwyr addysg uwch i'w gweld yn cymryd yn ganiataol y byddent naill ai'n ennill digon o ganlyniad i gael gradd i allu talu eu dyled myfyrwyr yn gymharol hawdd, neu na fyddai raid iddynt byth orfod poeni am ad-dalu eu dyled os nad oeddent yn ennill digon o gyflog. Mae hyn yn peri cryn dipyn o bryder ac mae'n amlwg fod lle yma i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid ar ffyrdd y gellid sicrhau bod y rhai sydd am astudio ar lefel addysg uwch wedi'u paratoi yn y ffordd orau i ddeall eu sefyllfa ariannol, nid yn unig tra byddant yn astudio, ond wedyn hefyd, o ran deall eu hymrwymiadau ad-dalu. Pan fydd myfyrwyr yn gorffen eu hastudiaethau addysg uwch, boed yn gwrs amser llawn neu ran-amser, dylent fod mewn sefyllfa i ddeall eu trefniadau ariannol a'u dyledion myfyrwyr yn realistig. Mae angen i ni sicrhau bod myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o'u hamgylchiadau, a gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i gynorthwyo myfyrwyr yn well yn y maes hwnnw.

Therefore, in closing, Deputy Presiding Officer, stakeholders and commentators have made it quite clear that the current funding model for the HE sector is unsustainable for the future. Wales needs a higher education system that is fit for purpose, and that delivers for both its institutions and the students that are studying at them. Thank you very much.

Felly, i gloi, Ddirprwy Lywydd, mae rhanddeiliaid a sylwebyddion wedi dweud yn gwbl glir fod y model cyllido presennol ar gyfer y sector addysg uwch yn anghynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae angen system addysg uwch ar Gymru sy'n addas at y diben ac sy'n darparu ar gyfer ei sefydliadau a'r myfyrwyr sy'n astudio ynddynt. Diolch yn fawr iawn.

15:38

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dylwn wneud datganiad bod dau fab gyda fi yn y brifysgol nawr—un yng Nghymru, ac un yn Lloegr, ac rwy'n falch ein bod ni'n byw yng Nghymru. Mae Llywodraeth gyfrifol yn gweithredu ar sail tystiolaeth, ac felly, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwahodd Syr Ian Diamond i gadeirio adolygiad i gyllid addysg uwch a chyllido myfyrwyr. Dylwn ddweud hefyd bod pobl ifanc Cymru yn cael lwfans byw, ac nid dyna beth sy'n mynd i ddigwydd yn Lloegr.

I should declare at the beginning that I have two sons at university at present—one in Wales and one in England, and I'm very pleased that we live in Wales. A responsible Government operates according to evidence, and so the Welsh Labour Government has invited Sir Ian Diamond to chair a review into higher education funding and student finance. I should also say that young people in Wales receive a living allowance, and that's not what's going to happen in England.

Yn barod, mae adolygiad Syr Ian Diamond wedi cyflwyno adroddiad interim, sy'n cyhoeddi'r dystiolaeth ffeithiol a gasglwyd, ac nid yw'n dod i unrhyw benderfyniad. Ym mis Medi eleni, cawn yr adroddiad llawn, yn cynnwys yr argymhellion a fydd yn deillio o astudiaeth o'r dystiolaeth. Anghyfrifol, mewn egwyddor ac yn ymarferol, fyddai ceisio dod i gasgliad terfynol heddiw, cyn bod y dystiolaeth wedi'i asesu yn ei chyfanrwydd. Dyna pam bod cynnig Paul Davies, a gwelliannau bondigrybwyll y Democratiaid Rhyddfrydol, yn anaddas ac yn amherthnasol, fel ag y maent nawr. Felly, yr unig gam cyfrifol ymlaen y prynhawn yma fyddai pleidleisio'n erbyn cynigion y Torïaid a phleidleisio yn erbyn gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n ceisio gwneud dim mwy na nodi ffeithiau. Beth yw'r ffeithiau?

Already, Sir Ian Diamond's review has put forward an interim report, which publishes the factual evidence gathered, and doesn't yet come to any decisions. In September of this year, we'll receive the full report, including the recommendations that will stem from a study of the evidence. It would be irresponsible, in principle and in practice, to come to a final conclusion today, before the evidence has been considered in its entirety. That's why Paul Davies's motion, and the Liberal Democrats' so-called amendments, or improvements, are unsuitable and irrelevant, in their current state. So, the only responsible step this afternoon would be to vote against the Conservative motion and to vote in against the Liberal Democrat amendments, which try to do no more than note facts. What are the facts?

15:40

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i jest ofyn i chi—? Rwy'n derbyn beth rydych yn ei ddweud ynglŷn ag aros am yr adolygiad, ond, yn y cyfamser, wrth gwrs, os ydy hi'n cymryd tair blynedd ar ôl yr adolygiad i'r holl newidiadau yma fynd drwyddo, a ydych yn derbyn bod crisis yn wynebu prifysgolion yng Nghymru yn y cyfamser? A sut yn union ydych chi'n delio â'r holl bryderon yma ynglŷn â chyrsiau rhan-amser, yr iaith Gymraeg a chostau uchel?

Keith, can I just ask you—? I accept what you say on awaiting the outcome of the review, but in the meantime, of course, if it's to take three years following the review for all of these changes to be implemented, do you accept that there is a crisis facing universities in Wales in the meantime? How exactly do you deal with all of these concerns on part-time courses, Welsh-medium provision and high costs?

15:40

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mi wnaf dderbyn y ddau bwynt olaf yna am gyrsiau rhan-amser a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid wyf yn credu bod prifysgolion nawr yn dioddef o gwbl. Byddaf yn rhoi cwpwl o bwyntiau am hynny.

I accept those final two points on part-time courses and Welsh-medium courses. I don't think that universities now are suffering at all, and I'll give a few examples there.

Felly beth yw'r ffeithiau nawr? Wel, ar hyn o bryd, er gwaethaf toriadau didrugaredd y Torïaid, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi sicrhau bod incwm addysg uwch Cymru wedi codi oddeutu £200 miliwn rhwng 2011 a 2016. Yn ail, nid oes un efrydydd o Gymru yn talu ffioedd dysgu mwy na £3,500 ac fe fydd eu dyled nhw ar ôl gadael coleg yn £17,000, o'i gymharu â dyled myfyrwyr o Loegr a fydd yn £44,000. Ar hyn o bryd, dengys ffeithiau diweddaraf UCAS bod recriwtio i brifysgolion Cymru yn dal i fynd i fyny. Golyga hyn bod incwm y sector addysg uwch yng Nghymru yn dal i gynyddu, er gwaethaf y wasgfa ariannol yn gyffredinol. Mae Cymru yn fewnforiwr net o fyfyrwyr. Yn y flwyddyn hon daeth £48 miliwn yn fwy i mewn i'n system ni yng Nghymru nag aeth mas i golegau y tu fas i Gymru, oherwydd nifer y myfyrwyr o Loegr sy'n dod mewn i golegau yng Nghymru. Ychydig o ffeithiau perthnasol sydd wedi'u cyflwyno heno, ond serch hynny, rwy'n gobeithio bod y rheini rwyf wedi eu cyflwyno, o leiaf, yn peri cryn embaras i Aelodau'r blaid Dorïaidd. I aralleirio'r gân enwog, er gwaethaf pawb a phopeth, mae Cymru yn dal i wneud ei gorau dros ei phobl ifanc ac rwy'n falch bod fy mhlant i yn cael eu codi yng Nghymru ac yn cael eu cefnogi i fynd i'r brifysgol. Rwy'n edrych ymlaen at weld adroddiad terfynol yr Athro Donaldson ac ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion.

So, what are the facts? Well, at present, despite the merciless cuts from the Conservatives, the Welsh Labour Government has ensured that income for higher education in Wales has increased around £200 million between 2011 and 2015. Secondly, no students in Wales are paying fees more than £3,500 and their debt after leaving college will be £17,000, as compared to £44,000 for students in England. At present, the most recent UCAS figures show that recruitment to Welsh universities is still continuing to rise. This means that the income of the higher education sector in Wales is still increasing, despite the financial pressure in general. Wales is a net importer of students. This year, £48 million more came into the system in Wales than went out to colleges outside of Wales, because of the number of students from England who come into colleges in Wales. Few relevant facts have been presented this evening, but despite that I hope that the facts that I have put forward, at least, will cause some embarrassment to Members of the Conservative party. Despite everything, Wales is still continuing to do its best for its young people and I'm pleased that my children are being raised in Wales and are being supported to go to university. I look forward to seeing Professor Donaldson's report and the Welsh Government's response to its recommendations.

15:42 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Higher education remains a major contributor to the Welsh economy: it generates some 5 per cent of Welsh GVA and it maintains some 50,000 jobs, nearly 3.5 per cent of the Welsh total. Twenty-five per cent of the GVA and the jobs created by Welsh universities are located in some parts of Wales that do not have a university in their locality. Consequently, the proposed funding reductions for higher education will not only have an impact on the universities and their local communities, but more widely throughout Wales. Welsh universities acknowledge that they must generate increased income from non-government sources and they appreciate that their ability to sustain or increase their current economic contribution to Wales ultimately depends on their capacity to attract high-quality staff and good students. They need to do this within a highly competitive United Kingdom and international market. The Welsh Government needs to ensure that Welsh universities are given the best and necessary resources to attract the brightest students, making Welsh universities a destination of choice for all students from across the United Kingdom, not just from Wales, and across the world.

Mae addysg uwch yn parhau i fod yn gyfrannwr pwysig i economi Cymru: mae'n cynhyrchu tua 5 y cant o werth ychwanegol gros Cymru ac mae'n cynnal tua 50,000 o swyddi, bron 3.5 y cant o gyfanswm Cymru. Mae 25 y cant o'r gwerth ychwanegol gros a'r swyddi a grëwyd gan brifysgolion Cymru wedi'u lleoli mewn rhannau o Gymru nad oes ganddynt brifysgol yn lleol. O ganlyniad, bydd y gostyngiadau arfaethedig i gyllid ar gyfer addysg uwch yn effeithio nid yn unig ar y prifysgolion a'u cymunedau lleol, ond ledled Cymru yn ehangach. Mae prifysgolion Cymru yn cydnabod bod yn rhaid iddynt gynhyrchu mwy o incwm o ffynonellau anllywodraethol ac maent yn derbyn bod eu gallu i gynnal neu gynyddu eu cyfraniad economaidd presennol i Gymru yn dibynnu yn y pen draw ar eu gallu i ddenu staff o ansawdd uchel a myfyrwyr da. Rhaid iddynt wneud hyn mewn marchnad gystadleuol iawn yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod prifysgolion Cymru yn cael yr adnoddau gorau sydd eu hangen i ddenu'r myfyrwyr mwyaf disglair, gan wneud prifysgolion Cymru yn gyrchfan ddewisol i fyfyrwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, nid yn unig o Gymru, ac o bob rhan o'r byd.

We note with concern the £20 million reduction to the Higher Education Funding Council for Wales' programme budget—specific funding for quality research, part-time education and expensive subjects, including STEM. The Welsh Government's integrated impact assessment indicated that this funding decrease will have an adverse effect on some previously protected groups. The higher education funding council has recently written to all Welsh universities stating it would be impossible for them to support the priority areas of part-time education, expensive subjects, research and other areas such as Welsh-medium education at anything like the current levels. Quality research funding is used by universities as core funding to competitively win some 60 per cent of further investment from the research councils. Universities in Wales are responsible for 84 per cent of all published research in the country, growing at a rate that outpaces the United Kingdom and the world average. This highlights the importance of research and development, especially in new technologies that provide employment opportunities across Wales with relatively small outlay. Consequences of a lack of research and development will eventually lead to a failure to attract the best students, the best lecturers and further research grants and investment. Universities use the Higher Education Funding Council for part-time education funding to reduce the cost of part-time courses—a major key to widening access to students from disadvantaged backgrounds and to delivering high-level skills.

Testun pryder yw nodi'r gostyngiad o £20 miliwn i gyllideb rhaglenni Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru—arian penodol ar gyfer ymchwil o safon, addysg ran-amser a phynciau drud, gan gynnwys STEM. Dangosodd asesiad effaith integredig Llywodraeth Cymru y bydd y gostyngiad hwn yn y cyllid yn effeithio'n niweidiol ar rai grwpiau a arferai fod yn grwpiau gwarchodedig. Yn ddiweddar, ysgrifennodd y cyngor cyllido addysg uwch at bob prifysgol yng Nghymru yn datgan y byddai'n amhosibl iddynt gefnogi meysydd â blaenoriaeth addysg ran-amser, pynciau drud, ymchwil a meysydd eraill fel addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar unrhyw beth tebyg i'r lefelau presennol. Defnyddir cyllid ar gyfer ymchwil o safon gan brifysgolion fel cyllid craidd i gystadlu am oddeutu 60 y cant o fuddsoddiad pellach gan y cynghorau ymchwil. Prifysgolion yng Nghymru sy'n gyfrifol am 84 y cant o'r holl ymchwil a gyhoeddwyd yn y wlad, gan dyfu ar gyfradd sy'n rhagori ar gyfartaledd y Deyrnas Unedig a'r byd. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd ymchwil a datblygu, yn enwedig mewn technolegau newydd sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth ledled Cymru gyda gwariant cychwynnol cymharol fach. Bydd canlyniadau diffyg ymchwil a datblygu yn y pen draw yn arwain at fethiant i ddenu'r myfyrwyr gorau, y darlithwyr gorau a grantiau ymchwil a buddsoddiad pellach. Mae prifysgolion yn defnyddio'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch ar gyfer sicrhau cyllid addysg ran-amser er mwyn lleihau cost cyrsiau rhan-amser—allwedd bwysig i ehangu mynediad i fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig ac i ddarparu sgiliau lefel uchel.

The reduction of funding for part-time higher education is of great concern and will cause institutes to either increase fees for part-time courses or to decide to cease providing their range of part-time courses altogether. It already anticipated that the number of part-time hours will be reduced by around 800,000. Providers, such as the Open University, have highlighted major concerns about the equality impact of these budget proposals.

Mae'r gostyngiad yn y cyllid ar gyfer addysg uwch ran-amser yn destun pryder mawr a bydd yn achosi i sefydliadau naill ai i gynyddu ffioedd ar gyfer cyrsiau rhan-amser neu i benderfynu peidio â chynnig eu hystod o gyrsiau rhan-amser o gwbl. Rhagwelai eisoes y bydd oddeutu 800,000 yn llai o oriau o addysg ran-amser yn cael eu cynnig. Mae darparwyr, fel y Brifysgol Agored, wedi nodi pryderon mawr ynghylch yr effaith ar gydraddoldeb o ganlyniad i'r cynigion cyllidebol hyn.

Women represent 57 per cent of part-time students in Wales, compared to 51 per cent of full-time students. A considerably higher number of older people study part-time than full-time and 22 per cent of part-time students in Wales are over 40 years of age.

Menywod yw 57 y cant o fyfyrwyr rhan-amser Cymru, o gymharu â 51 y cant o fyfyrwyr amser llawn. Mae nifer sylweddol uwch o bobl hŷn yn astudio'n rhan-amser nag sy'n astudio'n amser llawn ac mae 22 y cant o'r myfyrwyr rhan-amser yng Nghymru dros 40 oed.

It acknowledged that our higher education sector demonstrates gender equality about academic careers and student opportunities and offers one of the best ways to foster gender equality and diversity. Universities use the expensive subject funding for full-time undergraduate medical, dentistry and performing arts courses, which cost more than the maximum fee of £9,000. Reductions in this funding could reduce the capacity of Welsh medical schools and the conservatoire to deliver quality training and attract the best students. We ask the Welsh Government to think again on their funding proposals.

Roedd yn cydnabod bod ein sector addysg uwch yn dangos cydraddoldeb rhywiol mewn perthynas â gyrfaoedd academaidd a chyfleoedd myfyrwyr, ac mae'n cynnig un o'r ffyrdd gorau o feithrin cydraddoldeb rhywiol ac amrywiaeth. Mae prifysgolion yn defnyddio cyllid pynciau drud ar gyfer cyrsiau israddedig amser llawn mewn meddygaeth, deintyddiaeth a chyrsiau celfyddydau perfformio, sy'n costio mwy na'r ffi uchaf o £9,000. Gallai gostyngiadau yn y cyllid hwn leihau gallu ysgolion meddygol Cymru a'r conservatoire i ddarparu hyfforddiant o safon a denu'r myfyrwyr gorau. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru feddwl eto am eu cynigion cyllido.

15:46

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

At lunch time, I hosted a presentation by a maths professor at Cardiff University on the benefits of applying mathematical modelling to decision making in our national health service. 'Maths Saves Lives' was the title and ample evidence was provided by Professor Paul Harper that the work his team at Cardiff University is doing with Aneurin Bevan University Local Health Board and by Cardiff and Vale University Local Health Board have both saved lives and saved money for those bodies. Being able to demonstrate to clinicians that doing things differently, backed up by rigorous mathematical analysis, does indeed improve the outcome for patients. That is why the team won the Times Higher Education Award for innovation last November. It clearly illustrates to me the benefits of Wales having higher order research skills, based here in Wales, to work with our public services as well as to service our private enterprises and attract new ones.

Amser cinio, cynhaliais gyflwyniad gan athro mathemateg ym Mhrifysgol Caerdydd ar fanteision cymhwyso modelu mathemategol i'r broses o wneud penderfyniadau yn ein gwasanaeth iechyd gwladol. 'Mathemateg yn Achub Bywydau' oedd y teitl a darparwyd digonedd o dystiolaeth gan yr Athro Paul Harper fod y gwaith y mae ei dîm ym Mhrifysgol Caerdydd yn ei wneud gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi achub bywydau ac arbed arian i'r cyrff hynny. Mae gallu dangos i glinigwyr fod gwneud pethau'n wahanol, ar sail dadansoddiad mathemategol trylwyr, yn sicr yn gallu gwella canlyniadau i gleifion. Dyna pam yr enillodd y tîm wobr addysg uwch y Times am arloesi fis Tachwedd diwethaf. Mae'n dangos yn glir i mi beth yw manteision sgiliau ymchwil uwch i Gymru, wedi'u lleoli yma yng Nghymru, i weithio gyda'n gwasanaethau cyhoeddus, ac i wasanaethu ein mentrau preifat hefyd a denu rhai newydd.

The critical mass of research schools are indeed one of the drivers of our future prosperity and this was one of the conclusions of work done by the European programme monitoring committee on measuring success from the investments that were being made from the European structural funds and other funds like Horizon 2020.

Yn sicr, màs critigol ysgolion ymchwil yw un o ysgogiadau ein ffyniant yn y dyfodol a dyma un o gasgliadau gwaith a wnaed gan y pwyllgor monitro rhaglenni Ewropeaidd ar fesur llwyddiant yn sgil y buddsoddiadau o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd a chronfeydd eraill fel Horizon 2020.

But worryingly, as the Diamond review points out, a strong and sustainable world-class research base is essential to the reputation and standing of the Welsh HE sector, but there is a shortfall in the number of academic researchers here in Wales; there is science, technology, engineering and mathematics undercapacity; and the ability of the higher education sector to attract Research Council UK income. So, these are quite worrying concerns that force us to look at how we are investing in our university sector and whether the money that we're currently investing is best employed for the wellbeing of the whole of Wales and not just those who happen to have the benefit of going to university.

Ond yn anffodus, fel y mae adolygiad Diamond yn nodi, mae sylfaen ymchwil gadarn a chynaliadwy o'r radd flaenaf yn hanfodol i enw da a statws y sector addysg uwch yng Nghymru, ond ceir diffyg yn nifer yr ymchwilwyr academaidd a geir yma yng Nghymru; mae'r diffyg i'w weld mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg; ac yng ngallu'r sector addysg uwch i ddenu incwm Cynghorau Ymchwil y DU. Felly, mae'r rhain yn bryderon sy'n ein gorfodi i edrych ar sut rydym yn buddsoddi yn ein sector prifysgolion ac a yw'r arian rydym yn ei fuddsoddi ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau er lles Cymru gyfan ac nid yn unig y rhai sy'n digwydd bod wedi cael y budd o fynd i brifysgol.

So, opinion is polarised on whether future funding from HEFCW should be targeted on STEM subjects, for example —science, technology, engineering and mathematics. There are good arguments for that, but also against that. But it is certainly one of the difficult decisions that need to be taken by the next Government.

Felly, mae'r farn wedi'i hollti ynglŷn ag a ddylid anelu cyllid gan CCAUC yn y dyfodol tuag at bynciau STEM, er enghraifft—gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Mae dadleuon da dros ac yn erbyn gwneud hynny. Ond mae'n sicr yn un o'r penderfyniadau anodd sydd angen i'r Llywodraeth nesaf eu gwneud.

On the thorny issue of financial support for all Welsh students with tuition fees, regardless of where they're studying or whatever their family incomes, I would say several things: one is that you can't trust anything the Lib Dems say after their volte-face in 2010, promising to abolish tuition fees and then going along with trebling them. No. 2—[Interruption.]

Ar fater dyrys cymorth ariannol i bob myfyriwr o Gymru tuag at ffioedd dysgu, ble bynnag y byddant yn astudio neu beth bynnag yw eu hincwm teuluol, fe fyddwn yn dweud sawl peth: yn gyntaf, ni allwch ymddiried yn unrhyw beth y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei ddweud ar ôl eu tro pedol yn 2010, pan addawsant ddileu ffioedd dysgu cyn cytuno i'w treblu wedyn. Yn ail—[Torri ar draws.]

15:49 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member take an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

15:49 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, it's all right, Peter Black. You can have your moment in the sun later, I'm sure.

Na, mae'n iawn, Peter Black. Gallwch gael eich cyfle i ddisgleirio yn nes ymlaen, rwy'n siŵr.

We should take very seriously the UK Government's proposal to completely deregulate the university sector and allow a free-for-all in the number of students that English universities are going to be able to recruit, regardless of whether they are viable, because it could, indeed, increase the number of Welsh students going to England to study, and therefore mean the increased investment that we make moving away from Wales. Indeed, the Diamond review makes that very important point as well that Wales has a higher proportion of its full-time undergraduate student body from underrepresented groups, which is obviously one of the key Welsh Government policies to ensure that we have all groups in society able to aspire to go to university.

Dylem fod yn wyliadwrus iawn ynglŷn â chynnig Llywodraeth y DU i ddadreoleiddio'r sector prifysgolion yn llwyr a chaniatáu rhyddid i bawb o ran nifer y myfyrwyr y mae prifysgolion Lloegr yn mynd i allu recriwtio, pa un a ydynt yn hyfyw ai peidio, oherwydd gallai'n wir gynyddu nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n mynd i Loegr i astudio, ac felly gallai olygu bod y buddsoddiad cynyddol rydym yn ei wneud yn symud o Gymru. Yn wir, mae adolygiad Diamond yn gwneud y pwynt pwysig hefyd fod cyfran uwch o fyfyrwyr israddedig amser llawn Cymru yn dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n amlwg yn un o bolisïau allweddol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl grwpiau mewn cymdeithas yn gallu anelu at fynd i brifysgol.

The NUS Wales considered the level and targeting of maintenance funding to be more crucial than in England, and I absolutely agree with that. I think that it's very worrying that Diamond reports that too many students' maintenance loans are only covering their rent, though I do hope that the Renting Homes (Wales) Act 2016 will actually mitigate some of that in terms of the amount of money that is going to go to poor landlords with very poor housing conditions.

Roedd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru yn ystyried bod lefel a thargedau cyllid cynhaliaeth yn fwy allweddol nag yn Lloegr ac rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Rwy'n meddwl bod y ffaith fod Diamond yn nodi nad yw benthyciadau cynhaliaeth gormod o fyfyrwyr ond yn ddigon i dalu rhent yn unig yn destun pryder, er fy mod yn gobeithio y bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn lliniaru rhywfaint ar hynny o ran y swm o arian a fydd yn mynd i landlordiaid gwael gydag amodau tai gwael iawn.

My personal view is that it is more important to provide support to poorer students with maintenance loans, because there is a limit on the amount of money that students can earn without it affecting their studies. So, I think that is more important than the amount of money we invest in tuition fees.

Fy marn bersonol yw ei bod yn bwysicach rhoi cymorth i fyfyrwyr tlotach drwy fenthyciadau cynhaliaeth, gan fod terfyn ar faint o arian y gall myfyrwyr ei ennill heb iddo effeithio ar eu hastudiaethau. Felly, credaf fod hynny'n bwysicach na faint o arian rydym yn ei fuddsoddi mewn ffioedd dysgu.

15:51 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I begin by declaring an interest as my son is currently one of those students being subsidised to study in England. It was his choice to study where he does, despite many—

Dechreuaf drwy ddatgan buddiant gan fod fy mab ar hyn o bryd yn un o'r myfyrwyr sy'n cael cymhorthdal i astudio yn Lloegr. Ei ddewis ef oedd astudio ble mae'n astudio, er gwaethaf nifer o—

15:52

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Inaudible.]—that particular point. Do you take it?

[Anghlywadwy.]—y pwynt penodol hwnnw. A ydych yn ei dderbyn?

15:52

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

No, you're not going to bring my son into this—[Interruption.] No, please sit down. I'm a bit short on this one, David, but, apologies. I hope you'll give me an extra couple of seconds.

Na, nid ydych yn mynd i dynnu fy mab i mewn i hyn—[Torri ar draws.] Na, eisteddwch i lawr. Rwy'n brin o amser braidd ar hyn, David, ond ymddiheuriadau. Rwy'n gobeithio y rhowch rai eiliadau ychwanegol i mi.

As I said, it was my son's choice to study where he does, despite many of his former schoolmates setting their horizons no further than the Welsh border, and that was their choice. And in fairness to this Government, I think they agree with a potential Welsh Conservative Government that the future of each individual young person should not be limited by a restricted menu of choices. Any policy that effectively bribes our young people to go to university in Wales, Scotland-style, would be doing just that. Now, that's not to say that I don't applaud anyone who chooses to study in higher education here—of course I applaud them. I want both universities in my region to attract the most creative thinkers from around the world, including Wales. Our universities should be able to persuade Welsh students to choose them because theirs is the best, most appropriate offer for that student, and not because they're a cheap option. Unfortunately, in their generosity in universally subbing freedom of choice, Welsh Government has drained money from those very universities, making them less attractive options, not just for Welsh students but for those from elsewhere too, and those students from elsewhere are very alive to value for money, because they are paying full whack, of course.

Fel y dywedais, dewis fy mab oedd astudio ble mae'n astudio, er na osododd llawer o'i gyd-ddisgyblion eu gorwelion ymhellach na ffin Cymru, a'u dewis hwy oedd hynny. Ac er tegwch â'r Llywodraeth hon, rwy'n meddwl eu bod yn cytuno gyda Llywodraeth Geidwadol Cymru bosibl na ddylid cyfyngu ar ddyfodol pob unigolyn ifanc drwy gyfyngu ar eu rhestr o ddewisiadau. Byddai unrhyw bolisi sydd i bob pwrpas yn llwgrwobrwyo ein pobl ifanc i fynd i brifysgol yng Nghymru, fel y mae'r Alban yn ei wneud, yn gwneud yn union hynny. Nawr, nid yw hynny'n golygu nad wyf yn cymeradwyo unrhyw un sy'n dewis astudio mewn addysg uwch yma—wrth gwrs fy mod yn eu cymeradwyo. Rwyf am i'r ddwy brifysgol yn fy rhanbarth ddenu'r meddylwyr mwyaf creadigol o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Cymru. Dylai ein prifysgolion allu perswadio myfyrwyr o Gymru i'w dewis am mai eu cynnig hwy yw'r gorau a'r mwyaf addas ar gyfer y cyfryw fyfyriwr, ac nid am eu bod yn opsiwn rhad. Yn anffodus, yn eu haelioni yn dirprwyo rhyddid i ddewis yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi sugno arian o'r prifysgolion hynny, gan eu gwneud yn ddewisiadau llai atyniadol, nid yn unig i fyfyrwyr yng Nghymru, ond i fyfyrwyr o fannau eraill hefyd, ac mae myfyrwyr o fannau eraill yn effro iawn i werth am arian am eu bod yn talu'r pris llawn, wrth gwrs.

Now, I'm going to stand here and I'm going to rightly praise the achievements of our university sector, but I'm not a budding undergraduate who looks first of all at 'The Sunday Times' good university guide and sees that Cardiff has dropped from No. 27 to No. 33 in the rankings, Swansea sitting at 41, while Aberystwyth has mysteriously appeared at No. 79 in the list. I don't trust those lists, particularly, but students do. They do. And we must defend our universities' reputations in the face of scepticism, but it will get increasingly harder to get the chance to do that if our institutions fail to survive a student's first sift, if you like.

Nawr, rwy'n mynd i sefyll yma a chanmol llwyddiannau ein sector prifysgolion yn haeddiannol, ond nid myfyriwr israddedig wyf fi sy'n edrych yn gyntaf oll ar ganllaw prifysgolion da 'The Sunday Times' ac yn gweld bod Caerdydd wedi gostwng o safle 27 i safle 33, fod Abertawe yn safle 41, a bod Aberystwyth yn rhyfedd ddigon wedi ymddangos yn safle 79 ar y rhestr. Nid wyf yn ymddiried yn y rhestrau hynny fel y cyfryw, ond mae myfyrwyr yn ymddiried ynddynt. Ac mae'n rhaid i ni warchod enw da ein prifysgolion yn wyneb amheuaeth, ond bydd sicrhau cyfle i wneud hynny'n gynyddol anodd os yw ein sefydliadau'n methu â goroesi cynnig cyntaf myfyriwr ar ddidoli'r dewisiadau, os mynnwch.

Any diminution in the reputation of Welsh universities will lead to talent leaving Wales and lower numbers, or potentially poorer quality students coming into the institutions, and that is the wrong kind of spiral. It is the reputation of our universities that is critical to their ability to attract students. The stability of their finances to plan and innovate and invest, particularly in research, contributes fundamentally to that reputation. Where stability is less certain, as we have in Wales when money is diverted from the universities to students, then we are in difficulties when those students have no guarantee that they will bring that money back into the universities with them.

Bydd unrhyw gyfyngu ar enw da prifysgolion Cymru yn arwain at dalent yn gadael Cymru a niferoedd is, neu fyfyrwyr o ansawdd gwaeth, o bosibl, yn dod i'r sefydliadau, a dyna duedd o'r math anghywir. Mae enw da ein prifysgolion yn allweddol i'w gallu i ddenu myfyrwyr. Mae sefydlogrwydd eu trefniadau ariannol ar gyfer cynllunio, arloesi a buddsoddi, yn enwedig mewn ymchwil, yn cyfrannu'n sylfaenol at yr enw da hwnnw. Lle nad oes cymaint o sefydlogrwydd, fel yma yng Nghymru pan ddargyfeirir arian oddi wrth y prifysgolion i fyfyrwyr, yna rydym yn wynebu anhawster pan na cheir sicrwydd y bydd y myfyrwyr hynny'n dod â'r arian yn ôl gyda hwy i'r prifysgolion.

Proportionally, the power of student choice is strong at the moment, the certainty and influence of direct grant funding is now so weak that the Government has had to legislate to impose obligations on universities regarding access, which were previously secured as grant conditions. With that direct grant about to be slashed even further, that leaves the reputation of our universities vulnerable.

Yn gyfrannol, mae pŵer dewis myfyrwyr yn gryf ar hyn o bryd, a sicrwydd a dylanwad cyllid grant uniongyrchol bellach mor wan fel bod y Llywodraeth wedi gorfod deddfu i osod rhwymedigaethau ar brifysgolion o ran mynediad, a gâi eu diogelu'n flaenorol ar ffurf amodau grantiau. Gyda'r grant uniongyrchol ar fin cael ei dorri hyd yn oed ymhellach, mae'n gadael enw da ein prifysgolion yn agored i niwed.

Now, I firmly believe that universities have a huge capacity to make their own money, beyond direct grant and the pot that students bring with them. Again, the two universities in my region have shown that higher education institutions can be bold and savvy in their programmes for investment, so I'm not inclined to listen to any advocate who overplays the 'poor me' card. But the current policy does mean that some of our Welsh HEIs are poorer.

Nawr, rwy'n credu'n gryf fod gan brifysgolion allu enfawr i wneud eu harian eu hunain, y tu hwnt i grantiau uniongyrchol a'r pot sy'n dod gyda myfyrwyr. Unwaith eto, mae'r ddwy brifysgol yn fy rhanbarth wedi dangos y gall sefydliadau addysg uwch fod yn feiddgar ac yn synhwyrol yn eu rhaglenni ar gyfer buddsoddi, felly nid wyf yn tueddu i wrando ar unrhyw un sy'n dadlau eu bod yn waeth eu byd nag ydynt. Ond mae'r polisi presennol yn golygu bod rhai o'n sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn dlotach.

The interim report referred to in the motion concludes that the current gift of about £6,000 per Welsh student is not sustainable. I don't think this is news to anyone, interim report or not. All parties need to tell the people of Wales now about how they plan to support students to overcome the barriers that may deter them from higher education, or certainly the path that's best for them, and it doesn't matter whether that path is in Wales or not.

Daeth yr adroddiad interim y cyfeirir ato yn y cynnig i'r casgliad nad yw'r rhodd bresennol o tua £6,000 i bob myfyriwr Cymraeg yn gynaliadwy. Nid wyf yn credu bod hyn yn newyddion i neb, adroddiad interim neu beidio. Mae angen i bob plaid ddweud wrth bobl Cymru bellach sut y maent yn bwriadu cynorthwyo myfyrwyr i oresgyn y rhwystrau a allai eu hatal rhag addysg uwch, neu'n sicr y llwybr sydd orau ar eu cyfer, ac nid yw o bwys pa un a yw'r llwybr yng Nghymru ai peidio.

Despite freedom of choice and despite the tuition fee grant, some students are choosing to study locally. Students are starting to self-restrict because of their fear of non-tuition fee debt. It's not the cost of learning that's putting them off; it's the cost of living. A future Government needs to turn its focus to the cost of living while studying, and that is exactly what our motion refers to in point 3.

Er gwaethaf rhyddid i ddewis ac er gwaethaf y grant ffioedd dysgu, mae rhai myfyrwyr yn dewis astudio'n lleol. Mae myfyrwyr yn dechrau cyfyngu arnynt eu hunain am eu bod yn ofni dyledion nad ydynt yn deillio o ffioedd dysgu. Nid y gost o ddysgu sy'n peri iddynt droi eu cefnau, ond costau byw. Mae angen i Lywodraeth yn y dyfodol droi ei ffocws ar gostau byw wrth astudio, a dyna'n union y mae ein cynnig yn cyfeirio ato ym mhwynt 3.

Subsidising tuition fees at such expense, too, reduces a Government's abilities to subsidise living costs. While it's completely in order to argue that students can work to contribute towards their living costs, that's less time to study. That means students can turn to the bank of mum and dad to get them through their studies, or, in many cases, to Lloyds Bank or HSBC. The first option increases family debt for some and the second option leaves students with a debt owed to a commercial bank. We are not helping students if we move to reduce student finance debt and push them towards commercial debt for covering —

Mae mynd i'r fath gostau er mwyn cynnig cymhorthdal tuag at ffioedd dysgu hefyd yn lleihau gallu Llywodraeth i roi cymhorthdal tuag at gostau byw. Er ei bod yn gwbl gywir dadlau y gall myfyrwyr weithio i gyfrannu tuag at eu costau byw, mae hynny'n rhoi llai o amser i astudio. Mae'n golygu y gall myfyrwyr droi at fanc mam a dad i'w cynorthwyo drwy eu hastudiaethau neu, mewn llawer o achosion, at fanc Lloyds neu HSBC. Mae'r dewis cyntaf yn cynyddu dyled y teulu i rai a'r ail opsiwn yn gadael myfyrwyr mewn dyled i fanc masnachol. Nid ydym yn helpu myfyrwyr os ydym yn cynnig lleihau dyledion ariannol myfyrwyr ac yn eu gwthio tuag at ddyledion masnachol ar gyfer talu—

15:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish, please.

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

15:56

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This policy is doing students, Government and universities no favours at all.

Nid yw'r polisi'n gwneud cymwynas o gwbl â myfyrwyr, y Llywodraeth na phrifysgolion.

15:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

15:57 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Let me begin today by putting on record my sincere thanks to Professor Sir Ian Diamond and his review panel for the interim report that they produced before Christmas. The summary of the evidence that they have collected provides a strong basis with which to begin the next phase of their work, and I want to thank all parties in the Assembly today for their ongoing and constructive support, thus far, at least, for the work of the review. It is appreciated, and I hope it can be sustained.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gadewch i mi ddechrau heddiw drwy gofnodi fy niolch diffuant i'r Athro Syr Ian Diamond a'i banel adolygu am yr adroddiad interim a gynhyrchwyd ganddynt cyn y Nadolig. Mae'r crynodeb o'r dystiolaeth y maent wedi'i chasglu yn darparu sail gadarn ar gyfer dechrau ar y cyfnod nesaf yn eu gwaith, ac rwyf am ddiolch i bob plaid yn y Cynulliad heddiw am eu cefnogaeth barhaus ac adeiladol, hyd yn hyn o leiaf, i waith yr adolygiad. Mae'n cael ei werthfawrogi ac rwy'n gobeithio y gellir ei gynnal.

At the time of the Liberal Democrat-Conservative decision to raise tuition fees in England to £9,000, it was clear to my Government, to my predecessor and to the majority of Welsh public opinion, in my view, that this would saddle young people with huge and possibly unsustainable, unrepayable debt. And so it has proved to be. The Welsh people chose a different path, and the Welsh Labour Government took the decision that it would protect Welsh students from the increase in fees that was being seen over the border. Incidentally, never will the Welsh people, at least in this generation—

Ar yr adeg y penderfynodd y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr godi ffioedd dysgu yn Lloegr i £9,000, rwy'n credu ei bod yn amlwg i fy Llywodraeth, i fy rhagflaenydd a'r rhan fwyaf o'r farn gyhoeddus yng Nghymru y byddai hyn yn rhoi baich dyled enfawr ac anghynaladwy, na ellid ei had-dalu o bosibl, ar ysgwyddau pobl ifanc. Ac mae hynny wedi'i brofi. Dewisodd pobl Cymru lwybr gwahanol, a phenderfynodd Llywodraeth Lafur Cymru y byddai'n diogelu myfyrwyr Cymru rhag y cynnydd yn y ffioedd a welid dros y ffin. Fel y mae'n digwydd, ni fydd pobl Cymru byth, yn y genhedlaeth hon o leiaf—

15:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister take an intervention?

A wnaiff y Gweinidog dderbyn ymyriad?

15:58 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a second. Never will the Welsh people in this political generation, in my view, forget the Liberal Democrat role in that decision around the £9,000 hike in tuition fees. To borrow a phrase from Roosevelt, it will 'live in infamy', in terms of the debate around student support. I'll take the intervention.

Mewn eiliad. Yn fy marn i, ni fydd pobl Cymru yn y genhedlaeth wleidyddol hon yn anghofio rôl y Democratiaid Rhyddfrydol yn y penderfyniad ynglŷn â'r cynnydd o £9,000 yn y ffioedd dysgu. I fenthyg ymadrodd gan Roosevelt, bydd yn 'live in infamy', o ran y ddadl ynghylch cymorth i fyfyrwyr. Fe gymeraf yr ymyriad.

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Andrew R.T. Davies.

Andrew R.T. Davies.

15:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for taking the intervention. I might have misheard you, but it is correct that the Labour Party introduced the principle of tuition fees and, indeed, the Labour Party was keen to extend that to the £9,000 threshold. So, your party in Government in Westminster—I accept it's a devolved competence, but you can't rewrite history. You introduced tuition fees.

Diolch i'r Gweinidog am dderbyn yr ymyriad. Efallai fy mod wedi eich camglywed, ond mae'n gywir mai'r Blaid Lafur a gyflwynodd yr egwyddor o ffioedd dysgu ac yn wir, roedd y Blaid Lafur yn awyddus i'w ymestyn i'r trothwy o £9,000. Felly, eich plaid chi mewn Llywodraeth yn San Steffan—rwy'n derbyn mai cymhwysedd datganoledig ydyw, ond ni allwch ailysgrifennu hanes. Chi a gyflwynodd ffioedd dysgu.

15:59 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we can debate history, if you like. Let's talk about the present—[Interruption.] Let's talk about the present and where Conservative policies have led students in England and where Welsh Labour policies have led students in Wales. We kept the promise we made to the Welsh people, and the benefits of that policy for Welsh students are very clear in the interim report evidence. Read it for yourself. A student ordinarily domiciled in Wales on a three-year undergraduate degree course at university leaves their studies with £22,000 less debt than a student from England. That is the Welsh Labour Government difference that has been sustained through keeping that promise to the Welsh people throughout this Assembly term. They are supported also wherever they want to study across the UK, opening up the ability to study courses not offered in Wales and extending the range, for instance, of Russell Group universities at which they can study without having to pay additional fees. There, we distinguish ourselves from the mistakes that, in my view, the Scottish Government has made. I'm proud to have been part of a Government that supported the aspirations of students and has stood by them in that way. I am proud that this Welsh Labour Government has done that.

Wel, gallwn drafod hanes, os mynnwch. Gadewch i ni siarad am y presennol—[Torri ar draws.] Gadewch i ni siarad am y presennol a lle y mae polisïau Ceidwadol wedi arwain myfyrwyr yn Lloegr a lle y mae polisïau Llafur Cymru wedi arwain myfyrwyr yng Nghymru. Fe gadwom yr addewid a wnaethom i bobl Cymru, ac mae manteision y polisi i fyfyrwyr Cymru yn glir iawn yn nhystiolaeth yr adroddiad interim. Darllenwch ef drosoch eich hunan. Mae myfyriwr a oedd yn byw yn wreiddiol yng Nghymru ar gwrs gradd israddedig tair blynedd yn y brifysgol yn gorffen ei gwrs gyda £22,000 yn llai o ddyled na myfyriwr o Loegr. Dyna wahaniaeth gan Lywodraeth Lafur Cymru a gynhaliwyd drwy gadw'r addewid i bobl Cymru drwy gydol y tymor Cynulliad hwn. Cefnogir hwy hefyd lle bynnag y maent am astudio ledled y DU, gan agor y gallu i astudio cyrsiau na chânt eu cynnig yng Nghymru ac ymestyn yr ystod, er enghraifft, o brifysgolion Grŵp Russell lle y gallant astudio heb orfod talu ffioedd ychwanegol. Dyna ble rydym yn osgoi'r camgymeriadau y mae Llywodraeth yr Alban wedi'u gwneud yn fy marn i. Rwy'n falch o fod wedi bod yn rhan o Lywodraeth a gefnogai ddyheadau myfyrwyr ac sydd wedi sefyll gyda hwy yn y ffordd honno. Rwy'n falch fod Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwneud hynny.

I want to address some of the points being made by the Members in today's debate. Of course, one of the central arguments that's being rolled out this afternoon, by Plaid Cymru explicitly and, in my view, implicitly by the Welsh Conservatives as well—perhaps they'll correct me if I'm wrong—is that somehow, in supporting our young people to study wherever they wish, we are subsidising universities outside of our own jurisdiction and that that somehow is damaging Welsh higher education. I think a couple of very important points need to be made in response to that charge. The first is that this fails to take into account the much larger amount of funding, in the form of tuition fees and maintenance loan support, that comes to Wales from students domiciled in other parts of the UK. The report makes clear that we are a net importer of students and that, while £93 million is paid out in tuition fee support to students choosing to study outside Wales, and supporting them in that choice, £129 million comes the other way across the border in funding from students from other nations of the UK. Be careful what you wish for. How might it be if my equivalent in England took the same attitude of mind in terms of supporting English-domiciled students who may want to study outside of England? Remember that figure of £129 million, mainly from English-domiciled students, which is coming into Wales from outside.

Rwyf am ymdrin â rhai o'r pwyntiau a wnaed gan yr Aelodau yn y ddadl heddiw. Wrth gwrs, un o'r dadleuon canolog a gyflwynwyd y prynhawn yma, gan Blaid Cymru yn benodol, ac mae'n ymhlyg gan y Ceidwadwyr Cymreig yn ogystal yn fy marn i—efallai y byddant yn fy nghywiro os wyf yn anghywir—yw ein bod rywsut, drwy gynorthwyo ein pobl ifanc i astudio ble bynnag y maent yn dymuno, yn rhoi cymhorthdal i brifysgolion y tu allan i'n hawdurdodaeth ein hunain a bod hynny rywsut yn niweidio addysg uwch yng Nghymru. Rwy'n meddwl bod angen gwneud un neu ddau o bwyntiau pwysig iawn mewn ymateb i'r cyhuddiad hwnnw. Y cyntaf yw bod hyn yn anwybyddu'r swm llawer uwch o gyllid, ar ffurf ffioedd dysgu a benthyciadau cymorth cynhaliaeth, sy'n dod i Gymru gan fyfyrwyr sy'n hanu o rannau eraill o'r DU. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir ein bod yn fewnforiwr net o fyfyrwyr ac er bod £93 miliwn yn cael ei dalu mewn cymorth ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n dewis astudio y tu allan i Gymru i'w cefnogi gyda'r dewis hwnnw, daw £129 miliwn o'r cyfeiriad arall ar draws y ffin mewn arian gan fyfyrwyr o wledydd eraill y DU. Byddwch yn ofalus am beth y dymunwch. Beth pe bai'r Gweinidog sy'n cyfateb i mi yn Lloegr yn meddwl yn yr un ffordd ynglŷn â chefnogi myfyrwyr sy'n hanu o Loegr a allai fod eisiau astudio y tu allan i Loegr? Cofiwch y ffigur o £129 miliwn, yn bennaf gan fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr, sy'n dod i Gymru o'r tu allan.

16:02 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

16:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I will.

Gwnaf.

16:02 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

The Member is fully aware that that money would continue to come into Wales if there were a change of policy because that money is tuition fee loans to students. Will he tell the Assembly how much does the education Minister in Whitehall give as a subsidy for English students studying in Wales?

Mae'r Aelod yn gwybod yn iawn y byddai'r arian yn parhau i ddod i mewn i Gymru pe ceid newid polisi am mai benthyciadau ffioedd dysgu i fyfyrwyr yw'r arian hwnnw. A allai ddweud wrth y Cynulliad faint y mae'r Gweinidog addysg yn Whitehall yn ei roi'n gymhorthdal i fyfyrwyr o Loegr sy'n astudio yng Nghymru?

16:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

That student support amounts to £129 million. There it is. That is the income to the higher education institutions. That is the income to our sector. That is the income to our sector, and Plaid Cymru, in my view, run the risk of losing that support.

Mae'r cymorth hwnnw i fyfyrwyr yn £129 miliwn. Dyna ydyw. Dyna'r incwm i'r sefydliadau addysg uwch. Dyna'r incwm i'n sector. Dyna'r incwm i'n sector, ac mae Plaid Cymru, yn fy marn i, mewn perygl o golli'r cymorth hwnnw.

Suzy Davies mentioned that HEIs in Wales have been drained of resources as a result of this policy. Drained of resources. HEIs in Wales have benefited from a 12 per cent uplift this year alone in their income across Wales. What other player in the public realm anywhere in the UK is in a position to celebrate, in these times of Tory-led austerity, a 12 per cent uplift in income? No-one coming bleating to me about pressures within higher education need bother addressing me in argument before they acknowledge that we have seen a double-figure uplift, in times of austerity, this year alone for HEIs in Wales.

Crybwyllodd Suzy Davies fod adnoddau sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi'u gwaedu'n sych o ganlyniad i'r polisi hwn. Wedi'u gwaedu'n sych. Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi elwa o gynnydd o 12 y cant eleni'n unig yn eu hincwm ledled Cymru. Pa sefydliad arall yn y byd cyhoeddus yn unrhyw le yn y DU sydd mewn sefyllfa i ddathlu cynnydd o 12 y cant yn ei incwm yn y cyfnod hwn o galedi dan arweiniad y Torïaid? Nid oes angen i neb sy'n dod ataf yn cwyno am bwysau ar addysg uwch drafferthu dadlau â mi cyn iddynt gydnabod ein bod wedi gweld cynnydd mewn ffigurau dwbl eleni'n unig, ar adeg o galedi, i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

As the Higher Education Policy Institute report, 'Whose to Lose?' points out, if we begin to see—and we're beginning to see it today from these two sides of the Chamber—the debate about HE in these narrow geographical terms, we will run the risk of missing the collective and individual benefits of what higher education can do for our economy, our communities and our young people. It points out that we run the risk of turning Welsh higher education into an ever more insular, local, public service at a time when it is becoming—and should become—a truly global and international body of interest, acting in the collective good. I think it risks missing out one of the most powerful and profound points about this policy, namely that it was founded on a very simple principle indeed that escapes Plaid Cymru: that we support, first and foremost, what is in the best interests of the student, and do not, as other parties are all too quick to do, relegate that to a second-order priority.

Fel y mae adroddiad y Sefydliad Polisi Addysg Uwch, 'Whose to lose?' yn nodi, os ydym yn dechrau gweld—ac rydym yn dechrau ei weld heddiw o'r ddwy ochr i'r Siambr—y ddadl am addysg uwch yn y termau daearyddol cul hyn, rydych mewn perygl o golli manteision cyfunol ac unigol yr hyn y gall addysg uwch ei wneud i'n heconomi, ein cymunedau a'n pobl ifanc. Mae'n nodi ein bod mewn perygl o droi addysg uwch Cymru yn wasanaeth cyhoeddus mwyfwy ynysig a lleol ar adeg pan fo'n dod—a phan ddylai ddod—yn gorff o ddiddordeb gwirioneddol fyd-eang a rhyngwladol sy'n gweithredu er budd cyffredin. Rwy'n credu ei fod mewn perygl o golli allan ar un o'r pwyntiau mwyaf pwerus a difrifol ynglŷn â'r polisi hwn, sef ei fod wedi'i seilio ar egwyddor syml iawn yn wir nad yw Plaid Cymru wedi'i deall: ein bod yn cefnogi, yn anad dim, yr hyn sydd er budd gorau'r myfyriwr, ac nid ydym, fel y mae'r pleidiau eraill i gyd yn rhy awyddus i'w wneud, yn diraddio hynny i fod yn flaenoriaeth eilradd.

Welsh Labour wants our young people to fly. Plaid Cymru wants to clip their wings. We will stand by young people and their parents and their ambitions to study—be they in Bristol, Birmingham, Manchester or London. Welsh Labour will stand with you, while Plaid Cymru is quite willing to walk away.

Mae Llafur Cymru eisiau i'n pobl ifanc hedfan. Mae Plaid Cymru eisiau clipio'u hadenydd. Byddwn yn sefyll gyda phobl ifanc a'u rhieni a'u huchelgeisiau i astudio—boed ym Mryste, Birmingham, Manceinion neu Lundain. Bydd Llafur Cymru yn sefyll gyda chi, tra bydd Plaid Cymru yn eithaf parod i gerdded i ffwrdd.

And, when it comes to the Welsh Conservatives, what is it that they want? The Welsh Conservatives are going to support everyone. They are going to support part-time students. They are going to support disabled students. They are going to address the issue of maintenance support. And then, we look just a few miles over the border and see the reality and the truth of what Conservative Governments mean in terms of student support. They have taken a flame thrower to part-time study in HE in England. It is tottering and on the brink of total collapse—a complete contrast with the way that part-time study has been supported here in Wales. They have rolled out a system of self-evidently unsustainable debt, where £22,000 extra in terms of debt burden is heaped upon every single student. It's clear, reading between the lines, what the Welsh Conservatives want: they want a carbon copy of that unsustainable—

Ac o ran y Ceidwadwyr Cymreig, beth y maent hwy ei eisiau? Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn mynd i gefnogi pawb. Maent yn mynd i gefnogi myfyrwyr rhan-amser. Maent yn mynd i gefnogi myfyrwyr anabl. Maent yn mynd i fynd i'r afael â mater cymorth cynhaliaeth. Ac yna, edrychwn ychydig filltiroedd dros y ffin a gweld realiti a gwirionedd yr hyn y mae Llywodraethau Ceidwadol yn ei olygu wrth gymorth i fyfyrwyr. Maent wedi ymosod ar astudio rhan-amser mewn addysg uwch yn Lloegr. Mae'n gwegian ac ar fin methu'n llwyr—gwrthgyferbyniad llwyr i'r ffordd y mae astudio rhan-amser wedi cael cefnogaeth yma yng Nghymru. Maent wedi cyflwyno system o ddyled sy'n amlwg yn anghynaliadwy, lle y gosodir £22,000 ychwanegol o faich dyled ar bob myfyriwr. Mae'n amlwg, wrth ddarllen rhwng y llinellau, beth y mae'r Ceidwadwyr Cymreig ei eisiau: maent am gael copi carbon o'r system anghynaladwy honno—

16:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

You must finish now.

Mae'n rhaid i chi orffen yn awr.

16:06

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

[Continues.]—English, debt-ridden system, and they have no answers, in reality, to supporting students around maintenance or, indeed, around part-time study.

[Yn parhau.]—yn Lloegr sy'n llawn o ddyledion, ac nid oes ganddynt unrhyw atebion, mewn gwirionedd, i gynorthwyo myfyrwyr gyda'u cynhaliaeth neu'n wir, gyda'u cyrsiau rhan-amser.

16:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. Mark Isherwood.

Diolch yn fawr, Weinidog. Mark Isherwood.

16:06

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Can I declare that I have one son in a university in England and one in Wales also, currently? As Angela Burns said, the future of the HE sector is of critical importance, driving the economy and social mobility. But, as Professor Diamond's interim report into HE funding said, the current system is not sustainable, with evidence suggesting the Welsh Government needs to revisit the tuition fee grant policy. This follows findings from Universities Wales, the Learned Society of Wales and the University and College Union, all of which emphasise the policy's unsustainable nature. As Angela said, if the trend continues, this will put Welsh universities at even greater risk. But the Welsh Conservatives would support an innovative widening-access programme.

A gaf fi ddatgan bod gen i un mab mewn prifysgol yn Lloegr ac un yng Nghymru hefyd ar hyn o bryd? Fel y dywedodd Angela Burns, mae dyfodol y sector addysg uwch yn hollbwysig, er mwyn hybu'r economi a symudedd cymdeithasol. Ond fel y dywedodd adroddiad interim yr Athro Diamond ar gyllido addysg uwch, nid yw'r system bresennol yn gynaliadwy, gyda thystiolaeth yn awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru edrych eto ar y polisi grant ffioedd dysgu. Mae hyn yn dilyn canfyddiadau Prifysgolion Cymru, Cymdeithas Ddysgedig Cymru a'r Undeb Prifysgolion a Cholegau, sydd, bob un ohonynt, yn pwysleisio natur anghynaliadwy'r polisi. Fel y dywedodd Angela, os yw'r duedd yn parhau, bydd hyn yn rhoi prifysgolion Cymru mewn mwy fyth o berygl. Ond byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi rhaglen ehangu mynediad arloesol.

Aled Roberts said that if cuts to HEFCW go ahead to fund Labour's tuition fee grant policy, other priorities will fall by the wayside and provision will be decimated. Simon Thomas noted that the current policy cannot be maintained. Paul Davies emphasised the need to measure the impact on widening-access initiatives. He said that the needs of students are not being met by the current system, and that the current funding model is unsustainable for the future. Keith Davies: brave try; you need to get out more. William Graham: higher education is a major contributor to the Welsh economy. We need to ensure that Welsh universities receive the resources they need to compete in a UK and international marketplace, and there are concerns over cuts to part-time students.

Dywedodd Aled Roberts, os yw toriadau i CCAUC yn mynd yn eu blaenau i ariannu polisi grant ffioedd dysgu Llafur, bydd blaenoriaethau eraill yn cael eu gwthio o'r neilltu a'r ddarpariaeth yn cael ei chwalu. Nododd Simon Thomas na ellir cynnal y polisi cyfredol. Pwysleisiodd Paul Davies yr angen i fesur yr effaith ar gynlluniau ehangu mynediad. Dywedodd nad oedd y system bresennol yn diwallu anghenion myfyrwyr a bod y model ariannu presennol yn anghynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Keith Davies: ymdrech ddewr; mae angen i chi fynd allan mwy. William Graham: mae addysg uwch yn cyfrannu'n helaeth at economi Cymru. Mae angen i ni sicrhau bod prifysgolion Cymru yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gystadlu ym marchnad y DU ac yn rhyngwladol, a cheir pryderon ynghylch toriadau i fyfyrwyr rhan-amser.

Jenny Rathbone emphasised the benefits of mathematical models for decision making—hurrah—and highlighted the risk of money moving away from Wales. Suzy Davies emphasised the need to defend our universities' reputations to attract students and keep talent in Wales, but Welsh Government policy is making them vulnerable and students' decisions are being affected by non-tuition-fee debt. The Minister, Huw Lewis, completely failed to address the unsustainable nature of current Labour Welsh Government higher education funding, as highlighted by Welsh universities themselves. As he said, he wants young people in Wales to fly—apparently to England.

Pwysleisiodd Jenny Rathbone fanteision modelau mathemategol ar gyfer gwneud penderfyniadau—hwrê—a thynnodd sylw at y perygl y bydd arian yn symud o Gymru. Pwysleisiodd Suzy Davies yr angen i warchod enw da ein prifysgolion er mwyn denu myfyrwyr a chadw talent yng Nghymru, ond mae polisi Llywodraeth Cymru yn eu gwneud yn agored i niwed ac effeithir ar benderfyniadau myfyrwyr gan ddyled heblaw dyledion ffioedd dysgu. Methodd y Gweinidog, Huw Lewis, yn llwyr â mynd i'r afael â natur anghynaliadwy cyllid addysg uwch Llywodraeth Lafur Cymru ar hyn o bryd, fel y mae prifysgolion Cymru eu hunain wedi'i amlygu. Fel y dywedodd, mae'n awyddus i bobl ifanc Cymru hedfan—i Loegr, mae'n debyg.

But it was Labour, as we heard, who introduced—

Ond fel y clywsom, y Blaid Lafur a gyflwynodd—

16:08

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention? Could you—

A wnewch chi dderbyn ymyriad? A allech—

16:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

He has to give way. Are you giving way?

Mae'n rhaid iddo ildio. A ydych yn ildio?

16:08

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

I'll give way.

Fe ildiaf.

16:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Minister.

Weinidog.

16:08

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Thank you. I appreciate it. Can we have a definitive—? The Welsh Conservatives are playing with language here this afternoon. Let's have a definitive statement: are the Welsh Conservatives saying that they would no longer support students to study outside Wales? We've heard it clearly at least from Plaid Cymru. Come on, let's have a clear statement from the Welsh Conservatives.

Diolch. Rwy'n gwerthfawrogi hynny. A allwn ni gael datganiad diffiniol—? Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn chwarae gydag iaith yma y prynhawn yma. Gadewch i ni gael datganiad diffiniol: a yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn dweud na fyddent yn cynorthwyo myfyrwyr i astudio y tu allan i Gymru mwyach? Rydym wedi ei glywed yn glir o leiaf gan Blaid Cymru. Dewch, gadewch i ni gael datganiad clir gan y Ceidwadwyr Cymreig.

16:09

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the shadow education Minister said, that was not the case. It was Labour that introduced tuition fees. It was Labour that introduced variable tuition fees, which is why a Welsh Conservative motion defeated Labour in the second Assembly to introduce a top-up fee grant. We introduced that top-up fee grant, working with the then First Minister. In the third Assembly, Labour then scrapped that top-up fee grant. But when the UK Government accepted the Brown review's recommendation—the Brown review appointed by the last Labour Government, when they were talking about tuition fee rises—when the new UK Government accepted that, Labour cynically introduced its own tuition fee subsidy for Welsh-domiciled university students, wherever in the UK they chose to study, with all the flaws warned against by Rhodri Morgan and accepted by all party leaders in 2005. It was so transparent it was see-through. Three years later the auditor general said that there were limitations—[Interruption.] We're a bit short on time, but I will briefly, yes. [Interruption.]

Fel y dywedodd Gweinidog addysg yr wrthblaid, nid oedd hynny'n wir. Llafur a gyflwynodd y ffioedd dysgu. Llafur a gyflwynodd y ffioedd dysgu amrywiol, a dyna pam y trechwyd Llafur gan gynnig y Ceidwadwyr Cymreig yn yr ail Gynulliad i gyflwyno grant ffioedd atodol. Cyflwynasom y grant ffioedd atodol, gan weithio gyda'r Prif Weinidog ar y pryd. Yn y trydydd Cynulliad wedyn, dileodd Llafur y grant ffioedd atodol. Ond pan dderbyniodd Llywodraeth y DU argymhelliad adolygiad Brown—yr adolygiad Brown a drefnwyd gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, pan oeddent yn siarad am godi ffioedd dysgu—pan dderbyniodd Llywodraeth newydd y DU hynny, aeth Llafur ati'n sinigaidd i gyflwyno eu cymhorthdal ffioedd dysgu eu hunain ar gyfer myfyrwyr prifysgol a hanai o Gymru ble bynnag yn y DU y dewisent astudio, gyda'r holl ddiffygion y rhybuddiodd Rhodri Morgan yn eu herbyn ac a dderbyniwyd gan arweinwyr pob plaid yn 2005. Roedd mor dryloyw fel y gallech weld drwyddo. Dair blynedd yn ddiweddarach dywedodd yr archwilydd cyffredinol fod cyfyngiadau—[Torri ar draws.] Rydym ychydig yn brin o amser, ond fe wnaf yn fyr, iawn. [Torri ar draws.]

16:10

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mark, do you not think that it is a matter of regret that the Minister could not hear us when, earlier on in this speech, we said, 'Do not misinterpret us. We absolutely defend the rights of students to be able to study in the university of their choice, and if they are eligible for support, it doesn't matter if they're in Cardiff or Cambridge'?

Mark, onid ydych yn meddwl ei bod yn anffodus na allai'r Gweinidog ein clywed pan ddywedasom, yn gynharach yn yr araith hon, 'Peidiwch â chamddehongli'r hyn a ddywedwn. Rydym yn bendant yn gwarchod hawliau myfyrwyr i allu astudio mewn prifysgol o'u dewis, ac os ydynt yn gymwys i gael cymorth, nid oes gwahaniaeth a ydynt yng Nghaerdydd neu yng Nghaergrawnt'?

16:10

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I regret that Welsh Ministers in this Government often fail to hear things said, and that's no denigration to people like myself who are hard of hearing; it's simply a reflection of the fact, a matter of choice rather than nature.

Ydw, rwy'n gresynu bod Gweinidogion Cymru yn y Llywodraeth hon yn aml yn methu â chlywed pethau sy'n cael eu dweud, ac nid yw hynny'n difenwi pobl fel finnau sy'n drwm eu clyw; yn syml iawn, mae'n adlewyrchu ffaith, mater o ddewis yn hytrach na natur.

The Welsh Government, as I said—. The auditor general, three years later, said there were limitations in the Welsh Government's appraisal of its tuition fee options, at the time in 2010. The impact of all this is that record numbers of students started university this year as the cap on university places in England was lifted, including a 4 per cent rise in the number of young disadvantaged students. However, whilst England had a 3 per cent increase in students finding places, the increase in Wales was only 1 per cent.

Mae Llywodraeth Cymru, fel y dywedais—. Dywedodd yr archwilydd cyffredinol, dair blynedd yn ddiweddarach, fod cyfyngiadau yn arfarniad Llywodraeth Cymru o'i hopsiynau ffioedd dysgu, ar y pryd yn 2010. Effaith hyn i gyd yw bod y nifer uchaf erioed o fyfyrwyr wedi dechrau mewn prifysgol eleni ar ôl codi'r cap ar leoedd prifysgol yn Lloegr, gan gynnwys cynnydd o 4 y cant yn nifer y myfyrwyr ifanc dan anfantais. Fodd bynnag, er bod cynnydd o 3 y cant yn Lloegr yn nifer y myfyrwyr a ddaeth o hyd i leoedd, 1 y cant yn unig oedd y cynnydd yng Nghymru.

As we heard at the annual meeting of the court of Bangor University last Friday, one of the biggest challenges is the funding of higher education, with the increasing differential between England and Wales causing pressures. The cutback in HEFCW, we heard, on behalf of the Welsh Government, they said, is the biggest in over three decades as the cost of the tuition fee grant increases. They said that, of over £350 million of Welsh higher education money, £100 million is going to fund English universities, and they're working with vice-chancellors across Wales to address this. Glyndŵr University said the Welsh Government proposals would mean an 81 per cent reduction in the higher education budget since 2010, and that the budget cuts to Glyndŵr and Bangor universities would potentially have a huge negative impact on north Wales.

Fel y clywsom yng nghyfarfod blynyddol llys Prifysgol Bangor ddydd Gwener diwethaf, un o'r heriau mwyaf yw cyllido addysg uwch, gyda'r gwahaniaeth cynyddol rhwng Cymru a Lloegr yn creu pwysau. Fel y clywsom, y toriad i CCAUC ar ran Llywodraeth Cymru yw'r mwyaf ers dros dri degawd wrth i gost y grant ffioedd dysgu gynyddu. O dros £350 miliwn o arian addysg uwch yng Nghymru, maent yn dweud bod £100 miliwn ohono'n mynd i ariannu prifysgolion yn Lloegr, ac maent yn gweithio gydag is-gangellorion ledled Cymru i fynd i'r afael â hyn. Dywedodd Prifysgol Glyndŵr y byddai cynigion Llywodraeth Cymru yn golygu gostyngiad o 81 y cant yn y gyllideb addysg uwch ers 2010, ac y byddai'r toriadau yn y gyllideb i brifysgolion Glyndŵr a Bangor o bosibl yn cael effaith negyddol enfawr ar ogledd Cymru.

So, let us replace the tuition fee grant with a progressive system of living costs support that enables students from all walks of life in Wales to study at university, recognising the statement by Universities Wales that the consequence of drawing the funding for Labour's tuition fee grant from the higher education budget is that it will become increasingly difficult for the Welsh Government to provide public funding for research, part-time and high-cost subjects and its own priorities, such as the Coleg Cymraeg.

Felly, gadewch i ni osod system o gymorth cynyddol ar gyfer costau byw yn lle'r grant ffioedd dysgu i alluogi myfyrwyr o bob cefndir yng Nghymru i astudio yn y brifysgol, gan gydnabod y datganiad gan Brifysgolion Cymru mai canlyniad tynnu cyllid ar gyfer grant ffioedd dysgu Llafur o'r gyllideb addysg uwch yw y bydd yn dod yn fwyfwy anodd i Lywodraeth Cymru ddarparu arian cyhoeddus ar gyfer pynciau ymchwil a rhan-amser, a phynciau costus a'i blaenoriaethau ei hun, megis y Coleg Cymraeg.

16:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Finish now.

Gorffennwch yn awr.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Llifogydd

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 4 yn enw Aled Roberts, gwelliant 3 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 5 a 6 yn enw Elin Jones.*

## 6. Welsh Conservatives Debate: Flooding

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 4 in the name of Aled Roberts, amendment 3 in the name of Jane Hutt, and amendments 5 and 6 in the name of Elin Jones.*

16:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 6 is the Welsh Conservatives' debate on flooding. I call on Janet Haworth to move the motion.

Eitem 6 yw dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar lifogydd. Galwaf ar Janet Haworth i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5923 Paul Davies

Motion NDM5923 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod cymunedau ledled Cymru wedi cael eu difrodi gan lifogydd dros yr wythnosau diwethaf ac yn talu teyrnged i waith pob un o'r rhai sydd wedi rhoi cefnogaeth hanfodol i'r cymunedau hynny;

1. Notes that communities across Wales have been devastated by flooding in recent weeks; and pays tribute to the work of all of those who have provided vital support to those communities;

2. Yn cydnabod pwysigrwydd gwaith ymgysylltu trylwyr, cydweithredol â rhanddeiliaid ledled Cymru i ddatblygu strategaeth atal llifogydd gadarn; a

2. Recognises the importance of thorough, collaborative engagement with stakeholders across Wales in the development of a robust, flood prevention strategy; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau pendant ar unwaith i gefnogi cymunedau y mae llifogydd wedi effeithio arnynt, gan gynnwys:

3. Calls on the Welsh Government to take immediate, tangible action to support flood-hit communities, including:

a) archwilio hyfywedd darparu rhyddhad ardrethi i'r busnesau yr effeithiwyd arnynt;

a) exploring the viability of providing rate relief to impacted businesses;

b) adolygu sut y mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn ymateb i amodau tywydd gwael, gan asesu yn enwedig sut y rheolir yr A55 mewn perthynas â llifogydd;

b) reviewing how the Trunk Road Agency responds to adverse weather conditions, and in particular assessing the management of the A55 in relation to flooding;

c) darparu rhyddid ychwanegol i ffermwyr a thirfeddianwyr ymgymryd ag unrhyw waith angenrheidiol i glirio ffosydd, draeniau a sianeli amaethyddol; a

c) providing additional freedoms to farmers and landowners to undertake any necessary clearance of ditches, drains and agricultural channels; and

d) asesu sut y gall y rhaglen datblygu gwledig gefnogi cynlluniau atal llifogydd yn well i gymunedau yr effeithir arnynt gan lifogydd.

d) assessing how the Rural Development Programme can better support flood prevention schemes for communities affected by flooding.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:13 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased to introduce this Welsh Conservative motion in the name of Paul Davies. Firstly, our motion notes that communities across Wales have been devastated by flooding in recent weeks, and pays tribute to the work of all those who have provided vital support to those communities. Secondly, we recognise the importance of thorough, collaborative engagement with stakeholders across Wales, in the development of a robust flood-prevention strategy. Thirdly, we call on the Welsh Government to take immediate tangible action to support flood-hit communities, including exploring the viability of providing rate relief to impacted businesses, reviewing how the trunk road agency responds to adverse weather conditions, and in particular assessing the management of the A55 in relation to flooding, providing additional freedoms to farmers and landowners to undertake any necessary clearance of ditches, drains and agricultural channels, and assessing how the rural development plan can better support flood-prevention schemes for communities affected by flooding.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gyflwyno'r cynnig hwn gan y Ceidwadwyr Cymreig yn enw Paul Davies. Yn gyntaf, mae ein cynnig yn nodi bod cymunedau ar draws Cymru wedi cael eu difrodi gan lifogydd yn yr wythnosau diwethaf, ac yn talu teyrnged i waith yr holl rai sydd wedi darparu cefnogaeth hanfodol i'r cymunedau hynny. Yn ail, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu trylwyr a chydweithredol â rhanddeiliaid ledled Cymru, wrth ddatblygu strategaeth gadarn ar gyfer atal llifogydd. Yn drydydd, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi camau pendant ar waith ar unwaith i gefnogi cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd, gan gynnwys archwilio hyfywedd darparu rhyddhad ardrethi i fusnesau yr effeithiwyd arnynt, adolygu sut y mae'r asiantaeth cefnffyrdd yn ymateb i dywydd garw, gan asesu'n arbennig sut y rheolir yr A55 mewn perthynas â llifogydd, gan ddarparu rhyddid ychwanegol i ffermwyr a thirfeddianwyr ymgymryd ag unrhyw waith angenrheidiol i glirio ffosydd, draeniau a sianeli amaethyddol, ac asesu sut y gall y cynllun datblygu gwledig gefnogi cynlluniau atal llifogydd yn well ar gyfer cymunedau yr effeithir arnynt gan lifogydd.

Seventy-eight days is the time this Assembly has left before it is dissolved and an election called. That is 78 days for this Labour Government of Wales to show the people of Wales that it is competent to fulfil the primary and most important duties of a government, which are to protect its people and seek to prevent them coming to harm. During the last few weeks, I have met with a number of people who have been harmed: homes flooded, journeys disrupted. The Conwy valley line is closed again, and will not reopen before the middle of February at the earliest. Businesses closed during their busy Christmas season. Cadnant gardens, Plas Newydd and Gwydir castle were devastated by floods. Gwydir castle is a rare Welsh treasure that provides jobs locally in Llanrwst. Their floods started in November and culminated with their eleventh and most devastating flood on Boxing Day. Early in the new year—

78 diwrnod yw'r amser sydd ar ôl gan y Cynulliad hwn cyn iddo gael ei ddiddymu ar gyfer galw etholiad. Dyna 78 diwrnod i'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru ddangos i bobl Cymru ei bod yn gymwys i gyflawni dyletswyddau sylfaenol a mwyaf pwysig llywodraeth, sef amddiffyn ei phobl a cheisio eu hatal rhag niwed. Yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, rwyf wedi cyfarfod â nifer o bobl sydd wedi cael eu niweidio: llifogydd mewn cartrefi, tarfu ar deithio. Mae rheilffordd Dyffryn Conwy ar gau eto, ac ni fydd yn ailagor cyn canol mis Chwefror ar y cynharaf. Caeodd busnesau yn ystod cyfnod prysur y Nadolig. Dinistriwyd gerddi Cadnant, Plas Newydd a chastell Gwydir gan lifogydd. Mae Castell Gwydir yn drysor Cymreig prin sy'n darparu swyddi yn lleol yn Llanrwst. Dechreuodd eu llifogydd ym mis Tachwedd a gorffen gyda'r unfed achos ar ddeg o lifogydd, a'r mwyaf dinistriol, ar Ŵyl San Steffan. Yn gynnar yn y flwyddyn newydd—

16:15 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:15 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you.

Diolch.

16:15 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I join you in your assessment that the role of Government is to protect its people. Will you join me, therefore, in condemning the United Kingdom Government, which has left most of northern England under water for the last month?

Rwy’n cytuno â’ch asesiad mai rôl y Llywodraeth yw amddiffyn ei phobl. A wnewch chi gytuno, felly, i gondemnio Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd wedi gadael y rhan fwyaf o ogledd Lloegr o dan y dŵr dros y mis diwethaf?

16:15 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you, Member, for your timely intervention. But I will continue, Minister, if I may. Early in the new year, I was back in Llanrwst again, listening to a neighbour who was again out trying to protect his home and the homes of his neighbours from flooding by surface water contaminated by sewage from the drains—again. Because I was told this happens regularly, even when the river levels have fallen. Remedial works are needed on a failing urban drainage system. Contractors were on site doing their best to try to find the blockages. But they were working blind, because no-one had brought them the charts of the drains. At the community drop-in in Llanrwst various agencies were present to meet with local people. Anger and recrimination abounded—blame and counter blame and competing theories about what to do is not helping our people in flood-risk areas sleep at night.

Diolch i chi, Aelod, am eich ymyriad amserol. Ond rwy’n mynd i barhau, Weinidog, os caf. Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, roeddwn yn ôl yn Llanrwst unwaith eto, yn gwrando ar gymydog a oedd unwaith eto allan yn ceisio amddiffyn ei gartref a chartrefi ei gymdogion rhag llifogydd dŵr wyneb wedi’i halogi gan garthion o’r draeniau—unwaith eto, oherwydd cefais ar ddeall fod hyn yn digwydd yn rheolaidd, hyd yn oed pan fydd lefelau afonydd wedi gostwng. Mae angen gwaith adfer ar system ddraenio drefol ddiffygiol. Roedd contractwyr ar y safle yn gwneud eu gorau glas i geisio dod o hyd i’r hyn oedd yn eu blocio. Ond roeddent yn gweithio’n ddall am nad oedd neb wedi dod â siartiau’r draeniau iddynt. Yn y ganolfan alw heibio gymunedol yn Llanrwst roedd asiantaethau amrywiol yn bresennol i gyfarfod â phobl leol. Roedd yno lawer o ddicter a chyhuddiadau—nid yw taflu bai a damcaniaethau gwrthgyferbyniol ynghylch beth i’w wneud yn helpu ein pobl mewn ardaloedd sy’n wynebu perygl llifogydd i gysgu yn y nos.

Seventy-eight days, Minister, to set matters right. The Conservative motion before you is seeking to do just that. While we sit in this Chamber warm and dry, Minister, the people out there are dreading the next bad weather forecast. They are waiting to hear how and when they can apply for the promised moneys from our First Minister to assist them in the clear up they are facing. Seventy-eight days left: precious time. Will you waste that time, Members, seeking to counter the motion the Conservative group has put before you and the people of Wales? Will you debate counter arguments—whether to dredge or not to dredge, to ditch or not to ditch—or will you support this motion? Minister, will you show the leadership that is badly needed to bring stakeholders across the agencies to the table to embark on producing an evidence-based analysis of flood protection?

78 diwrnod, Weinidog, i unioni pethau. Mae cynnig y Ceidwadwyr ger eich bron yn ceisio gwneud hynny. Wrth i ni eistedd yn y Siambr hon yn gynnes ac yn sych, Weinidog, mae’r bobl yno’n arswydo rhag y rhagolwg nesaf o dywydd garw. Maent yn aros i glywed sut a phryd y gallant wneud cais am yr arian a addawyd gan ein Prif Weinidog i’w cynorthwyo i wneud y gwaith clirio sy’n eu hwynebu. 78 diwrnod ar ôl: amser gwerthfawr. A wnewch chi wastraffu’r amser hwnnw, Aelodau, yn ceisio gwrthsefyll y cynnig y mae grŵp y Ceidwadwyr wedi’i gyflwyno ger eich bron a gerbron pobl Cymru? A wnewch chi ddadlau yn ei erbyn—a ddylid carthu ai peidio, a ddylid agor ffosydd ai peidio—neu a wnewch chi gefnogi’r cynnig hwn? Weinidog, a wnewch chi ddangos yr arweinyddiaeth sy’n fawr ei hangen i ddod â rhanddeiliaid ar draws yr asiantaethau at y bwrdd i ddechrau ar y broses o gynhyrchu dadansoddiad yn seiliedig ar dystiolaeth o waith amddiffyn rhag llifogydd?

We know there are practices from the past that we would not do now. We know that there are practices being tried elsewhere that we should consider. We know that we must respect and consult with local people who are as keen as we are to realise local solutions to flooding. Emergency planning must be reviewed and practised. Across Wales, Minister, we must do better. The Conservative motion before you today is seeking no more or less than that. Seventy-eight days, Members: are you going to disappoint the people of Wales, or are you going to support this positive Conservative motion that lies before you now?

Gwyddom fod yna arferion o'r gorffennol na fyddem yn eu gwneud yn awr. Gwyddom fod yna arferion sy'n cael eu profi mewn mannau eraill y dylem eu hystyried. Gwyddom fod rhaid i ni barchu ac ymgynghori â phobl leol sydd yr un mor awyddus â ninnau i wireddu atebion lleol i lifogydd. Rhaid adolygu cynlluniau argyfwng a'u rhoi ar waith. Ar draws Cymru, Weinidog, mae'n rhaid i ni wneud yn well. Nid yw cynnig y Ceidwadwyr ger eich bron heddiw yn galw am fwy na llai na hynny. 78 diwrnod, Aelodau: a ydych chi'n mynd i siomi pobl Cymru, neu a ydych yn mynd i gefnogi'r cynnig cadarnhaol hwn gan y Ceidwadwyr ger eich bron yn awr?

Finally, turning to the amendments, we are unable to support the first two amendments, tabled in the name of Aled Roberts. Amendment 1 expresses regret towards the UK Government for failing to apply for EU solidarity funds for flood relief. My understanding is that it's not that simple. It's a very complex process and it would impact on our EU rebate if these funds were accessed.

Yn olaf, i droi at y gwelliannau, ni allwn gefnogi'r ddau welliant cyntaf, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Mae gwelliant 1 yn gresynu at Lywodraeth y DU am fethu â gwneud cais am gyllid cydsefyll yr UE ar gyfer rhyddhad llifogydd. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid yw mor syml â hynny. Mae'n broses gymhleth iawn a byddai'n effeithio ar ein had-daliad i'r UE pe defnyddid y cronfeydd hyn.

Amendment 2—we cannot support this amendment. The UK Government has signed up to the Paris climate change agreement and it continues to seek to reduce carbon emissions and reliance on outdated and polluting technologies. At the same time, it is working to ensure—

Gwelliant 2—ni allwn gefnogi'r gwelliant hwn. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gytundeb newid yn yr hinsawdd Paris ac mae'n parhau i geisio lleihau allyriadau carbon a dibyniaeth ar dechnolegau hen ffasiwn sy'n llygru. Ar yr un pryd, mae'n gweithio i sicrhau—

16:19

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:19

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

There is no time.

Nid oes amser.

[Continues.]—to ensure security of energy supply at an affordable price.

[Yn parhau.]—i sicrhau diogelwch y cyflenwad ynni am bris fforddiadwy.

Finally, amendment 3: the UK Government already does review the evidence of schemes and ensures that schemes are evidence based. We will be including a reference to this principle in our manifesto. We will be supporting the final three amendments tabled.

Yn olaf, gwelliant 3: mae Llywodraeth y DU eisoes yn adolygu tystiolaeth cynlluniau ac yn sicrhau bod cynlluniau'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddwn yn cynnwys cyfeiriad at yr egwyddor hon yn ein maniffesto. Byddwn yn cefnogi'r tri gwelliant terfynol a gyflwynwyd.

16:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have selected the six amendments to the motion, and I call on William Powell to move amendments 1, 2 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 1, 2 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i wneud cais am gyllid gydsefyll yr UE ar gyfer rhyddhad llifogydd.*

*Regrets the failure of the UK Government to apply for EU solidarity funds for flood relief.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth y DU i dorri cymorth ar gyfer prosiectau ynni glân, sy'n bygwth ein gallu i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac yn cynyddu'r risg o amodau tywydd eithafol a llifogydd yn y dyfodol.*

*Regrets the decision of the UK Government to cut support for clean energy projects, which threatens our ability to tackle climate change and will increase the risk of extreme weather conditions and flooding in the future.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*Insert as new sub-point at end of point 3:*

*Hyrwyddo cynlluniau i liniaru ar y perygl o lifogydd drwy reoli tir mewn modd arloesol, gan gynnwys drwy blannu coed a llystyfiant i arafu dŵr ffo, adfer gwlyptiroedd a chreu cronfeydd llifogydd diogel.*

*Promoting schemes to alleviate flood risk through innovative land management including by planting trees and vegetation to slow run-off, restoring wetland areas, and creating safe flood reservoirs.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 4.*

*Amendments 1, 2 and 4 moved.*

16:19

## William Powell

Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer.

I'm grateful to the Conservative group for bringing forward this important debate today and rise to move amendments 1, 2 and 4 in the name of Aled Roberts.

Rwy'n ddiolchgar i grŵp y Ceidwadwyr am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw ac yn codi i symud gwelliannau 1, 2 a 4 yn enw Aled Roberts.

Speaking first to amendment 1, the scale of the devastation across the UK is, without doubt, sufficient to warrant an application to the European Union solidarity fund, which, as a member state of the European Union, the UK has paid into, and it's there to provide assistance at times when our citizens are in such an extreme situation. My friends and Liberal Democrat colleagues, Sir Graham Watson, former Member of the European Parliament, and Catherine Bearder MEP, have both received assurances from the European Commissioner that we are eligible for funds and also I should emphasise that the process is not anywhere near as complex as has been suggested by the proposer of today's motion. It is regrettable that the Prime Minister, when questioned recently as to why an application had not been made, said it is quicker and better to give people the help that they need from our own resources. Well, 'quicker and better' is not necessarily the experience of many of our fellow citizens, certainly in the north of England.

Wrth siarad yn gyntaf am welliant 1, mae maint y dinistr ar draws y DU, heb os, yn ddigon i warantu cais i gronfa gydsefyll yr Undeb Ewropeaidd, y mae'r DU, fel aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, wedi talu i mewn iddi, ac mae yno i ddarparu cymorth ar adegau pan fo ein dinasyddion mewn sefyllfa mor eithafol. Mae fy nghyfeillion a'm cydweithwyr yn y Democratiaid Rhyddfrydol, Syr Graham Watson, cyn Aelod o Senedd Ewrop, a Catherine Bearder ASE, wedi cael sicrwydd gan y Comisiynydd Ewropeaidd ein bod yn gymwys i gael arian a hefyd, dylwn bwysleisio nad yw'r broses yn agos at fod mor gymhleth ag yr awgrymai cynigydd y cynnig heddiw. Mae'n drueni fod y Prif Weinidog, pan gafodd ei holi'n ddiweddar pam na wnaed cais, wedi dweud ei bod yn gyflymach ac yn well rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl o'n hadnoddau ein hunain. Wel, nid 'cyflymach a gwell' o reidrwydd yw profiad llawer o'n cyd-ddinasyddion, yn sicr yng ngogledd Lloegr.

Contrary to what has been said also, the impact upon our rebate would be very marginal, and Corina Crețu, the relevant European commissioner, has actually emphasised that point. It's akin to paying in over many years to an insurance policy and then refraining from applying simply because of the impact upon one's excess premium.

Yn groes i'r hyn a ddywedwyd hefyd, byddai'r effaith ar ein had-daliad yn ymylol iawn, ac mae Corina Creţu, y comisiynydd Ewropeaidd perthnasol, wedi pwysleisio'r pwynt hwnnw mewn gwirionedd. Mae'n debyg i dalu i mewn dros flynyddoedd lawer i bolisi yswiriant ac yna ymatal rhag gwneud cais yn syml oherwydd yr effaith ar y premiwm dros ben.

16:21

## Nick Ramsay

Bywgraffiad Biography

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

16:21

## William Powell

Bywgraffiad Biography

Indeed.

Gwnaf.

16:21 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Thank you for giving way, Will. I hear what you say about the effect on the rebate being marginal, but you do nonetheless accept that there would be an effect and that would have an effect on future funding for this.

Diolch i chi am ildio, Will. Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch, sef y byddai'r effaith ar yr ad-daliad yn ymylol, ond serch hynny a ydych yn derbyn y byddai yna effaith ac y byddai'n effeithio ar gyllid ar gyfer hyn yn y dyfodol.

16:21 **William Powell** Bywgraffiad Biography

As I said, there would be an effect, but it would be marginal. I think, in the scheme of things, and given the scale of investment that we need to put things right, it is a judgment call that we certainly would make in the other direction. I've personally written to both Liz Truss and David Lidington, the Minister for Europe, but have not, as yet, had the courtesy of a response.

Fel y dywedais, byddai yna effaith, ond byddai'n ymylol. Rwy'n meddwl, fel y mae pethau, ac o ystyried maint y buddsoddiad sydd ei angen arnom i wneud pethau'n iawn, mae'n benderfyniad y byddem yn sicr yn ei wneud i'r cyfeiriad arall. Rwyf wedi ysgrifennu at Liz Truss a David Lidington, Gweinidog Ewrop, ond nid wyf, hyd yma, wedi cael unrhyw ymateb oddi wrthynt.

Turning now to amendment 2, I'm sure that I'm not alone in finding it a little ironic that, while the Conservative group is tabling this motion today, your colleagues in Westminster have cut support in a dramatic fashion for every clean energy project going, which is an absolute shame—whether that might be scrapping the support for onshore wind, halting subsidies for solar or biomass, killing the green homes scheme and, indeed, the seemingly headlong rush for fracking and all that that implies. I am very proud to be a member of a party that puts the environment at the very heart of what we do, and to have policies such as our aim to deliver 100 per cent of Wales's electricity needs from renewable sources by 2025 and net zero greenhouse gas emissions by 2050 to back up that commitment. That is highly relevant to the motion before us today.

Gan droi yn awr at welliant 2, rwy'n siŵr nad fi yw'r unig un i deimlo ei bod ychydig yn eironig fod grŵp y Ceidwadwyr yn cyflwyno'r cynnig hwn heddiw, tra bo'ch cydweithwyr yn San Steffan wedi torri cymorth mewn modd dramatig i bob prosiect ynni glân, sy'n bechod gwirioneddol—boed drwy gael gwared ar y cymorth i wynt ar y tir, atal cymorthdaliadau ar gyfer ynni solar neu fiomas, gan ladd y cynllun cartrefi gwyrdd ac yn wir, y rhuthr ymddangosiadol uniongyrchol tuag at ffracio a'r cyfan y mae hynny'n ei olygu. Rwy'n falch iawn o fod yn aelod o blaid sy'n rhoi'r amgylchedd wrth wraidd yr hyn a wnawn, ac i fod â pholisïau fel ein nod i gyflenwi 100 y cant o anghenion trydan Cymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2025 a gostyngiad o gant y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050 i ategu'r ymrwymiad hwnnw. Mae hynny'n berthnasol iawn i'r cynnig ger ein bron heddiw.

Finally, our last amendment is on the need to promote innovative land management to help to alleviate flood risk. I've spoken recently about the benefits of tree planting, and I know from my work on the Petitions Committee—and colleagues will recognise this from their own experience—the current petition that's come forward from Coed Cadw entitled 'Planting Trees to Reduce Flooding' is very important in this regard. Tree planting can play an absolutely critical role in absorbing surface water run-off and reducing peak flooding flow. And yet correspondence from Coed Cadw received just before Christmas does cause me concern. The latest tree-planting figures available for Wales indicate that the area of new woodland created during 2014-15 was just 100 hectares, down from 900 hectares in both 2012-13 and 2013-14. This is a very alarming and retrograde trend. It's hard to see, therefore, that there is really in practice the level of commitment to this from Welsh Government that we would seek to see.

Yn olaf, mae ein gwelliant olaf yn ymwneud â'r angen i hyrwyddo cynlluniau i reoli tir mewn modd arloesol er mwyn helpu i liniaru perygl llifogydd. Rwyf wedi siarad yn ddiweddar am fanteision plannu coed, a gwn o fy ngwaith ar y Pwyllgor Deisebau—a bydd cyd-Aelodau'n cydnabod hyn o'u profiad eu hunain—fod deiseb gyfredol a gyflwynwyd gan Coed Cadw o'r enw 'Plannu Coed i Leihau Llifogydd' yn bwysig iawn yn hyn o beth. Gall plannu coed chwarae rhan gwbl hanfodol yn amsugno dŵr ffo ar yr wyneb ac yn arafu llif llifogydd ar ei anterth. Ac eto mae gohebiaeth gan Coed Cadw a ddaeth i law cyn y Nadolig yn peri pryder i mi. Mae'r ffigurau plannu coed diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Cymru yn dangos mai arwynebedd y coetir newydd a grëwyd yn ystod 2014-15 oedd 100 hectar yn unig, i lawr o 900 hectar yn 2012-13 a 2013-14. Mae'n duedd frawychus ac yn gam pendant yn ôl. Mae'n anodd gweld, felly, fod yna lefel o ymrwymiad ymarferol i hyn y byddem yn dymuno ei weld gan Lywodraeth Cymru.

It is also well known that habitats such as upland bogs and moors, wetlands and grasslands effectively act as giant sponges, absorbing and retaining water and slowing down that vital water run-off into our rivers. Wildlife Trusts Wales have highlighted the benefits of schemes such as the Pumlumon project in the Cambrian Mountains, but also the Pontbren project, and I've personally had experience, and was at the launch, of a very innovative scheme by the Wye and Usk Foundation with the former Minister for Natural Resources in my own ward and in my region of Talgarth. Micro hydro schemes can also improve water retention. We know that and we need to see more of them. I urge you to support our amendments today to enrich this motion. Thank you very much.

Mae hysbys hefyd fod cynefinoedd megis corsydd a rhosydd yr ucheldir, gwlyptiroedd a glaswelltiroedd yn gweithredu fel sbyngau anferth effeithiol, yn amsugno a dal dŵr ac yn arafu'r dŵr ffo allweddol sy'n llifo i'n hafonydd. Mae Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru wedi tynnu sylw at fanteision cynlluniau megis prosiect Pumlumon ym Mynyddoedd Cambria, a phrosiect Pontbren yn ogystal, a chefais brofiad personol drwy fynychu lansiad cynllun arloesol iawn gan Sefydliad Gwy ac Wysg gyda'r cyn Weinidog Cyfoeth Naturiol yn fy ward fy hun ac yn fy rhanbarth yn Nhalgarth. Gall cynlluniau micro-hydro hefyd wella'r broses o ddal dŵr. Rydym yn gwybod hynny ac mae angen i ni weld mwy ohonynt. Rwy'n eich annog i gefnogi ein gwelliannau heddiw er mwyn cyfoethogi'r cynnig hwn. Diolch yn fawr iawn.

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Minister for Natural Resources to move formally amendment, 3 tabled in the name of Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt, yn ffurfiol.

*Gwelliant 3—Jane Hutt*

*Ar ddechrau is-bwynt 3c), mewnosoder:*

*'adolygu'r dystiolaeth ar gyfer'.*

*Cynigiwyd gwelliant 3.*

*Gwelliant 3—Jane Hutt*

*At start of sub-point 3c), insert:*

*'reviewing the evidence for'.*

*Amendment 3 moved.*

16:24

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Formally.

Yn ffurfiol.

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on Llyr Gruffydd to move amendments 5 and 6, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig gwelliannau 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau'r canllawiau cynllunio o ran datblygu ar dir sy'n dueddol i gael llifogydd.*

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy o ddefnydd o'r amgylchedd naturiol wrth reoli risg llifogydd.*

*Cynigiwyd gwelliannau 5 a 6.*

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to strengthen the planning guidance regarding development on land susceptible to flooding.*

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to make more use of the natural environment in its management of flood risk.*

*Amendments 5 and 6 moved.*

16:24 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wrth gwrs, mae newid hinsawdd yn ganolog i'r ddadl yma. Rydym ni wedi cael y Rhagfyr gwlypaf ar record ac, wrth gwrs, rwy'n credu fy mod yn iawn i ddweud bod y pum mlynedd wlypaf ar record hefyd wedi digwydd ers 2000, felly mae yna neges glir I ni fanna.

Thank you, Deputy Presiding Officer. Of course, climate change is at the heart of this debate. We've had the wettest December on record, and, of course, I think I'm right in saying the wettest five years on record have also happened since 2000, so there's a clear message for us there.

Mae'n addas, wrth gwrs, bod y Llywodraeth yn cyflwyno targedau newid hinsawdd yn y Bil amgylchedd y byddwn ni yn ei drafod yma'r wythnos nesaf, a gobeithio bydd y Llywodraeth yn cefnogi rhai o welliannau'r gwrthbleidiau i gryfhau'r ffocws yna.

It is appropriate, of course, that the Government has put forward climate change targets in the environment Bill that we'll be discussing here next week, and I hope the Government will support some of the opposition amendments to strengthen that focus.

Nawr, yn amlwg, mae rhywun yn croesawu unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn amddiffyn rhag llifogydd, ac, o beth rwy'n ddeall, rhyw £300 miliwn fydd yn cael ei wario yn ystod bywyd y Llywodraeth bresennol yma. Mae hynny i'w groesawu, ond, wrth gwrs, ein hatgoffwyd ni dim ond rhai blynyddoedd yn ôl gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, fel yr oedd hi bryd hynny, y byddai angen gwario gymaint â hynny bob blwyddyn ymhen degawd neu ddwy dim ond er mwyn aros yn yr unfan. Felly, mae yna angen datrysiadau llawer mwy creadigol, a dyna yw byrdwn, wrth gwrs, gwelliant 6 gan Blaid Cymru, sydd â'r un nod â gwelliant 5 gan y Democratiaid Rhyddfrydol, sef defnyddio'r amgylchedd naturiol er mwyn atal llifogydd yn llawer mwy creadigol. Mi gyfeiriwyd at gynllun Pontbren. Mae hwnnw'n gynllun rwy'n meddwl y dylid ceisio ei efelychu ar draws Cymru gyfan. Dros 10 mlynedd, mae yna 120,000 o goed wedi cael eu plannu gan glwstwr o ffermwyr sydd wedi dod at ei gilydd; mae 16.5 km o wrychoedd newydd wedi eu plannu, ac nid yn unig mae hynny yn amsugno'r dŵr, sy'n golygu ei fod yn gymorth gwirioneddol i atal llifogydd ymhellach i lawr y dyffrynnoedd, ond mae hefyd yn gwella ansawdd y pridd a gwella ansawdd y tir, mae'n darparu cysgod i anifeiliaid y fferm sydd, yn ei dro, yn golygu gwell lles a gwell ansawdd o ran yr anifeiliaid hynny, a hefyd yn darparu coridorau natur naturiol i fywyd gwyllt. Mae 'return on investment'—mae'n debyg, am bob £1 sydd wedi cael ei buddsoddi, mae yna £5, £6, £7 neu £8 o fudd ehangach yn cael ei ad-dalu. Felly, gallwn gymysgu gymaint o goncrit ag yr ydym am—ac mi fydd yn rhaid gwneud hynny mewn rhai llefydd, wrth gwrs—y gwir yw bod yn rhaid i ni weithio gyda natur oherwydd, ar ddiwedd y dydd, mi fydd natur yn ennill bob tro.

Now, clearly, one welcomes any additional investment in flood defences, and, from what I understand, some £300 million will be spent during the lifetime of this current Government. That's to be welcomed, but, of course, we were reminded just a few years ago by the Environment Agency in Wales, as it was at that point, that that much would need to be spent every year within a decade or so just to remain at standstill. Therefore, we do need far more creative solutions, and that is the purpose, of course, of amendment 6 in the name of Plaid Cymru, which has the same aim as amendment 5 in the name of the Liberal Democrats, namely using the natural environment in a far more creative way in order to prevent flooding. The Pontbren scheme has been mentioned. That is a scheme that I think should be emulated across the whole of Wales. Over 10 years, 120,000 trees have been planted by a cluster of farmers that have come together; 16.5 km of new hedges have been planted, and not only does that suck up water, which means that it is of very real assistance in flood prevention further down the valleys, but it also improves soil quality and the quality of the land, it provides shelter to farm animals, which, in turn, means better welfare and better quality in terms of those animals, and it also provides natural corridors for wildlife. There's a return on investment—for every £1 invested, it's likely that £5, £6, £7 or £8 is recouped in wider benefits. So, we can mix as much concrete as we like—and that will have to be done in some areas, of course—the truth is that we have to work with nature because, at the end of the day, nature will prevail.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y synau iawn. Mae yna ychydig o weithgarwch yn digwydd yn y maes yna ond, wrth gwrs, mae'n rhaid i ni symud yn llawer mwy 'decisive' i'r cyfeiriad yna er mwyn sicrhau bod yr agenda yna yn cael ei symud yn ei flaen lawer iawn ynghynt.

Welsh Government has made all the right noises. There is some activity happening in this area, but, of course, we have to move far more decisively in that direction in order to ensure that that agenda is progressed far more swiftly.

Mae gwelliant 5 gan Blaid Cymru yn sôn am y gyfundrefn gynllunio. Yn ôl yn 2014, mi wnes i dynnu sylw at y ffaith bod 341 o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd sydd â risg o lifogydd wedi cael eu caniatáu gan awdurdodau lleol ers 2004, a hynny yn erbyn cyngor arbenigwyr. Nawr, eisoes, wrth gwrs, mae gennym filoedd o dai a busnesau mewn ardaloedd â risg uchel neu risg 'moderate' o lifogydd. Mae'n rhaid i ni beidio ag ychwanegu at rheini drwy roi caniatâd cynllunio pellach i ddatblygiadau o'r fath. Ac, os ydy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynd i olygu unrhyw beth, yna mi fydd y math yna o ganiatâd cynllunio a'r math yna o ddatblygiadau yn dod i stop, oherwydd yr hyn yr ydym yn ei wneud mewn gwirionedd wrth ganiatáu i'r rheini ddigwydd yw achosi problemau ac achosi cost ac ymdrech i daclo neu amddiffyn eiddo yn y dyfodol, lle mae modd osgoi hynny, wrth gwrs, yn y pen draw.

Amendment 5 in the name of Plaid Cymru mentions the planning regime. Back in 2014, I highlighted the fact that 341 planning applications for developments in flood-risk areas had been consented to by local authorities since 2004, and that was contrary to the advice of specialists. Now, we already, of course, have thousands of homes and businesses in areas at high or moderate risk of flooding. We shouldn't add to that by giving further planning consents to such developments. And, if the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 is to mean anything, then that kind of planning consent and those kinds of developments will have to stop, because what we're doing in allowing those to go ahead is causing problems and costs and efforts in tackling or defending properties in the future, where, of course, that could ultimately be avoided.

Nawr, mae yna gymal yn y cynnig sydd yn sôn am roi caniatâd i ffermwyr a thirfeddianwyr i gael mwy o ryddid i glirio ffosydd, clirio draeniau a glannau afonydd, ac yn y blaen. Rwy'n croesawu hynny, wrth gwrs, ac yn gefnogol iawn i hynny, ond ddwy flynedd yn ôl mi gyfeiriais i yn y Siambr yma at saith cynllun peilot yr oedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr wedi eu cyflwyno er mwyn rhoi rôl gryfach i ffermwyr ac i gymunedau chwarae eu rhan yn y modd yna i atal llifogydd. Ddwy flynedd yn ôl, mi ofynnais i'r Gweinidog ar y pryd i ystyried cyflwyno cynllun o'r fath yng Nghymru, ac yn ei ateb mi ddywedodd y byddai'n hapus iawn i redeg cynllun o'r fath yng Nghymru. Ond, ddwy flynedd yn ddiweddarach, wrth gwrs, rydym ni'n gweld Llywodraeth Cymru yn gosod gwelliant i'r cynnig hwn yn dweud bod angen adolygu'r dystiolaeth. Wel, ble ydych chi wedi bod ers dwy flynedd? Ac felly ni fyddwn ni'n cefnogi gwelliant 3, oherwydd mae'r amser wedi dod i—. Iawn, ocê.

Now, there is a clause in the motion that mentions providing additional freedoms to farmers and landowners to undertake the clearing of ditches, drains and riverbanks and so on. I welcome that, of course, and am very supportive of that, but two years ago I referred in this Chamber to seven pilot schemes undertaken by the Environment Agency in England in order to give a stronger role to farmers and communities to play their part in that way in preventing flooding. Two years ago, I asked the Minister at the time to consider introducing a similar scheme in Wales, and in his response he said that he would be very happy to run such a scheme in Wales. But, two years later, of course, we see the Welsh Government tabling an amendment to this motion saying that we need a review of the evidence. Well, where have you been for the last two years? And therefore we won't be supporting amendment 3, because the time has come to—. Right, okay.

16:29 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Rwy'n credu taw fi oedd y Gweinidog yr oeddet ti'n sôn amdano. A gaf i jest egluro'r ateb a gest ti ddwy flynedd yn ôl? Roeddwn i'n sôn amboutu clirio afonydd, nid eu 'dredg-o' nhw; roeddwn yn sôn amboutu yr enghraifft gawsom ni yn Nhal-y-bont ar bwys Aberystwyth ar ôl y llifogydd yn y fan honno.

I think that I was the Minister that you mentioned there. Can I just explain the response that you received two years ago? I was talking about clearing rivers, not dredging them; I was talking about the example we had in Tal-y-bont near Aberystwyth after the floods in that area.

16:29 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Wel, fe allaf ddarllen y dyfyniad mas, ond yn sicr mi oedd yn golygu clirio bencydd a ffosydd a draeniau, ac yn y blaen. Ond, wrth gwrs, beth sydd wedi digwydd? Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae'r Llywodraeth eu hunain yn cynnig mynd i edrych ar y dystiolaeth neu adolygu'r dystiolaeth—dyna eiriad y Llywodraeth yn y gwelliant i'r cynnig hwn heddiw. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, rydym ni'n dal i aros, ac, yn fy marn i, mae'r amser wedi dod i weithredu, ac mae'n hwyr bryd i'r Llywodraeth i wneud hynny.

Well, I can read out the quotation, but certainly it did refer to clearing banks and drains and ditches, and so on. But, of course, what has happened? Two years on, the Government itself is proposing that it looks at the evidence or reviews the evidence—that is the Government's wording in their amendment to this motion today. Two years later, we're still waiting, and, in my opinion, it's time for action, and it's time the Government did that.

16:30 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

I thank my colleague Janet Haworth Assembly Member for actually leading this debate today. Certainly, many miles from here, up north, we are still reeling from the effects of the devastating floods that we've had over the past few weeks.

Diolch i fy nghyd-Aelod, yr Aelod Cynulliad Janet Haworth am arwain y ddadl hon heddiw. Yn sicr, filltiroedd lawer oddi yma, yn y gogledd, rydym yn dal yn gwegian yn sgil effeithiau'r llifogydd dinistriol a gawsom dros yr wythnosau diwethaf.

Minister, if you recall, I did actually raise concerns with you as to how fast your approach was on Boxing Day at a time when water was gushing in and raw sewage. There was no comment from you, no comment from the First Minister—no leadership. However, when you did emerge, you mentioned that there is funding available for these flood-hit communities and I would just ask you to put on record here, so that there is some clarity to this, how this money is going to be distributed. How it is going to be accessible? Speaking to people in my constituency today, one business alone has got damage to the tune of £100,000.

Weinidog, os cofiwch, tynnais eich sylw at bryderon ynglŷn â pha mor gyflym oedd eich dull o weithredu ar Ŵyl San Steffan ar adeg pan oedd dŵr yn llifo i mewn, a charthion heb eu trin. Ni chafwyd unrhyw sylwadau gennych chi, nac unrhyw sylwadau gan y Prif Weinidog—dim arweinyddiaeth. Fodd bynnag, pan ddaethoch i'r golwg, fe sonioch fod arian ar gael i'r cymunedau hyn yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd a hoffwn ofyn i chi gofnodi yma, fel bod rhywfaint o eglurder ynglŷn â hyn, sut y mae'r arian hwn yn mynd i gael ei ddosbarthu. Sut y gellir dod o hyd iddo? Wrth siarad â phobl yn fy etholaeth heddiw, mae un busnes yn unig wedi wynebu difrod gwerth £100,000.

The financial burden faced by our businesses is incalculable. I have got another business now that needs £10,000 to build their own flood defences, and they make the point that they'd had rain for several days and weeks when you could have actually put defences in to ensure that there wasn't the damage to the properties that we've all seen.

Mae'r baich ariannol a wynebir gan ein busnesau yn anfesuradwy. Mae gennyf fusnes arall yn awr sydd angen £10,000 i adeiladu eu hamddiffynfeydd rhag llifogydd eu hunain, ac maent yn gwneud y pwynt eu bod wedi cael glaw ers diwrnodau ac wythnosau lawer pan allech fod wedi codi amddiffynfeydd mewn gwirionedd er mwyn sicrhau na fyddai'r difrod a welodd pawb ohonom yn digwydd.

Immediate support is now essential to enable those affected to clear up, repair the damage and get back to their business. The UK Government and the Scottish Government have come forward with significant support packages for affected businesses to help them recover from the impact. Here in Wales, we must award some immediate flood rate relief to those businesses that have been affected by the recent flooding, in particular as regards the business impact and their turnover. From local pubs to shops and hospitality businesses, these all contribute immensely to our communities and local economy, and our businesses make vast contributions each year to the public purse. Last year, our authority in Conwy collected £27.7 million in non-domestic rates. We simply must now repay that and show some faith and confidence within these businesses that are affected. The criteria to apply for hardship relief may exclude many of those seriously affected. However, we believe that there are already administration structures in place for rate relief with local authorities that could be extended to establish a flood rate relief in affected communities. Local authorities already administer the Welsh Government's retail relief scheme and have received grants from the Welsh Government to cover administration costs. Administration costs for similar flood relief would only apply to those local authorities that have been affected by the recent flooding, and this could develop into a model for provision in the face of any future flooding.

Mae cymorth uniongyrchol yn hanfodol yn awr i alluogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt i glirio, atgyweirio'r difrod a dychwelyd at eu busnesau. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno pecynnau cymorth sylweddol i fusnesau yr effeithiwyd arnynt i'w helpu i ddod atynt eu hunain. Yma yng Nghymru, mae'n rhaid i ni roi rhywfaint o ryddhad ardrethi yn sgil llifogydd ar unwaith i'r busnesau yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd diweddar, yn enwedig o ystyried yr effaith ar fusnes a'u trosiant. O dafarndai lleol i siopau a busnesau lletygarwch, mae'r rhain i gyd yn cyfrannu'n helaeth at ein cymunedau a'r economi leol, ac mae ein busnesau yn gwneud cyfraniadau helaeth bob blwyddyn i bwrs y wlad. Y llynedd, casglodd ein hawdurdod yng Nghonwy £27.7 miliwn mewn ardrethi annomestig. Yn syml iawn, rhaid i ni ad-dalu hwn yn awr a dangos peth ffydd a hyder yn y busnesau yr effeithiwyd arnynt. Mae'n bosibl fod y meini prawf ar gyfer gwneud cais am ryddhad caledi yn hepgor llawer o'r rhai yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol. Fodd bynnag, credwn fod yna strwythurau gweinyddol eisoes ar waith ar gyfer rhyddhad ardrethi gan awdurdodau lleol y gellid eu hymestyn i sefydlu rhyddhad ardrethi yn sgil llifogydd yn y cymunedau yr effeithiwyd arnynt. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gweinyddu cynllun rhyddhad manwerthu Llywodraeth Cymru ac wedi derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru i dalu am gostau gweinyddol. Byddai costau gweinyddol rhyddhad tebyg yn sgil llifogydd ond yn berthnasol i awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd diweddar, a gallai hyn ddatblygu i fod yn fodel ar gyfer darpariaeth yn sgil llifogydd yn y dyfodol.

Through helping businesses get back on their feet, employees can return to work and communities can get back to normal. Additionally, it is vital that we take real action to engage with our communities. You need to be engaging with our communities and the landowners to ensure that such floods never happen again through the development of robust flood prevention strategies, establishing local co-ordinators for flood action and ensuring ample supplies of sandbags—a basic requirement.

Drwy helpu busnesau i godi'n ôl ar eu traed, gall gweithwyr ddychwelyd i'r gwaith a gall cymunedau ddychwelyd at normalrwydd. Yn ogystal, mae'n hanfodol ein bod yn rhoi camau go iawn ar waith i ymgysylltu â'n cymunedau. Mae angen i chi ymgysylltu â'n cymunedau a'r tirfeddianwyr i sicrhau na cheir llifogydd o'r fath byth eto drwy ddatblygu strategaethau atal llifogydd cadarn, a sefydlu cydgysylltwyr lleol ar gyfer gweithredu yn sgil perygl llifogydd a sicrhau digon o gyflenwadau o fagiau tywod—gofyniad sylfaenol.

The Welsh Conservative approach, based on the initiatives of the UK Government, focuses on removing the silo approach to flooding that exists here in this Welsh—[Interruption.] Yes, Minister. You can shake your head, but the facts are facts. The reality is that you have failed miserably where flooding is concerned. The Welsh Government is looking just at flood protection, just at farming or just the environment, whilst the UK Government is moving to an integrated approach based on local community solutions first. We need to reverse the Welsh Government's current top-down approach to managing farmers and landowners across Wales, and we need to use the rural development plan more to its best. We are calling today for the Welsh Government to decentralise decision making and remove red tape to enable additional freedoms to farmers and landowners to clear ditches, drains and agricultural channels to ensure effective local land draining and to give farmers an increased role in the RDP, utilise their expertise and enable the RDP to develop schemes to address issues at a local level and to work with the WLGA to develop micro-regional land management processes. We've seen parts of the A55 impassable for days, roads near Llanrwst blocked and the B5106 near Trefriw now closed for three weeks. We have seen considerable miscommunication between the north Wales trunk road agency and local authorities' road management and we now call—

Mae dull y Ceidwadwyr Cymreig yn seiliedig ar gynlluniau Llywodraeth y DU ac yn canolbwyntio ar gael gwared ar y dull seilo o weithredu yn sgil perygl llifogydd sy'n bodoli yma yng Nghymru—[Torri ar draws.] Ie, Weinidog. Gallwch ysgwyd eich pen, ond ffeithiau yw ffeithiau. Y gwir amdani yw eich bod wedi methu'n druenus mewn perthynas â llifogydd. Nid yw Llywodraeth Cymru ond yn edrych ar amddiffyn rhag llifogydd, ar ffermio'n unig neu ar yr amgylchedd yn unig, tra bo Llywodraeth y DU yn symud at ymagwedd integredig sy'n seiliedig ar atebion cymunedol lleol yn gyntaf. Mae angen i ni newid ymagwedd o'r brig i lawr Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i reoli ffermwyr a thirfeddianwyr ar draws Cymru, ac mae angen i ni wneud y defnydd gorau o'r cynllun datblygu gwledig. Rydym yn galw heddiw ar Lywodraeth Cymru i ddatganoli'r broses o wneud penderfyniadau a chael gwared ar fiwrocratiaeth er mwyn rhoi rhyddid ychwanegol i ffermwyr a thirfeddianwyr glirio ffosydd, draeniau a sianeli amaethyddol er mwyn sicrhau bod tir lleol yn cael ei ddraenio'n effeithiol ac i roi mwy o rôl yn y cynllun datblygu gwledig i ffermwyr ddefnyddio'u harbenigedd a galluogi'r cynllun datblygu gwledig i ddatblygu cynlluniau i ymdrin â materion ar lefel leol ac i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu prosesau rheoli tir microranbarthol. Gwelsom rannau o'r A55 ar gau am ddyddiau, ffyrdd ger Llanrwst wedi'u blocio a'r B5106 ger Trefriw bellach ar gau ers tair wythnos. Rydym wedi gweld cryn dipyn o gamgyfathrebu rhwng asiantaeth cefnffyrdd gogledd Cymru a rheolaeth ffyrdd awdurdodau lleol a galwn yn awr am—

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Quickly, now.

Yn gyflym, yn awr.

16:35

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

[Continues.]—for a serious and urgent review of how the trunk road agency deals in the future. Minister—

[Yn parhau.]—am adolygiad brys trylwyr o'r modd y mae'r asiantaeth cefnffyrdd yn gweithredu yn y dyfodol. Weinidog—

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you. John Griffiths.

Diolch. John Griffiths.

16:35

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I believe that this is rightly a priority for Welsh Government in terms of flood prevention, because flooding, of course, isn't just a risk to property—important though that is—it's a risk to life and limb. Sadly, there have been examples, including in Wales, of loss of life resulting from flooding in recent years. So, it is an absolute priority and it should be an absolute priority.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Credaf fod hyn yn flaenoriaeth briodol i Lywodraeth Cymru o ran atal llifogydd, gan fod llifogydd, wrth gwrs, nid yn unig yn creu perygl i eiddo—er mor bwysig yw hynny—mae'n creu perygl i fywyd a diogelwch pobl. Yn anffodus, cafwyd enghreifftiau, gan gynnwys yng Nghymru, o golli bywyd yn sgil llifogydd yn y blynyddoedd diwethaf. Felly, mae'n flaenoriaeth ddiamod a dylai fod yn flaenoriaeth ddiamod.

I believe very much that we must look to new ways of dealing with that flood risk, and I know much work has been, and is, going on as far as that's concerned. Amongst that is much better use of the natural environment and natural solutions to flood risk. One important example of that, Dirprwy Lywydd, is the urban environment, and, of course, a lot of flood risk and flooding is the result of surface water flooding. In fact, the great majority of properties are at risk from that sort of flooding.

Credaf yn gryf fod yn rhaid i ni edrych ar ffyrdd newydd o ymdrin â pherygl llifogydd o'r fath, ac rwy'n gwybod bod llawer o waith wedi'i wneud ac yn cael ei wneud ar hynny. Yn rhan o'r gwaith, gwneir defnydd llawer gwell o'r amgylchedd naturiol ac atebion naturiol i berygl llifogydd. Un enghraifft bwysig o hynny, Ddirprwy Lywydd, yw'r amgylchedd trefol, ac wrth gwrs, mae llawer o berygl llifogydd yn deillio o lifogydd dŵr wyneb. Mewn gwirionedd, mae'r mwyafrif helaeth o eiddo mewn perygl o ganlyniad i'r math hwnnw o lifogydd.

So, schemes such as Welsh Water's scheme in the Llanelli area, which has invested a lot of money in greening the local area to absorb and hold water, rather than allow it to run off and create flood risk and lead to a volume of water that the local infrastructure of drainage is simply unable to meet, is absolutely the right way to go as far as I'm concerned. As well as dealing with flood risk, of course, it also has many other benefits in terms of creating a nicer environment for people, which is much more pleasant, and dealing with other environmental issues. So, that is one very good example, I think, of the sort of work that we could beneficially see right across Wales, and I hope that Welsh Water will expand those schemes. It shouldn't be a matter of just pouring concrete, Dirprwy Lywydd. Sometimes, I think engineers are naturally drawn to those pouring concrete solutions, because of their training, their education and their experience. We need to widen horizons and widen and broaden thinking.

Felly, cynlluniau fel Cynllun Dŵr Cymru yn ardal Llanelli, sydd wedi buddsoddi llawer o arian yn gwyrddu'r ardal leol i amsugno a dal dŵr, yn hytrach na gadael iddo lifo ymaith a chreu perygl llifogydd ac arwain at lawer o ddŵr na all y seilwaith draeniau lleol ymdopi ag ef, yw'r ffordd iawn i fynd o'm rhan i. Yn ogystal ag ymdrin â pherygl llifogydd, wrth gwrs, mae'n cynnig nifer o fanteision eraill hefyd o ran creu amgylchedd brafiach i bobl, sy'n llawer mwy dymunol, ac yn ymdrin â materion amgylcheddol eraill. Felly, mae honno'n un enghraifft dda iawn, rwy'n meddwl, o'r math o waith y byddai'n fuddiol i ni ei weld ledled Cymru, ac rwy'n gobeithio y bydd Dŵr Cymru yn ehangu'r cynlluniau hynny. Ni ddylai fod yn fater syml o arllwys concrid, Ddirprwy Lywydd. Weithiau, rwy'n meddwl bod peirianwyr yn cael eu denu'n naturiol at atebion sy'n fater o arllwys concrid, oherwydd eu hyfforddiant, eu haddysg a'u profiad. Mae angen i ni ehangu gorwelion a lledu ac agor meddyliau.

I also think it's very, very important that we take that wide view when it comes to our rural areas. I've seen examples of previously barren land that's been flooded made into a wetland, which has helped minimise flood risk, and at the same time, has created a nicer environment for local people, so there's better local amenity. It's attracted tourists, because there's been greater biodiversity and wildlife in that area, and that has actually created jobs and involved the community in helping to manage and improve that environment. So, it's pretty obvious that that sort of scheme has very wide-ranging benefits and very much delivers on ecosystem services, which is something that I think many of us here would like to see developed in Wales, to show a lead to the rest of the UK and beyond.

Rwyf hefyd yn credu ei bod yn bwysig iawn, iawn ein bod yn edrych ar y darlun eang mewn perthynas â'n hardaloedd gwledig. Rwyf wedi gweld enghreifftiau o dir a oedd gynt yn ddiffaith sydd wedi dioddef llifogydd yn cael ei droi'n wlypdir, gwaith sydd wedi helpu i leihau perygl llifogydd, ac ar yr un pryd, wedi creu amgylchedd brafiach i bobl leol, gan sicrhau amwynder lleol gwell. Mae wedi denu twristiaid, am fod mwy o fioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn yr ardal honno, ac mewn gwirionedd mae wedi creu swyddi a chynnwys y gymuned yn y gwaith o helpu i reoli a gwella'r amgylchedd hwnnw. Felly, mae'n eithaf amlwg fod manteision pellgyrhaeddol iawn i'r math hwn o gynllun ac mae'n cyflawni llawer iawn o ran gwasanaethau ecosystemau, sy'n rhywbeth rwy'n meddwl y byddai llawer ohonom yma'n hoffi ei weld yn cael ei ddatblygu yng Nghymru, er mwyn dangos arweiniad i weddill y DU a thu hwnt.

I also think it's important, Dirprwy Lywydd, that we get things right in terms of farm practice, and, indeed, the subsidy regime and the rural development plan. During the recent flooding, for example, there were reports of flood risk and flooding in Wales resulting from run-off from agricultural land, which, obviously, is detrimental to the farm itself, because it increases soil erosion and makes farming on that land less productive and more problematic. Examples were quoted in reports, Dirprwy Lywydd, which contrasted the subsidy regime here in Wales with that which is applicable in England. Cross-compliance rules are such that some of the practices that are permitted in Wales would not be permitted in England, and that is to the detriment of flood prevention and good agricultural practice here in Wales. So, I think that's one area that definitely needs to be looked at.

Rwyf hefyd yn credu ei bod yn bwysig, Ddirprwy Lywydd, ein bod yn cael pethau'n iawn o ran arferion ffermio, ac yn wir, y gyfundrefn gymorthdaliadau a'r cynllun datblygu gwledig. Yn ystod y llifogydd diweddar, er enghraifft, cafwyd adroddiadau o berygl llifogydd a llifogydd yng Nghymru o ganlyniad i ddŵr ffo oddi ar dir amaethyddol, sy'n amlwg yn niweidiol i'r fferm ei hun am ei fod yn cynyddu erydiad pridd ac yn gwneud ffermio ar y tir hwnnw'n llai cynhyrchiol ac yn fwy trafferthus. Soniwyd am enghreifftiau mewn adroddiadau, Ddirprwy Lywydd, a oedd yn cyferbynnu'r gyfundrefn gymorthdaliadau yma yng Nghymru â'r un yn Lloegr. Mae rheolau trawsgydymffurfio yn golygu na fyddai rhai o'r arferion a ganiateir yng Nghymru yn cael eu caniatáu yn Lloegr, ac mae hynny'n anfanteisiol o ran atal llifogydd ac arfer amaethyddol da yma yng Nghymru. Felly, rwy'n credu bod hwnnw'n un maes sydd angen ei ystyried, yn bendant.

But, I would like to praise Welsh Government, Dirprwy Lywydd, for the priority it has given to flood risk, because, as I say, it is a risk to life and limb as well as property. We have seen a good level investment here in Wales over a period of time, including the lifetime of this Welsh Government, with approaching £300 million of investment, and that investment has delivered. Just one example of that, I think, was shown in statistics that showed that, during the recent bad weather, flooding would have occurred in Dolgellau were it not for a scheme that was put in place, because the level of the river would have breached the previous defence. So, that's just one example of the benefit.

Ond hoffwn ganmol Llywodraeth Cymru, Ddirprwy Lywydd, am y flaenoriaeth y mae wedi'i rhoi i berygl llifogydd, oherwydd, fel y dywedais, mae'n berygl i fywyd a diogelwch pobl yn ogystal ag i eiddo. Rydym wedi gweld lefel dda o fuddsoddiad yma yng Nghymru dros gyfnod o amser, gan gynnwys dros oes y Llywodraeth hon yng Nghymru, gyda bron £300 miliwn o fuddsoddiad, ac mae'r buddsoddiad hwnnw wedi gweithio. Rwy'n credu bod un enghraifft o hynny i'w gweld yn yr ystadegau sy'n dangos, yn ystod y tywydd gwael yn ddiweddar, y byddai llifogydd wedi digwydd yn Nolgellau oni bai am gynllun a roddwyd ar waith gan y byddai lefel yr afon wedi codi dros yr amddiffynfeydd blaenorol. Felly, dyna un enghraifft yn unig o'r budd.

16:40

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Thank you very much for the opportunity to take part in this important debate. I would like to use this opportunity to highlight the concerns of many of my constituents regarding the shoreline management plan for south Wales, and how this relates to the broader approach to flooding in Wales. To date, Minister, the broad approach to flooding risk has been top-down, and has been based on large-scale projects. There has been insufficient recognition by the Welsh Government of the pivotal stake that local communities hold in our flood defence plans. The approach has been overcentralised and reflects a silo mentality, and communities risk falling through the gaps.

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Hoffwn ddefnyddio'r cyfle hwn i dynnu sylw at bryderon llawer o fy etholwyr ynghylch y cynllun rheoli traethlin ar gyfer de Cymru, a sut y mae hyn yn ymwneud â'r ymagwedd ehangach tuag at lifogydd yng Nghymru. Hyd yn hyn, Weinidog, mae'r dull cyffredinol o ymdrin â pherygl llifogydd wedi bod o'r brig i lawr, ac yn seiliedig ar brosiectau ar raddfa fawr. Ni fu digon o gydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru i bwysigrwydd enfawr ein cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd i gymunedau lleol. Mae'r dull o weithredu wedi'i organoli ac yn adlewyrchu meddylfryd seilo, ac mae perygl i gymunedau ddisgyn drwy'r bylchau.

With this in mind, I would like to highlight today the case of Newton ward in Porthcawl. The recent shoreline management plan produced by Natural Resources Wales and Bridgend County Borough Council should be about solving problems. Instead, it has created a range of difficulties for residents, and I hope that the Minister will listen to these concerns and take them seriously.

Gyda hyn mewn golwg, hoffwn dynnu sylw heddiw at achos ward Drenewydd yn Notais ym Mhorthcawl. Dylai'r cynllun rheoli traethlin diweddar a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ymwneud â datrys problemau. Yn lle hynny, mae wedi creu amryw o anawsterau i breswylwyr, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gwrando ar y pryderon hyn ac yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iddynt.

The south Wales shoreline management plan, or SMP 2, which has been approved by the Minister for Natural Resources, states that the short-term policy is to 'hold the line', by maintaining existing defences in Newton, including a sea wall. However, in 20 years' time, there'll be, to quote the report, 'no active intervention' and the coast will be allowed to retreat naturally. It states that the sea defences will eventually fail, with an increased risk of flooding over time. In short, the present position is that nature will be allowed to take its course. This carries an erroneous implication that flooding is inevitable and nothing can be done.

Mae cynllun rheoli traethlin de Cymru, neu SMP 2, a gymeradwywyd gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, yn datgan mai'r polisi yn y tymor byr yw cadw'r traethlin presennol, drwy gynnal amddiffynfeydd presennol yn Drenewydd yn Notais, gan gynnwys morglawdd. Fodd bynnag, ymhen 20 mlynedd, yn ôl yr adroddiad, ni fydd unrhyw ymyrraeth weithredol a bydd yr arfordir yn cael ei adael i gilio'n naturiol. Mae'n nodi y bydd yr amddiffynfeydd môr yn methu yn y pen draw, gyda mwy o berygl o lifogydd dros amser. Yn fyr, y sefyllfa bresennol yw y bydd natur yn cael ei gadael i ddilyn ei chwrs. Yr awgrym cyfeiliornus yn hyn yw bod llifogydd yn anochel ac na ellir gwneud dim.

I welcome the pledge of extra flood defence for Porthcawl, but to many residents of Newton, this pledge means very little. Of the £4.2 million additional funding designated for homes at risk of flooding in Porthcawl and the Vale of Glamorgan, not a penny will be spent in respect of these properties. Natural Resources Wales has stated that 30 properties in Newton ward, valued at a total of £3.7 million, will be affected by the SMP. In other words, it assumes an average house price of £124,000. This is clearly way below the market value of the houses in question as, of course, the First Minister will know, and this leads to a very unsettling conclusion. Residents in Newton ward therefore face an uncertain future when it comes to securing a mortgage on their property or getting insurance. I call upon the Minister to confirm that the SMP will not be implemented without a thorough review of these figures.

Rwy'n croesawu'r addewid i sicrhau amddiffynfeydd ychwanegol rhag llifogydd ar gyfer Porthcawl, ond i lawer o drigolion Drenewydd yn Notais, nid yw'r addewid yn golygu fawr ddim. O'r £4.2 miliwn o gyllid ychwanegol a glustnodwyd ar gyfer cartrefi sy'n wynebu perygl llifogydd ym Mhorthcawl a Bro Morgannwg, ni werir ceiniog ar yr eiddo hwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan y bydd y cynllun rheoli traethlin yn effeithio ar 30 eiddo yn ward Drenewydd yn Notais, sy'n werth cyfanswm o £3.7 miliwn. Mewn geiriau eraill, mae'n rhagdybied pris cyfartalog o £124,000 ar gyfer y tai. Mae'n amlwg yn is na gwerth y tai dan sylw ar y farchnad, wrth gwrs, fel y bydd y Prif Weinidog yn gwybod, ac mae hyn yn arwain at gasgliad cythryblus iawn. Mae trigolion yn ward Drenewydd yn Notais, felly, yn wynebu dyfodol ansicr o ran sicrhau morgais ar eu heiddo neu gael yswiriant. Rwy'n galw ar y Gweinidog i gadarnhau na weithredir y cynllun rheoli traethlin heb adolygiad trylwyr o'r ffigurau hyn.

There need to be clear answers that use a clear and recognised evidence base to define the nature and degree of the risk of flooding. This information should be publicly available and should reflect the true risk. SMPs should not be time based, nor should they be based on predictions that are founded in speculation. The evidence presented by NRW seems at times arbitrary, as does this decision.

Mae angen atebion clir sy'n defnyddio sylfaen dystiolaeth eglur a chydnabyddedig ar gyfer diffinio natur a graddau perygl llifogydd. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'r cyhoedd a dylai adlewyrchu perygl go iawn. Ni ddylai cynlluniau rheoli traethlin fod yn seiliedig ar gyfnod o amser, ac ni ddylent fod yn seiliedig ar ragamcanion sy'n deillio o ddyfalu. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'w gweld yn fympwyol ar adegau, fel y mae'r penderfyniad hwn.

My constituents in Newton ward also tell me that navigating between the various agencies involved can be a minefield. A multi-agency approach should be about sharing information to provide better, more cost-effective protection for those at risk from flooding, and not about shifting or ducking accountability.

Mae fy etholwyr yn ward Drenewydd yn Notais hefyd yn dweud wrthyf fod llywio rhwng y gwahanol asiantaethau dan sylw yn gallu bod yn drafferthus iawn. Dylai dull amlasiantaethol ymwneud â rhannu gwybodaeth er mwyn darparu gwell diogelwch yn fwy costeffeithiol i rai sy'n wynebu perygl llifogydd, yn hytrach na throsglwyddo neu osgoi atebolrwydd.

I call upon the Minister to intervene personally in this matter as a matter of urgency. The shoreline management plan can be made to work for everyone, but at present risks causing real harm to residents in Newton.

Rwy'n galw ar y Gweinidog i ymyrryd yn bersonol yn y mater hwn ar frys. Gellir gwneud i'r cynllun rheoli traethlin weithio i bawb, ond ar hyn o bryd mae'n creu risg o achosi niwed gwirioneddol i drigolion yn Drenewydd yn Notais.

16:45

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Before I speak I want to thank all of those people, whether they were employed people or volunteers, who gave up their time over this period—time that most people would have been spending with their families—to make sure that other people were safe. They put themselves at risk for other people. So, I want to put that on record before I start.

Cyn i mi siarad hoffwn ddiolch i bawb, yn weithwyr cyflogedig neu'n wirfoddolwyr, a roddodd o'u hamser dros y cyfnod hwn—amser y byddai'r rhan fwyaf o bobl wedi'i dreulio gyda'u teuluoedd—i sicrhau bod pobl eraill yn ddiogel. Rhoesant eu hunain mewn perygl er mwyn pobl eraill. Felly, rwyf am gofnodi hynny cyn dechrau.

If we move on, cleaning up and clearing up after flooding does inspire our sympathy and admiration, and our determination that this will never happen again. But the trouble is that we all too often fail to see what is before our very eyes. We carry on tarmacking over grass and then we wonder why the drains can't take the extra water. Sympathy and admiration come naturally, but determination needs know-how. Cleaning up and clearing up was what we saw in England on our televisions during the heavy rain of late December and early January. In England, they had reduced the budget year on year and absolutely failed to protect those areas that were flagged up in a leaked document to Ministers, and they clearly ignored it. Our tv-watching was witnessing water, in regions of England, cascading down, taking with it not only the water that might have been retained, had there been trees or anything else to stop it, but the soil and everything else that went with it to pollute our watercourse. In Wales, on the other hand, when the Welsh Government or any national agency is called to action, they actually take that action. We've already heard this morning that £300 million has been invested in mitigating flooding in Wales since this Welsh Assembly has come into being. But in my opinion—and this is what I hope will come out of today—prevention has to be a priority. It sounds obvious, but somehow it doesn't seem to be always put into practice and where it is put into practice, that practice isn't shared.

I symud ymlaen, mae clirio a glanhau ar ôl llifogydd yn ennyn ein cydymdeimlad a'n hedmygedd, a'n penderfyniad na fydd hyn byth yn digwydd eto. Ond y drafferth yw ein bod i gyd yn rhy aml yn methu â gweld yr hyn sydd o flaen ein llygaid. Rydym yn parhau i darmacio dros borfa a meddwl wedyn tybed pam na all y draeniau gymryd y dŵr ychwanegol. Daw cydymdeimlad ac edmygedd yn naturiol, ond mae penderfyniad yn galw am wybodaeth ymarferol arbennig. Clirio a glanhau oedd yr hyn a welsom yn Lloegr ar ein setiau teledu yn ystod y glaw trwm ar ddiwedd Rhagfyr a dechrau Ionawr. Yn Lloegr, roeddent wedi lleihau'r gyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn ac wedi methu'n llwyr â diogelu'r ardaloedd y tynnwyd sylw atynt mewn dogfen a ryddhawyd heb ganiatâd i Weinidogion, ac mae'n amlwg eu bod wedi'i hanwybyddu. Ar ein sgriniau teledu, gwelem ddŵr yn rhaeadru i lawr mewn rhannau o Loegr, gan gario nid yn unig y dŵr a allai fod wedi'i ddal yn ôl pe bai yna goed neu unrhyw beth arall i'w atal, ond y pridd a phopeth arall gydag ef i lygru ein cwrs dŵr. Yng Nghymru, ar y llaw arall, pan elwir ar Lywodraeth Cymru neu unrhyw asiantaeth genedlaethol i weithredu, maent yn mynd ati i roi'r camau hynny ar waith. Rydym eisoes wedi clywed y bore yma fod £300 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn gwaith i liniaru llifogydd yng Nghymru ers i'r Cynulliad ddod i fodolaeth. Ond yn fy marn i—ac rwy'n gobeithio mai hyn fydd yn deillio o heddiw—rhaid i atal fod yn flaenoriaeth. Mae'n swnio'n amlwg, ond rywsut nid yw'n ymddangos fel pe bai'n cael ei roi ar waith bob amser a lle y caiff ei roi ar waith, nid yw'n arfer a rennir.

My colleague John Griffiths mentioned this morning about the RainScape project in Llanelli. It is, indeed, an excellent project. It has taken out surface water from an area that was suffering significantly from the threat of that surface water being allowed to grow and continue and take everything with it. We must take the learning from that, we must take the know-how from that, and we must also, when we see an excellent project, ensure that it can be easily replicated elsewhere where there is significant need.

Y bore yma, soniodd fy nghyd-Aelod John Griffiths am brosiect GlawLif yn Llanelli. Mae'n brosiect rhagorol yn wir. Mae wedi cael gwared ar ddŵr wyneb mewn ardal a oedd yn dioddef cryn dipyn o fygythiad dŵr wyneb yn cael ei ganiatáu i gynyddu a pharhau i gario popeth gydag ef. Mae'n rhaid i ni ddysgu gwersi o hynny, mae'n rhaid i ni gael gwybodaeth ymarferol arbennig o hynny, a rhaid i ni hefyd, pan welwn brosiect ardderchog, sicrhau bod modd ei atgynhyrchu'n hawdd mewn mannau eraill lle y ceir angen sylweddol.

We must, in my opinion, address planning permission—planning permission that all too often allows properties to be built on floodplains, not necessarily by us here in the Assembly, but very often by the councillors who allow that permission to go through. They must be held to account on those decisions.

Yn fy marn i, mae'n rhaid i ni roi sylw i ganiatâd cynllunio—caniatâd cynllunio sy'n rhy aml yn caniatáu adeiladu eiddo ar orlifdiroedd, nid o reidrwydd gennym ni yma yn y Cynulliad, ond yn aml iawn gan y cynghorwyr sy'n gadael i'r caniatâd gael ei roi. Rhaid iddynt gael eu dwyn i gyfrif am y penderfyniadau hynny.

We must also take on board that, when a planning permission is being given, and it is being given in terms of the amount of run-off that will be produced at the time of building, there doesn't seem to be any accounting for the known extra 20 per cent of additional concrete that people will put on their front gardens or back gardens to create a nice patio or a hard-stand for their car. We must ensure that when we are giving planning permission from now on, if anybody wants to add any extra hard surface, it must be a permeable surface. We cannot carry on as we are. We will never be able to predict where the next flood is because we can't predict the current change in the climate. It is very clear that what we think is obvious isn't obvious. So, we really need to see what is in front of our eyes.

Rhaid i ni hefyd ystyried, pan fo caniatâd cynllunio yn cael ei roi, a'i fod yn cael ei roi mewn perthynas â faint o ddŵr ffo a gynhyrchir yn ystod y gwaith adeiladu, nid yw'n ymddangos bod yr 20 y cant o goncrid ychwanegol y bydd pobl yn ei roi ar eu gerddi blaen neu erddi cefn i greu patio braf neu wyneb caled ar gyfer eu ceir yn cael ei gyfrif. Rhaid i ni sicrhau pan fyddwn yn rhoi caniatâd cynllunio o hyn ymlaen, os oes unrhyw un yn dymuno ychwanegu unrhyw wyneb caled ychwanegol, fod rhaid iddo fod yn wyneb athraidd. Ni allwn barhau fel o'r blaen. Ni fyddwn byth yn gallu rhagweld ble fydd y llifogydd nesaf am na allwn ragweld y newid presennol yn yr hinsawdd. Mae'n glir iawn nad yw'r hyn yr ystyriwn ei fod yn amlwg yn amlwg. Felly, mae gwir angen i ni weld beth sydd o flaen ein llygaid.

We need also to look at engineering solutions, and, quite rightly, as John Griffiths said, not the engineering solutions in every case that are about concrete, but more engineering solutions like RainScape. We must use the environmental solutions of trees and proper crop management.

Mae angen i ni edrych hefyd ar atebion peirianyddol, ac yn gwbl briodol, fel y dywedodd John Griffiths, nid yr atebion peirianyddol ym mhob achos sy'n ymwneud â choncrid, ond mwy o atebion peirianyddol fel GlawLif. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio atebion amgylcheddol fel coed a rheoli cnydau priodol.

16:50

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

I want to thank everybody who has been contributing to this debate. I have listened very carefully, and while there has been a little bit of political knockabout, I think there's actually a lot of common ground as well. I just wanted to talk very briefly about the Flood Re scheme, which, of course, is coming into play this year in order to provide affordable insurance for home owners in areas of flood risk, where they have faced very heavy premiums in the past or, indeed, their properties have been uninsured. It's a very welcome development, but, unfortunately, it's not without its flaws. I wonder whether the Minister, in his response to this debate, might be able to shed some light on what the Welsh Government might be doing in order to engage in the discussion around the development of Flood Re to see whether some of these problems might be overcome.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon. Rwyf wedi gwrando'n ofalus iawn, ac er y bu ychydig o ymrafael gwleidyddol, rwy'n meddwl bod yna lawer o dir cyffredin hefyd mewn gwirionedd. Roeddwn i ond eisiau siarad yn fyr iawn am y cynllun Flood Re, sydd, wrth gwrs, yn dod yn weithredol eleni ar gyfer darparu yswiriant fforddiadwy i berchnogion tai mewn ardaloedd lle y ceir perygl llifogydd, lle y maent wedi wynebu premiymau trwm iawn yn y gorffennol neu'n wir, lle nad yw eu heiddo wedi'u hyswirio. Mae'n ddatblygiad i'w groesawu'n fawr, ond yn anffodus, nid yw heb ei ddiffygion. Tybed a allai'r Gweinidog, yn ei ymateb i'r ddadl hon, daflu rhywfaint o oleuni efallai ar yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn cymryd rhan yn y drafodaeth ar ddatblygiad Flood Re i weld a ellid goresgyn rhai o'r problemau hyn.

One of the difficulties with the scheme is that properties that were built after 1 January 2009 are not going to be covered. We know that there are some planning permissions—as we've heard in the course of the debate—that are still being constructed at the moment, which were decisions that, you know, put some properties at risk of flooding. For example, in my constituency, in the town of Ruthin, there is a development that has taken place on the Glasdir estate, which was visited by the former Minister responsible for this portfolio. He himself saw some of the risks that that estate had faced, and some of the flooding that that estate had experienced. Some of those homes on that estate are facing very severe premiums for their flood insurance at the moment, and many of them were developed after this Flood Re scheme date—you know, the arbitrary date that has been for cut-off. So, I'm a bit concerned about that.

Un o'r anawsterau gyda'r cynllun yw nad yw tai a adeiladwyd ar ôl 1 Ionawr, 2009 yn mynd i gael eu cynnwys. Gwyddom fod rhai caniatadau cynllunio—fel y clywsom yn ystod y ddadl—yn dal i gael eu datblygu ar hyn o bryd, sef penderfyniadau a oedd, wyddoch chi, yn rhoi rhywfaint o eiddo mewn perygl o wynebu llifogydd. Er enghraifft, yn fy etholaeth i, yn nhref Rhuthun, mae datblygiad ar ystad Glasdir, yr ymwelodd y cyn Weinidog sy'n gyfrifol am y portffolio hwn ag ef. Gwelodd drosto'i hun rai o'r risgiau roedd yr ystad wedi'u hwynebu, a pheth o'r llifogydd roedd yr ystad wedi'u profi. Mae rhai o'r cartrefi ar yr ystad yn wynebu premiymau difrifol iawn ar eu hyswiriant rhag llifogydd ar hyn o bryd, a datblygwyd llawer ohonynt ar ôl dyddiad y cynllun Flood Re—wyddoch chi, y dyddiad torbwynt mympwyol a roddwyd. Felly, rwyf ychydig yn bryderus ynglŷn â hynny.

I'm also very concerned that businesses are not covered by the Flood Re scheme. We've seen, time and time again, some places—there's the Black Lion in Llanfair Talhaiarn, in my own constituency, which has been flooded on a number of occasions over the past few years. It has been helped by its insurers; the NFU Mutual has been supporting that particular business. But many businesses like it are unable to get insurance. We need a similar scheme—a Flood Re scheme for business, if you like—to address that concern. Places of worship as well are not included, blocks of flats, and, indeed, many buy-to-let properties. Perhaps, Minister, if you could tell us what you are doing to work with the UK Government and the insurance industry—the Association of British Insurers—to address some of those concerns, I would appreciate it.

Rwy'n bryderus iawn nad yw busnesau yn cael eu diogelu gan y cynllun Flood Re hefyd. Dro ar ôl tro, gwelsom rai lleoedd—mae'r Black Lion yn Llanfair Talhaearn, yn fy etholaeth i, wedi dioddef llifogydd ar sawl achlysur dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae wedi cael help gan ei yswirwyr; mae'r NFU Mutual wedi bod yn cynorthwyo'r busnes penodol hwnnw. Ond mae llawer o fusnesau tebyg iddo yn methu â chael yswiriant. Mae angen cynllun tebyg—cynllun Flood Re ar gyfer busnesau, os mynnwch—i fynd i'r afael â hynny. Hefyd, ni chynhwyswyd mannau addoli, blociau o fflatiau, na llawer o eiddo prynu i osod ychwaith. Weinidog, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ddweud wrthym beth rydych yn ei wneud i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant yswiriant—Cymdeithas Yswirwyr Prydain—i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon hynny.

Can I also put on record my thanks for the investment that has gone into my constituency over the past few years to improve flood-risk management? There has been investment in Colwyn Bay, which has been very welcome: a multi-million-pound investment along the Clwyd west bank, which the former Minister visited with me a number of years back. There has been investment in Abergele as well, and also at Glasdir, following that very important visit. But there are other locations that are also worthy of investment. Applications have been made to the Welsh Government for investment in flood alleviation schemes in Llansannan, which is long overdue. I wonder, Minister, whether you can tell us in your response to the debate just where those applications are and whether there can be some investment in them from the Government, so that the people there who are at risk of flooding in their homes can rest at night when there's a downpour. Many of these people have been on flood alert over the Christmas period. Fortunately, they didn't face the sorts of consequences that we've seen elsewhere in the country in that particular village. But other people in my constituency did: in Llanddulas, up on the coast, where they have been flooded five times in recent years. The home owners there are just looking for somebody to help bang heads together in order that there can be a sustainable solution found. There have been some improvements to the height of the flood bunds that Natural Resources Wales is responsible for, but there is a big problem with drainage—I think other people have mentioned drainage here today—with water run-off and the sewerage network just not being able to cope when there are heavy downpours. It's been pretty appalling for them. They've had an absolutely miserable Christmas as a result of flooding again this year. I have requested that Welsh Government officials attend a meeting that I'm having there a week on Friday. Unfortunately there's been no positive response from the Welsh Government on that. So, I'd appreciate it, Minister, if you could reconsider that position because I do think it needs a co-ordinated approach from Welsh Water, from Conwy County Borough Council, from the home owners themselves, but also with the Welsh Government helping to drive that forward. We've rehearsed many times the concerns that I have around the infrastructure in the Old Colwyn area as well, along the promenade, where the flood defences protect the A55 trunk road and the north Wales railway line, and again, Minister, I would ask you to step up to the plate and help lead on that, because the leadership is not coming, unfortunately, from other people on the ground at present. Thank you.

A gaf fi hefyd gofnodi fy niolch am y buddsoddiad yn fy etholaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i wella'r modd y rheolir perygl llifogydd? Cafwyd buddsoddiad ym Mae Colwyn a gafodd groeso mawr: buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd ar hyd glannau gorllewin Clwyd, lle y bu'r cyn Weinidog a minnau ar ymweliad nifer o flynyddoedd yn ôl. Cafwyd buddsoddiad yn Abergele hefyd, ac yng Nglasdir, yn dilyn yr ymweliad pwysig hwnnw. Ond ceir lleoliadau eraill sy'n haeddu buddsoddiad. Cyflwynwyd ceisiadau i Lywodraeth Cymru am fuddsoddiad mewn cynlluniau lliniaru llifogydd yn Llansannan, buddsoddiad y mae'n hen bryd ei gael. Weinidog, tybed a wnewch chi ddweud wrthym yn eich ymateb i'r ddadl ble mae'r ceisiadau hynny ac a allai'r Llywodraeth fuddsoddi rhywfaint ynddynt, er mwyn i'r bobl yno sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn eu cartrefi allu cysgu'r nos pan fo'n arllwys y glaw. Roedd llawer o'r bobl hyn wedi cael rhybudd llifogydd dros gyfnod y Nadolig. Yn ffodus, ni fu'n rhaid iddynt wynebu'r math o ganlyniadau a welsom mewn rhannau eraill o'r wlad yn y pentref hwnnw. Ond wynebodd pobl eraill yn fy etholaeth lifogydd o'r fath: yn Llanddulas, ar yr arfordir, lle y maent wedi dioddef llifogydd bum gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r perchnogion tai yno yn chwilio am rywun i helpu i gael pennau at ei gilydd i ddod o hyd i ateb cynaliadwy. Gwnaed rhai gwelliannau i uchder y byndiau llifogydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol amdanynt, ond mae yna broblem fawr gyda draenio—rwy'n credu bod pobl eraill wedi'i chrybwyll yma heddiw—gyda dŵr ffo a'r rhwydwaith carthffosiaeth yn methu ag ymdopi pan geir cawodydd trymion. Maent wedi cael amser go erchyll. Cawsant Nadolig gwirioneddol ddiflas o ganlyniad i'r llifogydd eto eleni. Rwyf wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru fynychu cyfarfod rwy'n ei gael yno wythnos i ddydd Gwener. Yn anffodus, ni chafwyd unrhyw ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ar hynny. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi, Weinidog, pe gallech ailystyried y sefyllfa honno gan fy mod yn credu bod galw am ymagwedd gydgysylltiedig ar ran Dŵr Cymru, ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ar ran perchnogion cartrefi eu hunain, ond hefyd gyda Llywodraeth Cymru i helpu i yrru hynny yn ei flaen. Rydym wedi ailadrodd sawl gwaith y pryderon sydd gennyf ynglŷn â'r seilwaith yn ardal Hen Golwyn yn ogystal, ar hyd y promenâd, lle y mae'r amddiffynfeydd rhag llifogydd yn diogelu cefnffordd yr A55 a rheilffordd gogledd Cymru, ac unwaith eto, Weinidog, hoffwn ofyn i chi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb a helpu i arwain ar hynny, gan nad yw'r arweinyddiaeth i'w chael, yn anffodus, gan bobl eraill ar lawr gwlad ar hyn o bryd. Diolch.

16:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant.

16:55

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. During my oral statement on 12 January I expressed my sympathy to everyone who had seen their homes and businesses affected by the wettest December on record. I also repeat my thanks to all those who helped in response throughout December and over Christmas, and who continue to help affected communities recover.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn ystod fy natganiad llafar ar 12 Ionawr mynegais fy nghydymdeimlad â phawb a oedd wedi gweld eu cartrefi a'u busnesau'n dioddef yn sgil y Rhagfyr gwlypaf a gofnodwyd erioed. Rwyf hefyd yn ailadrodd fy niolch i bawb a gynorthwyodd gyda'r ymateb drwy gydol mis Rhagfyr a thros y Nadolig, ac sy'n parhau i helpu cymunedau yr effeithiwyd arnynt i gael eu cefn atynt.

I announced a total of £3.3 million for maintenance and emergency repairs, and this funding has been welcomed by 15 local authorities across Wales. Fifteen of them have put forward applications for immediate repairs and maintenance, and they will be assessed now. I will make further announcements at the end of this month, once we've assessed this programme.

Cyhoeddais gyfanswm o £3.3 miliwn ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio brys, ac mae'r cyllid hwn wedi'i groesawu gan 15 awdurdod lleol ledled Cymru. Mae pymtheg ohonynt wedi cyflwyno ceisiadau am waith atgyweirio a chynnal a chadw ar unwaith, a byddant yn awr yn cael eu hasesu. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar ddiwedd y mis hwn, ar ôl i ni asesu'r rhaglen.

This emergency funding is in addition to our flood programme investment, which has increased by 18.2 per cent in real terms over the lifetime of this Government. Just this winter, we completed schemes protecting over 4,000 properties across Wales, at Rhyl, Dolgellau, Borth, Cardiff and along the Severn estuary.

Mae'r arian argyfwng hwn yn ychwanegol at ein buddsoddiad yn y rhaglen llifogydd, sydd wedi cynyddu 18.2 y cant mewn termau real yn ystod oes y Llywodraeth hon. Y gaeaf hwn, cwblhawyd cynlluniau i ddiogelu dros 4,000 eiddo ar draws Cymru, yn y Rhyl, Dolgellau, Borth, Caerdydd ac ar hyd aber afon Hafren.

Turning to the proposals in the motion, and to point 3, I am able to support three of these, which ask the Welsh Government to take a fresh look at issues. I'll work through these proposals now.

Gan droi at y cynigion yn y cynnig, ac at bwynt 3, rwy'n gallu cefnogi tri o'r rhain, sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru edrych ar faterion o'r newydd. Fe af drwy'r cynigion hyn yn awr.

On point 3(a), we are willing to explore the viability of providing rate relief to impacted businesses. Local authorities have existing powers to award discretionary relief to business owners or occupiers in extreme circumstances. The Valuation Office Agency may also make a determination to make a temporary reduction to the rateable value of effective properties to compensate for loss of business and trade.

Ar bwynt 3(a), rydym yn barod i archwilio hyfywedd darparu rhyddhad ardrethi i fusnesau yr effeithiwyd arnynt. Mae gan awdurdodau lleol bwerau ar hyn o bryd i ddyfarnu rhyddhad disgresiynol i berchnogion neu ddeiliaid busnesau mewn amgylchiadau eithafol. Gall Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd benderfynu gostwng gwerth ardrethol eiddo gweithredol dros dro i wneud iawn am golli busnes a masnach.

With regard to the road issues raised at 3(b), I recognise that the disruption to road users over the Christmas period was significant, and the periods of very heavy rainfall are occurring more frequently. The Minister for Economy, Science and Transport has written to Assembly Members with an update following the flooding. The Minister has also asked officials to undertake a review of the motorway and trunk road networks across Wales. This will help us develop a prioritised programme of improvement to manage flood risks on our roads.

O ran y materion a godwyd ynglŷn â ffyrdd yn 3(b), rwy'n cydnabod bod tarfu ar ddefnyddwyr y ffyrdd dros gyfnod y Nadolig yn sylweddol, ac mae'r cyfnodau o law trwm iawn yn digwydd yn amlach. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y llifogydd. Mae'r Gweinidog hefyd wedi gofyn i swyddogion gynnal adolygiad o'r rhwydweithiau traffyrdd a chefnffyrdd ledled Cymru. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu rhaglen blaenoriaethu gwelliannau i reoli perygl llifogydd ar ein ffyrdd.

On 3(d), I am happy to assess how the rural development programme can better support flood-prevention schemes for communities affected by flooding. The Welsh Government has been considering opportunities for natural flood management for some time, including through the Glastir agri-environment scheme.

Ar 3(d), rwy'n hapus i asesu sut y gall y rhaglen datblygu gwledig gefnogi cynlluniau atal llifogydd yn well ar gyfer cymunedau yr effeithir arnynt gan lifogydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried cyfleoedd ar gyfer rheoli llifogydd yn naturiol ers peth amser, gan gynnwys drwy'r cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir.

These three points ask the Welsh Government to explore, review and assess. Unfortunately, point 3(c) asks for a firm commitment to change the policy of a regard for farmers' and landowners' freedom to clear channels, which could have serious consequences. We are therefore proposing an amendment to point 3 that calls for a review of the evidence. I did listen carefully to the contribution made by the Member. We have got some great examples where we're using land drainage methods and land-stopping drainage methods, in peat bogs in Snowdonia—the constituency of the Member—and other areas across Wales, where we recognise a free-for-all of clearing ditches and drainage can have a major impact on communities. We have to be balanced in our approach to this, and we'll continue to do so.

Mae'r tri phwynt yn gofyn i Lywodraeth Cymru archwilio, adolygu ac asesu. Yn anffodus, mae pwynt 3(c) yn gofyn am ymrwymiad cadarn i newid y polisi o ddarparu rhyddid i ffermwyr a thirfeddianwyr glirio sianeli, a allai arwain at ganlyniadau difrifol. Rydym felly yn cynnig gwelliant i bwynt 3 sy'n galw am adolygiad o'r dystiolaeth. Gwrandewais yn ofalus ar gyfraniad yr Aelod. Mae gennym enghreifftiau gwych lle rydym yn defnyddio dulliau draenio tir a dulliau o ddefnyddio tir i atal draenio, mewn corsydd mawn yn Eryri—etholaeth yr Aelod—ac ardaloedd eraill ledled Cymru, lle rydym yn cydnabod bod rhyddid i bawb glirio ffosydd a draeniau yn gallu effeithio'n fawr ar gymunedau. Mae'n rhaid i ni fod yn gytbwys yn ein hymagwedd at hyn, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

NRW has an annual programme to de-silt watercourses where it can make a difference, and landowners can also undertake watercourse maintenance work themselves. Subject to consenting and the advice from NRW—. I will take an intervention from the Member.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru raglen flynyddol i ddadsiltio cyrsiau dŵr lle y gall wneud gwahaniaeth, a gall perchnogion tir hefyd wneud gwaith cynnal a chadw ar gyrsiau dŵr eu hunain. Yn amodol ar gydsyniad a chyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru—. Fe gymeraf ymyriad gan yr Aelod.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Darren Millar.

Darren Millar.

16:59 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

I appreciate the point you make about where it's sensible to block up a ditch et cetera, but do you accept also that, very often, when a ditch becomes blocked, and they have to get permission in order to clear those ditches, that is a cause of flooding in some places, which could have been prevented if those current arrangements were able to be circumvented.

Rwy'n derbyn y pwynt a wnewch ynglŷn â ble mae blocio ffos ac ati yn gwneud synnwyr, ond a ydych yn hefyd yn derbyn, yn aml iawn, pan fydd ffos yn blocio, a bod hyn rhaid iddynt gael caniatâd i glirio'r ffosydd hynny, fod hynny'n achosi llifogydd mewn rhai mannau, llifogydd y gellid bod wedi'u hatal pe bai modd osgoi'r trefniadau hynny fel y maent ar hyn o bryd.

16:59 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think the Member raises an important point about it being a co-ordination of important information on the land management and watercourse management. It is an important procedure for NRW and local authorities and Welsh Government. But what we can't agree is a free-for-all for the clearing of ditches, and where it is a case of landowners just clearing the ditches to de-risk their property. We have to look at it much more on an evidence basis. Dredging can cause problems by speeding up the transfer of water, leading to flooding downstream, as we see.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn nodi pwynt pwysig mai mater o gydlynu gwybodaeth bwysig ar reoli tir a rheoli cyrsiau dŵr yw hyn. Mae'n weithdrefn bwysig i Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Ond yr hyn na allwn gytuno arno yw rhyddid i bawb glirio ffosydd, ac os yw'n fater o dirfeddianwr yn mynd ati i glirio'r ffosydd i gael gwared ar y risg i'w eiddo. Mae'n rhaid i ni edrych arno'n llawer agosach ar sail y dystiolaeth. Gall carthu achosi problemau drwy gyflymu'r broses o drosglwyddo dŵr, gan arwain at lifogydd i lawr yr afon, fel y gwelwn.

I listened to the contribution made by Janet Finch-Saunders—again, very disappointing. When the Member, on Boxing Day, was tweeting away from the warmth of her home, my team and NRW's officials were out in Llanrwst, were out across north Wales, and across other areas, dealing with the floods at the front line. So, you can tweet all you like, but, actually, the action to the people on the ground is the important thing for those people. [Interruption.]

Gwrandewais ar gyfraniad Janet Finch-Saunders—unwaith eto, siomedig iawn. Pan oedd yr Aelod, ar Ŵyl San Steffan, yn trydar o gynhesrwydd ei chartref, roedd fy nhîm a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru allan yn Llanrwst, allan ar draws gogledd Cymru, ac ar draws ardaloedd eraill, yn ymdrin â'r llifogydd ar y rheng flaen. Felly, gallwch drydar cymaint ag y dymunwch, ond mewn gwirionedd, y gweithredu i bobl ar lawr gwlad yw'r peth pwysig i'r bobl hynny. [Torri ar draws.]

The issue being—. She makes observations on what was happening in Wales compared to what's in England. I'm sure the people of Wales are very grateful for the major investment we've made to prevent issues such as Dolgellau, protecting 300 properties there, which is a scheme that we have developed; in Boverton, the issues of further investment there; and also the many other places that I alluded to earlier on.

Mae'n fater o—. Mae hi'n gwneud sylwadau ar yr hyn a oedd yn digwydd yng Nghymru o gymharu â'r hyn sydd yn Lloegr. Rwy'n siŵr fod pobl Cymru yn ddiolchgar iawn am y buddsoddiad mawr rydym wedi'i wneud i atal problemau megis yn Nolgellau, a diogelu 300 o dai yno, sef cynllun a ddatblygwyd gennym; yn Nhrebefered, mater buddsoddiad pellach yno; a hefyd y nifer o lefydd eraill y cyfeiriais atynt yn gynharach.

Turning to the Liberal Democrats' amendments, I'm happy to support amendments 1 and 2, which rightly draw attention to the UK Government's failure to act on the EU solidarity fund and the measures necessary to combat climate change, which makes flooding more likely. I also welcome amendment 4. We already promote natural flood-risk management wherever it's possible and provides real benefits; like in Swansea, a scheme I opened back in 2014 with Mike Hedges. Again, a great scheme where we increased the natural flood plain, which purposefully floods to protect homes and businesses further downstream.

Gan droi at welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, rwy'n hapus i gefnogi gwelliannau 1 a 2, sy'n tynnu sylw priodol at fethiant Llywodraeth y DU i weithredu ar gyllid cydsefyll yr UE a'r mesurau angenrheidiol i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, sy'n gwneud llifogydd yn fwy tebygol. Rwyf hefyd yn croesawu gwelliant 4. Rydym eisoes yn hyrwyddo dulliau naturiol o reoli risg llifogydd lle bynnag y bo modd ac yn darparu manteision go iawn; fel yn Abertawe, cynllun a agorais yn ôl yn 2014 gyda Mike Hedges. Unwaith eto, cynllun gwych lle y llwyddom i gynyddu'r gorlifdir naturiol, sy'n gorlifo'n bwrpasol er mwyn diogelu cartrefi a busnesau ymhellach i lawr yr afon.

We will continue to have flooding at the top of our agenda in Wales. I would ask Members to support the amendments tabled by Government and look forward to working with Members to alleviate the issues that they experience in their constituencies right across Wales.

Byddwn yn parhau i osod llifogydd ar frig ein hagenda yng Nghymru. Byddwn yn gofyn i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Aelodau i liniaru'r problemau y maent yn eu profi yn eu hetholaethau ledled Cymru.

With regard to the final points that Darren Millar raised—of course, he often comes with a shopping list for his constituency, and rightly so—but, we have made a significant investment in his constituency. We could probably spend all of our flood scheme money in your constituency. He's recognised that we have made the investment. With regard to the Flood Re scheme, it is a UK-based scheme and I would encourage the Member to contact his counterparts in the UK to look at the issues. I have written to the Minister regarding the issues around business flooding schemes and also schemes post 2009. I think there are still some improvements to be made to that proposal, and I'd welcome his support in trying to get those amendments through.

O ran y pwyntiau terfynol a grybwyllodd Darren Millar—wrth gwrs, mae'n aml yn cyflwyno rhestr siopa ar ran ei etholaeth, a hynny'n briodol—ond rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei etholaeth. Yn ôl pob tebyg, gallem wario holl arian ein cynllun llifogydd yn eich etholaeth. Mae wedi cydnabod ein bod wedi buddsoddi. O ran y cynllun Flood Re, mae'n gynllun ar gyfer y DU gyfan a byddwn yn annog yr Aelod i gysylltu â'i gymheiriaid yn y DU i edrych ar y materion sy'n codi. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chynlluniau llifogydd ar gyfer busnesau a chynlluniau ar ôl 2009. Rwy'n credu bod rhai gwelliannau i'w gwneud i'r cynnig o hyd, a byddwn yn croesawu ei gymorth i geisio pasio'r gwelliannau hynny.

I thank the Members for, broadly, a constructive debate today and we wish to work with Members to improve the opportunities for communities and protect the environment, as we should.

Diolch i'r Aelodau am ddadl adeiladol at ei gilydd heddiw ac rydym yn dymuno gweithio gydag Aelodau i wella'r cyfleoedd i gymunedau a diogelu'r amgylchedd, fel y dylem.

17:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Nick Ramsay to reply to the debate.

Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

17:02

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank all Members who've contributed to what the Minister has just termed a 'broadly' constructive debate this afternoon, on a motion that notes the devastation that has been wreaked upon communities across Wales over recent weeks. Of course, all of us have paid tribute today to the work of our emergency services and volunteers who have done so much to support communities the length and breadth of Wales, during what has been an extremely difficult and challenging time for everyone.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau a gyfrannodd at yr hyn y mae'r Gweinidog newydd ei alw'n ddadl adeiladol 'at ei gilydd' y prynhawn yma, ar gynnig sy'n nodi'r dinistr a wynebodd cymunedau ledled Cymru dros yr wythnosau diwethaf. Wrth gwrs, mae pob un ohonom wedi talu teyrnged heddiw i waith ein gwasanaethau brys a gwirfoddolwyr sydd wedi gwneud cymaint i gynorthwyo cymunedau ar hyd a lled Cymru, yn ystod yr hyn a fu'n gyfnod eithriadol o anodd a heriol i bawb.

As Janet Haworth explained in opening the debate, we have 78 days—78 days, you reiterated, Janet—before the fourth Assembly is dissolved. At least, I trust we have 78 days, I haven't checked the actual number, but I take that as read. Seventy-eight days, Janet said, for the Welsh Government to show that it is capable of providing better protection for our people. A call that got the Minister emeritus—Alun Davies, over there—very excited and full of ideas himself. I was looking forward to you contributing to this debate, actually, Alun. You didn't get the chance due to the number of speakers. But, I could see that you certainly had your own ideas about where this debate, I think, is moving things along.

Fel yr eglurodd Janet Haworth wrth agor y ddadl, mae gennym 78 diwrnod—fe bwysleisioch chi 78 diwrnod, Janet—cyn diddymu'r pedwerydd Cynulliad. O leiaf, rwy'n cymryd bod gennym 78 diwrnod, nid wyf wedi cyfrif y nifer mewn gwirionedd, ond rwy'n cymryd mai dyna ydyw. 78 diwrnod, meddai Janet, i Lywodraeth Cymru ddangos ei bod yn gallu darparu diogelwch gwell ar gyfer ein pobl. Galwad a gyffrodd y Gweinidog emeritws—Alun Davies, draw yn y fan acw—yn fawr a'i lenwi â syniadau ei hun. Roeddwn yn edrych ymlaen at eich cyfraniad at y ddadl hon, mewn gwirionedd, Alun. Ni chawsoch gyfle oherwydd y nifer o siaradwyr. Ond gallwn weld yn sicr fod gennych eich syniadau eich hun ynglŷn â chyfeiriad y ddadl hon, rwy'n meddwl.

This has proved to be a really traumatic time for home owners, and indeed businesses and farmers across Wales. Janet Haworth condemned the blame culture that has reared its head over recent days. We are where we are. We can only do what we can do now to alleviate that recent suffering and to try and make sure that, in future, it is not as bad as it has been over the last few weeks. As Will Powell said, there would be an effect on the UK's rebate if solidarity funds were accessed. We may debate the scale of that reduction. I hear what you said, Will, about you thinking that that was a price worth paying. But, I think we do have to accept that there would be a reduction. It is not as straightforward a solution as people think. I'm not sure about the comparison with an insurance policy. But, I did agree with you, Will, on the potential of certain schemes—environmental schemes—to mitigate flooding. I'm not entirely sure that the Liberal Democrat amendment does entirely convey what it was supposed to convey, but I understand what you are getting at and I appreciate as well Llyr Gruffydd's comments that trees, for instance, and forestation have a role to play, although I would say that research does suggest there are question marks over the effectiveness of tree cover, particularly in winter months, at absorbing water on the scale that is needed to provide a really robust solution.

Mae hyn wedi bod yn amser gwirioneddol drawmatig i berchnogion tai, ac yn wir i fusnesau a ffermwyr ledled Cymru. Condemniodd Janet Haworth y diwylliant o fwrw bai sydd wedi codi'i ben yn ystod y dyddiau diwethaf. Rydym yn y sefyllfa rydym ynddi. Ni allwn ond gwneud yr hyn a allwn yn awr i leddfu'r dioddefaint diweddar ac i geisio gwneud yn siŵr yn y dyfodol nad yw mor ddrwg ag y mae wedi bod dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Fel y dywedodd Will Powell, pe bai'r DU yn gwneud defnydd o gyllid cydsefyll, byddai'n effeithio ar ei had-daliadau. Gallwn drafod graddfa'r gostyngiad hwnnw. Rwy'n clywed yr hyn a ddywedoch, Will, ynglŷn â'ch barn fod hwnnw'n bris gwerth ei dalu. Ond rwy'n credu bod yn rhaid i ni dderbyn y byddai gostyngiad. Nid yw'n ateb mor syml ag y mae pobl yn meddwl. Nid wyf yn siŵr o'r gymhariaeth â pholisi yswiriant. Ond rwy'n cytuno â chi, Will, ynglŷn â photensial rhai cynlluniau—cynlluniau amgylcheddol—i liniaru llifogydd. Nid wyf yn hollol siŵr fod gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn cyfleu'n llwyr yr hyn roedd i fod i'w gyfleu, ond rwy'n deall yr hyn rydych yn ei feddwl ac rwy'n derbyn sylwadau Llyr Gruffydd hefyd fod gan goed, er enghraifft, a choedwigo, rôl i'w chwarae, er y byddwn yn dweud bod gwaith ymchwil yn awgrymu bod yna gwestiynau ynghylch effeithiolrwydd coed, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, yn amsugno dŵr ar y raddfa sydd ei hangen i ddarparu ateb gwirioneddol gadarn.

In a passionate speech from my colleague on my right, Janet Finch-Saunders explained her first-hand experience of the damage of the flooding in her constituency. One business, I think you said, Janet, was damaged to the tune of £100,000—a truly massive sum for a business. And, yes, business rates are clearly a key tool that can be used to support businesses at this time. We often have debates in this Chamber about the importance of using business rates and the way that these can now be used by the Welsh Government as a tool to promote economic growth across Wales. I think that this is one case where the business rates powers at the disposal of the Welsh Government can be used. I think whatever form is used—we've advocated a flood rate-relief scheme that could be focused on those local authorities most seriously affected—and whatever is proposed, we need to see far greater support for businesses affected at this difficult time. And yes, another point made by Janet Finch-Saunders: we can modify existing administration structures to achieve this. Red tape needs to be removed at this time, and the rural development plan is one example of a policy that can be used to support businesses across Wales.

Mewn araith angerddol gan fy nghyd-Aelod ar fy llaw dde, eglurodd Janet Finch-Saunders ei phrofiad uniongyrchol o ddifrod llifogydd yn ei hetholaeth. Rwy'n meddwl eich bod wedi dweudd, Janet, fod un busnes wedi dioddef gwerth £100,000 o ddifrod—swm gwirioneddol enfawr i fusnes. Ac mae'n wir, mae ardrethi busnes yn amlwg yn offeryn allweddol y gellir ei ddefnyddio i gefnogi busnesau ar hyn o bryd. Rydym yn aml yn cael dadleuon yn y Siambr hon ynghylch pwysigrwydd defnyddio ardrethi busnes a'r ffordd y gallai Llywodraeth Cymru eu defnyddio bellach fel offeryn i hybu twf economaidd ledled Cymru. Credaf fod hwn yn un achos lle y gellid defnyddio pwerau ardrethi busnes at ddefnydd Llywodraeth Cymru. Pa ffurf bynnag a ddefnyddir—rydym wedi cefnogi cynllun rhyddhad ardrethi yn sgil llifogydd y gellid ei dargedu at yr awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt waethaf—a beth bynnag a gynigir, mae angen i ni weld llawer mwy o gefnogaeth i fusnesau yr effeithiwyd arnynt ar yr adeg anodd hon. Ac ie, pwynt arall a wnaed gan Janet Finch-Saunders: gallwn addasu strwythurau gweinyddol presennol i gyflawni hyn. Mae angen cael gwared ar fiwrocratiaeth ar yr adeg hon, ac mae'r cynllun datblygu gwledig yn un enghraifft o bolisi y gellir ei ddefnyddio i gefnogi busnesau ledled Cymru.

John Griffiths made some excellent points regarding ways of dealing with flooding, as did Joyce Watson, actually. Yes, I agree with you, John: concrete is not the answer to everything. Too often, I think, engineers will suggest it. That is their job; that is what they are trained to do. It may be a partial solution in some cases, but it can also make things worse. Joyce Watson made the point about hard surfaces, concreting and tarmac, and the effect that that can have on flooding. All of this needs to be looked at in a cohesive way. I think, too often, we look at business support for flooded businesses on the one hand, planning on the other hand. There are too many silos going on in local government, and there have been for a considerable length of time. I know there were many ideas mentioned in the debate today about how some of those silos could be broken down. So, we welcome your comments.

Gwnaeth John Griffiths rai pwyntiau ardderchog ynglŷn â ffyrdd o ymdrin â llifogydd, fel y gwnaeth Joyce Watson, mewn gwirionedd. Rwy'n cytuno â chi, John: nid yw concrid yn ateb i bopeth. Rwy'n credu bod peirianwyr yn ei awgrymu'n rhy aml. Dyna yw eu gwaith; dyna y maent wedi'u hyfforddi i'w wneud. Gall fod yn ateb rhannol mewn rhai achosion, ond gall hefyd wneud pethau'n waeth. Gwnaeth Joyce Watson y pwynt ynglŷn ag wyneb caled, concrid a tharmac, a'r effaith y gall hynny ei chael ar lifogydd. Mae angen edrych ar hyn i gyd mewn modd cydlynol. Rwy'n meddwl ein bod yn rhy aml yn edrych ar gymorth busnes i fusnesau sydd wedi dioddef llifogydd ar y naill law, a chynllunio ar y llaw arall. Mae gormod o seilos mewn llywodraeth leol, ac mae hynny wedi bod yn wir ers cryn dipyn o amser. Rwy'n gwybod bod llawer o syniadau wedi'u crybwyll yn y ddadl heddiw ynglŷn â sut y gellid chwalu rhai o'r seilos hynny. Felly, rydym yn croesawu eich sylwadau.

Altaf Hussain, well, you said that predictions founded in speculation are not the way ahead. I quite agree with that. How often is that the case? Indeed, there is this minefield at the moment of negotiating with different agencies, which again was alluded to by Joyce Watson. What this ultimately comes down to, as is so often the case, is accountability. We've got to get rid of the silo approach to flooding. We've got to build a community-up approach. I heard a lot of what the Minister said about some of his proposals and his actions over recent weeks. Too often, I think, we're looking at a centralised, top-down approach, where across the border in England, they've been looking much more at enhancing communities, allowing communities to develop their own proposals, using best practice in those communities and fitting it all together. That's not totally the solution, but I do think we need a localised approach.

Altaf Hussain, wel, fe ddywedoch nad rhagamcanion a seiliwyd ar ddyfalu yw'r ffordd ymlaen. Cytunaf yn llwyr â hynny. Pa mor aml y mae hynny'n wir? Yn wir, mae trafod gyda gwahanol asiantaethau ar hyn o bryd yn drafferthus iawn, a chyfeiriodd Joyce Watson at hyn hefyd. Yr hyn y mae'n ymwneud ag ef yn y pen draw, fel y gwelir mor aml, yw atebolrwydd. Mae'n rhaid i ni gael gwared ar y dull seilo o ymdrin â llifogydd. Mae'n rhaid i ni adeiladu dull o'r gymuned i fyny. Clywais lawer o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog am rai o'i gynigion a'i weithredoedd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yn rhy aml, rwy'n meddwl, rydym yn edrych ar ddull canolog, o'r brig i lawr, ac ar draws y ffin yn Lloegr, maent wedi bod yn edrych lawer mwy ar wella cymunedau, caniatáu i gymunedau ddatblygu eu cynigion eu hunain, defnyddio arferion gorau yn y cymunedau hynny a ffitio'r cyfan gyda'i gilydd. Nid dyna'r ateb llawn, ond rwy'n credu bod arnom angen dull lleol o weithredu.

I do recognise that there has been considerable criticism of the old local drainage boards over recent months and the last year. What I would say about the local drainage boards is that they were local, and that did ensure that the changes—[Interruption.] Well, they were local, hence 'local drainage boards'. They were localised within their communities. Now, the changes that have been made have made sure that Natural Resources Wales are now running the show in this area. Well, okay, there are some arguments for doing that, but at the same time, we mustn't lose that localised presence. I know that there are board members going to be on Natural Resources Wales to deal with local flooding issues, and they need to be listened to.

Rwy'n cydnabod bod cryn dipyn o feirniadu wedi bod ar yr hen fyrddau draenio lleol dros y misoedd diwethaf a'r flwyddyn ddiwethaf. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud am y byrddau draenio lleol yw eu bod yn lleol, ac roedd hynny'n sicrhau bod y newidiadau—[Torri ar draws.] Wel, roeddent yn lleol, dyna pam y caent eu galw'n 'fyrddau draenio lleol'. Roeddent yn lleol yn eu cymunedau. Nawr, mae'r newidiadau a wnaed wedi sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn rhedeg y sioe yn y maes hwn. Wel, iawn, mae rhai dadleuon o blaid gwneud hynny, ond ar yr un pryd, rhaid i ni beidio â cholli'r presenoldeb lleol. Rwy'n gwybod bod yna aelodau o'r byrddau'n mynd i fod ar fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i ymdrin â materion llifogydd lleol, ac mae angen gwrando arnynt.

I'm pleased that the Minister said that there would be further announcements made down the line. I hope you take on board, Minister, some of the concerns raised in this debate. We welcome your commitments to look at better ways of supporting businesses. That is an urgent requirement, and I hope you look at flooding relief schemes, which we've mentioned.

Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi dweud y gwneir cyhoeddiadau pellach yn nes ymlaen. Weinidog, rwy'n gobeithio y byddwch yn ystyried rhai o'r pryderon a leisiwyd yn y ddadl hon. Rydym yn croesawu eich ymrwymiadau i edrych ar ffyrdd gwell o gefnogi busnesau. Mae angen gwneud hynny ar frys, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn edrych ar gynlluniau rhyddhad llifogydd, fel rydym wedi crybwyll.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, we have many debates in this Chamber, some are more relevant than others, but there can be none more relevant than this to the people of Wales. Let's make sure we take the action necessary so that the problems we've seen over recent weeks aren't problems that recur over and over again, over the months and years to come. With the environmental climate changes that are happening and are going to happen, it's clear that we need to get to grips with this problem now to make sure that in the future, these problems are dealt with and that people across Wales can feel far safer in their homes, in their businesses and in their livelihoods.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, rydym yn cael nifer o ddadleuon yn y Siambr hon, a rhai yn fwy perthnasol nag eraill, ond ni all dim fod yn fwy perthnasol na hyn i bobl Cymru. Gadewch i ni wneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r camau angenrheidiol ar waith fel nad yw'r problemau rydym wedi'u gweld dros yr wythnosau diwethaf yn broblemau sy'n digwydd drosodd a throsodd dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Gyda'r newidiadau amgylcheddol yn yr hinsawdd sy'n digwydd ac sy'n mynd i ddigwydd, mae'n amlwg fod angen i ni fynd i'r afael â'r broblem hon yn awr i sicrhau yn y dyfodol fod y problemau wedi cael sylw ac y gall pobl ledled Cymru deimlo'n llawer mwy diogel yn eu cartrefi, yn eu busnesau ac yn eu bywoliaeth.

17:10

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:10

## 7. Cyfnod Pleidleisio

## 7. Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Voting time now follows. Before I conduct the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll vote first on the Welsh Conservatives' debate on higher education. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17, there voted against 36. Therefore, the motion is not agreed without amendment.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, pleidleisiwn yn gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar addysg uwch. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os gwrthodir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid, pleidleisiodd 36 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 17, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 17, Against 36, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5920.

Result of the vote on motion NDM5920.

17:11

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 5, there voted against 35, there were 13 abstentions. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn, roedd 13 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd gwelliant 1.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 35, Ymatal 13.*

*Amendment not agreed: For 5, Against 35, Abstain 13.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5920.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5920.

17:11

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 53, no votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 53 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5920.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5920.

17:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 5, there voted against 35, there were 13 abstentions. Therefore, amendment 3 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn, roedd 13 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd gwelliant 3.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 35, Ymatal 13.*

*Amendment not agreed: For 5, Against 35, Abstain 13.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5920.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5920.

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 27. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 4.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5920

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5920

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5920 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5920 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi canfyddiadau'r adroddiad interim ar yr Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, sy'n datgan nad yw'r system bresennol yn gynaliadwy, gan adleisio galwadau gan Brifysgolion Cymru, Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac Undeb y Colegau a Phrifysgolion;

2. Yn nodi adroddiad polisi Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, 'Punt yn Eich Poced', a ganfu fod 58 y cant o fyfyrwyr poeni'n rheolaidd am beidio â chael digon o arian i gwrdd â'u costau byw sylfaenol fel rhent neu filiau cyfleustodau.

3. Yn cydnabod, fel y nodwyd yn yr adroddiad interim, fod angen i Lywodraeth Cymru 'ailystyried y polisi grant ffioedd dysgu' yng Nghymru; a

4. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ailfodelu cyllid addysg uwch yng Nghymru, gan weithredu polisi mwy cynaliadwy a chynnig mwy o flaenoriaeth i system gynyddol o gefnogi costau byw.

1. Notes the findings from the interim report into the Review of Higher Education Funding and Student Finance Arrangements in Wales, which states the existing system is 'not sustainable', echoing calls from Universities Wales, the Learned Society of Wales and University and College Union;

2. Notes the National Union of Students' policy report, 'Pound in Your Pocket', which found that 58 per cent of students regularly worry about not having enough money to meet their basic living expenses such as rent or utility bills.

3. Recognises the need, identified by the interim report, for the Welsh Government to 'revisit the tuition fee grant policy' in Wales;

4. Believes the Welsh Government should remodel higher education funding in Wales, implementing a more sustainable policy and offering greater priority to a progressive system of living cost support.

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 27. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5920 fel y'i diwygiwyd: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Motion NDM5920 as amended not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5920 fel y'i diwygiwyd.](#) [Result of the vote on motion NDM5920 as amended.](#)

17:12

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the Welsh Conservatives' debate on flooding. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17, there voted against 36. Therefore, the motion without amendment is not agreed, so we'll vote on the amendments.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar lifogydd. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os gwrthodir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid, pleidleisiodd 36 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio, a phleidleisiwn ar y gwelliannau.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 17, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 17, Against 36, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5923.](#) [Result of the vote on motion NDM5923.](#)

17:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 40, there voted against 13. Therefore, amendment 1 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 40 o blaid, pleidleisiodd 13 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 13, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 40, Against 13, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5923.](#) [Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5923.](#)

17:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 40, there voted against 13. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 40 o blaid, pleidleisiodd 13 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 13, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 40, Against 13, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5923.](#) [Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5923.](#)

17:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 26. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 3.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 27, Against 26, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5923.](#) [Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5923.](#)

17:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 53, no votes against. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 53 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 4.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5923.](#) [Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5923.](#)

17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 5, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 53, no votes against. Therefore, amendment 5 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 53 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 5.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5923.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5923.

17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 6, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 53, no votes against. Therefore, amendment 6 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 6, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 53 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 6.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5923.

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5923.

17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5923 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5923 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod cymunedau ledled Cymru wedi cael eu difrodi gan lifogydd dros yr wythnosau diwethaf ac yn talu teyrnged i waith pob un o'r rhai sydd wedi rhoi cefnogaeth hanfodol i'r cymunedau hynny;

1. Notes that communities across Wales have been devastated by flooding in recent weeks; and pays tribute to the work of all of those who have provided vital support to those communities;

2. Yn cydnabod pwysigrwydd gwaith ymgysylltu trylwyr, cydweithredol â rhanddeiliaid ledled Cymru i ddatblygu strategaeth atal llifogydd gadarn; a

2. Recognises the importance of thorough, collaborative engagement with stakeholders across Wales in the development of a robust, flood prevention strategy; and

3. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i wneud cais am gyllid gydsefyll yr UE ar gyfer rhyddhad llifogydd.

3. Regrets the failure of the UK Government to apply for EU solidarity funds for flood relief.

4. Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth y DU i dorri cymorth ar gyfer prosiectau ynni glân, sy'n bygwth ein gallu i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac yn cynyddu'r risg o amodau tywydd eithafol a llifogydd yn y dyfodol.

4. Regrets the decision of the UK Government to cut support for clean energy projects, which threatens our ability to tackle climate change and will increase the risk of extreme weather conditions and flooding in the future.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau pendant ar unwaith i gefnogi cymunedau y mae llifogydd wedi effeithio arnynt, gan gynnwys:

5. Calls on the Welsh Government to take immediate, tangible action to support flood-hit communities, including:

a) archwilio hyfywedd darparu rhyddhad ardrethi i'r busnesau yr effeithiwyd arnynt;

a) exploring the viability of providing rate relief to impacted businesses;

b) adolygu sut y mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn ymateb i amodau tywydd gwael, gan asesu yn enwedig sut y rheolir yr A55 mewn perthynas â llifogydd;

b) reviewing how the Trunk Road Agency responds to adverse weather conditions, and in particular assessing the management of the A55 in relation to flooding;

c) adolygu'r dystiolaeth ar gyfer darparu rhyddid ychwanegol i ffermwyr a thirfeddianwyr ymgymryd ag unrhyw waith angenrheidiol i glirio ffosydd, draeniau a sianeli amaethyddol; a

c) reviewing the evidence for providing additional freedoms to farmers and landowners to undertake any necessary clearance of ditches, drains and agricultural channels; and

d) asesu sut y gall y rhaglen datblygu gwledig gefnogi cynlluniau atal llifogydd yn well i gymunedau yr effeithir arnynt gan lifogydd.

d) assessing how the Rural Development Programme can better support flood prevention schemes for communities affected by flooding.

e) hyrwyddo cynlluniau i liniaru ar y perygl o lifogydd drwy reoli tir mewn modd arloesol, gan gynnwys drwy blannu coed a llystyfiant i arafu dŵr ffo, adfer gwlyptiroedd a chreu cronfeydd llifogydd diogel.

e) promoting schemes to alleviate flood risk through innovative land management including by planting trees and vegetation to slow run-off, restoring wetland areas, and creating safe flood reservoirs.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau'r canllawiau cynllunio o ran datblygu ar dir sy'n dueddol i gael llifogydd;

6. Calls on the Welsh Government to strengthen the planning guidance regarding development on land susceptible to flooding;

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy o ddefnydd o'r amgylchedd naturiol wrth reoli risg llifogydd.

7. Calls on the Welsh Government to make more use of the natural environment in its management of flood risk.

17:14

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 40. There voted against 13. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 40 o blaid. Pleidleisiodd 13 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd y cynnig NDM5923 fel y'i diwygiwyd: O blaid 40, Yn erbyn 13, Ymatal 0.*

*Motion NDM5923 as amended agreed: For 40, Against 13, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5923 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5923 as amended.

17:15

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd ask those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

17:15

## 8. Dadl Fer: Strategaeth Genedlaethol ar Ddementia i Gymru—Ymateb i Her Iechyd Ein Hamser

## 8. Short Debate: A National Dementia Strategy for Wales—Responding to the Health Challenge of Our Time

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 8 is the short debate. I call on Lynne Neagle to speak on the topic she has chosen.

Eitem 8 yw'r ddadl fer. Galwaf ar Lynne Neagle i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

17:15 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm really pleased to have the opportunity today to lead a short debate on what I see as the major health challenge of our time. Living with dementia is a reality for almost 44,000 people and their families across Wales. These numbers are set to rise by a third by 2021 and by as much as 44 per cent in some rural areas. The estimated total worldwide cost has reached $521 billion. By 2018, it will become a staggering trillion-dollar disease. With one in three people born in 2015 likely to develop the disease, our NHS will need the right resources and plans to cope, and society will need to make a massive cultural change to become dementia-friendly. A comprehensive dementia strategy would provide the tools to do this.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael y cyfle heddiw i arwain dadl fer ar yr hyn rwy'n ei ystyried yn brif her iechyd ein cyfnod ni. Mae byw gyda dementia yn realiti i bron 44,000 o bobl a'u teuluoedd ledled Cymru. Mae'n debygol y bydd y niferoedd draean yn uwch erbyn 2021 a chymaint â 44 y cant yn uwch mewn rhai ardaloedd gwledig. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost ledled y byd wedi cyrraedd $521 biliwn. Erbyn 2018, bydd yn glefyd triliwn doler, sy'n swm syfrdanol. Gydag un o bob tri o bobl a anwyd yn 2015 yn debygol o ddatblygu'r clefyd, bydd angen i'n GIG gael yr adnoddau a'r cynlluniau cywir i allu ymdopi, a bydd angen i gymdeithas gyflawni newid diwylliannol enfawr er mwyn dod yn ddementia-gyfeillgar. Byddai strategaeth ddementia gynhwysfawr yn darparu'r adnoddau i wneud hyn.

I tabled this short debate before Monday's 'Together for Mental Health' consultation announcement that commits to producing a dementia strategic plan by the end of this year. I really welcome that announcement as a firm commitment by the Minister, but there remains important ground to cover today to ensure that that strategic plan, which is still in consultation form, is as robust as I envisaged when I first raised this topic. I've agreed to give a minute each to Aled Roberts and Jenny Rathbone, subject to time.

Cyflwynais y ddadl fer hon cyn y cyhoeddiad ddydd Llun ar yr ymgynghoriad 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' sy'n ymrwymo i gynhyrchu cynllun strategol ar ddementia erbyn diwedd y flwyddyn hon. Rwy'n llwyr groesawu'r cyhoeddiad hwnnw fel ymrwymiad cadarn gan y Gweinidog, ond mae pethau pwysig i'w trafod heddiw o hyd i sicrhau bod y cynllun strategol, sy'n dal i fod ar ffurf ymgynghoriad, mor gadarn ag y rhagwelais pan dynnais sylw at y pwnc hwn yn gyntaf. Rwyf wedi cytuno i roi munud yr un i Aled Roberts a Jenny Rathbone, os oes digon o amser.

In recent years, dementia has been at the forefront of press coverage and rightly earned its place on the global agenda through the G8 summit and beyond. Governments worldwide have shown goodwill in funding and resources, and, in Wales, this has meant a £5.5 million investment last year alone to help patients and families access the best support and information, new primary care support workers, investment in occupational therapy on older people's mental health wards, funding dementia link nurses who work closely with GPs and primary care services, dementia training for NHS staff, a 24-hour bilingual helpline, and awareness-raising measures. This has been followed by calls from the Alzheimer's Society for a dementia strategy.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae dementia wedi cael sylw blaenllaw yn y wasg ac enillodd le priodol ar yr agenda fyd-eang drwy uwchgynhadledd y G8 a thu hwnt. Mae llywodraethau ledled y byd wedi dangos ewyllys da gyda chyllid ac adnoddau, ac yng Nghymru, mae hyn wedi golygu buddsoddiad o £5.5 miliwn y flwyddyn ddiwethaf yn unig i helpu cleifion a theuluoedd i gael y cymorth a'r wybodaeth orau, gweithwyr cymorth gofal sylfaenol newydd, buddsoddiad mewn therapi galwedigaethol ar wardiau iechyd meddwl pobl hŷn, ariannu nyrsys cyswllt dementia sy'n gweithio'n agos gyda meddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol, hyfforddiant dementia i staff y GIG, llinell gymorth ddwyieithog 24 awr, a mesurau codi ymwybyddiaeth. I ddilyn hyn cafwyd galwadau gan Gymdeithas Alzheimer am strategaeth ddementia.

Dementia has, according to surveys, overtaken cancer as the UK's most feared illness, and I believe it warrants parity of commitment with cancer, where strategy has had an impact in Wales. So, despite a positive dementia action plan and vision in Wales, I believe we need the back-up of a comprehensive, fully resourced strategy with clear lines of accountability for delivery. I was really pleased to see the commitment to a dementia strategic plan in the 'Together for Mental Health' consultation published this week. It follows on from you, Minister, signing the Glasgow declaration, which commits to developing national strategies and firmly lays the next steps for tackling the dementia challenge.

Yn ôl arolygon, mae dementia wedi codi uwchlaw canser fel y salwch y mae pobl yn ei ofni fwyaf yn y DU, ac rwy'n credu ei fod yn cyfiawnhau ymrwymiad sy'n gydradd â chanser, lle y mae strategaeth wedi cael effaith yng Nghymru. Felly, er bod gennym gynllun gweithredu cadarnhaol a gweledigaeth ar ddementia yng Nghymru, rwy'n credu ein bod angen strategaeth gynhwysfawr i'w cefnogi, strategaeth gydag adnoddau llawn a llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni. Roeddwn yn falch iawn o weld yr ymrwymiad i gynllun strategol ar ddementia yn yr ymgynghoriad 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' a gyhoeddwyd yr wythnos hon. Mae'n dilyn ymlaen o'r ffaith eich bod chi, Weinidog, wedi llofnodi datganiad Glasgow, sy'n ymrwymo i ddatblygu strategaethau cenedlaethol ac yn gosod y camau nesaf yn gadarn ar gyfer mynd i'r afael â her dementia.

However, there is still work to do in ensuring a robust, fit-for-purpose strategy that encompasses all aspects of what a comprehensive plan for such a major health challenge should look like. Today's debate is therefore timely. I want to reinforce the context and hopefully gain assurances today on the Minister's vision of what a final strategy would look like. The UK context is crucial here. Members will be aware of developments in England, their strategy and the Prime Minister's dementia challenge that followed. Whilst I welcome any move in any part of the UK to support those living with dementia, it is worth pointing out that I do not see the English strategy as a blueprint to follow. I know that the Alzheimer's Society has concerns about issues around the lack of accountability and the lack of ring fencing that we can learn from going forward in Wales.

Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd ar sicrhau strategaeth gadarn, sy'n addas i'r diben ac yn cwmpasu pob agwedd ar yr hyn y dylai cynllun cynhwysfawr ar gyfer her iechyd mor fawr ei gynnwys. Mae'r ddadl heddiw yn amserol felly. Rwyf am gadarnhau'r cyd-destun a chael sicrwydd heddiw, gobeithio, ynghylch gweledigaeth y Gweinidog ynglŷn â'r hyn a fyddai'n strategaeth derfynol. Mae cyd-destun y DU yn hanfodol yma. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o ddatblygiadau yn Lloegr, eu strategaeth a her dementia y Prif Weinidog a'i dilynodd. Er fy mod yn croesawu unrhyw gamau mewn unrhyw ran o'r DU i gefnogi'r rhai sy'n byw gyda dementia, mae'n werth nodi nad wyf yn gweld strategaeth Lloegr fel glasbrint i'w ddilyn. Gwn fod gan y Gymdeithas Alzheimer bryderon am faterion yn ymwneud â diffyg atebolrwydd a diffyg neilltuo cyllid y gallwn ddysgu ohonynt wrth symud ymlaen yng Nghymru.

We have the opportunity now, going into a new budget year, to take those lessons learned and deliver a robust strategy, one that incorporates the voice of patients and delivers a high-quality service across the whole of Wales. My calls today build on those of the Alzheimer's Society. A comprehensive, fully resourced national strategy, to my mind, must be a road map of a patient's journey from diagnosis, enabling independent living for as long as possible, through to palliative care. Additionally, it must plan for a culture change, making Wales a dementia-friendly nation, building on the progress we've already seen in some communities, including in Torfaen.

Mae gennym gyfle yn awr, wrth gychwyn ar flwyddyn gyllidebol newydd, i ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd a chyflwyno strategaeth gadarn sy'n ymgorffori llais cleifion ac yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws Cymru gyfan. Mae fy ngalwadau heddiw yn adeiladu ar alwadau Cymdeithas Alzheimer. Yn fy marn i, rhaid i strategaeth genedlaethol gynhwysfawr, gydag adnoddau llawn, fapio taith y claf o gael diagnosis, gan ei alluogi i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd, hyd at ofal lliniarol. Yn ogystal, rhaid iddi gynllunio ar gyfer newid diwylliant, gan wneud Cymru'n genedl ddementia-gyfeillgar, ac adeiladu ar y cynnydd a welsom eisoes mewn rhai cymunedau, gan gynnwys yn Nhorfaen.

A strategy that delivers for 44,000 Welsh patients, and plans for projected increases of a third by 2021, I believe should take account of the following factors. Diagnosis targets are a clear starting point. It's at the point that patients receive what is inevitably devastating news that they can start to come to terms with it and to plan for what lies ahead. I recognise the Minister's 50 per cent target for GP dementia registers and the stepping stone this provides for gradual, yearly increases, however there is more work to do. Fifty per cent would not be right for comparable diseases like cancer, and I'm aware of calls from the Alzheimer's Society for targets around the 75 per cent benchmark in each local health board by 2021. However, I do note the Minister's commitment to increase targets annually and I'm interested in hearing further detail on plans in place to grow this target to reach 75 per cent.

Rwy'n credu y dylai strategaeth sy'n cyflawni ar gyfer dros 44,000 o gleifion yng Nghymru, a chynlluniau ar gyfer y cynnydd o draean a ragwelir erbyn 2021, roi sylw i'r ffactorau canlynol. Mae targedau diagnosis yn fan cychwyn clir. Ar yr adeg y bydd cleifion yn cael yr hyn sy'n anochel yn newyddion dinistriol, dyna pryd y byddant yn gallu dechrau dod i delerau ag ef a chynllunio ar gyfer yr hyn sydd i ddod. Rwy'n cydnabod targed y Gweinidog o 50 y cant ar gyfer cofrestrau dementia meddygon teulu a'r garreg gamu y bydd hyn yn ei darparu ar gyfer cynnydd graddol, blynyddol, ond mae mwy o waith i'w wneud. Ni fyddai 50 y cant yn iawn ar gyfer afiechydon y gellid cymharu â hwy megis canser, ac rwy'n ymwybodol o alwadau gan Gymdeithas Alzheimer am dargedau o gwmpas meincnod o 75 y cant ym mhob bwrdd iechyd lleol erbyn 2021. Fodd bynnag, rwy'n sylwi ar ymrwymiad y Gweinidog i gynyddu'r targedau'n flynyddol ac mae gennyf ddiddordeb mewn clywed mwy o fanylion am y cynlluniau sydd ar waith i gynyddu'r targed hwn i gyrraedd 75 y cant.

However, without the right support afterwards, a diagnosis just makes it harder to cope. I welcome the information packs provided by Welsh Government, as advocated by dementia charities and academics, but we need to go much further. Currently, only 39 per cent of patients in Wales get a named support worker, so I'm delighted that the 'Together for Mental Health' consultation identifies the need to improve this. However, I do believe the suggested one support worker per two GP clusters needs urgently looking at again. The Alzheimer's Society estimate that that would be around 32 workers for the whole of Wales. However, at the current diagnosis rate, they estimate Wales would require 370 dementia support workers to meet the current diagnosis rate, and as many as 650 if we are to be able to get diagnosis rates up to 75 per cent.

Fodd bynnag, heb y cymorth iawn wedyn, nid yw diagnosis ond yn ei gwneud yn anos ymdopi. Rwy'n croesawu'r pecynnau gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, fel yr argymhellwyd gan elusennau dementia ac academyddion, ond mae angen mynd yn llawer pellach. Ar hyn o bryd, 39 y cant yn unig o gleifion yng Nghymru sy'n cael gweithiwr cymorth penodol, felly rwyf wrth fy modd fod ymgynghoriad 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn nodi'r angen i wella hyn. Fodd bynnag, rwy'n credu bod angen edrych eto ar frys ar y ffaith mai un gweithiwr cymorth i bob dau glwstwr o feddygon teulu a awgrymwyd. Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn amcangyfrif y byddai hynny oddeutu 32 o weithwyr ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag, yn ôl y gyfradd ddiagnosis ar hyn o bryd, maent yn amcangyfrif y byddai Cymru angen 370 o weithwyr cymorth dementia i ateb y gyfradd ddiagnosis bresennol, a chymaint â 650 os ydym am allu codi cyfraddau diagnosis i 75 y cant.

The creation of support workers is along the lines of the model in Scotland, where their strategy has identified a link worker model, whereby those diagnosed have a minimum of one year's post-diagnostic support. A defining aspect is that it can be activated by the patient at any time when they feel they need it, and delivers a person-centred support plan for those who need it.

Mae creu gweithwyr cymorth yn debyg i'r model yn yr Alban, lle y disgrifiodd eu strategaeth fodel gweithwyr cyswllt, gyda'r rhai a gafodd ddiagnosis yn cael blwyddyn fan lleiaf o gymorth yn dilyn diagnosis. Un agwedd ddiffiniol yw y gall claf ddefnyddio'r cymorth ar unrhyw adeg y mae'n teimlo'i fod ei angen, ac mae'n darparu cynllun cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer y rhai sydd ei angen.

Joined-up working between health and social care teams needs to ensure seamless transition from one aspect of healthcare to another. We have a very positive story to tell in Wales, where our Welsh Labour Government has protected our social services budgets from being cut to the bone like in England. Initiatives like the intermediate care fund, which I saw in action at Nevill Hall recently, are making strides in preventing hospital admissions and reducing lengths of stay.

Mae angen gweithio cydgysylltiedig rhwng timau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau pontio di-dor o un agwedd ar ofal iechyd i un arall. Mae gennym stori gadarnhaol iawn i'w hadrodd yng Nghymru, lle y mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwarchod ein cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol rhag cael eu torri i'r byw fel yn Lloegr. Mae mentrau fel y gronfa gofal canolraddol, a welais ar waith yn Nevill Hall yn ddiweddar, yn gwneud cynnydd i atal derbyniadau i'r ysbyty a lleihau hyd arosiadau.

The Alzheimer's Society identifies divides in health and social care as a major issue to overcome, especially as unprecedented cuts from Westminster are leaving some without access to support. I've always made the case for investment in social care and I'm delighted to see an additional £21 million for social services in the Welsh Government draft budget. It means that we can invest today for a sustainable healthcare system, unlike in England, where the Chancellor promises cash for the NHS while cutting other parts of the health and social care budget to fund it.

Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn nodi bod rhaniadau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn fater pwysig i'w oresgyn, yn enwedig gan fod toriadau digynsail o San Steffan yn gadael rhai heb fodd o gael cymorth. Rwyf wedi dadlau bob amser dros fuddsoddi mewn gofal cymdeithasol ac rwyf wrth fy modd yn gweld £21 miliwn yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae'n golygu y gallwn fuddsoddi heddiw ar gyfer system gofal iechyd gynaliadwy, yn wahanol i Loegr, lle y mae'r Canghellor yn addo arian ar gyfer y GIG gan gwtogi rhannau eraill o'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol i'w hariannu.

I also welcome new targets announced on Monday for training health and social care professionals. But, while I welcome this ambition, I would like to see higher targets, given that dementia friends training is only an hour long and should be achievable for the vast majority of staff. I visited Nevill Hall last Friday to see for myself how nursing and other healthcare staff were being trained in dementia awareness. I was so encouraged to hear of the dementia-friendly environment being created. Aneurin Bevan health board is already planning for the new specialist critical care centre in Cwmbran to be dementia-friendly from day one. With 50 per cent of staff already trained, they are well on their way to meeting the new target.

Rwyf hefyd yn croesawu targedau newydd a gyhoeddwyd ddydd Llun ar gyfer hyfforddi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Ond er fy mod yn croesawu'r uchelgais hwn, hoffwn weld targedau uwch, o ystyried bod hyfforddiant ffrindiau dementia ond yn awr o hyd a dylai fod yn gyraeddadwy i'r mwyafrif helaeth o staff. Ymwelais â Nevill Hall ddydd Gwener diwethaf i weld drosof fy hun sut y câi staff nyrsio a staff gofal iechyd arall eu hyfforddi mewn ymwybyddiaeth dementia. Cefais fy nghalonogi cymaint o glywed am yr amgylchedd dementia-gyfeillgar sy'n cael ei greu. Mae Bwrdd iechyd Aneurin Bevan eisoes yn cynllunio i sicrhau bod y ganolfan gofal critigol arbenigol newydd yng Nghwmbrân yn ddementia-gyfeillgar o'r diwrnod cyntaf. Gyda 50 y cant o'r staff wedi'u hyfforddi eisoes, maent yn bendant ar y trywydd i gyrraedd y targed newydd.

Services like the rapid assessment interface and discharge service are also making a huge impact, and ward investment in dementia-friendly rooms and memory boxes is great to see. Simple things like bright colours, picture signs, the use of the 'This is me' booklets, and communication with relatives were key to keeping patients as independent and happy as possible.

Mae gwasanaethau fel y gwasanaeth asesu, rhyngwyneb a rhyddhau cyflym hefyd yn cael effaith enfawr, ac mae'n wych gweld buddsoddiad wardiau mewn ystafelloedd dementia-gyfeillgar a blychau cof. Mae pethau syml fel lliwiau llachar, arwyddion ar ffurf lluniau, y defnydd o'r llyfrynnau 'Dyma fi', a chyfathrebu â pherthnasau yn allweddol i gadw cleifion mor annibynnol a hapus ag y bo modd.

Minister, your consultation commits to a 60 per cent training target. I would personally like to see a higher target, but I'm delighted to see you taking action and I await further detail of how this will work across all healthcare staff in primary and secondary care, and a breakdown of targets and milestones to achieve and exceed it.

Weinidog, mae eich ymgynghoriad yn ymrwymo i darged hyfforddi o 60 y cant. Yn bersonol, hoffwn weld targed uwch, ond rwy'n falch iawn eich bod yn rhoi camau ar waith ac rwy'n disgwyl rhagor o fanylion ynglŷn â sut y bydd hyn yn gweithio ar draws yr holl staff gofal iechyd mewn gofal sylfaenol ac eilaidd, a dadansoddiad o'r targedau a cherrig milltir i'w cyflawni a rhagori arnynt.

I'm also aware that reviews by the older people's commissioner for Wales into care homes and hospital wards have highlighted a lack of staff training, and would be interested in hearing more about how you will continue to work with the commissioner to ensure high-quality dementia services in these settings, going forward.

Rwyf hefyd yn ymwybodol fod adolygiadau gan gomisiynydd pobl hŷn Cymru o gartrefi gofal a wardiau ysbyty wedi amlygu diffyg hyfforddiant staff, a byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed mwy ynglŷn â sut y byddwch yn parhau i weithio gyda'r comisiynydd i sicrhau gwasanaethau dementia o ansawdd uchel yn y lleoliadau hyn, wrth symud ymlaen.

Dementia is a diagnosis for the whole family, so support for carers is essential in achieving the shift in society needed to cope with this health challenge. Unpaid carers make up two thirds of dementia care provision. Estimated at £622 million, they bear the largest single cost element of dementia, yet this happens against a backdrop of cuts to respite care in places like Torfaen. I do not lay this at the door of local authorities or the Welsh Government, which have had to cope with decreasing budgets and increased demand, but it does need recognition. Given this, I hope that Welsh Government will work with Carers Wales and other organisations to ensure a fair deal for carers in the strategic plan.

Mae dementia yn ddiagnosis i'r teulu cyfan, felly mae cymorth i ofalwyr yn hanfodol er mwyn cyflawni'r newid yn y gymdeithas sydd ei angen i ymdopi â'r her iechyd hon. Gofalwyr di-dâl yw dwy ran o dair o'r ddarpariaeth gofal dementia. Hwy sy'n ysgwyddo'r elfen gost unigol fwyaf ym maes dementia, yr amcangyfrifir ei bod yn £622 miliwn, ac eto mae hyn yn digwydd yng nghyd-destun toriadau i ofal seibiant mewn llefydd fel Torfaen. Nid wyf yn rhoi'r bai am hyn ar awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru, sydd wedi gorfod ymdopi â chyllidebau'n lleihau a mwy o alw, ond mae angen ei gydnabod. O ystyried hyn, rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofalwyr Cymru a sefydliadau eraill i sicrhau bargen deg i ofalwyr yn y cynllun strategol.

On the other end of the spectrum, public awareness is essential to increase people's understanding of risk factors. I'm aware that the Welsh Government is currently working to help people reduce risks through taking simple steps. As a modern-day health challenge, dementia warrants a sustained public awareness campaign run by Public Health Wales like those in place for cancer and promoting healthy lifestyles. The consultation touches on this and commits to review annually, and I'd be interested to hear more detail from the Minister on this.

Ar ben arall y sbectrwm, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd yn hanfodol er mwyn cynyddu dealltwriaeth pobl o ffactorau risg. Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio i helpu pobl i leihau risgiau drwy roi camau syml ar waith. Fel her iechyd yn y cyfnod modern, mae dementia yn haeddu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus barhaus wedi'i chynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y rhai ar gyfer canser a hybu ffyrdd iach o fyw. Mae'r ymgynghoriad yn cyffwrdd ar hyn ac yn ymrwymo i adolygu'n flynyddol, a byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed mwy o fanylion gan y Gweinidog am hyn.

The Alzheimer's Society are developing schools resources for key stages 2 and 3, and I fully support the need to raise awareness amongst children and young people. I would ask the Minister to consider working with Cabinet colleagues alongside the society to scope the potential for national best practice roll-out in schools.

Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn datblygu adnoddau ysgolion ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3, ac rwy'n llwyr gefnogi'r angen i godi ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog ystyried gweithio gyda chyd-Aelodau o'r Cabinet ochr yn ochr â'r gymdeithas i bwyso a mesur y potensial ar gyfer cyflwyno arferion gorau cenedlaethol mewn ysgolion.

Dementia-friendly communities are an aspect of the strategy that I feel incredibly passionate about and was pleased to lead a short debate on last year. Torfaen is the second community in Wales to receive recognition as a dementia-friendly community. Thanks to the hard work of our local champions like Councillor Mandy Owen and Phil Diamond, and input from businesses and organisations like Big Pit, we are making massive strides in changing the culture on the ground. We can learn lessons from this experience, and the work being undertaken in other communities like Brecon, to realise our shared ambition of Wales as a dementia-friendly nation.

Mae cymunedau dementia-gyfeillgar yn un agwedd ar y strategaeth rwy'n teimlo'n frwdfrydig iawn yn ei chylch ac roeddwn yn falch o arwain dadl fer ar hyn y llynedd. Torfaen yw'r ail gymuned yng Nghymru i gael ei chydnabod yn gymuned dementia-gyfeillgar. Diolch i waith caled ein hyrwyddwyr lleol fel y Cynghorydd Mandy Owen a Phil Diamond, a mewnbwn gan fusnesau a sefydliadau fel Big Pit, rydym yn gwneud cynnydd enfawr yn newid diwylliant ar lawr gwlad. Gallwn ddysgu gwersi o'r profiad hwn, a'r gwaith a wneir mewn cymunedau eraill megis Aberhonddu, i wireddu'r uchelgais a rannwn i wneud Cymru yn genedl dementia-gyfeillgar.

Central to all I have mentioned today is a dementia-proofing role to ensure practical delivery. We need a mechanism within Government to oversee delivery of the national dementia strategy. Robust monitoring is crucial. Suggested models mooted so far are similar to the cancer implementation group, a collegiate model that encompasses the third sector and academics. A dementia tsar has also been mentioned, although I recognise there are reservations about that particular term. I think we would all agree that we need a model that drives forward this work with measurable outcomes, and I would be interested in the Minister's thoughts on creating a robust oversight body with sufficient teeth across Government to ensure delivery.

Yn ganolog i'r cyfan rwyf wedi sôn amdano heddiw mae rôl prawfesur polisïau o safbwynt dementia i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n ymarferol. Mae arnom angen mecanwaith o fewn y Llywodraeth i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth genedlaethol ar ddementia. Mae monitro trylwyr yn hanfodol. Mae modelau a awgrymwyd hyd yn hyn yn debyg i'r grŵp gweithredu ar gyfer canser, model cyfunol sy'n cwmpasu'r trydydd sector ac academyddion. Crybwyllwyd tsar dementia hefyd, er fy mod yn cydnabod bod yna amheuon ynglŷn â'r enw penodol hwnnw. Rwy'n credu y byddem i gyd yn cytuno bod arnom angen model sy'n gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen gyda chanlyniadau mesuradwy, a byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed barn y Gweinidog ar greu corff trosolwg cadarn gyda digon o ddannedd ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni.

In conclusion, I welcome Monday's announcements and I recognise that this is the start of a consultation process. As we move through that process and begin to flesh out the policy and practical details, costs will inevitably arise. These would be offset by the £1.4 billion a year dementia costs the Welsh NHS. We spend £30,000 per head on treatment and support—more per head than cancer or heart disease. The case for a strategy that is proportionate to the economic and social impact of dementia has never been clearer. Given that last week, Minister, you described dementia as the policy and practical challenge of our era, I'm looking forward to hearing your thoughts on how we can take forward the points I've raised today in developing the very best possible strategy for Wales. Thank you.

I gloi, rwy'n croesawu'r cyhoeddiadau ddydd Llun ac rwy'n cydnabod mai dechrau'r broses ymgynghori yw hwn. Wrth i ni symud drwy'r broses honno a dechrau rhoi cnawd ar esgyrn y polisi a'r manylion ymarferol, mae'n annochel y bydd y costau'n codi. Byddai'r rhain yn cael eu gwrthbwyso gan y £1.4 biliwn y flwyddyn y mae dementia yn ei gostio i'r GIG yng Nghymru. Rydym yn gwario £30,000 y pen ar driniaeth a chymorth—mwy y pen nag ar ganser neu glefyd y galon. Nid yw'r achos dros gael strategaeth sy'n gymesur ag effaith economaidd a chymdeithasol dementia wedi bod yn gliriach. O gofio eich bod wedi disgrifio dementia yr wythnos diwethaf, Weinidog, fel polisi a her ymarferol ein cyfnod ni, rwy'n edrych ymlaen at glywed eich barn ynglŷn â sut y gallwn fwrw ymlaen â'r pwyntiau rwyf wedi'u crybwyll heddiw a datblygu'r strategaeth orau sy'n bosibl ar gyfer Cymru. Diolch.

17:29 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank Lynne Neagle for bringing this matter before us today and also welcome the announcement that was made on Monday? One issue that I would like to raise is the increasing incidence of early onset dementia and the fact that many of our services are actually channelling even those individuals, some of whom are younger than me, into elderly people's services. I think there's also an issue with regard to commissioning, in that I have a constituent in my home village who has been moved 55 miles from his family, which means that his elderly mother is no longer able to visit him in the residential home. So, I hope that this consultation will give us the opportunity to bring those matters to the attention of Government.

A gaf fi ddiolch i Lynne Neagle am ddod â'r mater hwn ger ein bron heddiw a chroesawu hefyd y cyhoeddiad a wnaed ddydd Llun? Un mater yr hoffwn ei godi yw nifer yr achosion cynyddol o ddementia cynnar a'r ffaith fod llawer o'n gwasanaethau yn sianelu'r unigolion hynny hyd yn oed, rai ohonynt yn iau na mi, i mewn i wasanaethau pobl hŷn. Rwy'n meddwl bod yna broblem hefyd mewn perthynas â chomisiynu, gan fod gennyf un etholwr yn fy mhentref sydd wedi cael ei symud 55 milltir oddi wrth ei deulu, sy'n golygu nad yw ei fam oedrannus yn gallu ymweld ag ef mwyach yn y cartref preswyl. Felly, rwy'n gobeithio y bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i ddod â'r materion hyn i sylw'r Llywodraeth.

17:29 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also thank Lynne Neagle for raising this very important subject. Given the size of the problem, it absolutely is everybody's problem. We all need to become dementia friendly, but we're some way off where we need to be, which we have to recognise. So, dementia-friendly lunch clubs are difficult for me to envisage at the moment, given the level of public awareness and understanding of what dementia means for people who appear to be quite fit and well but actually are struggling mentally.

Diolch hefyd i Lynne Neagle am grybwyll y pwnc pwysig hwn. O ystyried ei maint, mae'n bendant yn broblem i bawb. Mae angen i ni i gyd ddod yn ddementia-gyfeillgar, ond rydym yn bell o ble y mae angen i ni fod, a rhaid i ni gydnabod hynny. Felly, mae clybiau cinio dementia-gyfeillgar yn anodd i mi eu rhagweld ar hyn o bryd, o ystyried lefel ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae dementia yn ei olygu i bobl sy'n ymddangos yn eithaf heini ac iach, ond sy'n cael trafferthion meddyliol.

I recently visited the day centre run by the Alzheimer's Society in Penylan in my constituency, which is threatened with closure, sadly, because the council is possibly proposing to withdraw the £160,000 funding. I'm particularly concerned that any service will be relocated to right the other side of Cardiff, which means that the respite service that it provides for the families of people with dementia is completely undermined if they're going to have to take their relatives across to the other side of Cardiff to get there and, in addition to which, there's all the disruption that goes from moving such people and the level of change. So, I hope that this review will give us the opportunity to discuss this further.

Yn ddiweddar, ymwelais â'r ganolfan ddydd a gynhelir gan Gymdeithas Alzheimer yn Mhenylan yn fy etholaeth, sy'n wynebu bygythiad o gau, yn anffodus, oherwydd bod y cyngor o bosibl yn argymell diddymu'r cyllid o £160,000. Rwy'n arbennig o bryderus y bydd unrhyw wasanaeth yn cael ei adleoli i ben arall Caerdydd, sy'n golygu bod y gwasanaeth seibiant y mae'n ei ddarparu ar gyfer teuluoedd pobl â dementia yn cael ei danseilio'n gyfan gwbl os ydynt yn mynd i orfod mynd â'u perthnasau i ben arall Caerdydd er mwyn cyrraedd yno ac ar ben hynny, mae'r holl darfu sy'n digwydd wrth symud pobl o'r fath a lefel y newid. Felly, rwy'n gobeithio y bydd yr adolygiad hwn yn rhoi cyfle i ni drafod hyn ymhellach.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

17:31 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Can I too thank Lynne for tabling today's debate, and the other colleagues who made contributions? There is no doubt that dementia poses an absolutely significant challenge for health and social services alike, and indeed for us all as citizens. The title of the debate, 'the health challenge of our time'—the health challenge of our era—recognises the magnitude of the task before us.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi hefyd ddiolch i Lynne am gyflwyno'r ddadl heddiw, a'r cyd-Aelodau eraill a gyfrannodd? Nid oes amheuaeth fod dementia yn peri her wirioneddol fawr i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel ei gilydd, ac yn wir i ni i gyd fel dinasyddion. Mae teitl y ddadl, 'her iechyd ein cyfnod ni'—her iechyd ein hoes ni—yn cydnabod maint y dasg sydd o'n blaenau.

Can I just begin by making one more general point, however, about the way that we talk about dementia? I had a very interesting discussion with the senior management committee of the Alzheimer's Society in the United Kingdom, who came to Wales just before Christmas to hold one of their meetings here. The debate that they were having was about—despite the enormous success of dementia-friendly communities—why it is still difficult to engage members of the public in a conversation about dementia. They were contrasting that with the success that some other health conditions have had in engaging people in that sort of debate. I think that the consensus around the room was that one of the things that we have to try and inject into the discussion of dementia is some hope for the future in this condition; that if we talk about dementia all the time as though it was utterly determined that it will get worse, that the numbers will grow, and that there is nothing we can do to change the pattern, then that becomes very difficult as a platform from which you can try and persuade people to become involved in a debate.

A gaf fi ddechrau drwy wneud un pwynt mwy cyffredinol, fodd bynnag, am y ffordd rydym yn siarad am ddementia? Cefais drafodaeth ddiddorol iawn gydag uwch-bwyllgor rheoli Cymdeithas Alzheimer yn y Deyrnas Unedig, a ddaeth i Gymru ychydig cyn y Nadolig i gynnal un o'u cyfarfodydd yma. Roedd y ddadl a gawsant—er gwaethaf llwyddiant enfawr cymunedau dementia-gyfeillgar—yn ymwneud â pham ei bod yn dal i fod yn anodd ennyn diddordeb aelodau o'r cyhoedd mewn trafodaeth ynglŷn â dementia. Roeddent yn cyferbynnu hynny â'r llwyddiant i gynnwys pobl mewn trafodaethau am rai cyflyrau iechyd eraill. Credaf mai'r consensws o gwmpas yr ystafell oedd mai un o'r pethau y mae'n rhaid i ni geisio'i gynnwys yn y drafodaeth ar ddementia yw rhywfaint o obaith ar gyfer y dyfodol ynglŷn â'r cyflwr hwn; os ydym yn siarad am ddementia drwy'r amser fel pe bai'n wirioneddol benderfynol o waethygu, fod y niferoedd yn mynd i gynyddu, ac nad oes dim y gallwn ei wneud i newid y patrwm, yna mae'n mynd i fod yn sylfaen anodd iawn ar gyfer ceisio perswadio pobl i gymryd rhan yn y drafodaeth.

Now, there are predictions, as Lynne Neagle said, that by 2021 the numbers of individuals with dementia will rise by 31 per cent. All I want to say is that it is important not to take an overly mechanistic or deterministic approach to what will happen in the future. Two decades ago, if you go back to the early 1990s, there was a major Department of Health study that predicted the number of people who would suffer from dementia in the United Kingdom two decades later. That study said that by 2011 8.3 per cent of the population would have dementia. In fact, in that year, the figure was 24 per cent lower than predicted.

Erbyn hyn, ceir rhagfynegiadau, fel y dywedodd Lynne Neagle, y bydd nifer yr unigolion â dementia yn codi 31 y cant erbyn 2021. Y cyfan rwyf am ei ddweud yw ei bod yn bwysig peidio â chymryd ymagwedd rhy beirianaethol neu benderfyniadol ynglŷn â beth fydd yn digwydd yn y dyfodol. Ddau ddegawd yn ôl, os ewch yn ôl i'r 1990au cynnar, cafwyd astudiaeth fawr gan yr Adran Iechyd yn darogan faint o bobl a fyddai'n dioddef o ddementia yn y Deyrnas Unedig ddau ddegawd yn ddiweddarach. Roedd yr astudiaeth honno'n dweud y byddai 8.3 y cant o'r boblogaeth â dementia erbyn 2011. Yn wir, yn y flwyddyn honno, roedd y ffigur 24 y cant yn is nag a ragwelwyd.

Not only are there things that we can do to have an impact on the reservoir of dementia that there is in the population already, but there are new and emerging forms of treatment that might make a revolutionary difference to the way in which this disease has an impact on our society in the future. Many Members here will have seen reports in the last couple of weeks alone of clinical trials exploring the potential for a vaccine that could potentially slow or halt the progression of Alzheimer's disease.

Nid yn unig fod yna bethau y gallwn eu gwneud i effeithio ar y gronfa o ddementia sy'n bodoli eisoes yn y boblogaeth, ond hefyd ceir mathau newydd o driniaeth sy'n dod i'r amlwg a allai wneud gwahaniaeth chwyldroadol i'r ffordd y mae'r clefyd hwn yn effeithio ar ein cymdeithas yn y dyfodol. Bydd llawer o'r Aelodau yma wedi gweld adroddiadau yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf yn unig o dreialon clinigol sy'n archwilio potensial brechlyn a allai arafu neu atal datblygiad clefyd Alzheimer.

I don't say this at all in a naive sense of saying that there's nothing here to be concerned about. Of course there is, but if we don't manage to hang on, in the debates that we have, a sense of how the future could be different to the present or the past, then I don't think we will make the progress that we would like to see.

Nid wyf yn dweud hyn o gwbl yn yr ystyr naïf o ddweud nad oes dim yma i fod yn bryderus yn ei gylch. Wrth gwrs bod, ond os na lwyddwn i ddal ein gafael, yn y trafodaethau a gawn, ar ymdeimlad o sut y gallai'r dyfodol fod yn wahanol i'r presennol neu'r gorffennol, yna nid wyf yn meddwl y byddwn yn gwneud y cynnydd y byddem yn hoffi'i weld.

In relation to the reason why, 20 years after 1991, the figures turned out to be not at the level that had been predicted, 'The Lancet' said that this was because of the steps that have been taken in better public health understanding. Lynne asked me in her contribution to outline some of the strands that I think our new dementia strategy needs to have in it. Here's one: a new emphasis on prevention. The Caerphilly cohort study shows us absolutely clearly the extent to which the risk of developing dementia can be influenced by decisions that individuals take in their own lives. In February, I hope to launch a dementia risk awareness campaign to encourage people to—in the slogan that we will use for the campaign—'act now' to reduce their own risk of dementia. We can do this by being active, checking our health regularly, trying new things, not smoking, only occasionally drinking alcohol, and by watching our weight. All of those things are simple and within the hands—to one extent or another—of most of our fellow citizens. If people do that, then, 'The Lancet' concluded, that's what had made the difference over the last 20 years, and we can make more of a difference over the 20 years ahead.

O ran y rheswm pam nad yw'r ffigurau, 20 mlynedd ar ôl 1991, ar y lefel a ragwelwyd, dywedodd 'The Lancet' mai'r rheswm oedd y camau a roddwyd ar waith i wella dealltwriaeth iechyd y cyhoedd. Gofynnodd Lynne i mi yn ei chyfraniad i amlinellu rhai o'r meysydd y credaf y dylai ein strategaeth ddementia newydd eu cynnwys. Dyma un: pwyslais newydd ar atal. Mae astudiaeth gohort Caerffili yn dangos i ni'n gwbl glir i ba raddau y gall penderfyniadau unigolion yn eu bywydau eu hunain ddylanwadu ar y risg o ddatblygu dementia. Ym mis Chwefror, rwy'n gobeithio lansio ymgyrch ymwybyddiaeth o risg dementia i annog pobl—yn y slogan y byddwn yn ei defnyddio ar gyfer yr ymgyrch—i fynd ati nawr i leihau eu risg bersonol o ddementia. Gallwn wneud hyn drwy fod yn weithgar, cadw llygad ar ein hiechyd yn rheolaidd, rhoi cynnig ar bethau newydd, peidio ag ysmygu, yfed alcohol yn achlysurol yn unig, a thrwy gadw llygad ar ein pwysau. Mae pob un o'r pethau hyn yn syml ac o fewn cyrraedd—i ryw raddau neu'i gilydd—i'r rhan fwyaf o'n cyd-ddinasyddion. Os yw pobl yn gwneud hynny, yna casgliad 'The Lancet' oedd mai dyna oedd wedi gwneud y gwahaniaeth dros yr 20 mlynedd diwethaf, a gallwn wneud mwy o wahaniaeth dros yr 20 mlynedd nesaf.

When it comes to investment in research, that will be another strand in the new strategy, because here in Wales, we have some world-leading research. We have world-leading research in Bangor University, which is looking at new ways in which people can go on living well with dementia. Here in Cardiff, in the university, in the neurosciences, we have some of our blue-sky research that may reveal new ways of addressing dementia that we haven't even thought of.

O ran buddsoddi mewn ymchwil, bydd honno'n elfen arall yn y strategaeth newydd, oherwydd yma yng Nghymru, mae gennym ymchwil o'r radd flaenaf. Mae gennym ymchwil o'r radd flaenaf ym Mhrifysgol Bangor, sy'n edrych ar ffyrdd newydd y gall pobl barhau i fyw yn dda gyda dementia. Yma yng Nghaerdydd, yn y brifysgol, ym maes niwrowyddorau, mae gennym beth o'n hymchwil heb orwelion a allai ddatgelu ffyrdd newydd o fynd i'r afael â dementia nad ydym wedi meddwl amdanynt eto hyd yn oed.

17:37

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think you visited Raglan—a dementia-friendly community. It's not just about that ground-breaking international research, is it? Local communities will increasingly have an important role to play, and local role models as well, as Raglan has.

Weinidog, rwy'n meddwl eich bod wedi ymweld â chymuned ddementia-gyfeillgar Rhaglan. Nid yw'n ymwneud yn unig â gwaith ymchwil rhyngwladol arloesol. Yn gynyddol, bydd gan gymunedau lleol rôl bwysig i'w chwarae, a modelau rôl lleol hefyd, fel sydd gan Raglan.

17:37

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I absolutely agree with that, and I will move on to talk about the way in which our ambition for Wales—a dementia-friendly nation—has its roots right in those local communities. The Raglan project was a very good example of the way in which a different approach to providing services to people at that community level was allowing people with early onset of dementia, and those early signs of needing extra help, to have help in a way that allowed them to go on living their lives in the way that they would want to see them lived for as long as possible.

Cytunaf yn llwyr â hynny, a byddaf yn symud ymlaen i sôn am y ffordd y mae ein huchelgais ar gyfer Cymru—cenedl ddementia-gyfeillgar—wedi'i seilio yn y cymunedau lleol hynny. Roedd prosiect Rhaglan yn enghraifft dda iawn o'r ffordd y mae dull gwahanol o ddarparu gwasanaethau i bobl ar y lefel gymunedol honno yn caniatáu i bobl â dementia cynnar, a'r arwyddion cynnar hynny o fod angen cymorth ychwanegol, i gael help mewn ffordd sy'n eu galluogi i barhau i fyw eu bywyd yn y ffordd y byddent eisiau ei fyw cyhyd ag y bo modd.

To do that, we need to do better in terms of diagnosis rates, and Lynne drew attention to this too. We know that there's more that we can do. That's why we are investing in a team of people to visit every residential and nursing home in Wales, as recommended by the Commissioner for Older People in Wales, to make sure that people who have dementia are properly diagnosed. We've chosen residential and nursing homes as our first port of call for that team because of a point that Lynne again made: it's no use offering simple diagnosis if there's nothing that you can do with a diagnosis that has been made. We know, from the work of the commissioner and of others, that there are those simple things—the physical layout, the fabric, the colour schemes, the way that doors are distinguished and so on—that can make a real difference to the way in which people who have a diagnosis of dementia can live their lives. As well as putting investment into diagnosis, we are funding a new cadre of dementia support workers based in primary care clusters. It's true that there are 32 of them in this first wave, and that is, I know, just a start. But they will be there to help those people who are newly diagnosed with dementia, and their families and their carers, to have access to information and advice, and to be put in touch with those facilities and services that are already available in local communities. It is those very local schemes, such as dementia cafes and meeting places, that are alert to and aligned with the needs of people with dementia. Those workers will help to bridge the gap between health and social care services on which people with dementia, and their families and their carers, very much rely.

I wneud hynny, mae angen i ni wneud yn well o ran cyfraddau diagnosis, a thynnodd Lynne sylw at hyn hefyd. Gwyddom fod yna fwy y gallwn ei wneud. Dyna pam ein bod yn buddsoddi mewn tîm o bobl i ymweld â phob cartref preswyl a chartref nyrsio yng Nghymru, fel yr argymhellodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, er mwyn sicrhau bod pobl sydd â dementia yn cael diagnosis cywir. Rydym wedi dewis cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio fel ein man galw cyntaf ar gyfer y tîm hwnnw oherwydd sylw a wnaeth Lynne eto: nid oes pwynt cynnig diagnosis syml os nad oes dim y gallwch ei wneud gyda'r diagnosis a wnaed. O waith y comisiynydd ac eraill, gwyddom fod yna rai pethau syml—y cynllun llawr ffisegol, adeiladwaith, cynllun lliw, y ffordd o ddynodi drysau ac yn y blaen—sy'n gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd y gall pobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia fyw eu bywydau. Yn ogystal â buddsoddi mewn diagnosis, rydym yn ariannu cnewyllyn newydd o weithwyr cymorth dementia mewn clystyrau gofal sylfaenol. Mae'n wir mai 32 ohonynt sydd yn y don gyntaf hon, a dechrau'n unig yw hynny, rwy'n gwybod. Ond byddant yno i helpu'r bobl sydd newydd gael diagnosis o ddementia, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, i gael mynediad at wybodaeth a chyngor, ac i'w rhoi mewn cysylltiad â chyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael eisoes mewn cymunedau lleol. Y cynlluniau lleol iawn hyn, megis caffis a mannau cyfarfod dementia, sy'n effro i anghenion pobl â dementia ac yn darparu ar eu cyfer. Bydd y gweithwyr hynny'n helpu i bontio'r bwlch rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y mae pobl â dementia, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn dibynnu'n fawr iawn arnynt.

We talked here on the floor of the Assembly yesterday about the pressures that are on accident and emergency departments, and one of those pressures is the number of older people in particular who come through the door of an A&E department where it is not always easy to distinguish in the first instance whether the confusion that someone might have is the result of a physical illness that they are experiencing, or whether it has a dementia component as well. That's why we are making sure that we have psychiatric liaison teams in all our district general hospitals in Wales, at the hospital front door. We're doing that because of the very good evidence there is from Cwm Taf, where this already happens, but other parts of the United Kingdom as well, that if you make a timely assessment of someone's mental health condition as they come through that front door, they stay in hospital for shorter lengths of time, they are put on the right ward more quickly, and they—[Interruption.] Yes, Altaf.

Buom yn siarad yma ar lawr y Cynulliad ddoe am y pwysau sydd ar adrannau damweiniau ac achosion brys, ac un achos dros ran o'r pwysau yw nifer y bobl hŷn yn arbennig sy'n dod drwy ddrws yr adran damweiniau ac achosion brys lle nad yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu ar y cychwyn a yw'r dryswch y gallai person fod yn dioddef ohono yn ganlyniad salwch corfforol, neu a oes elfen o ddementia yn bresennol hefyd. Dyna pam ein bod yn gwneud yn siŵr fod gennym dimau cyswllt seiciatrig yn ein holl ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghymru, wrth ddrws blaen yr ysbyty. Rydym yn gwneud hynny oherwydd y dystiolaeth dda iawn o Gwm Taf, lle y mae hyn eisoes yn digwydd, ond o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn ogystal, sy'n dangos bod gwneud asesiad amserol o gyflwr iechyd meddwl rhywun wrth iddynt ddod drwy'r drws blaen yn golygu eu bod yn aros yn yr ysbyty am gyfnodau byrrach o amser, maent yn cael eu rhoi ar y ward gywir yn gyflymach, ac maent—[Torri ar draws.] Ie, Altaf.

17:41

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. It is just about this using A&E doors for these patients. I think they should not be using that, because it is telling upon the wait of ambulances, and how long they will be waiting. I think we should have a second door for these people, not the A&E.

Diolch yn fawr iawn. Yr hyn a ddywedwch am ddefnyddio drysau adrannau damweiniau ac achosion brys ar gyfer y cleifion hyn: rwy'n credu na ddylent fod yn defnyddio hwnnw, oherwydd ei fod yn effeithio ar amser aros ambiwlansys, a pha mor hir y byddant yn aros. Rwy'n credu y dylai fod gennym ail ddrws ar gyfer y bobl hyn, nid drws yr adran ddamweiniau ac achosion brys.

17:41 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, Altaf Hussain will be very aware that, in a number of hospitals now in Wales, people do indeed bypass the A&E department because they're assessed in advance of arrival in hospital, and they go straight to the part of the hospital where they are most likely to need help. That's the way that the new Llanelli model, which we've discussed a number of times on the floor of this Assembly, is going to work. But, however you come into the system, having an early assessment of your mental health needs makes a difference to the rest of the journey from there on. Where we get in right in Wales, we do it very well. Members here will know that Neath Port Talbot Hospital was recently named as the best dementia-friendly hospital in the United Kingdom at the national dementia care awards. The things that we can do at Neath Port Talbot are things that we can do in other parts of Wales as well. So, prevention, early diagnosis, services to go with that diagnosis, and then, to pick up a point that a number of Members have made, making sure that the staff we have in our services are well prepared for what will be the bread and butter of their work in the health service—dealing with people later on in life, a significant number of whom will have, to one extent or another, dementia.

Wel, bydd Altaf Hussain yn ymwybodol iawn fod pobl mewn nifer o ysbytai yng Nghymru yn awr yn osgoi'r adran ddamweiniau ac achosion brys am eu bod yn cael eu hasesu cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty, ac maent yn mynd yn syth i'r rhan o'r ysbyty lle y maent yn fwyaf tebygol o gael help. Dyna'r ffordd y mae model newydd Llanelli, a drafodwyd gennym sawl gwaith ar lawr y Cynulliad hwn, yn mynd i weithio. Ond sut bynnag y byddwch yn dod i mewn i'r system, mae cael asesiad cynnar o'ch anghenion iechyd meddwl yn gwneud gwahaniaeth i weddill y daith o'r fan honno ymlaen. Pan fyddwn yn cael pethau'n iawn yng Nghymru, rydym yn ei wneud yn dda iawn. Bydd yr Aelodau yma yn gwybod bod Ysbyty Castell-nedd Port Talbot wedi'i enwi'n ddiweddar fel yr ysbyty dementia-gyfeillgar gorau yn y Deyrnas Unedig yn y gwobrau gofal dementia cenedlaethol. Mae'r pethau y gallwn eu gwneud yng Nghastell-nedd Port Talbot yn bethau y gallwn eu gwneud mewn rhannau eraill o Gymru hefyd. Felly, atal, diagnosis cynnar, gwasanaethau i fynd gyda'r diagnosis, ac yna, i godi pwynt a wnaeth nifer o'r Aelodau, gwneud yn siŵr fod y staff sydd gennym yn ein gwasanaethau yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer yr hyn fydd yn rhan ganolog o'u gwaith yn y gwasanaeth iechyd—ymdrin â phobl yn nes ymlaen mewn bywyd, y bydd nifer sylweddol ohonynt â rhyw raddau o ddementia.

We are having a real push in our GP practices to roll out the 'Managing Dementia in Primary Care' training materials. Designed here in Wales by GPs—it's for the whole of the primary care team. It can't actually be done in an hour. It involves taking half a day where the whole team, from the receptionist to the GP, all learn about the part that they can play in identifying people and responding to them properly. Beyond that, as well, when we get to that point in people's lives where the last lap of life is in sight, how do we make sure that our end-of-life care services are also properly in tune with the needs of people with dementia? The Hospice of the Valleys, where I was with Alun Davies a few months ago, and the St David's Hospice in north Wales, which I visited with Janet Finch-Saunders back in the autumn, are both places where new services are being provided on the ground to make sure that the needs of people at that point of their life are properly met.

Rydym yn ymgyrchu'n galed yn ein practisau meddygon teulu i gyflwyno'r deunyddiau hyfforddi 'Rheoli Dementia mewn Gofal Sylfaenol'. Fe'u lluniwyd yma yng Nghymru gan feddygon teulu ar gyfer y tîm gofal sylfaenol cyfan. Ni ellir ei wneud mewn awr mewn gwirionedd. Mae gofyn cymryd hanner diwrnod lle y bydd y tîm cyfan, o'r derbynnydd i'r meddyg teulu, i gyd yn dysgu am y rhan y gallant ei chwarae yn adnabod pobl ac yn ymateb yn briodol iddynt. Y tu hwnt i hynny hefyd, pan gyrhaeddwn y pwynt hwnnw ym mywydau pobl lle y mae cyfnod olaf bywyd yn y golwg, sut y gwnawn yn siŵr fod ein gwasanaethau gofal diwedd oes hefyd mewn cytgord priodol ag anghenion pobl â dementia? Mae Hosbis y Cymoedd, lle roeddwn i gydag Alun Davies ychydig fisoedd yn ôl, a Hosbis Dewi Sant yng ngogledd Cymru, yr ymwelais â hi gyda Janet Finch-Saunders yn ôl yn yr hydref, yn ddau safle lle y caiff gwasanaethau newydd eu darparu ar lawr gwlad i wneud yn siŵr fod anghenion pobl ar y pwynt hwnnw yn eu bywydau yn cael eu diwallu'n briodol.

Finally, then, Dirprwy Lywydd, to turn to the new strategy itself, we want to have it in place by the end of this calendar year. We want to make sure that we design it in partnership with people who use our services, as well as people who provide them. We want to take into account a whole new set of possible ideas, including the idea that Gwenda Thomas I know has been advocating recently of a team-around-the-family approach to the needs of people who have dementia. We want to root it in the Glasgow declaration and the lessons we can gain worldwide, and, by drawing on that widest possible range of expertise, to create a plan for dementia here in Wales that will be at the forefront of what is possible in a modern health and social care service such as ours, and rooted in that wider ambition to create a more compassionate and dementia-friendly society. I thank Members for their contributions this afternoon and a chance to set out again our commitment to supporting those who are affected by dementia and to our wider ambition of a more tolerant, supportive and compassionate nation. Thank you very much.

Yn olaf, felly, Ddirprwy Lywydd, i droi at y strategaeth newydd ei hun, rydym am ei chael ar waith erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn ei llunio mewn partneriaeth â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn ogystal â'r bobl sy'n eu darparu. Rydym yn awyddus i ystyried set newydd gyfan o syniadau posibl, gan gynnwys y syniad y mae Gwenda Thomas wedi bod yn dadlau drosto yn ddiweddar sef dull 'tîm o gwmpas y teulu' o ddiwallu anghenion pobl â dementia. Rydym am ei seilio ar ddatganiad Glasgow a'r gwersi y gallwn eu dysgu ledled y byd, a thrwy ddefnyddio'r ystod ehangaf bosibl o arbenigedd, er mwyn creu cynllun ar gyfer dementia yma yng Nghymru a fydd ar y blaen o ran yr hyn sy'n bosibl mewn gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol modern fel ein un ni, ac wedi'i wreiddio yn yr uchelgais ehangach i greu cymdeithas fwy trugarog a dementia-gyfeillgar. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau y prynhawn yma ac am y cyfle i nodi eto ein hymrwymiad i gefnogi'r rhai a effeithiwyd gan ddementia a'n huchelgais ehangach i greu cenedl sy'n fwy goddefgar, cefnogol a thosturiol. Diolch yn fawr iawn.

17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. That concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:46.*

*The meeting ended at 17:46.*